# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| | | |
|---|---|---|
| **RHYBUDD O GYFARFOD** | | **NOTICE OF MEETING** |
| **PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO** | | **PLANNING POLICY COMMITTEE** |
| **DYDD MERCHER,<br>11 MEHEFIN 2025 am 11.00 o'r gloch yb** | | **WEDNESDAY,<br>11 JUNE, 2025 at 11.00 am** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM** | | **COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI AND VIRTUALLY THROUGH ZOOM** |
| **Swyddog Pwyllgor** | **Mrs Mairwen Hughes<br>01248 752518** | **Committee Officer** |

**<u>AELODAU / MEMBERS</u>**
Cynghorwyr / Councillors:-

**<u>Y Grwp Annibynnol/The Independent Group</u>**

Ieuan Williams

**<u>Plaid Lafur / Wales Labour Party</u>**

Pip O'Neill

**<u>Plaid Cymru / The Party of Wales</u>**

John Ifan Jones, Jackie Lewis, Llio Angharad Owen, Nicola Roberts, Ken Taylor, Robin Williams

**<u>Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents</u>**

Jeff Evans, Kenneth P Hughes, Robert Ll Jones

*Nodwch os gwelwch yn dda bod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod.*

**R H A G L E N**

**1 ETHOL CADEIRYDD**

Ethol Cadeirydd y Pwyllgor Polisi Cynllunio.

**2 ETHOL IS-GADEIRYDD**

Ethol Is-gadeirydd y Pwyllgor Polisi Cynllunio.

**3 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**4 COFNODION** (Tudalennau 1 - 4)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 14 Mai, 2025.

**5 ADRODDIADAU CWMPASU ARFARNIAD CYNHALIADWYEDD INTGREDI (ISA) AC ASESIAD RHEOLIADAU CYNEFINOEDD (HRA)** (Tudalennau 5 - 192)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd mewn perthynas a Adroddiadau Cwmpasu Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ISA) ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA).

**6 CYNLLUN DATBLYGU AR Y CYD YNYS MÔN A GWYNEDD - DIWEDDARIAD AR BARATOI'R ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL** (Tudalennau 193 - 194)

Cyflwyno, er gwybodaeth, adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

# PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO:

Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 14 Mai 2025

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Kenneth Hughes, John Ifan Jones, Jackie Lewis, Llio Angharad Owen, Nicola Roberts a Ken Taylor |
| **WRTH LAW:** | Rheolwr Polisi Cynllunio (JIW),<br>Arweinydd Tîm Polisi Cynllunio (LW),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH), |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorwyr Robert Ll Jones, Pip O'Neill a Robin Williams |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Dim |

---

**1 ETHOL IS-GADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Ken Taylor yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Polisi Cynllunio.

**2 YMDDIHEURIADAU**

Fel y nodir uchod.

**3 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o fuddiant.

**4 COFNODION**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2025 yn gywir.

**5 MATERION ALLWEDDOL, GWELEDIGAETH A PHAPUR AMCANION**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio mewn perthynas â'r uchod.

Adroddodd y Rheolwr Polisi Cynllunio mai prif bwrpas yr adroddiad yw nodi'r materion allweddol, heriau a chyfleoedd sy'n wynebu Ynys Môn yn ystod cyfnod y Cynllun; y weledigaeth ar gyfer yr Ynys dros gyfnod y Cynllun Datblygu Lleol newydd a'r amcanion ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol newydd a fydd yn helpu i wireddu'r weledigaeth. Nododd bod Atodiad 1 wedi cael ei rannu ag aelodau'r Pwyllgor Polisi Cynllunio eisoes a'u bod wedi cael cyfle i daro golwg ar y ddogfen. Hyd yma, nid chafwyd unrhyw ymateb i'r ddogfen. Mae'r ddogfen yn nodi 17 mater allweddol sy'n wynebu'r Ynys. Maent yn ymwneud â phob math o fuddiannau. Mae amcanion clir a realistig wedi cael eu llunio i fynd i'r afael â'r materion hyn ac i gyfrannu at weledigaeth newydd y Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r weledigaeth fel a ganlyn:-

'Erbyn 2039, bydd Ynys Môn yn ynys o gymunedau bywiog, dwyieithog ac ymgysylltiol ble mae pobl yn dewis byw, gweithio ac ymweld, ac wedi ymrwymo i gydnerthedd ei heconomi, ei diwylliant, ei threftadaeth, ei hamgylchedd a'i hadnoddau naturiol ac iechyd a lles.'

Dywedodd y Cynghorydd Kenneth P Hughes y dylai Cynllun Datblygu Lleol ganolbwyntio ar yr elfen 'leol', ac y dylai'r Cynllun fynd i'r afael ag anghenion lleol. Holodd p'un a fydd Llywodraeth Cymru'n dylanwadu ar y broses er mwyn cynhyrchu Cynllun na fydd yn diwallu anghenion lleol. Nododd mai Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam oedd y Cyngor Olaf i fabwysiadu eu Cynllun Datblygu Lleol gan eu bod wedi herio Llywodraeth Cymru oherwydd bod y Cyngor o'r farn bod yr asesiad o'r farchnad dai leol yn tanseilio democratiaeth. Ymatebodd y Rheolwr Polisi Cynllunio bod rhaid cydymffurfio â'r Polisi Cynllunio Cenedlaethol. Nododd bod polisïau cynllunio yn ymateb i amgylchiadau lleol ond bod yn rhaid iddynt gydymffurfio â pholisïau rhanbarthol a chenedlaethol.

Dywedodd y Cynghorydd Nicola Roberts bod casglu gwybodaeth ynglŷn ag anghenion lleol yn bwysig i'r Awdurdod a bod y cynllun lleol yn cyfrannu at y cynlluniau Cenedlaethol.

Roedd y Cynghorydd Ken Taylor yn dymuno cael gwybod pe byddai'r broses o greu'r Cynllun Datblygu Lleol yn newid pe byddai llywodraeth newydd yn y Senedd yn dilyn yr etholiadau fis Mai nesaf. Dywedodd y Rheolwr Polisi Cynllunio bod ansicrwydd, ond bod y ddogfen Polisi Cynllunio Cymru wedi cael ei mabwysiadu'r llynedd ac felly mae'n annhebygol y bydd unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud iddi'n syth.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r papur Materion Allweddol, Gweledigaeth ac Amcanion fel sail i baratoi'r Strategaeth a Ffefrir ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol newydd Ynys Môn.**

## 6 DIWEDDARIAD AR Y BROSES GALW AM SAFLEOEDD - ER GWYBODAETH YN UNIG

Cyflwynwyd - adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd, er gwybodaeth yn unig.

Adroddodd yr Arweinydd Tîm Polisi Cynllunio bod yr adroddiad yn canolbwyntio ar gadarnhau lansiad y broses i alw am safleoedd, amlinellu cwmpas y cyfnod amser perthnasol a'r camau nesaf wedi i'r cyfnod o alw am safleoedd ddod i ben. Nododd bod y cyfnod galw am safleoedd yn para chwe wythnos ac y bydd yn cychwyn ar y 12fed o Fai hyd at y 23ain o Fehefin, 2025. Bydd yn gwahodd tirfeddianwyr i gynnig safleoedd i'w cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer eu datblygu yn y dyfodol neu i'w diogelu rhag eu datblygu fel yr angen. Bydd y safleoedd sy'n cael eu cynnig yn cael eu hasesu yn erbyn meini prawf penodol er mwyn gweld a ydynt yn addas i'w cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol newydd. Bydd Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol yn cael ei chadw a bydd y gofrestr yn cynnwys pob safle hyd yn oed y rhai na fydd yn cael eu hystyried yn safleoedd datblygu posib i'w cynnwys yn y Cynllun. Bydd rhaid profi dichonoldeb a chyflawnadwyedd pob safle posib. O'r herwydd, bydd rhaid i gynigwyr ddarparu asesiadau dichonoldeb pan fydd safleoedd yn cael eu hystyried ar gyfer eu cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol. Bydd y safleoedd a gynigir yn dilyn proses hidlo dau-gam mewn ymgynghoriad â'r Awdurdod Lleol a chyrff penodol megis Cyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru a'r Bwrdd Iechyd yn ystod cam 2. Bydd hyn yn sicrhau bod ymgyngoreion yn gwneud sylwadau ar safleoedd sydd â'r photensial i gael eu cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol. Yn ystod y broses strategaeth a ffefrir a'r broses adneuo bydd cyfle i'r holl randdeiliaid gael dweud eu dweud ar y safleoedd arfaethedig a gwneud cais i ddiwygio ffiniau neu gynnig dileu neu ychwanegu safleoedd newydd.

Roedd yr Aelodau'n dymuno diolch i staff yr Uned Polisi Cynllunio am eu gwaith ac annog pobl i gyflwyno safleoedd datblygu o fewn yr amserlen.

Roedd y Cynghorydd Ken Taylor yn dymuno cael gwybod p'un a oes ffigwr penodol ar gyfer y safleoedd ymgeisiol a p'un a fydd y broses ymgynghori'n cael ei hymestyn.

Ymatebodd y Rheolwr Polisi Cynllunio nad oes ffigwr penodol ar gyfer safleoedd datblygu posib, ond rhagwelir y bydd nifer ddigonol o safleoedd yn cael eu cynnig ar Ynys Môn.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad er gwybodaeth.**

Daeth y cyfarfod i ben am 2.25 pm

**CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

| **Cyngor Sir Ynys Môn** | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Polisi Cynllunio |
| Dyddiad: | 11eg Mehefin 2025 |
| Pwnc: | CDLl Ynys Môn – Adroddiadau Cwmpasu Arfarniad Integredig o Gynaliadwyedd (ISA) ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) |
| Aelod(au) Portffolio: | Cyng. Nicola Roberts (Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd Cyhoedd a Newid Hinsawdd) |
| Pannaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Christian Branch<br>Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economiadd |
| Awdur:<br>Ffôn:<br>E-bost: | John I. Williams (Rheolwr Polisi Cynllunio)<br><br>JohnWilliams2@ynysmon.llyw.cymru |
| Aelodau Lleol: | Perthnasol i bob Aelod Etholedig |

**1.0 Pwrpas yr adroddiad**

1.1 Pwarpas yr adroddiad yw:

- Cynghori'r aelodau o'r gofynion statudol o safbwynt ISA ac HRA sy'n berthnasol i baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) o safbwynt asesu'r effeithiau o ddewisiadau gofodol a pholisi;
- Amlinellu'r prosesau ymgynhori statudol ar gyfer ISA ac HRA.

**2.0 Y penderfyniad a geisir**

2.1 Ceisir y penderfyniadau canlynol:

- Ystyried a derbyn yr Adroddiadau Cwmpasu ar gyfer yr ISA a'r HRA; ac
- Cydnabod y trefniadau ymgynghori statudol a chytuno i ymgynghori ar y ddwy ddogfen dros gyfnod o 5 wythnos sy'n cydfynd a'r gofynion hynny a chyngor arfer gorau.

**3.0 Rheswm dros y penderfyniad**

3.1 Mae'r Adroddiadau Cwmpasu yn cynnig sylfaen ar gyfer asesu'r effeithiau potensial o ddewisiadau polisi caiff eu cynnwys yn y CDLl newydd. Oherwydd eu cynnwys technegol ac arbenigol mae ymgynghori gyda ymgynghorai Bydd ymgynhori gyda ymgynghorai statudol (Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a Cadw) yn hanfodol er mwyn sicrhau y gwneith sgop yr asesiadau gyfarch yr effeithiau potensial o ddewisiadau polisi. Serch hyn, mae arfer gorau yn cynghori

ymgynghori gyda ymgynhorai cyffredinol a’r cyhoedd yn ehangach er mwyn sicrhau cyfranogiad y gymuned a rhanddeiliaid ar bob cam o’r broses o baratoi’r cynllun.

## 4.0 Cefndir ac ystyriaethau perthnasol

### *Arfarniad Integredig o Gynalidwyedd (ISA)*

4.1 Mae’r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn cadarnhau’r angen dros ddatblygiad gynaliadwy i fod wrth wraidd y broses cynllun datblygu. O’r herwydd, mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd (SA) a'r Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) yn ofynion statudol. Mae’r gofynion yma’n cael eu gosod yn a39 (2) PCPA 2004 a Rheoliadau AAS 5(2) a 5(4) a rheoliad 5(2) a 5(4) o’r Rheoliadau SSA.

4.2 Tra bod sgop yr AAS yn cael ei gyfyngu i effeithiau amgylcheddol cynlluniau datblygu, mae gan yr SA gyfrifoldeb ehangach i gyfarch effeithiau cymdeithasol, economiadd a llesiant yn ogystal ac effeithiau amgylcheddol. Serch hyn, mae’r Llawlyfr yn cynghori dylai awdurdodau cynllunio lleol (ACLl) ystyried y gwerth a chyfleuon o ddilyn llwybr asesiad integredig o baratoi cynllun datblygu. Mae’n cynghori byddai ISA yn galluogi asesiad mwy tryloyw, cyfannol a chynhwysfawr o oblygiadau opsiynau twf, amcanion, polisïau a chynigion. Trwy wneud hyn gellir integreiddio elfennau allweddol a statudol fel gofynion y Ddeddf Llesiant 2015, Deddf Cydraddoldeb, y Gymraeg, Asesiad o’r Effaith ar Iechyd (HIA) a Deddf yr Amgylchedd (adran 6 dyletswydd bioamrywiaeth) (ble’n berthnasol) i un asesiad.

4.3 Mae’r Llawlyfr yn parhau gall ISA “sicrhau'r effeithlonrwydd mwyaf posibl, osgoi dyblygu, a darparu trywydd archwilio clir i gymunedau a defnyddwyr cynllun ynghylch sut cafodd y materion amrywiol eu hystyried, a sut maent wedi dylanwadu ar y cynllun. Mae dull ISA yn cynnig mecanwaith cadarn a thrylwyr i nodi problemau, asesu effeithiau a chynorthwyo gyda monitro mewn modd cyfannol.”

4.4 Mae’r Adroddiad Sgopio, baratowyd gan Land Use Consultants (LUC), yn gosod y cyd-destun a’r sgop ar gyfer yr ISA a’r CDLl yn ogystal a gosod y fframwaith i ymgymryd a’r camau diweddaraf o’r ISA.

4.5 I grynhoi, mae’r cam cwmpasu yn golygu adolygu cynlluniau perthnasol eraill, polisiau a rhaglenni; ystyried cyflwr presennol yr amgylchedd yn ogystal a’r amodau cymdeithasol ac economiadd ym Môn; adnabod unrhyw faterion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd all gael eu heffeithio gan y CDLl; a gosod y “fframwaith ISA”, sy’n cynnwys set o amcanion cynaliadwyedd gall yr effeithiau potensial o’r CDLl eu hasesu. Mae’r Adroddiad Cwmpasu hefyd yn cyflwyno’r fethodoleg arfaethedig fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer camau hwyrach o’r ISA gan gynnwys asesu’r Safleoedd Ymgeisio.

4.6 Mae’r Llawlyfr yn cynghori ymgynghori ar yr Adroddiad Cwmpasu gyda asiantaethau statudol (CNC a Cadw) dros gyfnod o 5 wythnos gan ychwanegu y byddai’n “arfer gorau sicrhau bod yr adroddiad cwmpasu ar gael i'r cyhoedd.”

O ystyried y cyngor arfer gorau a'r ymroddiad a wneir yn y Cytundeb Cyflawni i gyhoeddi'r Adroddiad Cwmpasu ar gyfer ymgygnhoriad cyhoeddus, cynigir dylid ymgynghori ar y ddogfen gyda'r ymgynghorai/rhanddeiliaid canlynol:

- Cyrff ymgynghori penodol;
- Cyrff ymgynghori cyffredinol;
- Gwasanaethau'r Cyngor;
- Ymgynghorai Amgylcheddol; ac
- Y cyhoedd

***Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA)***

4.7 Cadarnhawyd y gofyniad i ymgymryd a HRA o gynlluniau datblygu drwy diwygiadau i'r Rheoliadau Cynefinoedd 2007; y ferswin gyfredol yw'r Rheoliadau Cynefinoedd 2017, fel a'u diwygwyd.

4.8 Ni ddylid integreiddio'r HRA gyda'r SA, neu yn yr achos yma yr ISA, gan ei bod yn defnyddio mecanwaith profi rhagofalu gwahanol. Serch hyn, dylai'r ISA grynhoi canfyddiadau'r HRA fel rhan o asesiad o'r effeithiau ar fioamrywiaeth.

4.9 O safbwynt ymgynghori ar Adroddiad Cwmpasu'r HRA, dylai hyn fod hefo CNC fel corff ymgynghorol statudol Llywodraeth Cymru ar natur a dylid y cyfnod ymgynghori adlewyrchu'r trefniadau ar gyfer ymgynghori ar Adroddiad Campasu'r ISA, hynny yw, dros gyfnod o 5 wythnos.

## 5.0 Argymhelliad

5.1 Argymhellir bod y Pwyllgor yn ystyried ac yn derbyn yr Adroddiadaqu Cwmpasu a chytuno i ymgynghori ar y ddwy ddogfen dros y cyfnod lleiaf awgrymir yn yr adroddiad (5 wythnos) ac yn gyson a'r gofynion statudol ar gyfer ymgynghorai arbennig a'r arfer gorau mewn perthynas ac ymgynghorai cyffredinol, rhanddeilaid eraill a'r cyhoedd.

DRAFT

This page is intentionally left blank

Cyngor Sir Ynys Môn

# Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Newydd

## Adroddiad Cwmpasu

**Adroddiad terfynol**
Paratowyd gan LUC
Mai 2025

**Cyngor Sir Ynys Môn**

# Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Newydd

## Adroddiad Cwmpasu

| Fersiwn | Statws | Paratowyd | Gwiriwyd | Cymeradwywyd | Dyddiad |
|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Adroddiad Cwmpasu ISA Drafft | R Finnigan<br>L Haddad<br>S Temple | K Nicholls | K Nicholls | 21.03.2025 |
| 2. | Adroddiad Cwmpasu ISA Terfynol | R Finnigan<br>L Haddad<br>S Temple | K Nicholls | K Nicholls | 08.05.2025 |


Bristol
Cardiff
Edinburgh
Glasgow
London
Manchester
Sheffield

landuse.co.uk

Land Use Consultants Ltd
Cofrestrwyd yn Lloegr
Rhif cofrestru 2549296
Swyddfa gofrestredig:
250 Waterloo Road
London SE1 8RD

Papur wedi'i ailgylchu 100%

Dylunio Tirwedd
Cynllunio ac Asesu Strategol
Cynllunio Datblygiadau
Dylunio Trefol ac Uwchgynllunio
Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol
Cynllunio ac Asesu Tirwedd
Rheoli Tirwedd
Ecoleg
Yr Amgylchedd Hanesyddol
GIS a Delweddu
Trafnidiaeth a Chynllunio Symudiadau
Coedyddiaeth

ISO 9001 Quality Management Systems CERTIFIED FS566056
ISO 14001 Environmental Management CERTIFIED EMS566057
ISO 45001 Occupational Health and Safety Management CERTIFIED OHS627041
IEMA Transforming the world to sustainability - EIA -
Landscape Institute Registered Practice

# Cynnwys

**Pennod 1**
**Cyflwyniad** 1

Ardal y Cynllun 1
Y Cynllun Datblygu Lleol newydd 2
Asesiad Cynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol 2
Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd 4
Strwythur yr Adroddiad Cwmpasu hwn 4

**Pennod 2**
**Sgrinio** 7

AC/AAS 7
Asesiad o’r Effaith ar Iechyd 7
Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb 8
Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) (WBFGA) 2015 9
Asesiad o effaith ar yr iaith Gymraeg 10
Deddf Yr Amgylchedd (Cymru) 11

**Pennod 3**
**Cynlluniau a Rhaglenni Perthnasol** 12

**Pennod 4**
**Gwybodaeth Sylfaenol** 21

Gwybodaeth Sylfaenol Amgylcheddol 22
Gwybodaeth Sylfaenol Gymdeithasol 34
Gwybodaeth Sylfaenol Economaidd 39
Anawsterau a gafwyd 41

**Pennod 5**
**Materion Cynaliadwyedd Allweddol ac Esblygiad tebygol heb y Cynllun** 43

**Pennod 6**
**Methodoleg a Fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd Integredig** 46

Fframwaith ISA 46
Methodoleg ISA 54
Methodoleg Asesu Safleoedd Ymgeisiol 54

**Pennod 7**
**Y camau nesaf** 64

**Atodiad A**
**Adolygiad o Gynlluniau, Polisïau a Rhaglenni** 1

# Pennod 1
## Cyflwyniad

**1.1** Ym mis Chwefror 2025, comisiynodd Cyngor Sir Ynys Môn LUC i gynnal Arfarniad Cynaliadwyedd (AC) a oedd yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) o'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) newydd. Fel yr argymhellir yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu[1], bydd y AC/AAS hefyd yn ymgorffori asesiadau eraill fel Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA), Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA) ac asesiad o'r effaith ar y Gymraeg, yn ogystal â mynd i'r afael â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Adran 6). Felly, cyfeirir at y broses fel Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ISA).

**1.2** Pwrpas yr Adroddiad Cwmpasu hwn yw darparu'r cyd-destun ar gyfer ISA y CDLl, a phennu ei gwmpas, a nodi'r fframwaith ar gyfer ymgymryd â chamau diweddarach yr ISA.

**1.3** I grynhoi, mae'r cam Cwmpasu yn cynnwys adolygu cynlluniau, polisïau a rhaglenni perthnasol eraill; ystyried cyflwr presennol yr amgylchedd yn ogystal ag amodau cymdeithasol ac economaidd ar Ynys Môn; nodi unrhyw faterion neu broblemau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd allweddol y gallai'r CDLl effeithio arnynt; a nodi 'fframwaith ISA', sy'n cynnwys set o amcanion cynaliadwyedd y gellir asesu effeithiau tebygol y CDLl yn eu herbyn. Mae'r Adroddiad Cwmpasu hwn hefyd yn cyflwyno'r fethodoleg arfaethedig a fydd yn cael ei defnyddio ar gyfer camau diweddarach yr ISA, gan gynnwys asesu Safleoedd Ymgeisiol.

### Ardal y Cynllun

**1.4** Mae Sir Ynys Môn yn cwmpasu Ynys Môn, gan gynnwys Ynys Gybi, ac mae wedi'i lleoli yng ngogledd orllewin Cymru (gweler **Ffigur 1.3**). Dyma'r ynys fwyaf yng Nghymru a Lloegr, yn 275 milltir sgwâr ac mae ganddi boblogaeth o 68,900. Dyma'r chweched ardal awdurdod lleol leiaf poblog o bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Caergybi yw'r anheddiad mwyaf, yna Llangefni ac Amlwch.

**1.5** Mae Ynys Môn wedi'i hamgylchynu gan ynysoedd llai, ac mae rhannau helaeth o'r morlin wedi cael eu dynodi'n Dirwedd Genedlaethol Arfordir Ynys Môn (a elwid gynt yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol neu AHNE). Mae rhannau o'r arfordir hefyd wedi cael eu dynodi'n Arfordir Treftadaeth. Mae Ynys Môn yn ffinio â siroedd Conwy a

[1] Llywodraeth Cymru (Mawrth 2020) Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3).

Gwynedd, ac mae'r ddwy sir yn cynnwys rhannau o Barc Cenedlaethol Eryri.

**1.6** Mae'r prif lwybrau strategol ar Ynys Môn yn cynnwys yr A55, sy'n rhedeg drwy'r sir i Gaergybi, yn ogystal â rheilffordd arfordirol Gogledd Cymru sy'n cysylltu Ynys Môn â gogledd Cymru yn ehangach a thu hwnt. Mae gorsaf reilffordd Caergybi, terfyn gorllewinol Prif Reilffordd Gogledd Cymru, yn darparu gwasanaethau trên uniongyrchol i Lundain Euston. Mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu gweithredu'n bennaf gan Avanti West Coast, gyda phum trên uniongyrchol yn rhedeg bob dydd. Mae porthladd Caergybi yn darparu gwasanaeth fferi i Iwerddon a dyma'r brif gyswllt ffordd a rheilffordd rhwng Iwerddon a Gogledd Cymru, canolbarth Lloegr a Gogledd Lloegr.

## Y Cynllun Datblygu Lleol newydd

**1.7** Mabwysiadodd Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd y CDLl ar y Cyd presennol ym mis Gorffennaf 2017, a oedd yn nodi'r strategaeth gynllunio ar gyfer yr ardal (ac eithrio'r rhannau o Wynedd sydd ym Mharc Cenedlaethol Eryri) dros y 15 mlynedd hyd at 2026.

**1.8** I ddechrau roedd y ddau Gyngor yn bwriadu paratoi CDLl ar y Cyd newydd; fodd bynnag ym mis Mawrth 2023 penderfynwyd rhoi'r gorau i'r cytundeb cydweithio ar faterion polisi cynllunio ac mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi dechrau gweithio ar baratoi ei CDLl newydd ei hun.

**1.9** Mae'r Cyngor bellach yng nghamau cynnar paratoi'r CDLl newydd, yn dilyn ymgynghoriad ar Gytundeb Cyflawni Drafft yn ystod Haf 2024.

**1.10** Disgwylir i'r CDLl newydd gynnwys gweledigaeth ac amcanion ar gyfer ardal y cynllun, strategaeth gyffredinol ar gyfer datblygu ar Ynys Môn, dyraniadau safle ar gyfer gwahanol fathau o ddatblygiadau gan gynnwys tai a chyflogaeth, a pholisïau ar ffurf rheoli datblygiadau ar gyfer rheoli ceisiadau a ddaw gerbron.

## Asesiad Cynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol

**1.11** O dan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Adran 62(6)), mae AC yn orfodol ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol. Mae hefyd angen cynnal asesiad amgylcheddol yn unol â gofynion y Gyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol (Cyfarwyddeb Ewropeaidd 2001/42/EC), sydd wedi'i throsi i gyfraith Cymru drwy Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004. Felly, mae'n ofyniad cyfreithiol i CDLl newydd Ynys Môn fod yn destun AC a AAS drwy gydol y paratoi.

**1.12** Mae'r gofynion i gyflawni AC ac AAS yn wahanol, er ei bod yn bosibl bodloni'r ddau drwy ddefnyddio un broses arfarnu (fel yr argymhellir yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu) lle gall defnyddwyr gydymffurfio â gofynion y Gyfarwyddeb AAS drwy un broses AAS integredig – dyma'r broses sy'n cael ei chynnal ar Ynys Môn. O hyn ymlaen, dylid cymryd bod y term 'AC' (neu ISA, gan fod proses integredig yn cael ei chynnal yn yr achos hwn) yn golygu 'AC sy'n ymgorffori gofynion Rheoliadau AAS'.

**1.13** Mae proses AC yn cynnwys nifer o gamau, gyda'r Cwmpasu yn Gam A fel y dangosir yn **Ffigur 1.1** isod.

**Ffigur 1.1: Prif gamau'r Arfarniad Cynaliadwyedd**

**Cam A:** Gosod y cyd-destun a'r amcanion, sefydlu'r llinell sylfaen a phenderfynu ar y cwmpas.

**Cam B:** Datblygu a mireinio opsiynau ac asesu effeithiau.

**Cam C:** Paratoi Adroddiad AC.

**Cam D:** Ymgynghori ar y Cynllun ac adroddiad AC

**Cam E:** Monitro effeithiau sylweddol gweithredu'r Cynllun.

**1.14** Mae **Ffigur 1.2** isod yn nodi'r tasgau sy'n gysylltiedig â'r cam Cwmpasu.

**Ffigur 1.2: Camau cwmpasu AC (Cam A)**

**A1**: Nodi polisïau, cynlluniau a rhaglenni perthnasol eraill, ac amcanion cynaliadwyedd.

**A2**: Casglu gwybodaeth llinell sylfaen.

**A3**: Nodi materion a phroblemau cynaliadwyedd.

**A4**: Datblygu fframwaith AC.

**A5**: Ymgynghori ar gwmpas yr AC.

### Bodloni gofynion Rheoliadau AAS

**1.15** Cafodd y Gyfarwyddeb AAS ei throsi i gyfraith Cymru drwy Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 (y cyfeirir atynt yn gyffredin fel 'Rheoliadau AAS'). Mae Rheoliadau AAS yn parhau mewn grym ar ôl Brexit ac mae'n ofyniad cyfreithiol i CDLl Ynys Môn fod yn destun AC ac AAS drwy gydol y broses o'i baratoi.

**1.16** Mae'r Adroddiad Cwmpasu hwn yn cynnwys rhai o elfennau gofynnol yr 'Adroddiad Amgylcheddol' terfynol (yr allbwn sy'n ofynnol o dan Reoliadau AAS). Mae **Tabl 1.1** isod yn cyfeirio at adrannau perthnasol yr Adroddiad Cwmpasu hwn yr ystyrir eu bod yn bodloni gofynion

Rheoliadau AAS (bydd y gweddill yn cael eu bodloni yn ystod camau dilynol ISA y CDLl, fel y nodir yn y tabl). Bydd y tabl hwn yn cael ei gynnwys yn yr Adroddiad ISA ym mhob cam o'r broses o lunio cynlluniau i ddangos sut mae gofynion Rheoliadau AAS wedi cael eu bodloni drwy broses ISA.

**Tabl 1.1: Gofynion Rheoliadau AAS (Cymru) a lle mae'r rhain wedi cael eu bodloni**

| Gofynion Rheoliadau AAS (Cymru) | | Lle yr ymdrinnir â hyn yn yr adroddiad hwn |
|---|---|---|
| **Paratoi adroddiad amgylcheddol lle mae'r effeithiau sylweddol tebygol ar yr amgylchedd o ganlyniad i weithredu'r cynllun neu'r rhaglen, a dewisiadau amgen rhesymol gan ystyried amcanion a chwmpas daearyddol y cynllun neu'r rhaglen, yn cael eu nodi, eu disgrifio a'u gwerthuso (Rheoliad 12). Y wybodaeth sydd i'w rhoi yw (Atodlen 2):** | | |
| a) | Amlinelliad o gynnwys a phrif amcanion y cynllun neu'r rhaglen, ac o'i berthynas (os o gwbl) â chynlluniau a rhaglenni perthnasol eraill. | Penodau 1 a 3 ac Atodiad A |
| b) | Yr agweddau perthnasol ar gyflwr presennol yr amgylchedd a'i esblygiad tebygol heb weithredu'r cynllun neu'r rhaglen. | Penodau 4 a 5 |
| c) | Nodweddion amgylcheddol ardaloedd sy'n debygol o gael eu heffeithio'n sylweddol. | Pennod 4 |
| d) | Unrhyw broblemau amgylcheddol presennol sy'n berthnasol i'r cynllun neu'r rhaglen gan gynnwys, yn benodol, y rhai sy'n ymwneud ag unrhyw ardaloedd o bwysigrwydd amgylcheddol penodol, megis ardaloedd a ddynodwyd yn unol â Chyfarwyddeb y Cyngor 79/409/EEC ar gadwraeth adar gwyllt a'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd. | Pennod 5 |
| e) | Yr amcanion diogelu'r amgylchedd, a sefydlwyd ar lefel ryngwladol, Gymunedol neu Aelod-wladwriaeth, sy'n berthnasol i'r cynllun neu'r rhaglen a'r ffordd y mae'r amcanion hynny ac unrhyw ystyriaethau amgylcheddol wedi cael eu hystyried yn ystod y broses baratoi. | Pennod 3 ac Atodiad A |
| f) | Yr effeithiau sylweddol tebygol ar yr amgylchedd, gan gynnwys effeithiau tymor byr, tymor canolig a thymor hir, effeithiau parhaol a thros dro, effeithiau cadarnhaol a negyddol, ac effeithiau eilaidd, cronnol a synergaidd, ar faterion gan gynnwys - bioamrywiaeth, poblogaeth, iechyd dynol, ffawna, fflora, pridd, dŵr, aer, ffactorau hinsoddol, asedau perthnasol, treftadaeth ddiwylliannol gan gynnwys treftadaeth bensaernïol ac archeolegol, tirwedd a'r gydberthynas rhwng y ffactorau uchod. | Bydd y gofyniad yn cael ei fodloni'n ddiweddarach yn y broses ISA. |
| g) | Y mesurau a ragwelir i atal, lleihau a gwrthbwyso mor llawn â phosibl am unrhyw effeithiau niweidiol sylweddol ar yr amgylchedd yn sgil rhoi'r cynllun neu'r rhaglen ar waith. | Bydd y gofyniad yn cael ei fodloni'n ddiweddarach yn y broses ISA. |
| h) | Amlinelliad o'r rhesymau dros ddewis y dewisiadau amgen yr ymdriniwyd â hwy, a disgrifiad o sut y cynhaliwyd yr asesiad gan gynnwys unrhyw anawsterau a gafwyd wrth gasglu'r wybodaeth ofynnol. | Bydd y gofyniad yn cael ei fodloni'n ddiweddarach yn y broses ISA. |
| i) | disgrifiad o fesurau a ragwelir ynghylch monitro yn unol â Rheoliad 17. | Bydd y gofyniad yn cael ei fodloni'n ddiweddarach yn y broses ISA. |
| j) | crynodeb annhechnegol o'r wybodaeth a ddarparwyd o dan y penawdau uchod. | Bydd y gofyniad yn cael ei fodloni'n ddiweddarach yn y broses ISA. |
| Rhaid i'r adroddiad gynnwys cymaint o'r wybodaeth y cyfeirir ati yn Atodlen 2 y gall fod ei hangen yn rhesymol, gan ystyried - gwybodaeth a dulliau asesu cyfredol, cynnwys a lefel y manylion yn y cynllun neu'r rhaglen, statws y cynllun neu'r rhaglen yn y broses o wneud penderfyniadau, ac i ba raddau y mae materion penodol yn cael eu hasesu'n fwy priodol ar wahanol lefelau yn y broses honno er mwyn osgoi dyblygu'r asesiad (Rheoliad 12(3)). | | Bydd yr Adroddiad Cwmpasu hwn a'r Adroddiadau Amgylcheddol yn glynu wrth y gofyniad hwn. |
| **Gofynion ymgynghori** | | |

| Gofynion Rheoliadau AAS (Cymru) | Lle yr ymdrinnir â hyn yn yr adroddiad hwn |
|---|---|
| • Wrth benderfynu ar gwmpas a lefel manylion yr wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys yn yr adroddiad, rhaid i'r awdurdod cyfrifol ymgynghori â'r cyrff ymgynghori (Rheoliad 12(5)). | Bydd ymgynghoriad â'r cyrff statudol ar Adroddiad Cwmpasu'r ISA yn cael ei gynnal am o leiaf bum wythnos o Wanwyn 2025 ymlaen. |
| • Rhaid i awdurdodau sydd â chyfrifoldeb amgylcheddol a'r cyhoedd gael cyfle cynnar ac effeithiol o fewn amserlenni priodol i fynegi eu barn ar y cynllun neu'r rhaglen ddrafft a'r adroddiad amgylcheddol cysylltiedig cyn mabwysiadu'r cynllun neu'r rhaglen (Rheoliad 13). | Bydd y gofyniad yn cael ei fodloni'n ddiweddarach yn y broses ISA. |
| • Aelod-wladwriaethau eraill yr UE, lle mae gweithredu'r cynllun neu'r rhaglen yn debygol o gael effeithiau sylweddol ar amgylchedd y wlad honno (Rheoliad 14). | AMH |
| **Ystyried yr adroddiad amgylcheddol a chanlyniadau'r ymgynghoriadau wrth wneud penderfyniadau (Rheoliad 16)** | |
| **Darparu gwybodaeth am y penderfyniad:** Pan fabwysiedir y cynllun neu'r rhaglen, rhaid hysbysu'r cyhoedd ac unrhyw wledydd yr ymgynghorir â hwy dan Reoliad 14 a rhaid sicrhau bod y canlynol ar gael i'r rhai a hysbysir am hynny:<br>• y cynllun neu'r rhaglen fel y'u mabwysiadwyd;<br>• datganiad sy'n crynhoi sut mae ystyriaethau amgylcheddol wedi'u hintegreiddio i'r cynllun neu'r rhaglen a sut mae'r adroddiad amgylcheddol, y safbwyntiau a fynegwyd a chanlyniadau'r ymgynghoriadau yr ymgymerwyd â hwy wedi'u hystyried, a'r rhesymau dros ddewis y cynllun neu'r rhaglen fel y'i mabwysiadwyd, yng ngoleuni'r dewisiadau amgen rhesymol eraill yr ymdriniwyd â hwy; a'r<br>• mesurau y penderfynwyd arnynt ynghylch monitro. | Bydd y gofyniad yn cael ei fodloni'n ddiweddarach yn y broses ISA. |
| **Monitro** effeithiau amgylcheddol sylweddol gweithredu'r cynllun neu'r rhaglen (Rheoliad 17). | Bydd y gofyniad yn cael ei fodloni'n ddiweddarach yn y broses ISA. |
| **Sicrhau ansawdd**: dylai adroddiadau amgylcheddol fod o safon ddigonol i fodloni gofynion Cyfarwyddeb AAS. | Bydd yr Adroddiad Cwmpasu hwn a'r Adroddiadau Amgylcheddol yn glynu wrth y gofyniad hwn. |

## Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

**1.17** O dan Erthygl 6 (3) a (4) Cyfarwyddeb 92/43/EEC ar Warchod Cynefinoedd Naturiol a Phlanhigion ac Anifeiliaid Gwyllt (y Gyfarwyddeb Cynefinoedd), mae cynlluniau defnydd tir, gan gynnwys Cynlluniau Datblygu Lleol, hefyd yn destun Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA). Cadarnhawyd y gofyniad i gynnal HRA ar gyfer cynlluniau datblygu gan y diwygiadau i'r Rheoliadau Cynefinoedd a gyhoeddwyd ar gyfer Cymru a Lloegr yn 2007[2]. Y fersiwn sy'n berthnasol ar hyn o bryd yw Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017[3] (fel y'u diwygiwyd). Pwrpas HRA yw asesu effeithiau'r cynllun yn erbyn amcanion cadwraeth safle Ewropeaidd a chanfod a fyddai'n cael effaith niweidiol ar uniondeb y safle hwnnw.

**1.18** Bydd y HRA ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Ynys Môn yn cael ei gynnal a'i adrodd arno ar wahân i'r ISA, fel sy'n cael ei argymell yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu. Fodd bynnag, bydd y canfyddiadau'n cael eu hystyried yn yr ISA lle bo hynny'n berthnasol (er enghraifft i hysbysu barn am effeithiau tebygol y CDLl ar fioamrywiaeth).

## Strwythur yr Adroddiad Cwmpasu hwn

**1.19** Mae'r bennod hon wedi disgrifio cefndir paratoi CDLl newydd Ynys Môn a'r gofyniad i ymgymryd ag ISA. Dyma strwythur gweddill yr adroddiad hwn:

- Mae **Pennod 2** yn disgrifio sut mae'r CDLl wedi cael ei sgrinio yn erbyn y gofynion ar gyfer AAS a phrosesau asesu eraill.
- Mae **Pennod 3** yn disgrifio'r berthynas rhwng y CDLl a chynlluniau, polisïau a rhaglenni eraill sy'n berthnasol i

[2] Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol, ac ati) (Diwygiad) 2007 (2007) SI Rhif. 2007/1843. TSO (Y Llyfrfa), Llundain.

[3] Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (2017) SI Rhif 2017/1012, Y Llyfrfa, Llundain.


ISA y CDLl ac yn crynhoi eu hamcanion allweddol (ceir rhagor o fanylion yn **Atodiad A**).

- Mae **Pennod 4** yn cyflwyno'r wybodaeth sylfaenol am Ynys Môn a fydd yn sail i'r ISA.
- Mae **Pennod 5** yn nodi'r prif faterion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ar Ynys Môn ac yn ystyried eu hesblygiad tebygol heb y Cynllun Datblygu Lleol.
- Mae **Pennod 6** yn cyflwyno'r fframwaith ISA a fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y CDLl ac yn disgrifio'r fethodoleg arfaethedig ar gyfer cyflawni'r ISA, gan gynnwys asesu Safleoedd Ymgeisiol.
- Mae **Pennod 7** yn disgrifio'r camau nesaf i'w cymryd yn ISA y CDLl.

Integrated Sustainability Appraisal for the New Local Development Plan
Isle of Anglesey County Council

**Figure 1.3: Plan Area**

- Isle of Anglesey boundary
- Neighbouring local authority




Contains OS data © Crown Copyright and database right 2025
Contains data from OS Zoomstack

13309_ISA_Scoping_Mar2025/13309_Fig1.3_PlanArea_r0_A3L 20/03/2025 EB:deopante_m

# Pennod 2
## Sgrinio

**2.1** Fel sy'n cael ei argymell yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu4, mae Cyngor Sir Ynys Môn yn mabwysiadu dull integredig o ymdrin â'r ACAAS a phrosesau asesu eraill ar gyfer y CDLl newydd. Mae'r bennod hon yn nodi'r ymarfer sgrinio a gynhaliwyd mewn perthynas â'r asesiadau eraill hyn. Ar gyfer pob un, ystyrir:

- Y gofynion deddfwriaethol.
- Dogfennau canllaw perthnasol.
- A fydd yr asesiad yn cael ei gynnal a sut, gan gynnwys a fydd yn cael ei integreiddio yn yr AC/AAS neu'n cael ei gynnal ar wahân.

**2.2** Os deuir i'r casgliad y bydd gofynion asesiadau eraill yn cael sylw drwy fframwaith yr ISA, mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael ym Mhennod 6 sy'n cyflwyno'r fframwaith.

### AC/AAS

**2.3** Fel y disgrifir ym **Mhennod 2**, mae'n ofyniad cyfreithiol i'r CDLl fod yn destun AC ac AAS; felly nid oes gofyniad i gynnal Sgrinio AAS. Yr AC/AAS integredig fydd prif elfen y broses ISA ehangach ac fe'i cyflawnir i fodloni gofynion Rheoliadau AAS (Cymru) fel y nodir yn **Nhabl 1.1**.

### Asesiad o'r Effaith ar Iechyd

**2.4** Fel y nodir yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 yn mynnu bod cyrff cyhoeddus yn cynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd. Bydd yr amgylchiadau lle mae'n rhaid cynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd a sut dylid gwneud hyn yn cael eu nodi'n fanwl mewn rheoliadau statudol, yn unol â chyfarwyddyd y Prif Weinidog[5]. Rhwng mis Rhagfyr 2023 a mis Mawrth 2024, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar y rheoliadau drafft hyn[6] ac yn ôl ei gwefan, bydd manylion y canlyniad yn cael eu cyhoeddi maes o law. Ar ôl cyhoeddi'r rheoliadau newydd, byddant yn cael eu hadolygu a bydd eu goblygiadau i CDLl newydd Ynys Môn yn cael eu hystyried.

**2.5** Diffinnir Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn Nedd Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 fel

[4]Llywodraeth Cymru (2020) Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3).
[5]Uned Gymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru (2021) Asesiad o'r Effaith ar Iechyd a Chynlluniau Datblygu Lleol (CDLl): Pecyn ar gyfer Ymarfer.
[6]Llywodraeth Cymru (2023) Rheoliadau asesu'r effaith ar iechyd

*"...asesiad o effaith debygol, yn y tymor byr ac yn y tymor hir, gweithred neu benderfyniad arfaethedig ar iechyd corfforol a meddwl pobl Cymru neu rai o bobl Cymru."*

**2.6** Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau iechyd da drwy gynllunio.[7] Mae PCC yn tynnu sylw at y cyfraniad pwysig y gall HIA ei wneud at lunio cynlluniau. Mae hefyd yn datgan y gall fod angen gwybodaeth i asesu effeithiau posibl ar iechyd drwy wahanol fecanweithiau, gan gynnwys AC, a lle bo hynny'n berthnasol, dylid ymgorffori effeithiau ar iechyd yn yr asesiadau hyn. Mae PCC yn nodi dull integredig a rennir o gasglu tystiolaeth ac asesiadau er mwyn cynnig y ffyrdd mwyaf effeithiol a chydweithredol o weithio yn gyffredinol. Er bod modd cynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd fel asesiad annibynnol ar wahân, mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn nodi y gellir integreiddio'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd i'r Arfarniad Cynaliadwyedd o'r dechrau. Gan fod Rheoliadau AAS yn mynnu bod iechyd pobl yn cael ei ystyried fel rhan o'r asesiad o effeithiau amgylcheddol, nodir hefyd y gellir ehangu elfen iechyd Asesiad Amgylcheddol Strategol i gynnwys amcanion iechyd corfforol a meddyliol Asesiad o'r Effaith ar Iechyd.

**2.7** Mae Canllaw Ymarferol Llywodraeth Cymru ar HIA[8] a chanllawiau Uned Gymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru (WHIASU) ar HIA[9][10], yn nodi'r camau sydd eu hangen i gynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, a sgrinio yw'r cam cyntaf. Mae'r canllawiau'n nodi nad oes ffordd benodol o wneud penderfyniad ynghylch cynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, ond y dylai'r cam sgrinio roi darlun rhagarweiniol o'r effeithiau posibl ar iechyd y boblogaeth berthnasol. Mae'r canllawiau hyn hefyd yn nodi, er bod modd cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd fel rhan o broses ehangach ISA, rhaid i elfennau iechyd a llesiant ac anghydraddoldebau'r asesiad fod yn glir.

**2.8** Yn gryno, dylai sgrinio ystyried y canlynol:

- a yw'r cynnig yn debygol o effeithio ar iechyd;
- pa rannau o'r boblogaeth, yn enwedig grwpiau agored i niwed, sy'n debygol o gael eu heffeithio; a
- maint posibl unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol.

**2.9** Fel cynllun lefel strategol, gall y CDLl effeithio ar iechyd y cyhoedd drwy'r polisïau a'r dyraniadau safle sydd wedi'u cynnwys ynddo. Yn ogystal â pholisïau sy'n ymwneud yn benodol ag iechyd a lles, gall lleoliad safleoedd datblygu mewn perthynas â chyfleusterau gofal iechyd a dyrannu safleoedd ar gyfer mannau agored a seilwaith gwyrdd arall ddylanwadu ar effeithiau sy'n gysylltiedig ag iechyd.

**2.10** Cyflwynir gwybodaeth sylfaenol sy'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd ar Ynys Môn ym **Mhennod 4** ac mae'n dangos bod proffil iechyd Ynys Môn yn cyd-fynd yn fras â gweddill Cymru, er bod nifer y bobl sy'n ystyried eu hunain mewn iechyd gwael neu wael iawn ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r CDLl newydd yn cynnig cyfleoedd i wella iechyd y cyhoedd drwy gynnwys polisïau perthnasol a dyrannu datblygiadau yn y lleoliadau mwyaf cynaliadwy (a fydd yn arwain at fanteision iechyd cysylltiedig).

**2.11** Disgwylir y bydd effeithiau'r CDLl ar iechyd wedi'u cyfyngu i raddau helaeth i ardal y cynllun, h.y. Ynys Môn, a byddent yn rhai hirdymor a pharhaol yn bennaf er y byddai unrhyw effeithiau sy'n gysylltiedig ag iechyd yn sgil y broses o adeiladu datblygiad newydd (fel effeithiau sŵn) yn rhai tymor byr.

> O ystyried natur strategol y CDLl a'r ffaith bod 'iechyd pobl' yn un o'r pynciau y mae'n ofynnol mynd i'r afael â hwy o dan Reoliadau AAS, cynigir y bydd y HIA yn cael ei integreiddio o fewn y broses ISA ar gyfer y CDLl, a fydd yn cael sylw drwy amcan ISA perthnasol (**gweler Pennod 6**). Bydd yr adroddiad ISA ar bob cam o'r broses o lunio cynlluniau yn cynnwys adran sy'n crynhoi'n glir effeithiau'r Cynllun Datblygu Lleol ar iechyd er mwyn sicrhau bod yr elfen hon o'r ISA yn glir.

## Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

**2.12** Mae'r gofyniad cyfreithiol am Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA) wedi'i nodi drwy Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Daeth Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Cymru (Adran 149 y Ddeddf) i rym ym mis Ebrill 2011. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus asesu effaith polisïau ar wahanol grwpiau poblogaeth i sicrhau nad oes gwahaniaethu'n digwydd, a lle bo'n bosibl, i hyrwyddo cyfle cyfartal. Drwy'r Ddeddf Cydraddoldeb, mae rhoi sylw dyledus i hyrwyddo cydraddoldeb yn cynnwys:

- dileu neu leihau'r anfanteision a brofir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchodedig;
- cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl o grwpiau gwarchodedig lle mae'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill; ac
- annog pobl â nodweddion gwarchodedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill lle mae eu cyfranogiad yn anghymesur o isel.

[7] Llywodraeth Cymru (2024) Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 12.
[8] Llywodraeth Cymru (2004) 'Gwella Iechyd a Lleihau Anghydraddoldebau: Canllawiau Ymarferol i HIA.
[9] Uned Gymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru (2012) Asesiad o'r Effaith ar Iechyd: Canllawiau Ymarferol.
[10] Uned Gymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru (2021) Asesiad o'r Effaith ar Iechyd a Chynlluniau Datblygu Lleol (CDLl): Pecyn ar gyfer Ymarfer.

**2.13** Dylai awdurdod gwneud cynlluniau sgrinio'r naw grŵp o nodweddion gwarchodedig yn Neddf Cydraddoldeb 2010 (oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol) i nodi a chyfiawnhau pa nodweddion y gall y cynllun ddylanwadu arnynt. Dylai'r nodweddion hynny y gellir dylanwadu arnynt gael eu hintegreiddio i'r fframwaith asesu; dylai'r rheini na ellir dylanwadu arnynt gael eu sgrinio allan a'u cyfiawnhau.

**2.14** Ym mis Mawrth 2021, mabwysiadodd Llywodraeth Cymru y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol i ategu Deddf Cydraddoldeb 2010 gyda'r nod o gyfrannu ymhellach at nodau llesiant hirdymor Cymru, yn enwedig "Cymru sy'n fwy cyfartal" a "Chymru o gymunedau cydlynus". Mae'r Ddyletswydd yn rhoi cyfrifoldeb cyfreithiol ar gyrff pan fyddant yn gwneud penderfyniadau strategol i roi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldebau canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol[11]. I bob pwrpas, mae'r ddyletswydd yn arwain at ymestyn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i ystyried yr effeithiau posibl sy'n ymwneud â grwpiau yr effeithir arnynt yn economaidd-gymdeithasol.

**2.15** Mae'n bosibl y gallai'r CDLl effeithio ar unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig yn ogystal â grwpiau dan anfantais economaidd-gymdeithasol i ryw raddau, fel rhan o effeithiau cyffredinol y cynllun ar y boblogaeth leol, er y gallai rhai grwpiau gael eu heffeithio'n fwy uniongyrchol (h.y. gallai darparu neu beidio â darparu tai priodol i ddiwallu eu hanghenion penodol effeithio'n uniongyrchol ar bobl hŷn). Gall fod yn heriol nodi sut byddai polisïau unigol yn effeithio ar rai o'r nodweddion – efallai y bydd yn haws adnabod effeithiau wrth ystyried y cynllun yn ei gyfanrwydd.

Cynigir y bydd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei baratoi ochr yn ochr â phroses yr ISA ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol ac y bydd yn cael ei gyflwyno mewn atodiad i'r Adroddiad ISA Bydd matrics Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei baratoi i asesu effeithiau tebygol y CDLl ar bob un o'r naw nodwedd warchodedig a grwpiau eraill a allai gael eu heffeithio wrth ystyried ffactorau economaidd-gymdeithasol, gan gyfeirio at unrhyw bolisïau sy'n arbennig o berthnasol. Bydd y prif Adroddiad ISA yn cynnwys crynodeb o effeithiau tebygol y Cynllun Datblygu Lleol ar gydraddoldeb a bydd yn gwneud unrhyw argymhellion angenrheidiol ar gyfer osgoi neu liniaru effeithiau negyddol a chynyddu effeithiau cadarnhaol. Bydd canfyddiadau'r asesiad cydraddoldeb hefyd yn cael eu hystyried mewn perthynas ag amcanion perthnasol yr ISA (gweler **Pennod 6**).

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (WBFGA) 2015

**2.16** Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) yn rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i ddatblygu'n gynaliadwy. Mae'n nodi saith nod llesiant y mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus eu cyflawni:

- Cymru Lewyrchus
- Cymru Gydnerth
- Cymru Iachach
- Cymru sy'n Fwy Cyfartal
- Cymru o Gymunedau Cydlynus
- Cymru o Ddiwylliant Bywiog ac Iaith Gymraeg Ffyniannus
- Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang

**2.17** Mae rhagor o wybodaeth am ystyr y nodau hyn ar gael yng nghanllaw Llywodraeth Cymru i'r Ddeddf.[12] Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn dangos ymroddiad cyfraniad Cymru at holl nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, gan gynnwys Nod 3[13], sef 'sicrhau bywydau iach a hyrwyddo llesiant i bawb o bob oed'.

**2.18** Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn sefydlu 'egwyddor datblygu cynaliadwy' sy'n nodi sut dylai sefydliadau fynd ati i gyflawni eu dyletswydd o dan y Ddeddf. Wrth gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy, mae angen i gyrff cyhoeddus ddangos eu bod wedi ystyried y pum mater canlynol:

- Edrych tua'r tymor hir fel nad ydym yn peryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion;
- Deall achosion sylfaenol problemau er mwyn eu hatal rhag digwydd neu waethygu.
- Defnyddio dull integredig fel bod cyrff cyhoeddus yn edrych ar yr holl nodau llesiant wrth benderfynu ar eu hamcanion llesiant.
- Cynnwys amrywiaeth o bobl yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.
- Gweithio gydag eraill mewn ffordd gydweithredol i ddod o hyd i atebion cynaliadwy a rennir.

[11] Llywodraeth Cymru (Mawrth 2021) Cymru sy'n Fwy Cyfartal: Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol Deddf Cydraddoldeb 2010 – Canllawiau Statudol

[12] Llywodraeth Cymru (Mai 2015) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: Yr Hanfodion.

[13] Y Cenhedloedd Unedig (2015) Agenda 2030 ar gyfer Datblygu Cynaliadwy.

**2.19** Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn nodi:

*'Rhaid i'r CDLl ddangos sut y mae'n cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant. Gall y dull a ddefnyddir i arfarnu'r cynllun drwy'r Arfarniad Cynaliadwyedd alluogi Awdurdodau Cynllunio Lleol i ddeall lle gall y cynllun wneud y cyfraniad mwyaf posibl. Dylai'r nodau llesiant fod yn rhan annatod o'r gwaith o baratoi Adroddiad Cwmpasu Arfarniad Cynaliadwyedd a dylid eu defnyddio fel sail i'r adolygiad o dystiolaeth, i nodi problemau ac i strwythuro fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd a fydd yn asesu opsiynau twf, amcanion, polisïau a chynigion y cynllun'.*

**2.20** Mae hefyd yn datgan y '*dylai'r nodau llesiant, yr amcanion a'r pum ffordd o weithio fod yn rhan annatod o ddatblygu fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd*'.

**2.21** Mae'r cyhoeddiad 'Creu Lleoedd a Mannau Iachach ar gyfer Cenedlaethau'r Presennol a'r Dyfodol' wedi cael ei ddatblygu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru[14] mewn ymateb i'r Ddeddf. Mae'n nodi dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar chwe maes blaenoriaeth[15] yn yr amgylchedd adeiledig a naturiol sy'n gallu cael effaith gadarnhaol ar iechyd a llesiant, a chefnogi'r gwaith o gyflawni'r nodau llesiant. Mae'r meysydd blaenoriaeth hyn yn berthnasol iawn i'r CDLl ac felly bydd asesu'r polisïau a'r safleoedd yn y CDLl hefyd yn helpu i asesu pa mor dda yr eir i'r afael â'r blaenoriaethau hynny.

Cynigir y bydd gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael eu hintegreiddio ym mhroses yr ISA ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol, drwy gynnwys amcanion perthnasol yr ISA (**gweler Pennod 6**). Bydd yr Adroddiad ISA hefyd yn cynnwys asesiad cryno (fel rhan o gasgliadau'r adroddiad) o effeithiau cyffredinol y cynllun ar lesiant, gan gyfeirio'n benodol at y nodau llesiant sydd wedi'u nodi yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

**2.22** Ystyriwyd a ddylid strwythuro fframwaith yr ISA yn unol â'r nodau llesiant, h.y. a ellid grwpio'r amcanion yn ôl pa nod y maent yn berthnasol iddo. Fodd bynnag, mae llawer o'r nodau llesiant yn drawsbynciol a byddai mwy nag un o amcanion yr ISA yn dylanwadu arnynt; felly byddai cyflwyno fframwaith yr ISA fel hyn yn rhy syml. Yn hytrach, mae fframwaith yr ISA ym **Mhennod 6** yn dangos sut mae pob amcan ISA yn helpu i fynd i'r afael â'r saith nod llesiant.

## Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

**2.23** Mae Polisi Cynllunio Cymru yn gosod y gofynion polisi ar gyfer yr iaith Gymraeg ac yn ei gwneud yn glir bod yr iaith Gymraeg yn "*rhan o wead cymdeithasol a diwylliannol"* (Cymru) ac y *"dylai'r system cynllunio defnydd tir ystyried yr amodau sy'n hanfodol i'r iaith Gymraeg a chyfrannu at ei defnydd a'i nod iaith Gymraeg ffyniannus"*.

**2.24** Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn nodi bod yn rhaid ystyried y Gymraeg o ddechrau proses y cynllun datblygu. Mae'r gofyniad i'r Arfarniad Cynaliadwyedd gynnwys "asesiad o effeithiau tebygol y cynllun ar y defnydd o'r Gymraeg yn ardal y cynllun" wedi'i nodi drwy Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 (adran 11). Mae'r Ddeddf yn datgan mai "*pwrpas hyn yw sicrhau bod maint a lleoliad y newid a nodir yn y cynllun yn cefnogi'r Gymraeg a sicrhau bod mesurau lliniaru priodol ar waith, os oes angen"*.

**2.25** Mae'r gofyniad cyffredinol i gynnal Arfarniad Cynaliadwyedd wedi'i nodi yn adran 62 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. Mae Canllaw Comisiynydd y Gymraeg ar Safonau Llunio Polisi[16] yn ei gwneud yn ofynnol i'r Gymraeg gael ei hystyried o'r cychwyn wrth lunio polisi ac yn nodi: *"nid yw'r Comisiynydd yn ystyried bod y gofyniad o dan adran 62 y Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol yn golygu bod y gofyniad i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg yn cael ei ddileu. Gan eu bod yn codi o ddau ofyniad statudol ar wahân, mae'n gwbl briodol disgwyl i gyrff sicrhau eu bod yn mynd y tu hwnt i ofynion adran 62 er mwyn ystyried yr effeithiau ehangach ar y Gymraeg a chydymffurfio â'r safonau llunio polisi o dan Fesur y Gymraeg."*

**2.26** Mae Nodyn Cyngor Technegol 20 (NCT 20): Cynllunio a'r Iaith Gymraeg[17] yn rhoi arweiniad ar ystyried y Gymraeg fel rhan o'r cynllun datblygu a phrosesau Arfarniad Cynaliadwyedd. Yn gryno, rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ystyried effeithiau tebygol eu cynllun datblygu ar y Gymraeg fel rhan o broses Arfarniad Cynaliadwyedd a chynnwys datganiad yn y cynllun adneuo ynghylch sut mae hyn wedi cael ei ystyried a/neu ei drin yn y cynllun datblygu.

Cynigir y bydd fframwaith yr ISA yn cynnwys amcan a fydd yn mynd i'r afael yn benodol ag effeithiau tebygol y CDLl ar y defnydd o'r Gymraeg (**gweler Pennod 6**). Bydd yr adroddiad ISA hefyd yn cynnwys casgliad cryno am effeithiau cyffredinol y Cynllun Datblygu Lleol ar y

[14] Iechyd Cyhoeddus Cymru (2018) Creu Lleoedd a Mannau Iachach ar gyfer Cenedlaethau'r Presennol a'r Dyfodol
[15] Y seilwaith cerdded a beicio, mannau gwyrdd/glas agored a seilwaith gwyrdd, yr amgylchedd tyfu bwyd ac adwerthu, gwasanaethau cymunedol, iechyd a gofal cymdeithasol a ddarperir o gyfleusterau lleol, lefelau isel o lygredd aer a dyluniad adeiladau.
[16] Comisiynydd y Gymraeg (2020) Safonau Llunio Polisi: Creu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Dogfen gynghori ar arferion da
[17] Llywodraeth Cymru (2017) Nodyn cyngor technegol (NCT) 20: cynllunio a'r Gymraeg.

Gymraeg, fel rhan o'r asesiad o effeithiau cronnus tebygol y cynllun.

## Deddf yr Amgylchedd (Cymru)

**2.27** Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ceisio deddfu ar gyfer cynllunio a rheoli adnoddau naturiol yng Nghymru mewn ffordd sy'n rhagweithiol, yn gynaliadwy ac yn integredig. Mae'r Ddeddf hefyd yn cyflwyno canllawiau ar reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy (SMNR).

**2.28** Mae Polisi Cynllunio Cymru 11 (PCC11) yn nodi bod yn rhaid i Gynlluniau Datblygu Lleol ystyried y Polisi Adnoddau Naturiol a'r Datganiadau Ardal sy'n dilyn ohono. Mae PCC11 felly'n trosi egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ar gyfer y system gynllunio.

**2.29** Fel sy'n ofynnol gan Adran 6 y Ddeddf, mae gan awdurdodau cyhoeddus gyfrifoldeb i "gynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, i'r graddau y mae hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol". Mae'n ofynnol i awdurdodau adrodd ar gamau a gymerwyd i hyrwyddo cadernid ecosystemau yn ogystal â gwella bioamrywiaeth.

**2.30** Mae adran 7 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i "*Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi rhestr o'r organeddau byw a'r mathau o gynefinoedd sydd, yn eu barn hwy, o'r pwysigrwydd pennaf at ddiben cynnal a gwella bioamrywiaeth mewn perthynas â Chymru.*"

**2.31** Cyn cyhoeddi, rhaid cynnal ymgynghoriad priodol ynghylch y rhestr gyda Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Rhaid adolygu'r rhestr yn gyson a dylid cymryd pob cam rhesymol i gynnal a gwella'r organeddau byw a'r mathau o gynefinoedd ar y rhestr heb ragfarnu Adran 6.

**2.32** Mae Polisi Cynllunio Cymru yn datgan y dylai pawb sy'n ymwneud â'r broses gynllunio fabwysiadu dull rhagweithiol i hwyluso'r gwaith o gyflawni canlyniadau bioamrywiaeth a chydnerthedd. Er mwyn gallu gweithredu dyletswyddau Adran 6, mae PCC yn nodi fframwaith o ystyriaethau (DECCA), y dylid rhoi sylw iddynt:

- Amrywiaeth – sicrhau bod mecanweithiau ar waith i leihau colli rhywogaethau o ystyried bod ecosystemau mwy amrywiol yn fwy gwydn yn erbyn dylanwadau allanol;
- Maint – sicrhau bod penderfyniadau cynllunio'n cefnogi mesurau sy'n ceisio creu, adfer a rheoli rhwydweithiau a chysylltiadau gwyrdd yn briodol yn ogystal ag asedau presennol eraill;
- Cyflwr – sicrhau nad yw penderfyniadau cynllunio yn peryglu cyflwr ecosystemau ac yn cefnogi'r gwaith o reoli cynefinoedd a gedwir yn y tymor hir;
- Cysylltedd – sicrhau cyfleoedd i greu cynefinoedd gweithredol a rhwydweithiau ecolegol;
- Gallu addasu i newid – yn bennaf, sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i ddiogelu maint, cyflwr a chysylltedd cynefinoedd, nodweddion a rhwydweithiau ecolegol rhag newid yn yr hinsawdd. Gall y camau gweithredu hefyd helpu i hwyluso dyheadau cadernid cymdeithasol ac economaidd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

**2.33** Mae'r Ddeddf (adran 8) hefyd yn datgan bod rhaid i CNC baratoi adroddiad sy'n cynnwys ei asesiad o gyflwr adnoddau naturiol mewn perthynas â Chymru (SoNaRR). Mae'r gofyniad i CNC baratoi a chynnal Datganiadau Ardal at ddiben hwyluso gweithredu'r polisi adnoddau naturiol cenedlaethol wedi ei nodi yn adran 11 y Ddeddf. Mae Ynys Môn yn cael ei chynnwys yn Natganiad Ardal Gogledd Orllewin Cymru ochr yn ochr â Chonwy a Gwynedd.

**2.34** Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn argymell y gellir bodloni gofynion y Ddeddf (Adran 6) drwy'r ISA. Mae'r ISA yn darparu ffordd o ystyried sut y gallai'r CDLl fynd i'r afael â gwahanol elfennau fframwaith ystyriaethau Polisi Cynllunio Cymru.

Cynigir y bydd gofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn cael eu bodloni drwy broses yr ISA ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol, a fydd yn cael sylw mewn amcan ISA perthnasol sy'n ymwneud â bioamrywiaeth (**gweler Pennod 6**).

# Pennod 3
## Cynlluniau a Rhaglenni Perthnasol

**3.1** Mae Atodlen 2 Rheoliadau AAS (Cymru) yn mynnu bod yr Adroddiad Amgylcheddol yn cynnwys:

*(a) "amlinelliad o'r...berthynas â chynlluniau neu raglenni perthnasol eraill"; a'r*


*(e) "amcanion diogelu'r amgylchedd, a sefydlwyd ar lefel ryngwladol, Gymunedol neu Aelod-wladwriaeth, sy'n berthnasol i'r cynllun neu'r rhaglen a'r ffordd y mae'r amcanion hynny ac unrhyw ystyriaethau amgylcheddol wedi cael eu hystyried yn ystod y broses baratoi."*

**3.2** Er mwyn sefydlu cwmpas clir ar gyfer yr ISA, mae angen adolygu a datblygu dealltwriaeth o'r amcanion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd sydd mewn polisïau, cynlluniau a strategaethau rhyngwladol a chenedlaethol sy'n berthnasol i CDLl newydd Ynys Môn. O ystyried gofynion y Rheoliadau AAS a nodir uchod, mae hefyd angen ystyried y berthynas rhwng y CDLl a chynlluniau, polisïau a rhaglenni perthnasol eraill.

**3.3** Mae'r bennod hon yn cyflwyno'r cynlluniau, y polisïau a'r rhaglenni rhyngwladol a chenedlaethol perthnasol sydd uwchben y CDLl ac y mae angen eu hystyried yn y CDLl a'r ISA, yn ogystal â'r cynlluniau a'r rhaglenni hynny sy'n berthnasol i'r CDLl ar lefel leol. Darperir adolygiad manylach o'r dogfennau perthnasol fesul pwnc yn **Atodiad A**. Mae amcanion y dogfennau hyn wedi cael eu hystyried wrth ddrafftio fframwaith yr ISA ym **Mhennod 6**.

**3.4** Daw **Ffigur 3.1** isod o'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu ac mae'n dangos hierarchaeth cydymffurfio cynlluniau datblygu.

**Ffigur 3.1: Hierarchaeth Cydymffurfio Cyffredinol a Chynlluniau Datblygu**



### Cyd-destun polisi rhyngwladol

**3.5** Ar lefel ryngwladol, mae yna amrywiaeth eang o gynlluniau a rhaglenni sy'n gweithredu i lywio a siapio deddfwriaeth ar lefel genedlaethol. Dylai polisi cynllunio yng Nghymru ar lefel genedlaethol a lleol (h.y. Polisi Cynllunio Cymru (PCC)[18] a'r CDLl) ystyried y ddeddfwriaeth berthnasol a chydymffurfio â hi. Mae amcanion cynaliadwyedd cynlluniau a rhaglenni rhyngwladol sydd fwyaf perthnasol i'r CDLl a'r ISA wedi'u nodi yn **Atodiad A**.

### Y cyd-destun polisi  cenedlaethol

**3.6** Mae ystod eang o bolisïau, cynlluniau a rhaglenni cenedlaethol sy'n berthnasol i'r Cynllun Datblygu Lleol a phroses yr ISA. Mae dull pragmatig a chymesur wedi'i fabwysiadu o ran nodi polisïau, cynlluniau a rhaglenni cenedlaethol allweddol, gan ganolbwyntio ar y rhai sydd fwyaf perthnasol. Ceir crynodeb isod o brif amcanion Polisi Cynllunio Cymru (PCC) sy'n berthnasol i'r CDLl a'r ISA.

**3.7** Ar ben hynny, mae prif amcanion cynaliadwyedd cynlluniau a rhaglenni cenedlaethol eraill sydd fwyaf perthnasol i'r CDLl a'r ISA i'w gweld yn **Atodiad A**. Mae hyn yn cynnwys Cymru'r Dyfodol – y Cynllun Cenedlaethol 2040 a Chynllun Datblygu Strategol (SDP) Gogledd Cymru sy'n cael ei ddatblygu.

#### Polisi Cynllunio Cymru

**3.8** Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi polisïau cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru. Ochr yn ochr â chyfres o Nodiadau Cyngor Technegol (NCT), Cylchlythyrau Llywodraeth Cymru a llythyrau egluro polisi, mae'n darparu'r fframwaith polisi cynllunio cenedlaethol ar gyfer Cymru. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn seiliedig ar y cysyniad o 'greu lleoedd', y mae'n ei ddiffinio fel dull cyfannol o gynllunio a dylunio datblygiadau a mannau, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau cadarnhaol ac ychwanegu gwerth cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol at gynigion datblygu gan arwain at fanteision sy'n mynd y tu hwnt i ffin datblygu ffisegol ac sy'n gwreiddio cydnerthedd ehangach mewn penderfyniadau cynllunio.

**3.9** Dylai Cynllun Datblygu Lleol Ynys Môn fod yn gyson â gofynion Polisi Cynllunio Cymru sy'n datgan:

> *"Cynlluniau datblygu cyfredol yw sail y system gynllunio ac maent yn gosod y cyd-destun ar gyfer gwneud penderfyniadau rhesymegol a chyson. Rhaid paratoi cynlluniau ar bob lefel yn hierarchaeth y cynllun datblygu yn unol â pholisïau cynllunio cenedlaethol ... Rhaid i gynlluniau datblygu ddangos sut y disgwylir i leoedd newid i ddarparu ar gyfer anghenion datblygu dros gyfnod y cynllun"*

**3.10** Mae natur drosfwaol Polisi Cynllunio Cymru yn golygu bod ei oblygiadau i'r ISA yn ymwneud â nifer o bynciau y mae'r adroddiad hwn yn ceisio rhoi sylw iddynt. Mae perthnasedd y polisi hwn a'i oblygiadau i'r broses o lunio cynlluniau a'r ISA yn cael eu crynhoi'n fanylach isod.

**3.11** Mae PCC yn cyflwyno pum Egwyddor Allweddol fel gweledigaeth arweiniol ar gyfer paratoi pob cynllun datblygu. Mae'r rhain yn ymwneud â phynciau sy'n bwysig i'r ISA fel y nodir isod:

**3.12** Mae PCC yn cefnogi **twf yr economi** mewn ffordd gynaliadwy gan ddefnyddio'r seilwaith presennol a chynllunio ar gyfer seilwaith a gwasanaethau ategol newydd. Mae'r ddogfen hefyd yn ceisio sicrhau bod pawb yn gallu teimlo manteision twf economaidd.

**3.13** Hyrwyddir defnyddio adnoddau'n effeithlon hefyd fel sail i ddatblygu cynaliadwy. Mae hyn i gynnwys **defnyddio tir ac adnoddau naturiol eraill yn effeithlon.** Mae PCC yn cydnabod y rôl sydd gan y system gynllunio i'w chwarae o ran sicrhau bod datblygiad yn gallu gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd. Mae hefyd yn tynnu sylw at ei rôl o ran datgarboneiddio cymdeithas a datblygu economi gylchol. Mae'r egwyddorion hyn yn nodi'r dull gweithredu y dylai cynlluniau datblygu ei fabwysiadu mewn perthynas â **lliniaru newid yn yr hinsawdd** yn ogystal ag **addasu i newid yn yr hinsawdd.**

**3.14** Mae Polisi Cynllunio Cymru yn tynnu sylw at y rôl sydd gan gynllunio i'w chwarae o ran creu lleoedd sy'n hygyrch i bawb ac sy'n cefnogi **iechyd a lles.** Nodir y gall creu lleoedd o ansawdd uchel ganiatáu i bobl fyw, gweithio, teithio a chwarae mewn ffordd sy'n cefnogi iechyd **corfforol a meddyliol** da. O hyn, dylid cynllunio amgylcheddau adeiledig a naturiol i hyrwyddo lles meddyliol a chorfforol. Dylai hefyd ystyried goblygiadau posibl datblygu o ran **trafnidiaeth**.

**3.15** Mae creu cymunedau cynaliadwy yn golygu cynnwys cydbwysedd priodol rhwng defnyddiau a dwysedd, gan greu mannau lle mae pobl eisiau bod a rhyngweithio ag eraill. Bydd hyn yn cynnwys **darparu cartrefi, swyddi, gwasanaethau, seilwaith a chyfleusterau o ansawdd da/wedi'u dylunio'n dda.**

**3.16** Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi'r angen i sicrhau bod asedau naturiol, hanesyddol a diwylliannol yn cael eu diogelu, eu gwarchod a'u gwella. Mae hwn yn nodi'r dull gweithredu y dylai cynlluniau datblygu ei fabwysiadu o ran datblygu ac effeithiau posibl mewn perthynas â **bioamrywiaeth, yr**

[18] Llywodraeth Cymru (2024) Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 12.

**amgylchedd hanesyddol a'r dirwedd.** Mae hyn yn cynnwys ardaloedd ar y gofrestr o dirweddau hanesyddol yng Nghymru.

**3.17** Ar ben hynny, dylid osgoi effeithiau amgylcheddol negyddol er budd ehangach y cyhoedd. Bydd hyn yn cynnwys diogelu **ansawdd aer** ac **ansawdd dŵr** yn ogystal â chyfyngu ar y potensial ar gyfer effeithiau niweidiol **llygredd sŵn**. Dylid darparu datblygiad mewn ffordd integredig fel nad yw adnoddau a/neu asedau'n cael eu difrodi na'u disbyddu'n ddi-droi'n-ôl. Mae Polisi Cynllunio Cymru hefyd yn mabwysiadu 'egwyddor y llygrwr sy'n talu' lle na ellir atal llygredd ac mae'n defnyddio'r egwyddor ragofalus i sicrhau mesurau cost-effeithiol i atal difrod amgylcheddol.

**3.18** O'r Egwyddorion Allweddol, mae PCC wedi datblygu canlyniadau cenedlaethol ar gyfer creu lleoedd cynaliadwy y dylai cynlluniau datblygu fwrw ymlaen â hwy. Mae'r rhain yn adeiladu ar yr Egwyddorion Allweddol i helpu i sicrhau bod y system gynllunio'n gallu cefnogi'r gwaith o ddarparu mannau cynaliadwy.

### Polisïau, cynlluniau a rhaglenni cenedlaethol eraill

**3.19** Ym mis Gorffennaf 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Adeiladu Lleoedd Gwell[19], sy'n nodi blaenoriaethau polisi cynllunio'r Llywodraeth i helpu i weithredu yn y cyfnod adfer ar ôl pandemig COVID-19. Mae'n cydnabod pwysigrwydd y system gynllunio o ran mynd i'r afael â'r materion amgylchedd adeiledig a naturiol sydd wedi codi o'r pandemig. Mewn perthynas â Chynlluniau Datblygu Lleol, mae'n cydnabod pwysigrwydd cael cynllun cyfredol ar waith er mwyn mynd i'r afael â'r blaenoriaethau presennol a'r rôl y gall cynlluniau ei chwarae o ran gwella iechyd a lles yn fwy cyffredinol.

**3.20** Cyhoeddwyd Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040[20] ym mis Chwefror 2021 gan Lywodraeth Cymru fel y fframwaith datblygu cenedlaethol ar gyfer Cymru, gan ddisodli Cynllun Gofodol Cymru (WSP). Mae'r ddogfen yn seiliedig ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 drwy geisio bodloni'r gofynion bod datblygu a defnyddio tir yn cyfrannu at wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n cydnabod pwysigrwydd Polisi Cynllunio Cymru fel y prif ddatganiad polisi cynllunio cenedlaethol ac mae'r holl bolisïau a nodir yn Cymru'r Dyfodol wedi cael eu croesgyfeirio yn erbyn rhannau perthnasol o Bolisi Cynllunio Cymru. Fe'i cyhoeddwyd i gynnwys 11 Canlyniad fel uchelgeisiau trosfwaol yn seiliedig ar yr egwyddorion cynllunio cenedlaethol a chanlyniadau cenedlaethol creu lleoedd cynaliadwy i nodi datganiad o ble y disgwylir i'r wlad fod ar ddiwedd cyfnod y cynllun 20 mlynedd. Ar ôl eu mabwysiadu, bydd yn ofynnol i Gynlluniau Datblygu Gofodol (SDP) a Chynlluniau Datblygu Lleol gydymffurfio â Chymru'r Dyfodol.

**3.21** Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi'r strategaeth ofodol ar gyfer y wlad. Mae'r cynllun yn nodi ac yn cysylltu canolfannau cenedlaethol a rhanbarthol allweddol, yn darparu sail ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith yn y tymor hir, yn nodi blaenoriaethau ar gyfer y system gynllunio a fframwaith ar gyfer rheoli adnoddau naturiol. Mae tair Ardal Twf Cenedlaethol wedi'u cynnwys yn y strategaeth ofodol (Caerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd; Bae Abertawe a Llanelli; a Wrecsam a Glannau Dyfrdwy), ac mae twf ac adfywiad parhaus y rhain yn cael eu cefnogi fel lleoedd o arwyddocâd rhyngwladol a chenedlaethol. Mae'r rhain yn cael eu hategu gan Ardaloedd Twf Rhanbarthol mewn tri o ranbarthau Cymru (y De Orllewin, y Canolbarth a'r Gogledd), . Yng Ngogledd Cymru mae pedair Ardal Twf Rhanbarthol, ac un ohonynt yw Caergybi ar Ynys Môn. Ardaloedd Twf Rhanbarthol yw'r canolfannau ar gyfer cyflogaeth, gwasanaethau, siopau a thwristiaeth yn yr ardaloedd hynny a bydd Cynlluniau Datblygu Lleol a Strategol yn canolbwyntio ar yr ardaloedd hynny wrth gynllunio gwasanaethau.

**3.22** Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi pedwar rhanbarth yng Nghymru: Y Gogledd, y Canolbarth, y De Orllewin a'r De Ddwyrain. Mae hyn yn pwysleisio'r rôl bwysig sydd gan gynllunio rhanbarthol i'w chwarae yn nyfodol y wlad. Mae'r dull rhanbarthol wedi'i nodi fel ffordd o sicrhau bod datblygiad strategol yn cael ei gydlynu a'i reoli'n llwyddiannus ar draws y rhanbarthau ac i sicrhau bod materion ehangach na lleol yn cael sylw ar y cyd.

**3.23** Mae nifer o bolisïau, cynlluniau a rhaglenni eraill ar lefel genedlaethol yn berthnasol i'r CDLl a'r ISA. Yn wahanol i Bolisi Cynllunio Cymru a Chymru'r Dyfodol, mae'r rhan fwyaf o'r dogfennau'n mynd i'r afael â maes pwnc penodol sy'n berthnasol i'r ISA. Bydd rhywfaint o orgyffwrdd rhwng pynciau ISA sy'n cael sylw yn y cynlluniau a'r rhaglenni hyn, yn enwedig lle mae'r dogfennau hynny'n cynnwys amcanion lefel uchel neu drawsbynciol. Gyda hynny mewn golwg, mae'r cynlluniau a'r rhaglenni yr ystyrir eu bod fwyaf perthnasol i'r ISA wedi'u grwpio yn ôl y pynciau y maent yn ceisio mynd i'r afael â hwy'n fwyaf uniongyrchol, ac mae blychau gwyrdd o dan bob pennawd yn crynhoi goblygiadau'r cynlluniau, y polisïau a'r rhaglenni cenedlaethol (gan gynnwys PCC) ar gyfer y CDLl a'r ISA.

### Addasu a lliniaru newid yn yr hinsawdd, effeithlonrwydd ynni a lleihau gwastraff

**3.24** Y cynlluniau, y polisïau a'r rhaglenni cenedlaethol perthnasol o dan y pwnc hwn yw:

[19] Llywodraeth Cymru (Gorffennaf 2020) Adeiladu Lleoedd Gwell: Y System Gynllunio yn Sicrhau Dyfodol Cydnerth a Mwy Disglair – Creu Lleoedd ac Adferiad Covid 19.

[20] Llywodraeth Cymru (2021) Cymru'r Dyfodol – y Cynllun Cenedlaethol 2040

- NCT 15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd (2025)
- Deddf Seilwaith (Cymru) 2024
- Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) (2024)
- Polisi Cynllunio Cymru: Rhifyn 12 (2024)
- Gweithio Gyda'n Gilydd dros Gymru Iachach: Ein Strategaeth Tymor Hir 2023-2035 (2023)
- Deddf Ffyniant Bro ac Adfywio 2023
- Strategaeth Diogelwch Ynni Prydain (2022)
- Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth 2022 i 2027
- Y Rhaglen Lywodraethu 2021 i 2026 (2021)
- Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan i Gymru: Cynllun Gweithred (2021)
- Statws Carbon Sero Net erbyn 2030: Trywydd ar gyfer Datgarboneiddio ar draws Sector Cyhoeddus Cymru (2021)
- Llwybr Newydd - Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021
- Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) (2020)
- Y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru (2020)
- Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel (2019)
- Canllawiau Statudol Draenio Cynaliadwy (2019)
- Effeithlonrwydd Ynni yng Nghymru: Strategaeth ar gyfer y 10 Mlynedd Nesaf 2016-2026 (2017)
- NCT 21: Gwastraff (2017)
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (2016)
- Deddf Cynllunio (Cymru) (2015)
- Deddf Teithio Llesol (Cymru) (2013)
- Ynni Cymru: Pontio i Economi Carbon Isel (2012)
- Tuag at Ddyfodol Diwastraff – Strategaeth Wastraff Cymru (2010)
- Rheoliadau Perygl Llifogydd (2009)
- Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008
- NCT 18: Trafnidiaeth (2007)
- Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004)
- NCT 2: Parthau Cynllunio Syml (1996)
- Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru: Gogledd-orllewin Cymru

**Goblygiadau i'r CDLl a'r ISA:** Dylai'r CDLl ystyried nodi polisïau i gyflawni lliniaru ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd ar yr un pryd ag annog datblygiad a fyddai'n helpu i leihau allyriadau carbon. Gellir gwneud hyn drwy leoli dyraniadau datblygu mewn ardaloedd lle gellir cyflawni patrymau trafnidiaeth gynaliadwy yn y ffordd orau, gan annog dulliau teithio llesol a chynaliadwy i leihau dibyniaeth ar geir preifat, ac annog datblygiad i ddefnyddio dulliau adeiladu a ffynonellau ynni mwy cynaliadwy. Dylai rôl seilwaith gwyrdd o ran addasu i newid yn yr hinsawdd a'i liniaru gael ei hystyried yn drylwyr wrth ddatblygu polisi. Mae hyn yn cynnwys drafftio'r CDLl i gynnwys polisïau i annog ymgorffori Systemau Draenio Cynaliadwy fel rhan o'r math hwn o ddarpariaeth. Dylai polisïau hefyd gefnogi trin gwastraff yn unol â'r hierarchaeth gwastraff.

Gall yr ISA brofi opsiynau polisi mewn perthynas â'r cyfraniadau a wnânt tuag at y nodau hyn a nodi parthau twf cenedlaethol. Dylai hefyd arfarnu'r cyfraniad y gall opsiynau safleoedd unigol ei wneud i gyfyngu ar allyriadau carbon (gan gynnwys drwy ddefnyddio ffynonellau ynni mwy cynaliadwy). Dylid hefyd ystyried safleoedd o ran yr effaith y byddant yn ei chael o ran hyrwyddo addasu i'r newid yn yr hinsawdd yn ogystal â lleihau'r perygl o lifogydd, erydu arfordirol a faint o wastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi.

**Iechyd a lles**

**3.25** Y cynlluniau, y polisïau a'r rhaglenni cenedlaethol perthnasol o dan y pwnc hwn yw:

- NCT 15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd (2025)
- Deddf Seilwaith (Cymru) 2024
- Polisi Cynllunio Cymru: Rhifyn 12 (2024)
- Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024
- Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2024)
- Deddf Ffyniant Bro ac Adfywio 2023
- Cynllun Sŵn a Seinwedd i Gymru: Ein Strategaeth Genedlaethol ar Seinweddau, 2023-2028 (2023)
- Gweithio Gyda'n Gilydd dros Gymru Iachach: Ein Strategaeth Tymor Hir 2023-2035 (2023)
- Cynllun Strategol Iechyd Cyhoeddus Cymru 2022-25 (2022)
- Y Rhaglen Lywodraethu 2021 i 2026 (2021)

- Ailddychmygu Adeiladu Tai Cymdeithasol yng Nghymru: Strategaeth Dulliau Adeiladu Modern ar gyfer Tai Cymdeithasol (2020)
- Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) (2020)
- Adeiladu Lleoedd Gwell (2020)
- Y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru (2020)
- Y Cynllun Aer Glân i Gymru: Awyr Iach, Cymru Iach (2020)
- Adolygiad Annibynnol o'r Cyflenwad Tai Fforddiadwy (2019)
- Strategaeth Aer Glân 2019
- Cymru Iachach: Ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2019)
- Canllawiau Statudol Draenio Cynaliadwy (2019)
- Strategaeth Hirdymor Iechyd Cyhoeddus Cymru – Gweithio i Gyflawni Dyfodol Iachach i Gymru (2018)
- Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) (2018)
- Cylchlythyr 005/2018 (2018)
- Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) (Diwygiad) 2018
- Creu Lleoedd a Mannau Iachach ar gyfer Cenedlaethau'r Presennol a'r Dyfodol (2018)
- Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol (2017)
- Deddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) (2017)
- Mesur Iechyd a Lles Cenedl: Fframwaith Canlyniadau Iechyd Cyhoeddus Cymru (2016)
- Dringo'n Uwch: Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol (2015)
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Deddf Cynllunio (Cymru) (2015)
- Law yn Llaw at Iechyd Meddwl: Strategaeth ar gyfer Iechyd Meddwl a Lles yng Nghymru (2012)
- Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) (2010)
- Deddf Cydraddoldeb (2010)
- NCT 16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored (2009)
- Rheoliadau Perygl Llifogydd (2009)
- NCT 2: Cynllunio a Thai Fforddiadwy (2006)
- Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004)
- Rheoliadau Ansawdd Aer (Diwygiad) (Cymru) 2002
- NCT 11: Sŵn (1997)
- NCT 3: Parthau Cynllunio Syml (1996)
- Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru: Gogledd-orllewin Cymru

**Goblygiadau i'r CDLl a'r ISA:** Mae angen i'r CDLl ystyried yr angen am seilwaith gan fod hyn yn cael effaith sylweddol ar yr amgylchedd, a dylid ei baratoi i sicrhau bod gan y boblogaeth fynediad at seilwaith a gwasanaethau a chyfleusterau carbon isel cynaliadwy a bod digon o gapasiti ynddynt i wasanaethu'r boblogaeth gynyddol. Dylai hyn gynnwys gofal iechyd, addysg a mannau agored gyda'r potensial i gael goblygiadau cadarnhaol sy'n ymwneud ag iechyd meddwl yn ogystal ag iechyd corfforol o ystyried y potensial i gyfyngu ar arwahanrwydd cymdeithasol. Dylid lleoli dyraniadau datblygu mewn ardaloedd lle mae cyfleusterau ar gael fwyaf, lle byddai problemau o ran gorgapasiti yn llai tebygol o ddigwydd. Dylid ystyried y potensial ar gyfer defnyddio dulliau teithio llesol a goblygiadau posibl perygl llifogydd o ran iechyd a lles.

Bydd darparu lefel briodol o dai dros gyfnod y cynllun yn helpu i fynd i'r afael â materion gwahaniaeth o ran mynediad at dai teilwng yn ardal y cynllun. Dylai darparu tai newydd ystyried anghenion lleol o ran maint, deiliadaeth a math y tai, gan gynnwys anghenion Teithwyr a Sipsiwn.

Gellir profi'r opsiynau polisi a ystyriwyd ar gyfer y CDLl drwy'r ISA mewn perthynas â'r cyfraniadau a wnânt tuag at y nodau hyn. Dylai'r ISA hefyd werthuso'r cyfraniad y gall opsiynau safleoedd unigol ei wneud i iechyd a lles. Dylid ystyried hyn drwy allu'r safle i gefnogi'r gwaith o ddarparu seilwaith a chyfleusterau newydd a allai fod o fudd i iechyd y cyhoedd, yn ogystal â hygyrchedd seilwaith a chyfleusterau presennol o'r natur hon. Efallai y bydd angen ystyried capasiti cyfleusterau presennol wrth ystyried opsiynau safleoedd unigol. Dylid hefyd ystyried capasiti safleoedd i ddarparu cartrefi newydd, gan gynnwys cartrefi fforddiadwy. Dylai opsiynau polisi hefyd geisio cefnogi gwella ansawdd aer a all gael effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol ar iechyd corfforol a meddyliol, yn ogystal â disgwyliad oes. Mae potensial i bolisïau yn y CDLl helpu i hwyluso cyflenwi bwyd lleol iach.

Bydd elfennau asesiad o'r effaith ar iechyd ac asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yr ISA yn arbennig o bwysig er mwyn sicrhau bod y materion hyn yn cael eu hystyried yn drylwyr.

**Yr amgylchedd (bioamrywiaeth/geoamrywiaeth, tirwedd, priddoedd a seilwaith gwyrdd)**

**3.26** Y cynlluniau, y polisïau a'r rhaglenni cenedlaethol perthnasol o dan y pwnc hwn yw:

- Deddf Ffyniant Bro ac Adfywio 2023
- NCT 14: Cynllun Arfordirol (2021)
- Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru 2020-21 (2020)
- Canllawiau Statudol Draenio Cynaliadwy (2019)
- Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) (2018)
- Strategaeth Coetiroedd i Gymru (2018)
- Polisi Adnoddau Naturiol (2017).
- Polisi Adnoddau Naturiol (2017).
- NCT 12: Dylunio (2016)
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (2016)
- Deddf Cynllunio (Cymru) (2015)
- Cymru'n Un: Un Blaned – Cynllun Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009)
- NCT 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio (2009)
- MTAN 2: Glo (2009)
- Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004)
- MTAN 1: Agregiadau (2004)
- NCT 10: Gorchmynion Cadw Coed (1997)
- NCT 7: Rheoli Hysbysebion Awyr Agored (1996)

**Goblygiadau i'r CDLl a'r AC:** Dylai'r CDLl gyfyngu ar y posibilrwydd o achosi effeithiau niweidiol ar safleoedd bioamrywiaeth. Fel rhan o'r ystyriaeth hon, dylai'r broses o wneud penderfyniadau ystyried yr effeithiau posibl ar y rhwydwaith ecolegol ehangach a chyfraniad safleoedd at gydnerthedd ecosystemau. Mae Polisi Cynllunio Cymru 11 yn datgan "*na ddylai datblygiad arwain at golli cynefinoedd neu boblogaethau o rywogaethau'n sylweddol, yn lleol nac yn genedlaethol a rhaid iddo ddarparu budd net i fioamrywiaeth*".

Dylid gwarchod tirweddau pwysig. Dylai'r cynllun warchod priddoedd amaethyddol uchel eu gwerth rhag cael eu datblygu ac annog ailddefnyddio tir llwyd lle bo hynny'n briodol. Gellir defnyddio polisïau a dyraniadau safle i gyfeirio datblygiadau i leoliadau llai sensitif a hyrwyddo seilwaith gwyrdd/glas i gefnogi cysylltedd cynefinoedd.

Dylai'r cynllun hefyd ystyried tirweddau heb eu dynodi sy'n arbennig o sensitif i ddatblygiad a chynefinoedd heb eu dynodi sy'n rhan o rwydwaith ecolegol ehangach.

Mae'r cynllun hefyd yn cynnig cyfleoedd i hyrwyddo cyflawni enillion bioamrywiaeth.

Rôl yr ISA fydd profi'r opsiynau polisi o ran yr effaith y byddant yn ei chael ar seilwaith gwyrdd (gan gynnwys safleoedd bioamrywiaeth/geoamrywiaeth), cynefinoedd, rhywogaethau, ac ar dirweddau gwerthfawr. Dylid hefyd arfarnu effeithiau'r opsiynau hyn mewn perthynas â hyrwyddo datblygu tir llwyd a chyfyngu ar golli priddoedd amaethyddol gwerthfawr. Dylid ystyried opsiynau safle yn y termau hyn hefyd, gan ddefnyddio canfyddiadau'r HRA a'r gwaith asesu seilwaith gwyrdd lle bo hynny'n briodol.

**Amgylchedd a Diwylliant Hanesyddol**

**3.27** Y cynlluniau, y polisïau a'r rhaglenni cenedlaethol perthnasol o dan y pwnc hwn yw:

- Deddf Ffyniant Bro ac Adfywio 2023
- Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023
- Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) (2020)
- Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) (2018)
- Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr (2017)
- NCT 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol (2017)
- NCT 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (2017)
- NCT 12: Dylunio (2016)
- Deddf Cynllunio (Cymru) (2015)
- Mesur y Gymraeg (Cymru) (2011)
- Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004)
- Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990
- NCT 7: Rheoli Hysbysebion Awyr Agored (1996)

**Goblygiadau i'r CDLl a'r AC:** Dylai effaith bosibl datblygiad newydd ar yr amgylchedd hanesyddol, gan gynnwys cymeriad lleol yn ogystal ag asedau treftadaeth dynodedig a heb eu dynodi a'u lleoliadau perthnasol gyfrannu at baratoi'r CDLl. Gellir rhoi sylw penodol i ddiogelu asedau treftadaeth y nodwyd eu bod 'mewn perygl' (ar lefel genedlaethol a lleol). Dylid cynnwys polisïau i fynd i'r afael â'r materion hyn a dylid ystyried opsiynau safle mewn perthynas â'r potensial ar gyfer materion cysylltiedig. Dylai'r gwaith o baratoi'r CDLl hefyd roi sylw i'r iaith Gymraeg ac ystyried yr ardaloedd lle caiff ei siarad yn ehangach, gan hefyd geisio cynyddu'r defnydd ohoni.

Dylai'r ISA arfarnu opsiynau polisi a safleoedd o ran y posibilrwydd o effeithiau ar yr amgylchedd hanesyddol.

Dylai nodi'r lleoliadau hynny lle byddai gan ddatblygiadau'r potensial mwyaf i gael effaith niweidiol ar yr amgylchedd hanesyddol, yn unol ag unrhyw waith asesu effaith ar dreftadaeth sy'n cael ei wneud i hysbysu'r Cynllun Datblygu Lleol.

Dylai'r ISA, drwy'r amcan o fynd i'r afael ag asesu'r effaith ar y Gymraeg, hefyd arfarnu holl elfennau'r CDLl o ran yr effeithiau posibl ar y Gymraeg. Dylai hyn ystyried cefnogaeth y cynllun i siaradwyr Cymraeg presennol a newydd yn ogystal ag effeithiau diwylliannol cysylltiedig y gallai'r cynllun eu hachosi.

**Adnoddau naturiol gan gynnwys ansawdd aer ac ansawdd dŵr**

**3.28** Y cynlluniau, y polisïau a'r rhaglenni cenedlaethol perthnasol o dan y pwnc hwn yw:

- Deddf Seilwaith (Cymru) 2024
- Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024
- Deddf Ffyniant Bro ac Adfywio 2023
- Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth 2022 i 2027
- Llwybr Newydd - Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021
- Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan i Gymru (2021)
- Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan i Gymru: Cynllun Gweithred (2021)
- Statws Carbon Sero Net erbyn 2030: Trywydd ar gyfer Datgarboneiddio ar draws Sector Cyhoeddus Cymru (2021)
- Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) (2020)
- Y Cynllun Aer Glân i Gymru: Awyr Iach, Cymru Iach (2020)
- Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel (2019)
- Strategaeth Aer Glân 2019
- Canllawiau Statudol Draenio Cynaliadwy (2019)
- Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) (2018)
- Mynd i'r Afael â Chrynodiadau Nitrogen Deuocsid ar Ymyl y Ffordd yng Nghymru: Cynllun Atodol Llywodraeth Cymru i Gynllun y DU ar gyfer Mynd i'r Afael â Chrynodiadau Nitrogen Deuocsid Ymyl Ffordd 2017 (2018)
- Effeithlonrwydd Ynni yng Nghymru: Strategaeth ar gyfer y 10 Mlynedd Nesaf 2016-2026 (2017)
- Polisi Adnoddau Naturiol (2017).
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (2016)
- Deddf Cynllunio (Cymru) (2015)
- Strategaeth Ddŵr i Gymru (2015)
- Deddf Teithio Llesol (Cymru) (2013)
- Ynni Cymru: Pontio i Economi Carbon Isel (2012)
- Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) (2010)
- Cymru'n Un: Un Blaned – Cynllun Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009)
- MTAN 2: Glo (2009)
- Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008
- TAN 18: Trafnidiaeth (2007)
- Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004)
- MTAN 1: Agregiadau (2004)
- Rheoliadau Ansawdd Aer (Diwygiad) (Cymru) 2002
- TAN 3: Parthau Cynllunio Syml (1996)

**Goblygiadau i'r CDLl a'r ISA:** Dylai'r CDLl ystyried gosod polisïau i hyrwyddo defnydd effeithlon o ddŵr a chyfyngu ar bob math o lygredd gan gynnwys llygredd dŵr ac aer. Dylai hefyd geisio cyfyngu'r pwysau ar y seilwaith trin dŵr gwastraff (WwT) a'r cyflenwad dŵr lle gwelir bod hyn yn broblem. Wrth ddyrannu safleoedd ar gyfer datblygu, dylid ystyried yr ardaloedd sydd â'r sensitifrwydd mwyaf mewn perthynas â'r materion hyn, gan gynnwys Parthau Diogelu Tarddiad Dŵr (SPZ). Er mwyn cyfyngu ar y potensial i faterion ansawdd aer gael eu dwysáu wrth i ddatblygiadau gael eu cyflawni dros gyfnod y cynllun, dylai'r CDLl hefyd ystyried y cyfraniad y gall opsiynau safle penodol ei wneud i sicrhau newid moddol a chyfyngu ar yr angen i drigolion deithio. Gall ansawdd aer gael effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol ar iechyd corfforol a meddyliol, a disgwyliad oes iach.

Gellir profi'r cyfraniad y gall opsiynau polisi ei wneud i gyflawni'r nodau hyn drwy'r ISA. Gellir ystyried opsiynau safleoedd unigol mewn perthynas â sensitifrwydd penodol seilwaith WwT ac ardaloedd eraill a nodwyd (fel SPZ).

**Twf Economaidd**

**3.29** Y cynlluniau, y polisïau a'r rhaglenni cenedlaethol perthnasol o dan y pwnc hwn yw:

- Deddf Seilwaith (Cymru) 2024
- Deddf Ffyniant Bro ac Adfywio 2023

- Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) (2020)
- Croeso i Gymru: Blaenoriaethau ar gyfer yr Economi Ymwelwyr 2020-2025
- Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) (2018)
- Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol (2017)
- Strategaeth Ddiwydiannol y DU (2017)
- TAN 4: Adwerthu a Datblygu Masnachol (2016)
- TAN 4: Adwerthu a Datblygu Masnachol (2016)
- Deddf Cynllunio (Cymru) (2015)
- Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020
- TAN 23: Datblygu Economaidd (2014)
- Partneriaeth ar gyfer Twf: Strategaeth ar gyfer Twristiaeth 2013-2020
- TAN 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (2010)
- Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad Newydd (2010)
- Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004)
- TAN 19: Telathrebu (2002)
- TAN 13: Twristiaeth (1997)
- TAN 3: Parthau Cynllunio Syml (1996)
- TAN 7: Rheoli Hysbysebion Awyr Agored (1996)
- Y Fargen Twf
- Ffyniant i Bawb: Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi

**Goblygiadau i'r CDLl a'r AC:** Dylai'r CDLl ddyrannu tir i gefnogi'r lefel ddisgwyliedig o dwf economaidd sy'n ofynnol dros gyfnod y cynllun. Dylid cynnwys polisïau cynlluniau datblygu lleol i helpu i hyrwyddo twf economaidd a chyflogaeth cynaliadwy er budd holl aelodau'r gymuned a lleihau gwahaniaethau yn ardal y cynllun. Dylai hyn gynnwys cefnogaeth i'r seilwaith (gan gynnwys yr hyn sy'n cefnogi cysylltedd digidol) sy'n ofynnol er mwyn i'r economi weithredu'n llwyddiannus. Dylid ystyried twf economaidd lleol yng ngoleuni twf economaidd ehangach. Dylid lleoli safleoedd cyflogaeth er mwyn galluogi pobl leol i fanteisio ar y cyfleoedd cyflogaeth newydd. Gall polisïau hefyd geisio hyrwyddo hyfywedd ardaloedd canol trefi ar Ynys Môn.

Dylai'r ISA brofi opsiynau polisi a safleoedd unigol mewn perthynas â'r cyfraniad y gallant ei wneud tuag at gyflawni'r nodau hyn. Dylid gwerthuso opsiynau safleoedd cyflogaeth o ran y cyfraniad y gallant ei wneud at fodloni gofynion tir cyflogaeth Ynys Môn yn ogystal â'r mynediad a fyddai gan drigolion at y cyfleoedd cyflogaeth a fyddai'n cael eu darparu.

**Trafnidiaeth**

**3.30** Y cynlluniau, y polisïau a'r rhaglenni cenedlaethol perthnasol o dan y pwnc hwn yw:

- Deddf Seilwaith (Cymru) 2024
- Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) (2024)
- Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024
- Deddf Ffyniant Bro ac Adfywio 2023
- Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth 2022 i 2027
- Llwybr Newydd - Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021
- Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan i Gymru (2021)
- Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan i Gymru: Cynllun Gweithred (2021)
- Statws Carbon Sero Net erbyn 2030: Trywydd ar gyfer Datgarboneiddio ar draws Sector Cyhoeddus Cymru (2021)
- Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) (2020)
- Y Cynllun Aer Glân i Gymru: Awyr Iach, Cymru Iach (2020)
- Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel (2019)
- Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) (2018)
- Mynd i'r Afael â Chrynodiadau Nitrogen Deuocsid ar Ymyl y Ffordd yng Nghymru: Cynllun Atodol Llywodraeth Cymru i Gynllun y DU ar gyfer Mynd i'r Afael â Chrynodiadau Nitrogen Deuocsid Ymyl Ffordd 2017 (2018)
- Deddf Cynllunio (Cymru) (2015)
- Deddf Teithio Llesol (Cymru) (2013)
- Deddf Cydraddoldeb (2010)
- Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) (2010)
- Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008
- TAN 18: Trafnidiaeth (2007)
- Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004)
- Rheoliadau Ansawdd Aer (Diwygiad) (Cymru) 2002
- TAN 11: Sŵn (1997)

**Goblygiadau i'r CDLl a'r AC:** Dylai'r potensial ar gyfer lleihau'r angen i deithio, cyfyngu ar dagfeydd a'r manteision cysylltiedig ar gyfer ansawdd aer a newid yn yr hinsawdd yn ogystal ag iechyd y cyhoedd hysbysu'r gwaith o baratoi'r polisïau ar gyfer y CDLl a dyrannu safleoedd. Gall y CDLl hefyd gefnogi dulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy gan gynnwys teithio llesol. Gall hyn gynnwys cymorth ar gyfer y seilwaith sy'n angenrheidiol ar gyfer beicio a cherbydau trydan /e-feiciau. Ar ben hynny, dylai'r dewis o opsiynau safle ar gyfer datblygu gael ei hysbysu gan faterion fel y potensial ar gyfer mynediad i nodau trafnidiaeth gyhoeddus newydd a rhai sy'n bodoli eisoes a llwybrau trafnidiaeth llesol a materion capasiti priffyrdd penodol. Dylai'r dewis o safleoedd unigol hefyd fod yn seiliedig ar ba mor agos ydynt at wasanaethau a chyfleusterau hanfodol, sy'n debygol o leihau'r angen i breswylwyr deithio'n bell yn rheolaidd.

Dylid defnyddio'r ISA i brofi opsiynau polisi a safleoedd o ran y cyfraniad y gallant ei gynnig i wneud dewisiadau trafnidiaeth yn fwy cynaliadwy. Yn ogystal â phrofi opsiynau safleoedd o ran cyfyngu ar yr angen i deithio ar Ynys Môn, dylid profi opsiynau polisi o ran eu cyfraniad at ddefnyddio opsiynau trafnidiaeth mwy cynaliadwy, fel cerdded a beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus.

### Y cyd-destun polisi is-genedlaethol

**3.31** O dan y lefel genedlaethol, mae rhagor o gynlluniau a rhaglenni sy'n berthnasol i CDLl Ynys Môn a'r broses ISA.

**3.32** Mae hyn yn cynnwys Cynllun Datblygu Strategol newydd Gogledd Cymru a Datganiad Ardal Gogledd Orllewin Cymru. Bydd Cyd-bwyllgor Corfforedig (CJC) sy'n cynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn bwrw ymlaen â'r gwaith o baratoi Cynllun Datblygu Strategol Gogledd Cymru. Mae'r gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Strategol ar ei gamau cynnar iawn, fodd bynnag, mae PCC yn egluro bod yn rhaid i Gynlluniau Datblygu Lleol gydymffurfio'n gyffredinol â Cymru'r Dyfodol a'r CDS perthnasol.

**3.33** Mae'r rhan fwyaf o gynlluniau a rhaglenni sy'n is na'r lefel genedlaethol ar lefel bwrdeistref sirol. Ceir manylion y cynlluniau a'r rhaglenni hynny yn **Atodiad A**.

# Pennod 4
## Gwybodaeth Sylfaenol

**4.1** Mae gwybodaeth sylfaenol yn darparu'r cyd-destun ar gyfer asesu cynaliadwyedd cynigion yn y CDLl ac mae'n darparu'r sail ar gyfer adnabod tueddiadau, rhagweld effeithiau tebygol y cynllun a monitro ei ganlyniadau. Mae'r gofynion ar gyfer data sylfaenol yn amrywio'n fawr, ond rhaid iddo fod yn berthnasol i faterion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd, bod yn sensitif i newid ac, yn ddelfrydol, dylai ymwneud â chofnodion sy'n ddigonol i ganfod tueddiadau.

**4.2** Mae Atodlen 2 Rheoliadau AAS (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i gasglu data ar fioamrywiaeth, poblogaeth, iechyd dynol, fflora, ffawna, pridd, dŵr, aer, ffactorau hinsoddol, asedau perthnasol, treftadaeth ddiwylliannol gan gynnwys treftadaeth bensaernïol ac archeolegol, tirwedd a'r gydberthynas rhwng y ffactorau uchod. Gan fod Arfarniad Cynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol integredig yn cael ei gynnal fel rhan o broses ehangach yr ISA, mae gwybodaeth sylfaenol sy'n ymwneud â phynciau cynaliadwyedd eraill wedi cael ei chynnwys hefyd; er enghraifft gwybodaeth am dai, addysg, amddifadedd, yr iaith Gymraeg, trafnidiaeth, ynni, gwastraff a thwf economaidd.

**4.3** Mae casglu a dehongli gwybodaeth sylfaenol yn ffordd werthfawr o gael dealltwriaeth a throsolwg strategol o ba fath o le yw Ynys Môn. O ystyried ehangder y pynciau a drafodir, mae'n myfyrio ar gyflwr presennol yr amgylchedd, yr economi, materion cymdeithasol a'r nodweddion hynny y mae'r cynllun yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt. Mae'r ddealltwriaeth hon yn ein galluogi nid yn unig i ystyried effeithiau tebygol y CDLl ond hefyd sut y gall wneud cyfraniad cadarnhaol tuag at ansawdd cyffredinol bywyd dynol a lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

4.4 Mae'r bennod hon yn cyflwyno'r wybodaeth sylfaenol ar gyfer Ynys Môn. Mae'r data y cyfeirir atynt wedi cael eu dewis yn bennaf ar gyfer rheoleidd-dra a chysondeb casglu, er mwyn gallu sefydlu tueddiadau yn y sefyllfa llinell sylfaen, a monitro effeithiau cynaliadwyedd posibl yn dilyn hynny. Bydd y wybodaeth sylfaenol yn cael ei hadolygu a'i diweddaru ym mhob cam o'r CDLl er mwyn adlewyrchu'r dystiolaeth ddiweddaraf sydd ar gael.

**4.5** Paratowyd nifer o fapiau i ddangos yr wybodaeth sylfaenol, fel y cyfeirir ati drwy gydol y bennod hon. Mae'r mapiau ar ddiwedd **Pennod 4**.

## Gwybodaeth Sylfaenol Amgylcheddol

### Newid yn yr hinsawdd

**4.6** Canfu Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd y DU[21] fod tymheredd cyfartalog dros dir ledled Cymru wedi cynyddu, gyda'r degawd rhwng 2005 a 2014 0.9°C yn gynhesach na chyfartaledd 1961-1990. O ran newidiadau a ragwelir yn y dyfodol, daw'r set ddiweddaraf o amcanestyniadau ar gyfer Cymru o Ragamcaniadau Hinsawdd y DU 2018 (gweler **Tabl 4.1** a **Thabl 4.2**)[22].

**Tabl 4.1: UKCP18 2040-2059 Tymheredd cymedrig - Newidiadau yn yr haf o'i gymharu â 1981-2000**

| | 10fed canradd | 50fed canradd | 90fed canradd |
|---|---|---|---|
| RCP8.5 | 0 - 1°C | 2 - 3°C | 3 - 4°C |
| RCP6.0 | 0 - 1°C | 1 - 2°C | 2 - 3°C |
| RCP4.5 | 0 - 1°C | 1 - 2°C | 2 - 3°C |
| RCP2.6 | 0 - 1°C | 1 - 2°C | 2 - 3°C |

**Tabl 4.2: UKCP18 2040-2059 Glawiad – Newidiadau yn y gaeaf o'i gymharu â 1981-2000**

| | 10fed canradd | 50fed canradd | 90fed canradd |
|---|---|---|---|
| RCP8.5 | -10 - 0% | 10 - 20% | 10 - 40% |
| RCP6.0 | -10 - 0% | 0 - 10% | 20 - 30% |
| RCP4.5 | -10 - 0% | 0 - 20% | 20 - 30% |
| RCP2.6 | -10 - 0% | 0 - 10% | 20 - 30% |

**4.7** Mae lleihau allyriadau $CO_2$ yn elfen allweddol o fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Ar ôl datgan argyfwng hinsawdd ym mis Medi 2020, ymrwymodd Cyngor Sir Ynys Môn i leihau'r defnydd o ynni ac allyriadau $CO_2$ ar draws ei eiddo, gyda'r nod o fod yn garbon niwtral erbyn 2030[23]. Mae'r amcangyfrifon diweddaraf o allyriadau $CO_2$ (2022)[24] yn dangos bod gan Gymru allyriadau uwch y pen na'r rhan fwyaf o ranbarthau eraill oherwydd mai ganddi hi y mae'r allyriadau uchaf y pen o'r sector diwydiannol (2.9 tCO2e y pen), sy'n adlewyrchu ei lefel uwch o osodiadau diwydiannol (gweler Ffigur 4.1). Fodd bynnag, fel y dangosir yn **Nhabl 4.3**, o'i gymharu â gweddill Cymru, mae allyriadau y pen Ynys Môn wedi bod yn gyson is ers 2005. Mae allyriadau $CO_2$ ar Ynys Môn wedi gostwng ychydig yn gyflymach nag ar draws Cymru gyfan, gyda gostyngiad o 85.33% (o'i gymharu â 52.27% yn genedlaethol) rhwng 2005 a 2022.[25]

[21] ASC (2016) *UK Climate Change Risk Assessment 2017 Evidence Report – Summary for Wales.* Adaptation Sub-Committee of the Committee on Climate Change, London.
[22] Met Office (2018) Climate change projections over land [online] Ar gael yn: https://www.metoffice.gov.uk/research/approach/collaboration/ukcp/summaries/climate-change-projections-over-land
[23] Cyngor Sir Ynys Môn (dim dyddiad) Newid yn yr hinsawdd. Ar gael yn: https://www.anglesey.gov.wales/en/Council/Climate-change.aspx
[24] Department for Energy Security & Net Zero (2024) UK local authority and regional carbon dioxide emissions national statistics: 2005 to 2022. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/media/667ad4f0aec8650b1008ffc6/local-authority-ghg-one-page-summary-2022.pdf
[25] Department for Energy Security & Net Zero (2024) UK local authority and regional carbon dioxide emissions national statistics: 2005 i 2022 Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/media/667ad5b45b0d63b556a4b305/2005-22-uk-local-authority-ghg-emissions.xlsx

**Tabl 4.3: Allyriadau $CO_2$ y pen ar Ynys Môn ac yng Nghymru 2005-2022**

| Blwyddyn | Allyriadau $CO_2$ y pen mewn tunelli | |
|---|---|---|
| | Ynys Môn | Cymru |
| 2005 | 10.7 | 11.1 |
| 2006 | 10.7 | 11.2 |
| 2007 | 10.5 | 11.0 |
| 2008 | 9.8 | 10.6 |
| 2009 | 8.7 | 9.1 |
| 2010 | 7.3 | 10.1 |
| 2011 | 6.5 | 9.1 |
| 2012 | 6.8 | 8.9 |
| 2013 | 6.4 | 9.7 |
| 2014 | 5.9 | 9.2 |
| 2015 | 5.7 | 8.7 |
| 2016 | 5.3 | 8.0 |
| 2017 | 5.1 | 7.8 |
| 2018 | 5.0 | 7.5 |
| 2019 | 4.9 | 7.4 |
| 2020 | 4.3 | 6.7 |
| 2021 | 4.6 | 7.1 |
| 2022 | 4.3 | 6.5 |

**4.8** Mae'r Llywodraeth yn cynhyrchu ffigurau blynyddol ar ddefnydd tir, newid defnydd tir a choedwigaeth (LULUCF) sy'n rhoi cipolwg ar werth tir ar Ynys Môn fel sinciau daearol sy'n gallu tynnu $CO_2$ o'r aer. Mae'r ffigurau hyn yn cyfrif am yr allyriadau net yn y Sir o ardaloedd o goedwigoedd, cnydau, glaswelltir, aneddiadau, mawndir, bio-ynni ac allyriadau 'eraill' nad ydynt yn perthyn i unrhyw un o'r categorïau hyn. Rhwng 2005 a 2022 bu gostyngiad yn allyriadau LULUCF net ar Ynys Môn o -9.7kt i -17.8kt. Er bod allyriadau net sy'n gysylltiedig ag aneddiadau yn y Sir wedi gostwng o 16.4kt i 10.6kt, tir cnydau o 16.4kt i 10.6kt a'r rhai sy'n gysylltiedig ag allyriadau 'eraill' o 4.1kt i 3.7kt yn ystod y cyfnod hwn, mae allyriadau net o dir coedwigoedd wedi codi o -49.0kt i -34.6kt ac allyriadau net sy'n gysylltiedig â glaswelltiroedd o 26.7kt i 25.2kt. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod yr ardal ar Ynys Môn sy'n cael ei gorchuddio gan goedwigoedd a glaswelltir sy'n gallu gweithredu fel sinc er budd storio $CO_2$ wedi gostwng yn ystod y cyfnod hwn. Mae allyriadau sy'n gysylltiedig â mawndir wedi aros yn gyson, gan gyfrif am 0.5kt o allyriadau, ac yn gyson ni fu unrhyw allyriadau o fio-ynni[26].

**4.9** Mae defnyddio a chynhyrchu ynni hefyd yn ffactor pwysig o ran lleihau allyriadau $CO_2$. Yn 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru darged i ddiwallu 70% o'i galw am ynni o ffynonellau ynni adnewyddadwy Cymru erbyn 2030. Mae'r ffigurau diweddaraf[27] yn dangos bod ffynonellau ynni adnewyddadwy, o ganlyniad i ostyngiad mewn cynhyrchu nwy ffosil, wedi cyfrannu 34% o'r holl drydan a gynhyrchwyd yng Nghymru yn 2023.

**4.10** Cynhyrchodd Cymru gyfanswm o 23.2 TWh o drydan yn 2023, gyda 7.8 TWh ohono yn dod o ynni adnewyddadwy a 15.4 TWh o danwydd ffosil (o 21.1 TWh yn 2022, sydd agosaf

[26] Ibid.

[27] Llywodraeth Cymru (2025) Cynhyrchu Ynni yng Nghymru: 2023. Ar gael yn: https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2025-02/energy-generation-in-wales-2023.pdf

at y lefelau isaf yn ystod y ddau ddegawd diwethaf). Amcangyfrifir bod Cymru wedi defnyddio oddeutu 14.8 TWh o drydan yn 2023. Mae hyn yn golygu bod Cymru wedi cynhyrchu bron i ddwywaith cymaint o drydan ag yr oedd yn ei ddefnyddio. O ganlyniad, mae Cymru'n parhau i fod yn allforiwr trydan net i weddill Prydain Fawr, Iwerddon a'r rhwydwaith trydan Ewropeaidd ehangach[28].

**4.11** Mae 68% o'r holl drydan adnewyddadwy sy'n cael ei gynhyrchu yng Nghymru yn dod o ynni gwynt ar y tir ac ar y môr, gyda'r rhan fwyaf o'r gweddill yn dod o ynni solar ffotofoltaig a chynhyrchu trydan biomas[29].

**4.12** Ddiwedd 2023, roedd gan Ynys Môn gyfanswm o 4,765 o osodiadau trydan adnewyddadwy. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn systemau ffotofoltaidd (4,725) gyda chapasiti wedi'i osod o 97.9MW, wedi'i ddilyn gan osodiadau gwynt ar y tir (37) gyda chapasiti wedi'i osod o 39.0MW a nifer fach o safleoedd unigol sy'n defnyddio treulio anaerobig, nwy tirlenwi a biomas planhigion, sy'n cyfrannu at gapasiti gosod cyfun o 3.1MW.[30] Mae hyn yn gyfanswm o 140MW o gapasiti wedi'i osod. Yn ôl yr adroddiad 'Cynhyrchu Ynni yng Nghymru' diweddaraf, mae Ynys Môn yn cyfrannu at oddeutu 2% o'r ynni adnewyddadwy a gynhyrchir yng Nghymru bob blwyddyn[31].

**4.13** Yn ddiweddar, cyhoeddodd Ynys Môn ei huchelgais ar gyfer 'Ynys Ynni', menter strategol sydd â'r nod o drawsnewid Ynys Môn yn ganolfan ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel, cefnogi twf economaidd, creu swyddi ac ymrwymiadau sero net Cymru. Mae'r rhaglen yn ceisio denu buddsoddiad gan y sector cyhoeddus a'r sector preifat i ddatblygu amrywiaeth o brosiectau ynni adnewyddadwy a charbon isel, gan gynnwys pŵer niwclear, hydrogen a datblygiadau gwynt ar y tir ac ar y môr.[32]

**4.14** Mae'r prosiect yn canolbwyntio'n bennaf ar ynni'r llanw ac ynni'r môr, yn enwedig drwy brosiect ynni'r llanw Morlais. Mae gan y fenter hon y potensial i gynhyrchu hyd at 240MW o drydan adnewyddadwy, gan ddarparu digon o bŵer ar gyfer dros 180,000 o gartrefi. Fodd bynnag, mae'r prosiect yn ymestyn y tu hwnt i gynhyrchu ynni, gan wasanaethu fel man profi ar gyfer technolegau ynni'r llanw arloesol. Nod prosiect Morlais yw hwyluso'r gwaith o ddatblygu, defnyddio ac optimeiddio systemau ynni'r llanw gan amrywiaeth o gwmnïau rhyngwladol, gan feithrin arloesedd o ran echdynnu ynni'r llanw yn effeithlon ac yn gynaliadwy[33].

**4.15** Mae perchnogaeth ceir a nifer y bobl sydd ag un neu fwy o geir fesul aelwyd wedi codi 3.1% ar Ynys Môn rhwng 2011 a 2021. Roedd cyfraddau perchnogaeth ceir yn 2021 yn uwch na chyfartaledd Cymru, gyda chyfartaledd o 85% o aelwydydd ar Ynys Môn ag un neu fwy o geir / faniau, o'i gymharu ag 80% yng Nghymru[34]. Mae'r ganran hon yn uwch yn ardaloedd mwy gwledig Ynys Môn, gan gyrraedd 95% o aelwydydd sy'n berchen ar gar o amgylch Llanfairynghornwy a Llanrhwydrys ac mae cyn lleied â 42% o aelwydydd yn berchen ar gar mewn Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is mewn ardaloedd mwy trefol fel Caergybi[35].

**4.16** Mae 86 o ddyfeisiau gwefru cerbydau trydan cyhoeddus ar gael ar Ynys Môn, sy'n cyfateb i 124.5 dyfais fesul 100,000 o bobl. Dim ond 8 dyfais chwim sydd ar Ynys Môn. Mae Ynys Môn yn y categori 20% i <40% o'r holl awdurdodau lleol ar gyfer cyfanswm dyfeisiau, ond yn yr 20% uchaf ar gyfer dyfeisiau fesul 100,000 o bobl[36]. Hyd at fis Mawrth 2024, mae'r rhwydwaith wedi darparu digon o seilwaith gwefru i arbed 221 tunnell o allyriadau carbon teithio, sy'n cyfateb i 1327 o goed – sy'n gyfraniad sylweddol at wella'r amgylchedd a thuag at garbon sero net[37].

### Perygl llifogydd

**4.17** Rhagwelir y bydd newid yn yr hinsawdd yn cynyddu amlder a dwysedd llifogydd, gan gynyddu'r risg ar Ynys Môn ac ar draws y DU. Gall llifogydd arwain at ganlyniadau difrifol gan gynnwys colli bywyd, niwed i'r economi, goblygiadau cymdeithasol a difrod amgylcheddol.

**4.18** Yn fwyaf diweddar, achosodd Stormydd Bert a Darragh ddifrod sylweddol ledled Cymru dros bythefnos ddiwedd 2024. Cafwyd llifogydd eang, tirlithriadau a gwyntoedd difrifol mewn trefi o Bontypridd i Gaergybi. O ganlyniad, cafwyd llifogydd mewn dros 700 eiddo ledled Cymru a chyrhaeddodd afonydd rai o'r lefelau uchaf a gofnodwyd. Roedd y stormydd hefyd wedi achosi difrod sylweddol i eiddo a seilwaith, gan gynnwys cyfleusterau angori ym Mhorthladd Caergybi, a orfodwyd i gau'n gyfan gwbl am dros fis ar ôl Storm Darragh[38].

---

[28] Ibid.
[29] Ibid.
[30] Department for Energy Security and Net Zero (2024) Renewable electricity by local authority 2014 – 2023. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/media/67226ea53ce5634f5f6ef5a1/Renewable_electricity_by_local_authority_2014_-_2023.xlsx#:~:text=Cover%20sheet&text=Revisions%20for%20previous%20years%20have,in%202019%2C%202021%20and%202022.&text=The%20data%20tables%20and%20accompanying,see%20LINK%20or%20contact%20EMAIL.
[31] Llywodraeth Cymru (2022) Cynhyrchu Ynni yng Nghymru: Ar gael yn: https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2023-11/energy-generation-in-wales-2022.pdf
[32] Ynni ar Ynys Môn (dim dyddiad) Ynys Ynni: Sefyllfa unigryw Ynys Môn. Ar gael yn: https://ynniarynysmon.cymru/energy-island
[33] Ibid.
[34] ONS (2024) 2021 Census: Car or van availability by household composition. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/datasets/RM008/editions/2021/versions/3
[35] ONS (2021) 2021 Census: Census Maps. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/census/maps/?lad=W06000001
[36] Department for Transport (2025) Electric vehicle charging devices by local authority. Ar gael yn: https://maps.dft.gov.uk/ev-charging-map/index.html
[37] Cyngor Sir Ynys Môn (2024) Tuag at Gynllun Sero Net 2023 – Adroddiad Blynyddol 2024. Ar gael yn: https://www.anglesey.gov.wales/documents/Docs-en/Council/Climate-change/Annual-report/Towards-Net-Zero-Plan-Annual-report-2023-to-2024.pdf
[38] Senedd Cymru – Ymchwil y Senedd (2025) Ar ôl y llifogydd: myfyrdod ar Stormydd Bert a Darragh. Ar gael yn: https://research.senedd.wales/research-articles/after-the-flood-reflecting-on-storms-bert-and-darragh/

**4.19** Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn 2020, gan ddisodli strategaeth 2011. Mae'r strategaeth ddiweddaraf yn nodi sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu rheoli'r risgiau a achosir gan lifogydd ac erydu arfordirol ledled Cymru ac mae'n nodi pum amcan allweddol i bob Awdurdod Rheoli Risg weithio tuag atynt. Mae'r amcanion hyn fel a ganlyn:

- Gwella ein dealltwriaeth o risg a chyfathrebu yn ei gylch
- Parodrwydd a meithrin gwytnwch
- Blaenoriaethu buddsoddiad i'r cymunedau sydd fwyaf mewn perygl
- Atal mwy o bobl rhag dod i gysylltiad â risg
- Darparu ymateb effeithiol a pharhaus i ddigwyddiadau

**4.20** Mae Ynys Môn yn cynnwys dalgylchoedd gweithredol Braint Cadnant Lleiniog, Cefni, Crigyll Caradog, Alaw Goch, Wygyr a Llugwy – Ynys Môn[39].

**4.21** Roedd NCT15 eisoes wedi nodi parthau llifogydd A, B, C, C1 ac C2 fel a ganlyn:

- Parth A: Ystyrir nad oes fawr ddim risg, os o gwbl, o lifogydd afonol neu lanwol/arfordirol. Mae'r parth hwn yn cynnwys pob ardal nad yw'n cael ei chydnabod fel Parth B/Parth C.
- Parth B: Ardaloedd y gwyddys eu bod wedi dioddef llifogydd yn y gorffennol, gyda thystiolaeth o ddyddodion gwaddodol.
- Parth C: Yn seiliedig ar amlinelliad Cyfoeth Naturiol Cymru o lifogydd eithafol, sy'n hafal i neu'n fwy na 0.1% (afon, llanwol neu arfordirol) (h.y. mwy nag 1 mewn 1,000 o debygolrwydd o lifogydd mewn unrhyw un flwyddyn). Mae'r parth hwn yn cael ei is-gategoreiddio ymhellach i barthau C1 a C2.
- Mae C1 yn ardaloedd o'r gorlifdir sy'n cael eu datblygu a'u gwasanaethu gan seilwaith sylweddol, gan gynnwys amddiffynfeydd rhag llifogydd.
- Mae C2 yn Ardaloedd o'r gorlifdir sydd heb seilwaith sylweddol i atal llifogydd.

**4.22** Mae'r ddogfen NCT15 ddiwygiedig (a ddaeth i rym ym mis Mawrth 2025) yn amlinellu manylion parthau llifogydd 1, 2 a 3, ynghyd â pharthau a amddiffynnir yn NCT15. Mae Parth Llifogydd 2 yn bwysig o safbwynt cynllunio gan ei fod yn sail i Barth C. Mae parth llifogydd 3 yn cyfeirio at dir datblygu agored iawn i niwed lle na chaniateir rhai datblygiadau oni bai eu bod yn hanfodol i Strategaeth y Cynllun Datblygu. Mae parthau a amddiffynnir yn NCT15 yn cyfeirio at ardaloedd sy'n cael eu gwarchod gan amddiffynfeydd rhag llifogydd sy'n bodloni safonau dylunio penodol. Mewn perthynas â'r system sy'n dilyn y cynllun:

- Ym Mharth 1: Dylai awdurdodau cynllunio flaenoriaethu pob math o ddatblygiad i Barth 1.
- Ym Mharth 2: Gellir dyrannu ar gyfer datblygu ac ailddatblygu unrhyw fannau gwan sy'n angenrheidiol i weithredu strategaeth CDLl, strategaeth i adfywio aneddiadau presennol neu i gyflawni amcanion economaidd neu amgylcheddol allweddol, ar yr amod bod Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd Strategol wedi nodi lefel dderbyniol o risg. Gellir dyrannu tir ym Mharth 2 hefyd ar gyfer datblygiadau newydd ac ailddatblygu sy'n mynd i'r afael ag anghenion diogelwch cenedlaethol neu ddiogelwch ynni, yn lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd, sy'n angenrheidiol i ddiogelu a hyrwyddo iechyd y cyhoedd neu y gall yr awdurdod cynllunio ddangos eu bod yn hanfodol i wireddu strategaeth y CDLl ar yr amod bod Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd wedi nodi lefel dderbyniol o risg. Ni ddylai datblygiadau ategol neu heb fod yn hanfodol gyd-fynd â seilwaith hanfodol o'r math hwn. Mae dylunio sy'n gallu gwrthsefyll llifogydd yn bwysicach ym Mharth 2 nag ym Mharth 1 a dylai awdurdodau ei wneud yn ofyniad drwy gynnwys polisïau CDLl priodol a defnyddio amodau cynllunio.
- Ym Mharth 3: Ni ddylid gwneud dyraniadau ar gyfer datblygiadau newydd sy'n agored iawn i niwed gan nad yw risgiau a chanlyniadau llifogydd yn cael eu hystyried yn dderbyniol ar gyfer y mathau hyn o ddatblygiadau. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid dyrannu ar gyfer datblygiadau newydd llai agored i niwed. Mae amgylchiadau eithriadol yn cynnwys mynd i'r afael ag anghenion diogelwch cenedlaethol neu ddiogelwch ynni, rhesymau iechyd y cyhoedd neu liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd sydd ag angen lleoli clir ac na ellir eu lleoli mewn mannau eraill.

**4.23** Mae ardaloedd o Barthau Llifogydd 2 a 3, yn ogystal ag ardaloedd lle mae perygl llifogydd (yn amrywio o risg uchel i risg isel) yn gysylltiedig â'r môr, afonydd, dŵr wyneb, cyrsiau dŵr a chronfeydd dŵr ledled Ynys Môn[40], fel y dangosir yn Ffigur 4.2.

**4.24** Mae'r Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd Strategol (SFCA) Cam 1 a gynhyrchwyd ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd[41] yn adolygu'r risg llifogydd ledled

[39]Cyfoeth Naturiol Cymru (2016) Crynodeb o Ddalgylch Rheoli Ynys Môn. Ar gael yn: https://naturalresources.wales/media/679396/2016_updated_ynys_mon_catchment_summary_nrw.pdf

[40]Cyfoeth Naturiol Cymru (2022) Mapiau Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol. Ar gael yn: https://flood-risk-maps.naturalresources.wales/?locale=en

[41]Uned ar y Cyd Gwynedd a Môn (2016) Papur Pwnc 8A: Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd (Cam 1). Ar gael yn:

Gwynedd ac Ynys Môn. Mae'n mapio risg llifogydd ar draws yr ardal o amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys afonydd a'r môr, dŵr wyneb, cyrsiau dŵr bach a dŵr daear. Mae'n mapio Parthau Llifogydd 2 a 3, fel y disgrifir uchod.

**4.25** Priodolir y rhan fwyaf o'r llifogydd ar yr ynys i lifogydd dŵr wyneb, sy'n achosi gorlwytho'r systemau carthffosydd presennol sy'n arbennig o gyffredin ym Miwmares, Caergybi, Dwyran a Llangefni. Mae Llangefni a Dwyran wedi'u lleoli ar afonydd ac mae'r risg llifogydd yma yn deillio o ddŵr ffo wyneb, systemau carthffosiaeth a llifogydd afon dan ddylanwad y llanw[42].

**4.26** Ar Ynys Môn, mae llifogydd a briodolir yn uniongyrchol i ddŵr daear yn anodd iawn i'w dosrannu gan fod llifogydd dŵr daear fel arfer yn digwydd ar y cyd â llifogydd afonol a glawol. Gan fod llifogydd dŵr daear yn digwydd mewn ardaloedd isel, mae'r math hwn o lifogydd fel arfer yn effeithio ar isloriau tai preswyl[43].

**4.27** O'i gymharu â chynghorau sir eraill, nifer cymharol isel o eiddo sydd mewn perygl o lifogydd ar Ynys Môn. Yn benodol, mae 150 eiddo â risg isel, 70 â risg ganolig ac 86 â risg uchel, sy'n dod i gyfanswm o 306 eiddo.[44]

**4.28** Mae Ynys Môn wedi datblygu Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Risg Llifogydd[45] gyda deg amcan manwl i leihau canlyniadau risg llifogydd. Mae'r rhain yn cynnwys defnyddio polisi cynllunio lleol i sicrhau nad oes risg llifogydd newydd yn cael ei greu a, lle bo hynny'n bosibl, bod cyfleoedd i leihau'r risg llifogydd yn cael eu cymryd.

**4.29** Mae nifer o strwythurau atal llifogydd ar Ynys Môn. Mae cynlluniau nodedig yn cynnwys:

- Morglawdd Caergybi
- Cynllun Rheoli Llifogydd Naturiol Dwyran
- Cynllun Lleihau Llifogydd Biwmares
- Gwaith Atal Llifogydd Llangefni

## Bioamrywiaeth a geoamrywiaeth

**4.30** Bioamrywiaeth yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio rhywogaethau bywyd gwyllt, eu cynefinoedd, a'r berthynas rhwng ecosystemau.

**4.31** Mae gan Ynys Môn lawer o rywogaethau a nifer o gynefinoedd blaenoriaeth. Mae'r rhain yn cynnwys gweundir iseldirol ac arfordirol, gwelyau cyrs, ffeniau, coetiroedd llydanddail, gwrychoedd hynafol a rhywogaeth-gyfoethog, pyllau ac ymylon ffyrdd sy'n gyforiog o flodau. Ar ben y rhain mae rhai o'r twyni tywod mwyaf helaeth yng Nghymru[46].

**4.32** Mae saith Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) ar y tir ar Ynys Môn ac un Ardal Cadwraeth Arbennig forol. Mae'r rhain wedi'u dynodi ar lefel Ewropeaidd ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau penodol:

- ACA Bae Cemlyn
- ACA Afon Menai Bae Conwy
- ACA Corsydd Môn
- ACA Llyn Dinam
- ACA twyni Abermenai - Aberffraw
- ACA morfa heli Arfordir Ynys Môn
- ACA Glantraeth
- ACA Glannau Ynys Gybi

**4.33** Mae pedair Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) ar Ynys Môn:[47]

- AGA Glannau Ynys Gybi
- AGA nythfeydd Môr-wenoliaid Gogledd Ynys Môn
- AGA Ynys Seiriol
- AGA Bae Lerpwl

**4.34** Ar Ynys Môn, mae corsydd Cors Erddreiniog, Cors Goch, Cors Bodeilio a Chors y Farl, ynghyd ag ardaloedd tebyg yng Nghors Geirch a Chors Hirdre ar Benrhyn Llŷn, yn ffurfio safle Ramsar Corsydd Môn a Llŷn[48].

**4.35** Mae Ardal Gwarchodaeth Forol (MPA) Gogledd Ynys Môn, sy'n ymestyn o Drearddur i Borth Eilian, wedi cael ei dynodi ar gyfer llamhidyddion. Mae llamhidyddion a dolffiniaid i'w gweld yn aml ar hyd y darn creigiog hwn o arfordir.[49]

**4.36** Mae 60 o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) â dynodiad cenedlaethol ar Ynys Môn. Mae rhai o'r rhain hefyd wedi'u dynodi'n safleoedd ACA/AGA/Ramsar.

**4.37** Mae chwe Gwarchodfa Natur Leol (LNR) ar Ynys Môn:

- Gwarchodfa Natur Leol Coed Cyrnol (Porthaethwy)

---

https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Council/Documents---Council/Strategies-and-policies/Environment-and-planning/Planning-policy/Supporting-documents/Topic-Paper-8A---SFCA-(PT.015).pdf
[42] Cyngor Sir Ynys Môn (2013) Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Risg Llifogydd Ynys Môn. Ar gael yn: https://www.anglesey.gov.wales/documents/Docs-en/Highways/Flooding/Anglesey-Local-Flood-Risk-Management-Strategy.pdf
[43] Ibid.
[44] Llywodraeth Cymru (2024) Eiddo â Risg o Lifogydd 2024. Ar gael yn: https://statswales.gov.wales/Catalogue/Environment-and-Countryside/Flooding/propertiesatriskofflooding2024
[45] Cyngor Sir Ynys Môn (2013) Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Risg Llifogydd Ynys Môn. Ar gael yn: https://www.anglesey.gov.wales/documents/Docs-en/Highways/Flooding/Anglesey-Local-Flood-Risk-Management-Strategy.pdf
[46] Cyngor Sir Ynys Môn (2021) Cynllun Bioamrywiaeth Corfforaethol 2021 – 2022. Ar gael yn: https://www.anglesey.gov.wales/documents/Docs-en/Biodiversity/Biodiversity-Plan.pdf
[47] Ibid.
[48] Ibid.
[49] Ibid.

- Gwarchodfa Natur Leol Y Dingl (Llangefni)
- Gwarchodfa Natur Leol Llandegfan
- Gwarchodfa Natur Leol Llangoed
- Gwarchodfa Natur Leol Llanddona
- Gwarchodfa Natur Leol Trwyn Wylfa (Cemaes)

**4.38** Mae ardaloedd o Goetir Hynafol wedi'u gwasgaru ledled Ynys Môn, gan gynnwys rhan helaeth o Warchodfa Natur Leol Nant y Dingl[50] a Choedwig a Gwarchodfa Natur Genedlaethol Niwbwrch.[51]

**4.39** Mae pedair gwarchodfa RSPB ar Ynys Môn:

- Ynys Lawd
- Llynnoedd y Fali
- Cors Malltraeth
- Ynysoedd y Moelrhoniaid

**4.40** Mae **Ffigur 4.3** yn dangos dosbarthiad safleoedd bioamrywiaeth a geoamrywiaeth dynodedig ar Ynys Môn.

### Rhywogaethau a warchodir a rhywogaethau â blaenoriaeth

**4.41** Mae presenoldeb rhywogaethau a warchodir yn ystyriaeth gynllunio berthnasol. Manylir ar rywogaethau o'r fath yn Neddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.[52]

**4.42** Cafodd y 'Cynllun Bioamrywiaeth Corfforaethol' (2021-2022)[53] ei gynhyrchu gan Gyngor Sir Ynys Môn yn 2021, ac mae'n canolbwyntio ar raglen ar gyfer gwarchod a gwella bioamrywiaeth Ynys Môn, gan restru'r cynefinoedd a'r rhywogaethau sydd o bwysigrwydd penodol i'r Ynys.

**4.43** Mae rhestr o rai rhywogaethau sy'n bwysig yn lleol i Ynys Môn ar gael yn y ddogfen. Mae rhai rhywogaethau nodedig yn cynnwys:

- Y Wiwer Goch
- Y Fôr-wennol
- Llamhidyddion
- Morloi
- Y Frân Goesgoch
- Madfallod y Tywod
- Dyfrgwn
- Madfall-ddŵr Gribog

**4.44** Mae'r Cynllun Bioamrywiaeth hefyd yn cydnabod cyfoeth planhigion prin yr ynys, fel blodyn y sir, y Cor-rosyn Rhuddfannog. Ar ben hynny, dim ond yn Ynys Lawd, ac yn unman arall yn y byd, y ceir Chweinllys Ynys Lawd. Mae planhigion eraill sy'n dirywio ar yr ynys yn cynnwys Camri, Y Fioled Welw a'r Tegeirian Llydanwyrdd Bach[54].

### Tirlun

**4.45** Ynys Môn yw'r mwyaf o ynysoedd Cymru, sy'n ymestyn dros oddeutu 720km2, ac mae'r Fenai'n ei gwahanu oddi wrth y tir mawr. Y prif drefi ar yr ynys yw Llangefni, Caergybi, Amlwch, Benllech, Porthaethwy a Llanfair PG. Yn gyffredinol, mae ei thopograffeg yn isel ac yn donnog, gyda brigiadau creigiog amlwg yma ac acw fel Ynys Gybi, Mynydd Parys, Mynydd Bodafon, Mynydd y Garn a Mynydd Llwydiarth. Mae'r tirffurf yn gogwyddo o'r dwyrain i'r gorllewin, gyda sawl ardal isel ar hyd yr arfordir gorllewinol, gan gynnwys Aberffraw, Cors Malltraeth a Thywyn Niwbwrch. Adlewyrchir y patrwm topograffig hwn yn aliniad gogledd-ddwyrain-de-orllewin cyrsiau dŵr yr ynys[55].

**4.46** Er gwaethaf ei chymeriad isel yn gyffredinol, mae gan Ynys Môn ddaeareg waelodol gymhleth sydd wedi'i siapio gan brosesau geomorffolegol fel rhewlifiant. Mae'r ynys yn cynnwys rhai o'r creigiau hynaf yng Nghymru a Phrydain, sy'n amlwg yn ei thopograffeg. Mae gorchudd coed yn brin ar y cyfan, er bod coetiroedd lled-naturiol hynafol i'w gweld ar hyd Afon Menai ac mae planhigfeydd helaeth yn bodoli o amgylch Mynydd Llwydiarth a Thywyn Niwbwrch.[56]

**4.47** Mae gan Ynys Môn hanes diwylliannol cyfoethog, gyda thystiolaeth o weithgarwch dynol yn ymestyn dros tua 8,000 o flynyddoedd. Mae'r ynys yn gartref i dros 200 o Henebion Rhestredig, yn amrywio o siambrau claddu o'r Oes Efydd i strwythurau canoloesol. Mae nodweddion tirwedd mwy diweddar yn cynnwys parciau cynlluniedig ystadau mawr fel Plas Newydd, prif lwybrau trafnidiaeth a datblygiadau diwydiannol, gan gynnwys pŵer niwclear a ffermydd gwynt.[57]

[50] Croeso i Fôn (dim dyddiad) Gwarchodfa Natur Leol y Dingl Ar gael yn: https://www.visitanglesey.co.uk/en-gb/explore/wildlife/dingle-local-nature-reserve#:~:text=Another%20name%20for%20the%20Dingle,literally%20means%20steep%20wooded%20valley.
[51] Cyfoeth Naturiol Cymru (dim dyddiad) Gwarchodfa Natur Genedlaethol a Choedwig Niwbwrch, Ynys Môn. Ar gael yn: https://naturalresources.wales/days-out/places-to-visit/north-west-wales/newborough/?lang=en
[52] UK Government (2000) Countryside and Rights of Way Act 2000.
[53] Cyngor Sir Ynys Môn (2021) Cynllun Bioamrywiaeth Corfforaethol 2021 – 2022. Ar gael yn: https://www.anglesey.gov.wales/documents/Docs-en/Biodiversity/Biodiversity-Plan.pdf
[54] Ibid.
[55] Cyngor Sir Ynys Môn (2011) Strategaeth Tirwedd Ynys Môn. Ar gael yn: https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Council/Documents---Council/Strategies-and-policies/Environment-and-planning/Planning-policy/Supporting-documents/Anglesey-Landscape-Strategy-Update-2011.pdf
[56] Ibid.
[57] Ibid.

**4.48** Dynodwyd arfordir Ynys Môn yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE), y cyfeirir ati bellach fel Tirwedd Genedlaethol, yn 1967 er mwyn gwarchod apêl esthetig ac amrywiaeth tirwedd a chynefinoedd arfordirol yr ynys rhag datblygiadau amhriodol. Mae'r Dirwedd Genedlaethol yn 221km2 sy'n cwmpasu traean o'r ynys, yn bennaf y llain arfordirol ond sydd hefyd yn cynnwys Mynydd Twr a Mynydd Bodafon[58].

**4.49** Mae tair rhan o arfordir agored, heb eu datblygu sydd wedi cael eu dynodi'n Arfordir Treftadaeth sy'n ymestyn ar hyd 50 km (31 milltir) o'r arfordir:[59]

- Gogledd Ynys Môn 28.6km (17 milltir) – clogwyni garw yn bennaf gyda baeau bach, gan gynnwys porthladd hanesyddol bwysig Cemaes, y gwaith brics ym Mhorth Wen a'r harbwr allforio copr ym Mhorth Amlwch.
- Mynydd Twr 12.9km (8 milltir) – gan gynnwys y goleudy eiconig ar Ynys Lawd a'r clogwyni sy'n eithriadol o bwysig ar gyfer adar môr sy'n bridio, yn enwedig gwylogod, llursod a phalod.
- Bae Aberffraw 7.7km (4.5 milltir) – traeth tywodlyd gydag ardal fawr o dwyni tywod yn gefn iddo. Arferai'r dref fach fod yn gartref i balas Brenhinoedd Gwynedd ac yn borthladd ffyniannus, gyda'r cyfan bellach yn llawn silt.

**4.50** Mae Ynys Môn wedi'i lleoli yn unedau morwedd cenedlaethol Gogledd Cymru a Bae Caernarfon ac mae'n cynnwys naw uned ranbarthol. Mae'r rhain yn cynnwys:[60]

- Pen y Gogarth i Ynys Seiriol
- Ynys Seiriol i Bwynt Lynas
- Pwynt Lynas i Drwyn Carmel
- Trwyn Carmel i Ynys Arw Mynydd Twr
- Ynys Arw Mynydd Twr i Benrhyn Mawr
- Culfor Ynys Gybi
- Penrhyn Mawr i Ben y Parc/Bae Malltraeth
- Afon Menai 13
- Bae Malltraeth i Drefor

**4.51** Mae Ardaloedd Cymeriad Tirwedd Cenedlaethol (NLCA) yn cael eu diffinio ar raddfa tirwedd eang ledled Cymru ac yn tynnu sylw at yr hyn sy'n gwahaniaethu un dirwedd oddi wrth y llall, gan gyfeirio at eu nodweddion naturiol, diwylliannol a chanfyddiadol sy'n unigryw yn rhanbarthol. Maent yn helpu i nodi sut mae'r dirwedd yn cael ei gweld a'i gwerthfawrogi gan bobl, gan ddarparu gwybodaeth hanfodol y gellir ei defnyddio i hysbysu'r broses o lunio cynlluniau a allai effeithio ar y dirwedd bresennol.

**4.52** Mae defnyddiau penodol yn cynnwys:

- Polisïau a phenderfyniadau cynllunio
- Astudiaethau sensitifrwydd a chapasiti
- Asesiadau o'r dirwedd a'r effaith weledol
- Creu lleoedd
- Strategaethau coedwigoedd a choetiroedd

**4.53** Mae Ynys Môn wedi'i rhannu rhwng NLCA01: Arfordir Ynys Môn a NLCA02: Mewndir Ynys Môn[61].

**4.54** Mae NLCA01: Arfordir Ynys Môn yn cynnwys holl ardaloedd arfordirol Ynys Môn, gan gynnwys Ynys Gybi. Dylanwadir ar siâp a ffurf yr arfordir gan ffawtiau daearegol o'r gogledd-ddwyrain i'r de-orllewin a mathau amrywiol o greigiau. Er bod llawer o Ynys Môn yn isel, mae hanner gogleddol yr ardal arfordirol yn cynnwys bryniau uwch, gyda Mynydd Twr yn sefyll fel yr un amlycaf, gyda'i lethrau agored, dan orchudd o rostir, yn disgyn yn serth i'r môr. Mae'r prifwyntoedd yn creu arfordir mwy agored yn y de-orllewin, lle mae môr-lynnoedd a systemau twyni sydd wedi'u datblygu'n sylweddol yn ymestyn i mewn i'r tir. Er bod llawer o hen aber Afon Cefni wedi cael ei adennill, mae'r lefelau arfordirol sy'n deillio o hyn yn parhau i fod yn nodwedd ddiffiniol o'r ardal cymeriad tirwedd hon[62].

**4.55** NLCA02: Mewndir Ynys Môn yw calon amaethyddol yr ynys, sy'n rhoi iddi'r enw, Môn Mam Cymru. Er mai tirwedd iseldirol ysgafn ydyw'n bennaf, mae ffawtliniau daearegol o'r de-orllewin i'r gogledd-ddwyrain yn dylanwadu ar amrywiadau mewn topograffeg, gan greu ambell fryn a brigiad creigiog. Mae'r dirwedd hefyd yn cynnwys sawl ffen ac ardaloedd helaeth o ddrymlinoedd, yn enwedig yn y gogledd a'r gorllewin. Ar wahân i wrychoedd, cloddiau, coedlannau cysgodol achlysurol ac ardaloedd o brysgwydd, mae gan y dirwedd gymeriad agored, bryniog a gwyntog. Dyma'r dirwedd iseldirol leiaf coediog yng Nghymru[63].

**4.56** Mae Strategaeth Tirwedd Ynys Môn[64], a ddiweddarwyd yn 2011, yn nodi Ardaloedd Cymeriad Tirwedd (LCA)

[58]Geoparc Byd-eang Geomôn (dim dyddiad) Bioamrywiaeth, Cadwraeth ac ardaloedd gwarchodedig. Ar gael yn: https://www.geomon.co.uk/geomon-unesco-global-geopark/biodiversity-conservation-and-protected-areas/
[59] Ibid.
[60] Ibid.
[61]Cyfoeth Naturiol Cymru (2023) Map NLCA. Ar gael yn: https://nrwcmsv13-a3hwekacajb3frbw.a02.azurefd.net/682542/nlca-map-and-names.pdf?rmode=pad&v=1d32570108590b0
[62]Cyfoeth Naturiol Cymru (2014) Arfordir Ynys Môn. Ar gael yn: https://nrwcmsv13-a3hwekacajb3frbw.a02.azurefd.net/682546/nlca01-anglesey-coast-description.pdf?rmode=pad&v=1d35c894417ed10
[63]Cyfoeth Naturiol Cymru (2014) Canol Ynys Môn. Ar gael yn: https://nrwcmsv13-a3hwekacajb3frbw.a02.azurefd.net/682548/nlca02-central-anglesey-description.pdf?rmode=pad&v=1d35c8bc5b10a80
[64]Cyngor Sir Ynys Môn (2011) Strategaeth Tirwedd Ynys Môn. Ar gael yn: https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Council/Documents---Council/Strategies-and-policies/Environment-and-planning/Planning-policy/Supporting-documents/Anglesey-Landscape-Strategy-Update-2011.pdf

ymhellach, sy'n rhannu'r Ynys rhwng 18 Ardal Cymeriad Tirwedd. Mae'r disgrifiadau hyn o gymeriadau yn fwy manwl na'r rhai a nodir ar lefel Genedlaethol.

**4.57** Mae Cynlluniau Datblygu Lleol yn cynnwys polisïau i warchod Ardaloedd Tirwedd Arbennig (SLA).. Yn 2012 comisiynodd Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (JPPU) Ynys Môn a Gwynedd LUC i gynnal adolygiad trylwyr o ddynodiadau tirwedd lleol (Ardaloedd Tirwedd Arbennig) yn y ddwy sir[65]. Mae Tabl 24 y CDLl ar y Cyd yn nodi bod chwe SLA ar Ynys Môn.[66] Cyflwynir lleoliad yr Ardaloedd Tirwedd Arbennig yn **Ffigur 4.4** ac amlinellir y disgrifiadau canlynol yn adolygiad LUC 2012.

- Cors Malltraeth a'r Cyffiniau
  - Corstir isel nodedig wedi'i adennill gyda chymeriad lled-naturiol, gwledig cryf, sy'n cynnwys caeau rheolaidd, brigiadau craig a choetir. Mae ganddo werth tirwedd uchel (Eithriadol ar gyfer Tirweddau Hanesyddol), mae'n cynnig golygfeydd o Eryri ac yn cyfrannu at gyd-destun gweledol Tirwedd Genedlaethol Ynys Môn.
- Tiroedd Ystâd Parciau
  - Parcdir nodedig a thirwedd ystâd a reolir gyda thawelwch sylweddol a chymeriad cydlynol. Mae wedi'i boblogi'n ysgafn, mae wedi cael sgôr 'Rhagorol' fel Tirwedd Hanesyddol ac mae'n osodiad ar gyfer Tirwedd Genedlaethol Ynys Môn a ffordd arfordirol yr A5025.
- Mynydd a Llethrau Parys
  - Mae Mynydd Parys yn nodwedd unigryw sy'n amlwg yn weledol yng ngogledd Ynys Môn, gydag arwyddocâd diwylliannol uchel a thirwedd liwgar ac unigryw wedi'i siapio gan ddaeareg a defnydd tir. Mae'n sgorio'n uchel ar draws agweddau LANDMAP ('Rhagorol' ar gyfer Gweledol a Synhwyraidd) ac mae'n rhan allweddol o osodiad Tirwedd Genedlaethol Ynys Môn, gyda rhyngwelededd cryf rhwng y mynydd, yr arfordir a'r môr.
- Mynydd Mechell a'r Cyffiniau.
  - Tirwedd wyllt, unigryw gyda rhostir, tir pori garw, brigiadau creigiog a thopograffi bryniog, gan greu ymdeimlad o lonyddwch mewn man anghysbell. Mae'n sgorio'n uchel ar draws agweddau LANDMAP, mae'n rhan o osodiad y Dirwedd Genedlaethol yn y gorllewin ac mae'n wynebu pwysau gan ffermydd gwynt cyfagos sy'n wahanol i'w gymeriad lled-naturiol, ar raddfa fach.
- Llethrau Coed Biwmares a Dyffryn Llangoed
  - Tirwedd nodedig o lethrau coediog a thir bugeiliol bryniog, gan gynnwys Gwarchodfa Natur Comin Llanddona, sy'n cynnig llonyddwch cymharol ger Biwmares, Llangoed a Llanddona. Wedi'i sgorio'n 'Rhagorol' fel Tirwedd Diwylliannol, gyda dyfnder amser cryf, coetir llydanddail prin, rhyngweledd ag Afon Menai ac Eryri ac o dan bwysau gan ddatblygiadau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth.
- Tiroedd Ystâd De Ynys Môn
  - Ardal o gymeriad ystâd cryf, sy'n gysylltiedig ag ystâd Ardalydd Ynys Môn, sy'n gefndir uniongyrchol i Dirwedd Genedlaethol Ynys Môn a'r Fenai. Wedi'i sgorio'n 'Rhagorol' fel Tirwedd Hanesyddol ac yn 'Uchel' fel Tirwedd Diwylliannol. Mae'n wynebu pwysau o ganlyniad i ddatblygu ynni gwynt.

**4.58** Mae Ardaloedd Tirwedd Arbennig wedi cael eu dynodi i ddiogelu ardaloedd o ansawdd tirwedd uchel ar Ynys Môn. Defnyddir methodoleg y cytunir arni'n rhanbarthol wrth bennu dynodiad y tirweddau hyn, ond cynhelir yr asesiadau ar lefel leol.

**4.59** Er mwyn diogelu nodweddion gweledol Ardaloedd Tirwedd Arbennig, mae'n rhaid i gynigion datblygu mewn Ardaloedd Tirwedd Arbennig gydymffurfio â'r safonau dylunio uchaf posibl.

### Ansawdd dŵr

**4.60** Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD) yn darparu fframwaith trosfwaol mawr ar gyfer rheoli basnau afonydd ac mae'n nodi dull strategol o gynllunio i reoli risg llifogydd. Diben y Gyfarwyddeb yw sefydlu fframwaith ar gyfer diogelu dyfroedd wyneb mewndirol (afonydd a llynnoedd), dyfroedd aberol, dyfroedd arfordirol a dŵr daear. Mae dŵr daear yn adnodd naturiol pwysig sy'n cynnal llif afonydd yn ogystal ag amrywiaeth ecolegol mewn afonydd, llynnoedd a gwlypdiroedd. Mae hefyd ar gael i'w ddefnyddio, ledled y Deyrnas Unedig, ar gyfer cyflenwi dŵr drwy echdynnu o dyllau turio, ffynhonnau a tharddelloedd.

**4.61** Nid oes unrhyw Barthau Gwarchod Tarddiad Dŵr yn Ynys Môn.

**4.62** Mae Ynys Môn yn rhan o Ardal Basn Afon (RBD) Gorllewin Cymru. Yn unol â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr,

[65] LUC (2012) Adolygiad o Ardaloedd Tirwedd Arbennig yng Ngwynedd a Môn. Ar gael yn: https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Council/Documents---Council/Strategies-and-policies/Environment-and-planning/Planning-policy/Supporting-documents/Review-of-SLAs-in-Gwynedd-and-Anglesey-(DC.008).pdf

[66] Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd (2016) Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd 2011 - 2026. Ar gael yn: https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Council/Documents---Council/Strategies-and-policies/Environment-and-planning/Planning-policy/Anglesey-and-Gwynedd-Joint-Local-Development-Plan-Written-Statement.pdf

mae Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd (RBMP) ar gyfer pob RBD yn cael eu paratoi ar gyfer llywodraethau lleol sy'n ymwneud â rheoleiddio, gweithredu, dylanwadu ac ymgymryd â phrosiectau yn yr RBD. Yn ôl y Cynllun Rheoli Basn Afon ar gyfer RBD Gorllewin Cymru[67], mae 566 o gyrff dŵr ym masn yr afon, ac mae 232 ohonynt â statws ecolegol da, 256 yn gymedrol, 48 yn wael a thri yn ddrwg. Mae gan 496 statws cemegol da ac mae 45 yn methu o ran eu statws cemegol.

### Adnoddau dŵr

**4.63** Mae Strategaeth Rheoli Echdynnu Dŵr Ynys Môn (2015)[68] yn nodi sut bydd adnoddau dŵr yn cael eu rheoli yn nalgylchoedd afonydd Ynys Môn. Mae'r Strategaeth yn nodi lle mae dŵr yn debygol o fod ar gael i'w echdynnu yn nalgylchoedd prif afonydd Ynys Môn. Mae'n nodi bod dŵr ar gael yn nalgylchoedd Braint, Crigyll a Than yr Allt ac nad oes dŵr ar gael yn nalgylchoedd Alaw a Chefni.

**4.64** Ers mis Ionawr 2018, mae'r rhan fwyaf o esemptiadau tynnu dŵr (os yw dros 20 metr ciwbig y dydd) wedi cael eu dileu. Mae hyn yn cynnwys echdynnu dŵr mewn ardaloedd a oedd wedi'u hesemptio o'r blaen. Erbyn hyn, mae angen trwydded ar gyfer y rhan fwyaf o waith echdynnu dŵr er mwyn parhau i echdynnu dŵr yn gyfreithiol.[69]

**4.65** Ar hyn o bryd, mae dŵr gwastraff ar Ynys Môn yn cael ei drin gan 29 o weithfeydd trin dŵr gwastraff (WwTW) sy'n eiddo i Dŵr Cymru ac yn cael eu gweithredu ganddo. Mae'r rhain wedi'u rhannu rhwng WwTWs bach sy'n gwasanaethu poblogaeth o dan 2,000 a WwTWs maint llawn sy'n gwasanaethu poblogaeth o fwy na 2,000.

### Mannau agored

**4.66** Cynhaliwyd yr Asesiad Mannau Agored diweddaraf[70] yn 2016. Nododd yr astudiaeth hon, ar wahân i Langefni, nad oes anheddiad ar Ynys Môn sy'n cwrdd yn llawn â'r holl dargedau ar gyfer darparu mannau agored. Mae hyn yn arbennig o wir mewn aneddiadau mwy fel Caergybi a Phorthaethwy. Caergybi, sydd â'r boblogaeth uchaf, sy'n wynebu'r diffygion mwyaf, yn enwedig o ran cyfleusterau chwaraeon awyr agored (12.34 ha 'gwirioneddol' o'i gymharu â tharged o 19.71 ha) a chaeau chwarae (11.26 ha 'gwirioneddol' o'i gymharu â tharged o 14.78 ha). Fodd bynnag, mae ganddi'r arwynebedd lle chwarae mwyaf i blant (17.28 ha 'gwirioneddol' yn erbyn targed o 9.85 ha).

**4.67** Patrwm cyson ar draws Ynys Môn yw tan-ddarpariaeth cyfleusterau chwaraeon a chaeau chwarae. Mae hyn yn fwyaf nodedig mewn aneddiadau fel Biwmares a Rhosneigr. Er ei bod yn bosibl bod mynediad anffurfiol i gefn gwlad agored mewn aneddiadau gwledig, mae darparu mannau hamdden dynodedig yn parhau i fod yn broblem.

### Ansawdd aer

**4.68** Cyflwynodd Deddf yr Amgylchedd 1995 y gofyniad i awdurdodau lleol benderfynu a yw'n debygol y rhagorir ar amcanion ansawdd aer statudol (AQO). Mae pob awdurdod lleol bellach yn adrodd i Lywodraeth Cymru yn flynyddol ac mae ganddynt ddyletswydd i ddatgan Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer (AQMA) a datblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella ansawdd aer os yw'n debygol y rhagorir ar yr amcanion.

**4.69** Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi dangosyddion cenedlaethol i'w cymhwyso er mwyn mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant. Dangosydd cenedlaethol rhif 4 yw lefel y llygredd nitrogen deuocsid (NO2) yn yr aer. Mae'r Dangosydd Cenedlaethol yn sbarduno dull amgen o leihau baich gyda'r nod o sicrhau gostyngiad yn y lefel gyffredinol o NO2 wedi'i bwysoli gan boblogaeth, y mae poblogaeth yn cael ei amlygu iddo. Mae dull gweithredu ar gyfer sicrhau aer glanach yng Nghymru wedi'i nodi yng Nghynllun Aer Glân Cymru sy'n cynnwys nifer o gamau gweithredu i alluogi dulliau cydweithredol o leihau llygredd aer[71].

**4.70** Nid oes Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer ar Ynys Môn ar hyn o bryd.[72]

### Sŵn

**4.71** Derbyniwyd cyfanswm o 20,445 o gwynion ynghylch sŵn gan awdurdodau lleol yng Nghymru yn 2019/20, sef 65 o gwynion am bob 10,000 o'r boblogaeth. Dim ond 67 o'r rhain oedd ar Ynys Môn – yr isaf o'r holl awdurdodau.[73]

[67]Cyfoeth Naturiol Cymru (2022) Cynllun Rheoli Basn Afon Gorllewin Cymru 2021 – 2027 Crynodeb. Ar gael yn: https://naturalresources.wales/media/695227/western-wales-rbmp-2021_2027-summary.pdf
[68]Cyfoeth Naturiol Cymru (2015) Strategaeth Rheoli Echdynnu Dŵr Dalgylch Ynys Môn. Ar gael yn: https://cdn.cyfoethnaturiol.cymru/674754/anglesy_cams_2015_english.pdf?mode=pad&rnd=131596369485030000
[69]Cyfoeth Naturiol Cymru (2024) Dŵr ar gael yn ein dalgylchoedd. Ar gael yn: https://naturalresources.wales/about-us/what-we-do/our-roles-and-responsibilities/water/water-available-in-our-catchments/?lang=en#:~:text=From%201%20January%202018%2C%20most,be%20downloaded%20from%20Gov.uk.
[70]Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd (2016) Papur Pwnc 14: Asesiad Mannau Agored. Ar gael yn: https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Council/Documents---Council/Strategies-and-policies/Environment-and-planning/Planning-policy/Supporting-documents/Topic-Paper-14A---Open-Space-Assessment-(PT.025).pdf
[71]Llywodraeth Cymru (2020) Cynllun Aer Glân Cymru
[72]Ansawdd Aer yng Nghymru (2025) Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer. Ar gael yn: https://www.airquality.gov.wales/laqm/air-quality-management-areas
[73] Chartered Institute of Environmental Health (2021) CIEH Noise Survey 2019/20 Report on findings – Wales. Ar gael yn: https://www.cieh.org/media/6318/wales-noise-survey-2019-2020.pdf

**4.72** Mae **Ffigurau 4.6 a 4.7** yn mapio lefelau sŵn ar draws Ynys Môn yn ystod y dydd a'r nos. Gellir gweld bod ardaloedd sy'n profi lefelau sŵn uwch yn cyfateb i'r prif ffyrdd strategol. Fodd bynnag, nid yw llygredd sŵn wedi'i gyfyngu i'r rhwydwaith ffyrdd a dylid hefyd ystyried sŵn wrth ystyried cynigion datblygu ger ffynonellau sŵn eraill. Gall y rhain gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ystadau diwydiannol a diwydiant, canolfannau siopa/archfarchnadoedd a lleoliadau adloniant. Yn benodol, gall sŵn gael ei chwyddo gan dopograffeg ardal.

**4.73** O ystyried natur llawer o ardaloedd lle mae llygredd sŵn yn gyffredin (h.y. y rhai y mae'r rhwydwaith ffyrdd strategol yn effeithio arnynt), mae angen ystyried y potensial i lygredd aer effeithio'n niweidiol ar yr ardaloedd hyn hefyd.

### Ansawdd pridd

**4.74** Mae'r system Dosbarthiad Tir Amaethyddol (ALC) yn darparu fframwaith ar gyfer dosbarthu tir yn ôl i ba raddau y mae ei nodweddion ffisegol neu gemegol yn gosod cyfyngiadau tymor hir ar ddefnydd amaethyddol. Y prif ffactorau sy'n dylanwadu ar gynhyrchu amaethyddol yw hinsawdd, safle a phridd. Mae'r ffactorau hyn, ynghyd â'r rhyngweithio rhyngddynt, yn sail ar gyfer dosbarthu tir yn un o bum gradd, lle mae Gradd 1 yn disgrifio tir fel rhagorol (tir o ansawdd a photensial amaethyddol uchel) ac mae Gradd 5 yn disgrifio tir fel tir gwael iawn (tir o ansawdd a photensial amaethyddol isel). Ystyrir bod tir sydd y tu allan i'r sgoriau hyn yn dir sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion heblaw amaethyddiaeth yn bennaf, neu'n dir sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion trefol yn bennaf.[74]

**4.75** Mae polisi cynllunio yn diffinio graddau 1 i 3a fel y tir amaethyddol 'gorau a mwyaf amlbwrpas'. Mae hyn yn oddeutu 10 - 15% o dir Cymru. Dylai ceisiadau cynllunio a chynlluniau datblygu lleol gynnwys tystiolaeth arolwg pan fyddant yn cwmpasu tir gradd 1, 2 neu 3a.[75] Nid oes unrhyw dir Gradd 1 ar Ynys Môn, ond mae cyfran sylweddol o'r Ynys yn dir Gradd 2 a Gradd 3a, fel y dangosir yn **Ffigur 4.8**.

#### Mawndir

**4.76** Mae mawndir yng Nghymru yn cwmpasu tua 4.3% o fas y tir, sy'n cyfateb i tua 90,000 hectar. Dyma'r storfa ecosystem ddaearol fwyaf o garbon yng Nghymru. Fodd bynnag, oherwydd gweithgarwch pobl, credir erbyn hyn ei fod yn allyrrydd Nwyon Tŷ Gwydr (GHG).

**4.77** Mae meysydd polisi sy'n ymwneud â chynnal mawndiroedd ar Ynys Môn ac yng Nghymru'n ehangach yn cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd ac addasu iddynt.
- Lliniaru a lleihau risg llifogydd.
- Gwarchod a gwella bioamrywiaeth.
- Diogelu ansawdd a swm adnoddau dŵr.
- Hyrwyddo defnydd effeithlon o dir, priddoedd a mwynau.

**4.78** Mae Rhaglen Monitro a Gwerthuso Glastir (GMEP) yn darparu data ar fawndiroedd Cymru. Fodd bynnag, mae'r wybodaeth sydd ar gael am y rhaglen yn dangos nad yw wedi cael ei chynnal ers 2016.

**4.79** Lansiwyd Porth Data Mawndiroedd Cymru ym mis Ebrill 2022 ac mae'n cynnwys gwybodaeth am hyd a lled a dyfnder mawndiroedd yng Nghymru, gan gynnwys faint o garbon maen nhw'n ei storio ac amcangyfrif o'r carbon sy'n cael ei ryddhau i'r atmosffer pan fyddan nhw mewn cyflwr gwael. Mae'r porth yn dangos bod gan Ynys Môn bocedi bach o fawndir wedi'u gwasgaru dros yr Ynys. Gall rhai ardaloedd o fawndir fod hyd at 120cm o drwch ac mae ganddynt stoc carbon yn yr ystod canolig o rhwng 100.1 a 200.0 kg/m2 o garbon.[76]

### Amgylchedd Hanesyddol

**4.80** Mae'r Gofrestr Tirweddau Hanesyddol yng Nghymru (RHLW) yn ganllaw cynghori anstatudol a ddefnyddir i helpu Awdurdodau Lleol o ran faint o bwys i'w roi ar wybodaeth yn y gofrestr hanesyddol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae 'Penmon[77]' ac 'Amlwch a Mynydd Parys'[78] wedi'u cynnwys fel dwy o'r Ardaloedd Cymeriad Tirwedd Hanesyddol hyn.

**4.81** Mae Penmon, sydd wedi'i leoli ar ben de-ddwyreiniol Ynys Môn, yn ardal hanesyddol ac archeolegol arwyddocaol gyda threftadaeth gyfoethog sy'n ymestyn o'r cyfnod cynhanesyddol i'r oes fodern. Mae'n cynnwys clogwyni calchfaen dramatig, safleoedd mynachaidd canoloesol a strwythurau amddiffynnol pwysig, gan gynnwys bryngaer Oes

[74] Llywodraeth Cymru (2019) Dosbarthiad tir amaethyddol: map rhagfynegi. Ar gael yn: https://www.gov.wales/agricultural-land-classification-predictive-map#:~:text=grade%201%3A%20excellent%20quality%20agricultural,3b%3A%20moderate%20quality%20agricultural%20land
[75] Llywodraeth Cymru (2019) Dosbarthiad tir amaethyddol: map rhagfynegi. Ar gael yn: https://www.gov.wales/agricultural-land-classification-predictive-map#:~:text=grade%201%3A%20excellent%20quality%20agricultural,3b%3A%20moderate%20quality%20agricultural%20land
[76] Cyfoeth Naturiol Cymru (2022) Porth Data Mawndiroedd Cymru. Ar gael yn: https://experience.arcgis.com/experience/d18ef8c74ecc4dc4a0cbf71ab6935ba0
[77] Llywodraeth Cymru (2001) Adroddiadau Llawn o Dirweddau Hanesyddol Cofrestredig Penmon. Ar gael yn: https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/historiclandscape/FullReport?lang=en&id=HLW%20(Gw)%2015
[78] Llywodraeth Cymru (2001) Adroddiadau Llawn o Dirweddau Hanesyddol Cofrestredig Amlwch a Mynydd Parys Ar gael yn: https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/historiclandscape/FullReport?lang=en&id=HLW%20(Gw)%201

yr Haearn o'r enw Bwrdd Arthur a Chastell anorffenedig Biwmares, 'pinacl pensaernïaeth filwrol ganoloesol yng Nghymru'. Mae treftadaeth grefyddol a diwylliannol i'w gweld mewn ardaloedd yn Llanddona, Llangoed, Llaniestyn ac Ynys Seiriol, ac mae gweithgarwch diwydiannol, gan gynnwys chwarela calchfaen, wedi siapio'r dirwedd. Chwaraeodd yr ardal ran strategol mewn masnach a llywodraethu, gyda Llanfaes a Biwmares yn ddiweddarach yn gwasanaethu fel aneddiadau pwysig.

**4.82** Mae Mynydd Parys, yng ngogledd ddwyrain Ynys Môn, yn safle mwyngloddio copr hanesyddol arwyddocaol a oedd y mwyaf yn y byd yn ystod y 18fed a'r 19eg ganrif, gan drawsnewid tref gyfagos Amlwch yn ganolfan fasnachu bwysig. Mae gan y mwyngloddiau brig enfawr, sy'n adnabyddus am eu hymddangosiad 'fel lleuad' trawiadol a diffaith, dystiolaeth o echdynnu copr sy'n dyddio'n ôl i'r Oes Efydd. Cyrhaeddodd gweithrediadau mwyngloddio eu hanterth yn y 1780au, gan gyflogi miloedd a chyflenwi marchnadoedd byd-eang, cyn arafu yn y 19eg ganrif oherwydd cystadleuaeth dramor. Mae'r dirwedd wedi cadw nodweddion archeolegol diwydiannol, gan gynnwys lloriau trin ac odynau.

**4.83** Mae deg Parc a Gardd Hanesyddol ar Ynys Môn[79]. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Bodowen
- Bodorgan
- Carreglwyd
- Cestyll
- Llanidan
- Plas Berw
- Plas Gwyn
- Plas Newydd
- Plas Rhianfa
- Tŷ Fry

**4.84** Mae 1,125 o adeiladau rhestredig ar draws Ynys Môn, gyda 39 yn rhai Gradd I. Mae 100 yn rhai rhestredig Gradd II* ac mae 986 yn rhai Gradd II[80]. Maent wedi'u dosbarthu'n weddol gyfartal ar draws Ynys Môn er bod crynodiadau o gwmpas trefi fel Caergybi, Biwmares ac Amlwch, fel y gellid disgwyl. Dangosir y patrwm hwn yn **Ffigur 4.9**, sy'n dangos nodweddion treftadaeth dynodedig ar draws Ynys Môn a'r awdurdod lleol cyfagos.

**4.85** Mae 12 Ardal Gadwraeth ar Ynys Môn hefyd, wedi'u dosbarthu ar draws yr Ynys[81].

**4.86** Mae 432 o Henebion Cofrestredig ar Ynys Môn, gan gynnwys asedau hanesyddol fel cestyll, bryngaerau a charneddau.

**4.87** Mae Ynys Môn hefyd yn cynnwys nifer o asedau treftadaeth heb eu dynodi sydd hefyd yn cyfrannu at ymdeimlad o le a gwerth yr Ynys. Manylir ar y rhain yn y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol.

**4.88** adeiladau rhestredig mewn perygl

### Adnoddau mwynau

**4.89** Mae pedair chwarel agregau gweithredol ar Ynys Môn, gan gynnwys Chwarel Gwalchmai a Chwarel Gwyndy.

**4.90** O ran angen economaidd, ni fu cloddio am fetel ar Ynys Môn ers y 1800au. Mae Mynydd Parys ger Amlwch yn fwynglawdd polymetalig mawr sydd wedi cael ei weithio'n helaeth dros sawl canrif ac mae gwaith yno yn dyddio'n ôl i'r Oes Efydd. Yn fwy diweddar, rhoddwyd caniatâd cynllunio i ddatblygu mwynglawdd modern ar y safle i gynnwys tyllu siafftiau, adeiladu gwaith prosesu a gwaredu gwastraff. Mae'r gweithgarwch hwn bellach wedi'i atal, er bod archwilio ac ymchwilio daearegol yn parhau i ddigwydd. Ddiwedd 2024, cymeradwyodd Cyngor Sir Ynys Môn Adroddiad Cwmpasu Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer mwynglawdd Mynydd Parys. Amcan y cynnig yw defnyddio'r safle fel mwynglawdd metel, drwy ddulliau tanddaearol. Nid yw pris presennol metelau'n ffafrio cynhyrchu er ei bod yn anodd rhagweld sut y bydd argaeledd byd-eang a phris metelau'n amrywio yn y dyfodol.[82]

**4.91** O ran mwynau nad ydynt yn fwynau ynni, mae Polisi Cynllunio Mwynau Cymru[83] yn pwysleisio y dylai polisïau a chynigion mewn cynlluniau datblygu nodi'n glir ble y dylid cloddio am fwynau neu ble y mae cloddio am fwynau yn fwyaf tebygol o ddigwydd. Mae gan Ynys Môn nifer o Ardaloedd Diogelu Mwynau, yn bennaf ar gyfer cerrig mâl. Rôl Ardaloedd Diogelu Mwynau yw tynnu sylw'r rheini sy'n cynnig safleoedd i'w datblygu yn y dyfodol at bresenoldeb adnoddau mwynau gwerthfawr na fyddent efallai wedi'u hystyried fel arall.

[79]Cadw (2025) Chwilio drwy gofnodion Cadw. Ar gael yn: https://cadw.gov.wales/advice-support/cof-cymru/search-cadw-records
[80] Ibid,
[81]Cyngor Sir Ynys Môn (dim dyddiad) Ble mae'r ardaloedd cadwraeth? Ar gael yn: https://www.anglesey.gov.wales/en/Residents/Planning-building-control-and-conservation/Built-and-natural-environment/Conservation-areas/Where-are-the-conservation-areas.aspx
[82]Uned ar y Cyd Gwynedd a Môn (2016) Papur Pwnc 11A: Mwynau. Ar gael yn: https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Council/Documents---Council/Strategies-and-policies/Environment-and-planning/Planning-policy/Supporting-documents/Topic-Paper-11A---Minerals-(PT.022).pdf
[83]Llywodraeth Cymru (dim dyddiad) Polisi a chanllawiau cynllunio: mwynau a mwyngloddio. Ar gael yn: https://www.gov.wales/planning-policy-and-guidance-minerals-and-mining

**4.92** Mae paragraff 5.10.17 Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 12)[84] yn datgan nad yw diogelu adnoddau glo sylfaenol yn ofyniad ond y gellir ei weithredu yn ôl disgresiwn yr awdurdod cynllunio lleol. Bydd y penderfyniad ynghylch a ddylid parhau i ddiogelu'r mwynau hyn yn cael ei ystyried fel rhan o'r gwaith o baratoi'r CDLl. Pe bai Cyngor Sir Ynys Môn yn dewis parhau i ddiogelu adnoddau glo, mae Polisi Cynllunio Cymru yn mynnu bod y Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys polisïau priodol gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â pholisi cyn echdynnu.

## Gwastraff

**4.93** Ar hyn o bryd mae dwy Ganolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref ar Ynys Môn, yn ogystal â 13 o fanciau ailgylchu (Canolfannau SORT) sy'n casglu amrywiaeth o ddeunyddiau gan gynnwys papur, gwydr, caniau a thecstilau.[85] Mae **Tabl 4.6** yn dangos faint o wastraff sy'n cael ei ailgylchu a faint o ynni sy'n cael ei adfer ar Ynys Môn.[86] Yn 2023/24, roedd 64.7% o'r holl wastraff ar Ynys Môn naill ai wedi cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio; i fyny o 55.2% yn 2012/13.[87]

[84]Llywodraeth Cymru (2024) Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 12). Ar gael yn: https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2024-07/planning-policy-wales-edition-12.pdf
[85]Cyngor Sir Ynys Môn (dim dyddiad) Canolfannau ailgylchu a banciau ailgylchu. Ar gael yn: https://www.anglesey.gov.wales/en/Residents/Bins-and-recycling/Recycling-centres-and-recycling-banks/Section.aspx
[86]StatsCymru (2025) Gwastraff blynyddol a gesglir i'w ailddefnyddio/ailgylchu/compostio (tunelli) yn ôl deunydd a ffynhonnell. Ar gael yn: https://statswales.gov.wales/Catalogue/Environment-and-Countryside/Waste-Management/Local-Authority-Municipal-Waste/annualwastereusedrecycledcomposted-by-material-source-year
[87]StatsCymru (2025) Cyfraddau ailddefnyddio/ailgylchu/compostio blynyddol yn ôl awdurdod lleol. Ar gael yn: https://statswales.gov.wales/Catalogue/Environment-and-Countryside/Waste-Management/Local-Authority-Municipal-Waste/annualreuserecyclingcompostingrates-by-localauthority-year

**Tabl 4.4: Gwastraff blynyddol a gesglir i'w ailddefnyddio/ailgylchu/compostio (tunelli) ar Ynys Môn**

| Blwyddyn | Gwastraff trefol (wedi'i ailddefnyddio/ailgylchu) | Gwastraff trefol (wedi'i gompostio) | Cyfanswm gwastraff trefol (a gynhyrchwyd/casglwyd) |
|---|---|---|---|
| 2016/17 | 10863 | 9,668 | 38,831 |
| 2017/18 | 10988 | 10,100 | 37,562 |
| 2018/19 | 10773 | 9,008 | 36,134 |
| 2019/20 | 10895 | 9,363 | 36,360 |
| 2020/21 | 8480 | 9,962 | 35,116 |
| 2021/22 | 10187 | 8,084 | 35,603 |
| 2022/23 | 9647 | 7,215 | 32,845 |
| 2023/24 | 9469 | 7,591 | 33,901 |

**4.94** Mae dau safle tirlenwi anadweithiol ar Ynys Môn (Chwarel Ruddlan Bach a Chwarel Nant Newydd). Nid oes safleoedd tirlenwi gwastraff peryglus ar Ynys Môn.[88]

**4.95** Yn 2022, cyhoeddwyd y byddai tri hen safle tirlenwi ar Ynys Môn ac yng Ngwynedd yn cael eu trawsnewid yn hafan ar gyfer bioamrywiaeth a chadwraeth. Ers hynny, mae cyllid Mannau Lleol ar gyfer Natur gan Lywodraeth Cymru wedi helpu i adfer 30 erw o dir yng Nghlegir Mawr (Gwalchmai, Ynys Môn), 74 erw yn Ffridd Rasus (Harlech, Gwynedd) a 32 erw yn Llwyn Isaf (Penygroes, Gwynedd) yn gynefinoedd cyfoethog ac amrywiol ar gyfer planhigion a bywyd gwyllt.[89] Mae Safle Tirlenwi Penhesgyn, sy'n bedwerydd safle, yn parhau i fod yn safle rheoli gwastraff gweithredol ond mae'r rhan tirlenwi wedi cael ei chau a'i thrawsnewid yn safle Tirlenwi Gwyllt. Mae'n cynnwys ardal oddeutu 50 erw ac fe'i llenwyd â hyd at 4 miliwn tunnell o wastraff o'r 1960au ymlaen[90].

## Gwybodaeth Sylfaenol Gymdeithasol

### Cydraddoldeb

**4.96** Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi naw 'nodwedd warchodedig' ac yn ceisio amddiffyn pobl rhag gwahaniaethu ar sail y nodweddion hyn. Mae'n cyflwyno tair prif ddyletswydd: dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd o dan y Ddeddf; hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig perthnasol a phobl nad ydynt yn eu rhannu; a meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu. Dyma'r naw nodwedd warchodedig a nodir drwy'r Ddeddf:

- oedran;
- anabledd;
- ailbennu rhywedd;
- priodas neu bartneriaeth sifil;
- beichiogrwydd a mamolaeth;
- hil;
- crefydd neu gred;
- rhyw; a
- chyfeiriadedd rhywiol.

**4.97** Bydd effeithiau posibl y CDLl mewn perthynas â grwpiau sy'n perthyn i'r naw 'nodwedd warchodedig' yn cael eu hasesu ar wahân yn ogystal â'r ISA, fel y disgrifir ym **Mhennod 2**. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a fydd yn cael ei gyflwyno mewn atodiad i'r ISA.

### Oed

**4.98** Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae 56.5% o bobl Ynys Môn rhwng 16 a 64 oed[91]. Rhwng y ddau gyfrifiad diwethaf, cynyddodd oed cyfartalog (canolrifol) Ynys Môn dair

[88]Prosiect Wylfa Newydd (2018) Cyfleusterau rheoli gwastraff lleol a rhanbarthol. Ar gael yn: https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/wp-content/ipc/uploads/projects/EN010007/EN010007-001427-6.3.30%20App%20C6-1-Local%20and%20regional%20waste%20management%20facilities%20(Rev%201.0).pdf

[89]Cyngor Sir Ynys Môn (2022) Safleoedd tirlenwi i ddod yn hafan i fywyd gwyllt Ar gael yn: https://www.anglesey.gov.wales/en/newsroom/news/landfill-sites-to-become-haven-for-wildlife

[90] Wild Landfill (2025) Our Sites. Ar gael yn: https://www.wildlandfill.com/sites

[91] ONS (2023) Cenus maps. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/census/maps/choropleth?lad=W06000001

blynedd, o 45 oed i 48 oed. Mae hyn yn uwch na'r oedran cyfartalog (canolrifol) yng Nghymru gyfan (42 oed).

**4.99** Cynyddodd nifer y bobl rhwng 65 a 74 oed tua 1,200 (cynnydd o 14.2%), tra gostyngodd nifer y preswylwyr rhwng 35 a 49 oed tua 2,300 (17.2% o ostyngiad)[92]. Mae hyn yn dangos poblogaeth sy'n heneiddio, sy'n adlewyrchu tueddiadau tebyg yng Nghymru a'r DU yn ehangach.

### Anabledd

**4.100** Yng Nghyfrifiad 2021, dywedodd 81.0% o boblogaeth Ynys Môn nad ydynt yn anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, a dywedodd 19.1% eu bod yn anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb. O'r rheini, roedd 10.6% wedi'u 'cyfyngu ychydig' yn ystod gweithgareddau o ddydd i ddydd, ac roedd 8.5% wedi'u 'cyfyngu'n sylweddol'.[93] Mae cyfran y bobl ar Ynys Môn sydd wedi'u 'cyfyngu'n sylweddol' yn is na chyfartaledd Cymru (10.0%).[94]

### Priodas a phartneriaeth sifil

**4.101** Yng Nghyfrifiad 2021, roedd 46.5% o boblogaeth Ynys Môn yn briod neu mewn partneriaeth sifil gofrestredig ac nid yw 33.0% erioed wedi bod yn briod ac nid ydynt erioed wedi cofrestru partneriaeth sifil. Mae cyfraddau priodasau a phartneriaethau sifil yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru.[95]

**4.102** Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys priodasau o'r un rhyw a phartneriaethau sifil o ryw gwahanol yn 2021, na chafodd yr un ohonynt eu cydnabod yn gyfreithiol yng Nghymru a Lloegr yn 2011. Mae priodasau o'r un rhyw wedi cael eu cydnabod yn gyfreithiol yng Nghymru a Lloegr ers 2014 ac mae partneriaethau sifil o ryw gwahanol wedi cael eu cydnabod ers 2019.[96]

### Hil

**4.103** Mae data o Gyfrifiad 2021 yn dangos bod 98.1% o boblogaeth Ynys Môn yn ystyried eu hunain yn wyn. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru o 93.8%.[97] Ar Ynys Môn, mae hyn yn cael ei ddilyn gan 0.9% o bobl sy'n ystyried eu hunain yn grwpiau ethnig cymysg neu luosog, 0.6% o bobl sy'n ystyried eu hunain yn Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig a 0.2% sy'n ystyried eu hunain yn Ddu, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd[98].

### Crefydd neu gred

**4.104** Yng Nghyfrifiad 2021, disgrifiodd 51.5% o drigolion Ynys Môn eu hunain fel Cristion, sydd wedi gostwng o 65.1% yn 2011. Dywedodd 40.7% arall o drigolion Ynys Môn eu bod 'heb grefydd', sydd i fyny o 25.5% yn 2011. Y cynnydd o 15.2 pwynt canran oedd y cynnydd mwyaf o blith yr holl grwpiau crefyddol eang ar Ynys Môn. Ledled Cymru, cynyddodd canran y preswylwyr a ddisgrifiodd eu hunain fel rhai "heb grefydd" o 32.1% i 46.5%[99] rhwng 2011 a 2021.

**4.105** Mae llawer o ffactorau sy'n gallu achosi newidiadau i broffil crefyddol ardal, fel newid strwythur oedran neu breswylwyr yn adleoli ar gyfer gwaith neu addysg. Gall newidiadau hefyd gael eu hachosi gan wahaniaethau yn y ffordd y mae unigolion yn dewis hunan-adnabod rhwng cyfrifiadau. Cysylltiad crefyddol yw'r grefydd y mae rhywun yn cysylltu neu'n uniaethu â hi, yn hytrach na'i gredoau neu ei arferion crefyddol.[100]

### Rhyw

**4.106** Yng Nghyfrifiad 2021, roedd poblogaeth Ynys Môn yn cynnwys 51.1% o fenywod a 48.9% o ddynion[101].

### Cyfeiriadedd rhywiol

**4.107** Yng Nghyfrifiad 2021, nododd 89.99% o boblogaeth Ynys Môn eu bod yn heterorywiol. Roedd 2.04% o'r preswylwyr yn ystyried eu hunain yn lesbiaidd, yn hoyw, yn ddeurywiol neu fel arall, ac nid oedd 7.97% wedi ateb.[102]

**4.108** Hefyd yng Nghyfrifiad 2021, roedd 93.12% o boblogaeth Ynys Môn yn ystyried eu bod o'r un rhyw a gofrestrwyd adeg eu geni. Nododd 0.06% eu bod yn fenywod traws a 0.05% eu bod yn ddynion traws, tra nododd 0.03% eu bod yn anneuaidd. Nid oedd 6.59% o'r ymatebwyr wedi ateb.

**4.109** Nid oedd data ar gael yn ymwneud â'r nodweddion gwarchodedig sy'n weddill, yn enwedig beichiogrwydd a mamolaeth.

[92] ONS (2023) How life has changed on the Isle of Anglesey: Census 2021. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/visualisations/censusareachanges/W06000001/
[93] ONS (2023) Census maps. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/census/maps/choropleth?lad=W06000001
[94] ONS (2023) How life has changed on the Isle of Anglesey: Census 2021. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/visualisations/censusareachanges/W06000001/
[95] ONS (2023) How life has changed on the Isle of Anglesey: Census 2021. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/visualisations/censusareachanges/W06000001/
[96] Ibid.
[97] Llywodraeth Cymru (2022) Grŵp ethnig, hunaniaeth genedlaethol, iaith a chrefydd yng Nghymru (Cyfrifiad 2021). Ar gael yn: https://www.gov.wales/ethnic-group-national-identity-language-and-religion-wales-census-2021-html#:~:text=On%20Census%20Day%2C%2021%20March,Irish%20or%20British%E2%80%9D%20in%202021.
[98] ONS (2023) Census maps. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/census/maps/choropleth?lad=W06000001
[99] Ibid.
[100] Ibid.
[101] ONS (2023) Census maps. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/census/maps/choropleth?lad=W06000001
[102] Ibid.

## Poblogaeth

**4.110** Yn ôl ffigurau Cyfrifiad 2021, rhwng y ddau gyfrifiad diwethaf (a gynhaliwyd yn 2011 a 2021), gostyngodd poblogaeth Ynys Môn 1.3%, o ychydig o dan 69,800 yn 2011 i tua 68,900 yn 2021.[103]

**4.111** Mae hyn yn golygu bod Ynys Môn yn un o saith ardal awdurdod lleol yng Nghymru i weld ei phoblogaeth yn gostwng. Cynyddodd poblogaeth Cymru 1.4%, o 3,063,000 i 3,107,000.[104]

## Amddifadedd

**4.112** Mae Cymru wedi'i rhannu'n 1,909 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI), pob un ag oddeutu 1,600 o bobl. Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yn rhestru'r ACEHI hyn yn ôl eu lefelau amddifadedd cymharol ar draws wyth math o amddifadedd, ac mae'r rhain yn cael eu cyfuno i gynhyrchu mynegai cyffredinol. Y mynegai ar gyfer yr ACEHI mwyaf difreintiedig yw 1, ac 1,909 ar gyfer y lleiaf difreintiedig. Mae gan un ardal fynegai amddifadedd uwch nag un arall os yw cyfran y bobl sy'n byw yno sy'n cael eu hystyried yn ddifreintiedig yn uwch.

**4.113** Mae 39% o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is Ynys Môn ymysg y 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru.[105] Dyma'r chweched ganran isaf o holl awdurdodau lleol Cymru. Dangosir dosbarthiad gofodol amddifadedd ar draws yr ynys yn **Ffigur 4.10**.

## Troseddu a diogelwch cymunedol

**4.114** O ran y maes diogelwch cymunedol, mae data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn dangos bod 41% o'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn Ynys Môn ymysg y 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Dyma'r degfed isaf o'r 22 ardal awdurdod lleol yng Nghymru.[106]

**4.115** Ddiwedd 2023, roedd 4,061 o droseddau wedi'u cofnodi ar Ynys Môn. Dyma'r pedwerydd cyfrif isaf o'r 22 ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Y drosedd uchaf a gofnodwyd oedd dwyn, sef 38% o'r holl droseddau a gyflawnwyd ar Ynys Môn[107].

## Addysg

**4.116** O ran y maes addysg, mae data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn dangos bod 48% o'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn Ynys Môn ymysg y 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Dyma'r nawfed isaf o'r 22 ardal awdurdod lleol yng Nghymru.[108]

**4.117** Ar ddiwedd 2023, roedd 90.4% o boblogaeth Ynys Môn wedi cymhwyso i lefel 2 neu uwch (sy'n cyfateb i ennill graddau TGAU 9, 8, 7, 6, 5, neu 4 gradd A*, A, B neu C yn flaenorol). Mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru o 87.4%. Dim ond 3.2% o boblogaeth Ynys Môn oedd heb unrhyw gymwysterau. Mae hyn yn is na chyfartaledd Cymru (7.9%).[109]

## Iechyd a Lles

**4.118** Mae data o Gyfrifiad 2021 yn dangos bod 81.9% o boblogaeth Ynys Môn yn dweud eu bod mewn iechyd da iawn, neu mewn iechyd da. Mae hyn ychydig yn uwch nag ar draws Cymru lle dywedodd 79.1% o bobl eu bod mewn iechyd da iawn neu dda. Roedd cyfran y bobl ar Ynys Môn a ddywedodd eu bod mewn iechyd gwael neu wael iawn yn 3.9% a 1.1% yn y drefn honno. Mae'r ffigurau hyn yn is na'r ffigurau cenedlaethol ar gyfer Cymru, sef 5.1% ac 1.6%, yn y drefn honno.[110]

**4.119** O ran y maes iechyd, mae data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn dangos bod tua 27% o'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn Ynys Môn ymysg y 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Dyma'r pumed ganran isaf o holl awdurdodau lleol Cymru.

### Disgwyliad Oes

**4.120** Roedd disgwyliad oes adeg geni ar gyfer y cyfnod 2018-2020 ar Ynys Môn yn 79.3 oed ar gyfer dynion ac 82.9 oed ar gyfer menywod, sy'n uwch na'r ffigurau cenedlaethol o 78.3 oed ac 82.1 oed ar gyfer Cymru yn y drefn honno. Rhwng 2017 a 2019, bu gostyngiad bach mewn disgwyliad oes ar gyfer dynion a menywod ar Ynys Môn ac yn ehangach yng Nghymru.[111]

---

[103] ONS (2023) How life has changed on the Isle of Anglesey: Census 2021. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/visualisations/censusareachanges/W06000001/
[104] Ibid.
[105] StatsCymru (2019) MALIC 2019 – Dadansoddiad Awdurdodau Lleol. Ar gael yn: https://statswales.gov.wales/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Welsh-Index-of-Multiple-Deprivation/WIMD-2019/localauthorityanalysis
[106] Ibid.
[107] Cyngor Sir Powys (dim dyddiad) Nifer y troseddau a gofnodwyd yng Nghymru ac yn ôl awdurdod lleol, ar gyfradd o 10,000 o'r boblogaeth. Ar gael yn: https://en.powys.gov.uk/article/11115/Wellbeing-Information-Bank-View-information-about-police-recorded-crime
[108] StatsCymru (2019) MALIC 2019 – Dadansoddiad Awdurdodau Lleol. Ar gael yn: https://statswales.gov.wales/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Welsh-Index-of-Multiple-Deprivation/WIMD-2019/localauthorityanalysis
[109] StatsCymru (2024) Lefel cymhwyster uchaf oedolion o oedran gweithio yn ôl rhanbarth ac awdurdod lleol. Ar gael yn: https://statswales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Data-For-Regions-of-Wales/highestqualificationlevelofworkingageadults-by-region-localauthority
[110] ONS (2023) How life has changed on the Isle of Anglesey: Census 2021. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/visualisations/censusareachanges/W06000001/
[111] GIG Cymru (2022) Disgwyliadau iechyd yng Nghymru gyda bwlch anghydraddoldeb. Ar gael yn: https://publichealthwales.shinyapps.io/PHWO_HeathExpectanciesWalesProfile_v2a/

**4.121** Ar Ynys Môn ar gyfer y cyfnod 2018-2020, mae bwlch mewn disgwyliad oes iach adeg geni (gan gymharu'r pumed lleiaf i'r mwyaf difreintiedig) o 7.8 mlynedd ar gyfer dynion a 7.4 mlynedd ar gyfer menywod. Mae'r bwlch ar y lefel genedlaethol ar gyfer dynion a menywod yn fwy na'r hyn a nodwyd ar gyfer Ynys Môn, sef 13.3 blynedd ac 16.9 blynedd, yn y drefn honno. Mae disgwyliad oes iach ar gyfer y cyfnod 2018-2020 yn uwch ar Ynys Môn na'r lefel genedlaethol ar gyfer dynion (64.2 blynedd, o'i gymharu â 61.5 blynedd yn genedlaethol) a menywod (63.6 blynedd, o'i gymharu â 62.4 blynedd yn genedlaethol).[112]

### Gordewdra

**4.122** Mae bod dros bwysau neu'n ordew yn arwain at nifer o risgiau iechyd, gan gynnwys mwy o debygolrwydd o ddiabetes math 2, canser, clefyd y galon a chlefyd yr afu, strôc a chyflyrau iechyd meddwl cysylltiedig. Amcangyfrifir bod y broblem iechyd hon yn golygu cost o £5.1 biliwn o leiaf i'r GIG a degau o biliynau i gymdeithas ehangach y DU bob blwyddyn.[113]

**4.123** Yn 2021-2023, adroddwyd bod 28% o oedolion ar Ynys Môn yn ordew, a 58% dros bwysau neu'n ordew. Mewn cymhariaeth, cyfartaledd cenedlaethol gordewdra yng Nghymru yw 25% a 62% yn y drefn honno. Hefyd, canfuwyd mai dim ond 16% o oedolion ar Ynys Môn a gyflawnodd eu targed 5 y dydd o ffrwythau a llysiau, o'i gymharu â 29% ledled Cymru. Ar ben hynny, dywedodd 47% o oedolion ar Ynys Môn nad oeddent wedi gwneud unrhyw weithgarwch corfforol nac ymarfer corff yn ystod yr wythnos flaenorol. Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd cenedlaethol Cymru o 31%.[114]

### Canfyddiad o lesiant

**4.124** Dywedodd trigolion Ynys Môn fod ganddynt lefelau ychydig yn uwch o foddhad â bywyd (7.5 allan o 10) na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (7.4) yn ystod cyfnod 2022/23. Roedd y ffigurau cyfartalog a gofnodwyd ar gyfer 'teimlo bod y pethau a wneir mewn bywyd yn werth chweil' ar Ynys Môn yn 7.9 allan o 10, ac roedd 'hapusrwydd' yn 7.3 allan o 10. Mae'r ffigur ychydig yn uwch ar gyfer 'teimlo bod y pethau sy'n cael eu gwneud mewn bywyd yn werth chweil' na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sef 7.7, a'r cyfartaledd ar gyfer 'hapusrwydd', sef 7.3. Cofnodwyd bod lefelau pryder ar gyfartaledd ar gyfer Ynys Môn yn 3.5, sy'n uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sef 3.3.[115]

**4.125** Yn 2022-23, roedd yr Arolwg Cenedlaethol yn cynnwys cwestiynau i asesu llesiant meddyliol pobl. Roedd y rhain yn 14 datganiad wedi'u cynllunio i fesur llesiant meddyliol o'r enw graddfa Llesiant Meddyliol Warwick-Caeredin. Mae'r sgoriau'n amrywio o 14 i 70, gyda sgôr uwch yn cynrychioli gwell llesiant meddyliol.[116]

**4.126** Y sgôr lles meddyliol cyfartalog yng Nghymru oedd 48.2. Canfuwyd bod llesiant meddyliol gwell yn gysylltiedig â phob un o'r ffactorau canlynol:

- Bod yn hŷn
- Peidio â bod mewn amddifadedd materol
- Bod yn grefyddol
- Iechyd cyffredinol gwell
- Dim salwch na chyflwr iechyd tymor hir
- Bod yn siaradwr Cymraeg
- Cymryd rhan mewn chwaraeon 3 gwaith yr wythnos neu fwy

### Cymunedau a thai

**4.127** Mae Ynys Môn yn ardal wledig yn bennaf, a nodweddir gan gymysgedd o drefi bach, pentrefi a chymunedau gwledig gwasgaredig. Mae patrwm anheddiad yr ynys yn cael ei siapio gan ei daearyddiaeth arfordirol a mewndirol, gyda chanolfannau poblogaeth ac economaidd allweddol yn cynnwys Caergybi, Llangefni ac Amlwch (Canolfannau Gwasanaethau Trefol), Biwmares, Porthaethwy, Benllech a Gaerwen (Canolfannau Gwasanaethau Lleol).

**4.128** Cofnododd Cyfrifiad 2021 36,217 o anheddau ar Ynys Môn, sef cynnydd o 2.9% ers Cyfrifiad 2011 (35,200)[117]. O'r rhain, roedd 68.4% mewn perchnogaeth (naill ai'n gyfan gwbl neu gyda morgais) roedd 15.6% yn eiddo rhent cymdeithasol ac roedd 15.9% arall yn eiddo rhent preifat neu'n ddi-rent.

**4.129** Yn ôl y Gofrestrfa Tir, gostyngodd prisiau tai 2.2% rhwng mis Tachwedd 2023 (£245,440) a mis Tachwedd

[112] Ibid.
[113] Obesity Health Alliance (2017) OHA Briefing Paper: Costs of Obesity [ar-lein] Ar gael yn: http://obesityhealthalliance.org.uk/wp-content/uploads/2017/10/OHA-briefing-paper-Costs-of-Obesity-.pdf
[114] StatsCymru (2023) Ffyrdd o fyw oedolion yn ôl awdurdod lleol a bwrdd iechyd, 2020-21 ymlaen. Ar gael yn: https://statswales.gov.wales/Catalogue/National-Survey-for-Wales/Population-Health/Adult-Lifestyles/adultlifestyles-by-healthboard-from-202021
[115] ONS (2023) Personal well-being estimates by local authority. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/datasets/wellbeing-local-authority/editions/time-series/versions/4
[116] Llywodraeth Cymru (2024) Llesiant meddyliol (Arolwg Cenedlaethol Cymru): Ebrill 2022 i Fawrth 2023 Ar gael yn: https://www.gov.wales/mental-well-being-national-survey-wales-april-2022-march-2023-html
[117] Ystadegau ar gyfer Cymru (2022) Amcangyfrifon Stoc Anheddau ar gyfer Cymru. Ar gael yn: https://www.gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2023-09/dwelling-stock-estimates-31-march-2022-398.pdf

2024 (£240,082) ar Ynys Môn.[118] Er mwyn cymharu, cynyddodd prisiau tai yng Nghymru i gyfartaledd o £204,197, sy'n gynnydd o 1.0% dros y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2024[119]. Ym mis Tachwedd 2024, roedd prisiau tai cyfartalog ar Ynys Môn ymysg y deg awdurdod lleol drutaf yng Nghymru, yn y chweched safle. Y pump uchaf yw Sir Fynwy (£346,479), Bro Morgannwg (£292,490), Caerdydd (£272,692), Ceredigion (£242,025) a Phowys (241,821).

**4.130** Gosododd y CDLl ar y Cyd darged o ddarparu 7,184 o unedau tai newydd dros gyfnod y Cynllun. Fodd bynnag, mae cymharu nifer y tai a gwblhawyd yn erbyn y targed hwn yn y blynyddoedd cyn yr adroddiad monitro diweddaraf[120] yn dangos bod nifer y cartrefi newydd a adeiladwyd wedi gostwng yn is na'r lefel ddisgwyliedig. Dangosir hyn isod yn **Nhabl 4.5**.

**Tabl 4.5: Nifer yr unedau a ddarparwyd yn ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd o'i gymharu â'r nifer gwirioneddol**

| Blwyddyn | Targed | Rhif gwirioneddol |
|---|---|---|
| 2016/17 | 376 | 402 |
| 2017/18 | 505 | 462 |
| 2018/19 | 617 | 548 |

**4.131** Roedd yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA) diweddaraf a gynhaliwyd yn 2025[121] yn nodi diffyg o 398 o unedau fforddiadwy y flwyddyn. Mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol yn nodi angen gros blynyddol net o 167 o unedau tai fforddiadwy dros y pum mlynedd gyntaf hyd at 2028, ar ôl ystyried cyflenwad a throsiant arfaethedig y stoc dai bresennol. Mae hyn yn cynnwys 73 o unedau rhent cymdeithasol, 31 o unedau rhent canolradd, a 63 o unedau perchentyaeth cost isel. Mae angen net am dai fforddiadwy o bob maint, er bod y galw mwyaf am unedau rhent cymdeithasol un ystafell wely, sy'n gofyn am 65 y flwyddyn.

**4.132** Mae cynlluniau i gynyddu stoc dai'r Cyngor o 4,000 i dros 5,000 o gartrefi wedi'u cynnwys yng Nghynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai 2023-2053, a gymeradwywyd gan aelodau Gweithredol ddechrau 2023[122].

**4.133** Bydd Gwasanaethau Tai Ynys Môn yn adeiladu 45 o dai Cyngor newydd bob blwyddyn am y 30 mlynedd nesaf i helpu i ateb y galw sylweddol am dai cymdeithasol. Mae un o'r prosiectau mwyaf yn cynnwys ailddatblygu hen safle Ysgol Thomas Ellis yng Nghaergybi i gynnwys cyfanswm o 45 o gartrefi cymdeithasol newydd. Mae prosiectau tai eraill gan y Cyngor ar y gweill ar gyfer Amlwch (40 o gartrefi) a Niwbwrch (14 o gartrefi) yn ogystal â nifer o brosiectau pwysig eraill ar draws yr ynys[123].

**4.134** Yn 2023, 2.20 oedd maint cyfartalog aelwyd ar Ynys Môn, sy'n cyfateb yn fras i Gymru gyfan (2.26)[124]. Mae maint aelwydydd Ynys Môn wedi gostwng o un flwyddyn i'r llall dros y degawd diwethaf, lle'r oedd y maint cyfartalog yn 2012 yn 2.25.

**4.135** Yn 2021, roedd 47.4% o aelwydydd ar Ynys Môn yn dai ar wahân (tŷ cyfan neu fyngalo), roedd 22.9% yn dai pâr, 22.1% yn dai teras, 7.0% yn fflatiau, fflatiau deulawr neu randai a 0.6% yn garafanau neu strwythurau symudol neu dros dro eraill.

**4.136** Yn unol â Chyfrifiad 2021, nododd 0.1% o bobl ar Ynys Môn eu bod yn Sipsiwn neu'n Deithwyr Gwyddelig (WGoIT) o ran ethnigrwydd[125]. Mae hyn yn cyfateb i oddeutu 69 o bobl. Mae Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA) 2022[126] yn nodi bod y rhan fwyaf o'r boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr yn 2011 yn byw mewn llety brics a morter.

**4.137** Mae'r data diweddaraf ar garafanau yn y sir (Ionawr 2021) yn adrodd cyfanswm o un garafán ar safle heb ei awdurdodi ar Ynys Môn. Mae un garafán a oddefir ar dir cyhoeddus ar Ynys Môn. Mae'r GTAA yn asesu ymhellach

[118] Land Registry (2024) UK House Price Index Wales: Tachwedd 2024. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/statistics/uk-house-price-index-for-november-2024/uk-house-price-index-wales-november-2024
[119] Land Registry (2025) UK House Price Index. House Price Statistics. Ar gael yn: https://landregistry.data.gov.uk/app/ukhpi/browse?from=2023-12-01&location=http%3A%2F%2Flandregistry.data.gov.uk%2Fid%2Fregion%2Fisle-of-anglesey&to=2025-01-01&lang=en
[120] Uned ar y Cyd Gwynedd a Môn (2019) Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd 2011 - 2026 Adroddiad Monitro Blynyddol 1 Awst 2017 31 Mawrth 2019. Ar gael yn: https://www.anglesey.gov.wales/documents/Docs-en/Planning/Planning-policy/Annual-monitoring-report/Annual-Monitoring-Report-1-August-2017-31-March-2019.pdf
[121] Cyngor Sir Ynys Môn (2025) Asesiad o'r Farchnad Dai Leol ar Ynys Môn 2023-2028. Ar gael yn: https://www.anglesey.gov.wales/documents/Docs-en/Housing/Anglesey-Local-Housing-Market-Assessment-2023-to-2028-draft.pdf
[122] Ynys Môn (2023) Y Cyngor Sir wedi ymrwymo i adeiladu dros 1,000 o gartrefi newydd. Ar gael yn: https://www.anglesey.gov.wales/en/newsroom/news/county-council-committed-to-building-more-than-1000-new-homes
[123] Ibid.
[124] StatsCymru (2024) Maint cyfartalog aelwydydd (unigolion) yn ôl Awdurdod Lleol a Blwyddyn. Ar gael yn: https://statswales.gov.wales/Catalogue/Housing/Households/Estimates/averagehouseholdsize-by-localauthority-year
[125] ONS (2023) Census maps. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/census/maps/choropleth?lad=W06000001
[126] Arc4 (2022) Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr 2022. Ar gael yn: https://www.anglesey.gov.wales/documents/Docs-en/Housing/Housing-Strategy/Anglesey-and-Gwynedd-Gypsy-and-Travellers-Accommodation-Needs-Assessment.pdf

yr angen am leiniau preswyl yn y dyfodol ar gyfer llety. Ar gyfer Ynys Môn, mae'r asesiad yn nodi y bydd angen 11 llain erbyn 2036, sy'n golygu mai dim ond dwy lain arall fydd eu hangen rhwng 2025 a 2036.

### Yr Iaith Gymraeg

**4.138** Yn 1921, roedd ychydig llai na miliwn o bobl tair oed neu hŷn yn gallu siarad Cymraeg yng Nghymru (922,100 o bobl). Gostyngodd hyn dros y ganrif ddiwethaf, gan gyrraedd ei lefel isel o tua 503,500 yn 1981. Cynyddodd nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg rhwng 1981 a 2001 ond mae wedi gostwng ers hynny[127].

**4.139** Adeg Cyfrifiad 2021, adroddwyd bod tua 538,300 o breswylwyr arferol tair oed neu hŷn yng Nghymru yn gallu siarad Cymraeg. Mae hyn tua 17.8% o boblogaeth Cymru, y gyfran isaf a gofnodwyd erioed mewn cyfrifiad. Mae hyn yn ostyngiad o tua 23,700 o bobl ers Cyfrifiad 2011, neu'n ostyngiad o 1.2 pwynt canran. Mae'r canrannau uchaf o bobl tair oed neu hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg yng ngogledd orllewin Cymru (Gwynedd ac Ynys Môn).[128]

**4.140** Adeg Cyfrifiad 2021, roedd 58.1% o boblogaeth Ynys Môn yn gallu siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg ac roedd 11.1% yn gallu deall Cymraeg llafar yn unig. Nid oedd gan 30.7% o bobl unrhyw sgiliau Cymraeg. Mae nifer y bobl sy'n gallu siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg wedi gostwng 0.7% rhwng 2011 a 2021.

**4.141** Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Ynys Môn 2022 – 2032 (CSGA)[129] yn nodi'r dull gweithredu ar gyfer gwella'r defnydd o'r Gymraeg a mynediad ati. Mae hyn yn cynnwys cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymysg plant ysgol, trosglwyddo sgiliau Cymraeg o un cam addysg statudol i'r llall, creu mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg a chynyddu nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg, ymysg amcanion eraill.

**4.142** Mae **Ffigur 4.11** yn mapio cyfran y siaradwyr Cymraeg ar draws Ynys Môn.

### Addysg

**4.143** Mae gan yr awdurdod un o'r poblogaethau ysgolion lleiaf, sy'n llai na 10,000 o fyfyrwyr. Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn gyfrifoldeb am 49 o ysgolion. Mae 43 o ysgolion cynradd gyda 129 o ddisgyblion ar gyfartaledd, yn amrywio o Ysgol Gymuned Garreglefn gydag ychydig dros 20 o ddisgyblion, i Ysgol Cybi yng Nghaergybi gyda dros 425 o ddisgyblion. Mae pum ysgol uwchradd a phob un â chweched dosbarth.[130]

**4.144** Mae bron pob un o ysgolion cynradd Ynys Môn yn rhai cyfrwng Cymraeg – mae un yn ddwyieithog ac un yn gyfrwng Saesneg. Mae pedair o'r ysgolion uwchradd yn ddwyieithog ac un trwy gyfrwng y Saesneg.

## Gwybodaeth Sylfaenol Economaidd

### Economi a chyflogaeth

**4.145** Yn 2019, y prif sector cyflogaeth ar gyfer trigolion Ynys Môn oedd 'Cyfanwerthu, adwerthu, trafnidiaeth, gwestai a bwyd' (9,200 o bobl), ac yna 'Gweinyddiaeth gyhoeddus, amddiffyn, addysg ac iechyd' (6,300 o bobl) a chynhyrchu (3,000).[131]

**4.146** Mae twristiaeth a hamdden yn hanfodol i economi Ynys Môn, gyda'r ynys yn denu 1.71 miliwn o ymwelwyr bob blwyddyn, gan gynhyrchu £304 miliwn y flwyddyn[132]. Mae'r sector twristiaeth yn cyflogi oddeutu 20% o boblogaeth yr ynys – y gyfran uchaf o holl awdurdodau lleol Cymru. Mae hyn yn tynnu sylw at rôl y sector fel elfen hanfodol o economi Ynys Môn[133].

**4.147** Mae'r twf yn y sector twristiaeth ar Ynys Môn yn llawer uwch na gweddill Cymru gyda chynnydd o 64% mewn refeniw rhwng 2006 a 2017, sy'n cynrychioli twf o 7% (4% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol). Er bod Ynys Môn yn denu twristiaid o Ogledd Orllewin Lloegr yn bennaf, mae Caergybi hefyd wedi dod yn gyrchfan o ddewis i weithredwyr llongau mordeithio. Ymwelodd 43 o longau mordeithio yn 2018 gydag oddeutu 32,700 o deithwyr o bosibl yn dod i'r lan. Gyda gwariant cyfartalog o rhwng £80 a £100 y pen, mae teithwyr yn cyfrannu'n sylweddol at economi'r ynys[134].

**4.148** Yn 2021, roedd 31.0% o boblogaeth Ynys Môn yn gweithio llai na 10km o gartref ac roedd 30.5% yn gweithio dros 10km o gartref ac roedd 15.9% yn gweithio'n bennaf mewn gosodiad ar y môr, ddim mewn lle sefydlog, neu y tu allan i'r DU. Roedd 22.5% o drigolion Ynys Môn yn gweithio

[127] Llywodraeth Cymru (2022) Y Gymraeg yng Nghymru (Cyfrifiad 2021). Ar gael yn: https://www.gov.wales/welsh-language-wales-census-2021-html
[128] Ibid.
[129] Ynys Môn (2022) Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022 – 2032. Ar gael yn: https://www.anglesey.gov.wales/documents/Docs-en/Learning/Strategic-Plan-for-Welsh-in-Anglesey-Education/Welsh-in-Education-Strategic-Plan-2022-to-2032.pdf
[130] Level the Playing Field (no date) Isle of Anglesey Overview. Ar gael yn: https://www.leveltheplayingfield.wales/local-authorities/isle-of-anglesey
[131] Stats Cymru: Cyflogaeth yn y gweithle yn ôl ardaloedd lleol yng Nghymru a diwydiant eang. Ar gael yn: https://statswales.gov.wales/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/People-and-Work/Employment/Jobs/Whole-Workforce/workplaceemployment-by-welshlocalareas-industry
[132] Prifysgol Bangor (2020) Asesiad Twristiaeth a Hamdden Atodol. Ar gael yn: https://publicregister.naturalresources.wales/Search/Download?RecordId=29307#:~:text=Anglesey%20is%20highly%20dependent%20on,annum%20to%20the%20local%20economy.
[133] Llywodraeth Cymru (2024) Proffil economi ymwelwyr Cymru: 2024. Ar gael yn: https://www.gov.wales/wales-visitor-economy-profile-2024-html .
[134] Prifysgol Bangor (2020) Asesiad Twristiaeth a Hamdden Atodol. Ar gael yn: https://publicregister.naturalresources.wales/Search/Download?RecordId=29307#:~:text=Anglesey%20is%20highly%20dependent%20on,annum%20to%20the%20local%20economy.

gartref yn bennaf[135] – mae'r ganran hon yn debygol o fod wedi cynyddu'n sylweddol o ganlyniad i bandemig y Coronafeirws ac nid yw'n hysbys a fydd cyfran y gweithwyr sy'n gweithio gartref wedi aros mor uchel ag yr oedd yn 2021.

**4.149** Yr enillion wythnosol gros cyfartalog ar Ynys Môn yn 2024 oedd £704.90. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru (£674.50).[136]

**4.150** Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 30 Medi 2024, roedd 17.7% o drigolion Ynys Môn yn cael eu hystyried yn economaidd anweithgar. Mae hyn yn is na chyfartaledd Cymru (20.8%) ac yn cyd-fynd â chyfartaledd y DU (17.7%)[137].

**4.151** Mae'r Adolygiad o Dir Cyflogaeth (2012) yn arwain at y gofyniad i ddiogelu 642.9 ha o dir cyflogaeth presennol yn ardal y Cynllun (gan gynnwys Gwynedd) ac i ddyrannu 55.1 ha o safleoedd newydd yn ardal y Cynllun, ynghyd â 144.1 ha ychwanegol wrth gefn ar yr ynys[138].

### Seilwaith trafnidiaeth

**4.152** Mae daearyddiaeth Ynys Môn yn dylanwadu ar ei rhwydwaith trafnidiaeth, gyda llwybrau allweddol yn deillio o aneddiadau mawr ac yn cysylltu â'r tir mawr ar hyd yr A55, prif lwybr strategol yr ynys. Mae'r A55, a elwir hefyd yn Wibffordd Gogledd Cymru, yn darparu cysylltiad hanfodol â Gogledd Cymru, yr M56 a rhwydwaith ffyrdd ehangach y DU, gan gefnogi teithio lleol a symud nwyddau. Mae Pont Britannia, sy'n cynnal ffordd yr A55 a rheilffordd Arfordir Gogledd Cymru ar draws Afon Menai, yn cau yn aml, ac mae cyfyngiadau traffig a chyfyngiadau cyflymder yn rheolaidd arni, oherwydd tywydd eithafol. Mae hyn yn effeithio ar draffig lleol a thraffig sy'n teithio i/o Borthladd Caergybi. Fodd bynnag, mae cynlluniau i adeiladu trydedd groesfan i'r dwyrain o Bont Britannia, gyda'r bwriad o ddechrau adeiladu yn 2027.[139]

**4.153** Mae ffyrdd allweddol eraill, fel yr A5025 a'r A4080, yn cysylltu cymunedau gwledig ond maent yn aml yn cael eu cyfyngu gan eu natur wledig, eu capasiti cyfyngedig a'u tagfeydd tymhorol, yn enwedig mewn ardaloedd twristiaeth poblogaidd. Er bod cysylltedd allanol yn gryf, gall cysylltiadau trafnidiaeth mewnol fod yn fwy heriol, gyda rhai llwybrau'n pasio drwy ganol pentrefi cul ac ardaloedd arfordirol sy'n llai addas ar gyfer traffig trwm.

**4.154** Mae trafnidiaeth gyhoeddus ar Ynys Môn yn cael ei darparu'n bennaf gan wasanaethau bysiau a threnau, gan hwyluso cysylltedd ar yr ynys ac i'r tir mawr. Mae'r rhwydwaith bysiau'n gwasanaethu aneddiadau allweddol, gan gynnwys Caergybi, Llangefni, Amlwch a Biwmares, gyda llwybrau'n ymestyn i gymunedau gwledig llai. Fodd bynnag, gall gwasanaethau fod yn anaml mewn ardaloedd mwy anghysbell, gan gyfyngu ar hygyrchedd i'r rheini heb drafnidiaeth breifat. Mae'r brif reilffordd sy'n gwasanaethu Ynys Môn yn croesi'r Fenai ar Bont Britannia a ail-fodelwyd, cyn cyrraedd yr orsaf gyntaf yn Llanfairpwll. Ar ôl yr orsaf hon, mae'r llwybr yn drawiadol gan ei fod yn osgoi'r trefi a'r pentrefi mwy, gan ddilyn llwybr sy'n crymanu ar hyd ochr orllewinol yr ynys cyn dod i ben yng Nghaergybi. Deilliodd y llwybr hwn o'r angen i greu cyswllt cyflym rhwng Llundain a Dulyn, ac felly roedd y refeniw posibl gan deithwyr lleol yn ystyriaeth eilaidd. Ar wahân i Gaergybi a Llanfairpwll, mae pob gorsaf ar Ynys Môn yn rhai ble mae trenau yn stopio ar gais yn unig[140]. Er bod cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus yn hanfodol i drigolion ac ymwelwyr, mae heriau'n parhau o ran amlder gwasanaethau, darpariaeth wledig, ac integreiddio rhwng rhwydweithiau bysiau a threnau, yn enwedig i'r rheini sy'n dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer cymudo dyddiol a gwasanaethau hanfodol.

### Llif traffig, patrymau teithio i'r gwaith/cymudo

**4.155** Adeg Cyfrifiad 2021, cofnodwyd bod 26,002 o bobl yn gweithio ar Ynys Môn. O'r rhain, roedd 11,007 naill ai'n gweithio gartref neu heb fan gwaith sefydlog, ac roedd 11,723 yn cymudo ar Ynys Môn ei hun.[141]

**4.156** Mae mewnlif ac all-lif nodedig o weithwyr rhwng Ynys Môn a thir mawr Gogledd Cymru. Daeth y symudiad mwyaf i mewn o Wynedd (2,341 o bobl), yna Conwy (349 o bobl) a Sir Ddinbych (60 o bobl). Ar y llaw arall, roedd cymudo allan o Ynys Môn yn sylweddol uwch, gyda 4,595 o drigolion yn teithio i'r gwaith yng Ngwynedd, yna 562 i Gonwy a 127 i Sir Ddinbych.

[135] ONS (2023) Census maps. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/census/maps/choropleth?lad=W06000001
[136] StatsCymru (2024) Enillion wythnosol gros cyfartalog (canolrifol) yn ôl ardaloedd lleol yng Nghymru a blwyddyn (£) Ar gael yn: https://statswales.gov.wales/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/People-and-Work/Earnings/medianearnings-by-welshlocalareas-year .
[137] StatsCymru (2025) Cyfraddau anweithgarwch economaidd (ac eithrio myfyrwyr) yn ôl ardal leol yng Nghymru a blwyddyn. Ar gael yn: https://statswales.gov.wales/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/People-and-Work/Economic-Inactivity/economicinactivityratesexcludingstudents-by-welshlocalarea-year
[138] Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd (2016) Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd 2011 - 2026. Ar gael yn: https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Council/Documents---Council/Strategies-and-policies/Environment-and-planning/Planning-policy/Anglesey-and-Gwynedd-Joint-Local-Development-Plan-Written-Statement.pdf
[139] Llywodraeth Cymru (2023) Yr A55 a'r 3edd Pont dros y Fenai. Ar gael yn: https://www.gov.wales/a55-3rd-menai-crossing-0
[140] Môn Mam Cymru (dim dyddiad) Rheilffyrdd Ynys Môn. Ar gael yn: http://www.allaboutanglesey.co.uk/railways#:~:text=Railways%20of%20Anglesey&text=Aside%20from%20Holyhead%20and%20Llanfairpwll,these%20are%20request%20stops%20only .
[141] ONS (2023) Visualising people flows. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/visualisations/censusorigindestination/#workplace

**4.157** Mae patrymau cymudo yn dangos mai Llangefni oedd â'r boblogaeth diwrnod gwaith fwyaf o 2,940 o bobl yn cymudo i mewn o ardaloedd eraill. Ar ben hynny, teithiodd 805 o bobl o fewn Llangefni i weithio, ac roedd 974 o bobl naill ai'n gweithio gartref neu heb weithle sefydlog. Daeth y llifoedd mwyaf i mewn i Langefni o Niwbwrch (355 o bobl), Caergybi (316 o bobl), ac Amlwch a Llannerch-y-medd (309 o bobl). I'r gwrthwyneb, roedd y llif mwyaf am allan o Langefni i Dde Bangor (222 o bobl), Niwbwrch (161 o bobl) a Bodedern a Rhosneigr (88 o bobl).

**4.158** Yn ôl Cyfrifiad 2021, y prif ddull a ddefnyddir i deithio i'r gwaith ar Ynys Môn yw drwy yrru car neu fan, sy'n cyfrif am 61.3% o'r boblogaeth sy'n gweithio. Mae 4.6% ychwanegol yn teithio fel teithiwr mewn car neu fan. Yr ail ddull mwyaf cyffredin o deithio (heb gynnwys y 22.5% o'r rheini sy'n gweithio gartref) yw ar droed, sy'n cyfrif am 6.8% o'r boblogaeth sy'n gweithio. Dim ond 1.6% sy'n teithio i'r gwaith drwy ddefnyddio bws, bws mini neu fws moethus ac mae 0.4% yn teithio i'r gwaith gan ddefnyddio'r trên.[142]

## Anawsterau a gafwyd

**4.159** Un o ofynion Rheoliadau AAS yw bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i unrhyw gyfyngiadau data neu anawsterau eraill a wynebir yn ystod proses AC. Mae'r anawsterau a'r cyfyngiadau a gododd wrth baratoi Adroddiad Cwmpasu ISA wedi'u hamlinellu isod:

- Mae gan Ynys Môn gyfran uchel o ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr, ond mae'r data ar eu hunion effaith ar y tai sydd ar gael a'u fforddiadwyedd yn aml yn anghyflawn ac yn anhygyrch. Gall presenoldeb ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr hefyd ystumio ystadegau ar argaeledd tai a data economaidd.
- Er bod data ar seilwaith trafnidiaeth cyffredinol (e.e. ffyrdd a rheilffyrdd) ar gael, mae ystadegau manwl am ddefnydd teithwyr (e.e. ar gyfer gwasanaethau bysiau gwledig) yn gyfyngedig. Mae yna ddiffyg ymchwil wedi'i chomisiynu hefyd i ystadegau teithio a thrafnidiaeth lleol. Er enghraifft, mae'r Cynllun Trafnidiaeth mwyaf perthnasol yn rhanbarthol ac yn berthnasol i Ogledd Cymru gyfan yn hytrach nag Ynys Môn.[143]
- Dibyniaeth ar ffynonellau data sydd wedi dyddio, gan gynnwys Yr Adolygiad o Dir Cyflogaeth (2012) ac Adroddiadau Monitro Blynyddol, nad ydynt o bosibl yn adlewyrchu tueddiadau economaidd a datblygu cyfredol.

[142] ONS (2022) Method used to travel to work. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/datasets/TS061/editions/2021/versions/6
[143] Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru (2025) Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (drafft). Ar gael yn: https://democracy.gwynedd.llyw.cymru/documents/s43230/Appendix%203%20-%20NW%20CJC%20RTP.pdf

Integrated Sustainability Appraisal for the New Local Development Plan
Isle of Anglesey County Council

**Figure 4.1: Carbon Emissions**





Isle of Anglesey boundary
Neighbouring local authority
**UK local authority CO2 emissions 2022**
Per Capita Emissions (tonnes per person)
3.0-4.0
4.0-5.0

Contains OS data © Crown Copyright and database right 2025
Contains data from OS Zoomstack. Contains public sector information licensed under OGL v3.0.

13309_ISA_Scoping_Mar2025/13309_Fig4.1_CarbonEmissions_r1_A3L 21/03/2025 EB:deopante_m

Integrated Sustainability Appraisal for the New Local Development Plan
Isle of Anglesey County Council

**Figure 4.2: Flood zones 2 and 3**





- Isle of Anglesey boundary
- Neighbouring local authority
- Flood Zone 2
- Flood Zone 3

Contains OS data © Crown Copyright and database right 2025
Contains data from OS Zoomstack. Contains Natural Resources Wales information © Natural Resources Wales and Database Right. All rights Reserved.

13309_ISA_Scoping_Mar2025/13309_Fig4.2_FloodZones_r2_A3L 24/03/2025 EB:deopante_m

Integrated Sustainability Appraisal for the New Local Development Plan
Isle of Anglesey County Council

**Figure 4.3: Designated biodiversity and geodiversity assets**





- Isle of Anglesey boundary
- Neighbouring local authority
- Special Area of Conservation
- Special Protection Area
- Ramsar Site
- Site of Special Scientific Interest
- Ancient Woodland
- Local Nature Reserve

Contains OS data © Crown Copyright and database right 2025
Contains data from OS Zoomstack. Contains Natural Resources Wales information © NRW and Database Right. All rights Reserved.

13309_ISA_Scoping_Mar2025/13309_Fig4.3_Biodiversity_r1_A3L 21/03/2025 EB:deopante_m

Integrated Sustainability Appraisal for the New Local Development Plan
Isle of Anglesey County Council

**Figure 4.4: Landscape designations**




- Isle of Anglesey boundary
- Neighbouring local authority
- Eryri National Park

**Special Landscape Area**

- Bangor Mountain & Minffordd rural hinterland
- Beaumaris Wooded Slopes and Llandoeg Vale
- Malltraeth Marsh & Surrounds
- Mynedd Mechell & Surrounds
- North-Western Fringes of Snowdonia
- Parciau Estatelands
- Parys Mountain & Slopes
- Southern Anglesey Estatelands

Contains OS data © Crown Copyright and database right 2025
Contains data from OS Zoomstack. Contains Natural Resources Wales information © NRW and Database Right. All rights Reserved.

13309_ISA_Scoping_Mar2025/13309_Fig4.4_Landscapes_r3_A3L 26/03/2025 EB:bournazel_j

Integrated Sustainability Appraisal for the New Local Development Plan
Isle of Anglesey County Council

**Figure 4.5: Watercourse**





Contains OS data © Crown Copyright and database right 2025
Contains data from OS Zoomstack. Contains public sector information licensed under OGL v3.0.

13309_ISA_Scoping_Mar2025/13309_Fig4.5_Watercourses_r1_A3L 21/03/2025 EB:deopante_m

Integrated Sustainability Appraisal for the New Local Development Plan
Isle of Anglesey County Council

**Figure 4.6: Noise levels (day)**




Isle of Anglesey boundary
Neighbouring local authority

**Road and rail noise during the day (LAeq 16h - between 07:00-23:00)**

Annual average noise levels (decibel)


- 40.1 - 45
- 45.1 - 51
- 51.1 - 58
- 58.1 - 66
- >=66.1

Contains OS data © Crown Copyright and database right 2025
Contains data from OS Zoomstack.Contains Welsh Government data licensed under OGL v3.0

13309_ISA_Scoping_Mar2025/13309_Fig4.6_NoiseLevels(Day)_r1_A3L 21/03/2025 EB:deopante_m

Integrated Sustainability Appraisal for the New Local Development Plan
Isle of Anglesey County Council

**Figure 4.7: Noise levels (night)**




Isle of Anglesey boundary
Neighbouring local authority

**Road and rail noise during the night (Lnight - between 23:00-07:00)**

Annual average noise levels (decibel)


- 35.1 - 39
- 39.1 - 44
- 44.1 - 51
- 51.1 - 59
- >=59.1

Contains OS data © Crown Copyright and database right 2025
Contains data from OS Zoomstack. Contains Welsh Government data licensed under OGL v3.0

13309_ISA_Scoping_Mar2025/13309_Fig4.7_NoiseLevels(Night)_r1_A3L 21/03/2025 EB:deopante_m

Integrated Sustainability Appraisal for the New Local Development Plan
Isle of Anglesey County Council

**Figure 4.8: Agricultural land quality**




- Isle of Anglesey boundary
- Neighbouring local authority

**Agricultural Land Classification (ALC)**


- Grade 1 - Excellent
- Grade 2 - Very Good
- Grade 3a - Good
- Grade 3b - Moderate
- Grade 4 - Poor
- Grade 5 - Very Poor
- NA - Non Agricultural
- U - Urban

Contains OS data © Crown Copyright and database right 2025
Contains data from OS Zoomstack. Contains Welsh Government data licensed under OGL v3.0

13309_ISA_Scoping_Mar2025/13309_Fig4.8_Agricultural_r1_A3L 21/03/2025 EB:deopante_m

Integrated Sustainability Appraisal for the New Local Development Plan
Isle of Anglesey County Council

**Figure 4.9: Designated heritage features**




- Isle of Anglesey boundary
- Neighbouring local authority
- Conservation Area
- Scheduled monument
- Registered Parks and Gardens

**Listed building**


- Grade I
- Grade II*
- Grade II


Contains OS data © Crown Copyright and database right 2025
Contains data from OS Zoomstack.Contains data from the Welsh Government. Cadw, 2025 licensed under the Open Government Licence v3.


13309_ISA_Scoping_Mar2025/13309_Fig4.9_DesignatedHeritageFeatures_r2_A3L 24/03/2025 EB:deopante_m

Integrated Sustainability Appraisal for the New Local Development Plan
Isle of Anglesey County Council

**Figure 4.10: Deprivation**




Isle of Anglesey boundary
Neighbouring local authority

**Indices of Multiple Deprivation (IMD) 2019**

Decile
- 0 - 10% (most deprived)
- 10 - 20%
- 20 - 30%
- 30 - 40%
- 40 - 50%
- 50 - 60%
- 60 - 70%
- 70 - 80%
- 80 - 90%
- 90 - 100% (least deprived)


Contains OS data © Crown Copyright and database right 2025
Contains data from OS Zoomstack. Contains Welsh Government data licensed under OGL v3.0

13309_ISA_Scoping_Mar2025/13309_Fig4.10_Deprivation_r1_A3L 21/03/2025 EB:deopante_m

Integrated Sustainability Appraisal for the New Local Development Plan
Isle of Anglesey County Council

LUC

**Figure 4.11: Welsh speakers**




- Isle of Anglesey boundary
- Neighbouring local authority

**Percentage of welsh speakers above the age of 3**

- 10% or less
- Between 10% and 30%
- Between 30% and 50%
- Between 50% and 70%
- Over 70%

Contains OS data © Crown Copyright and database right 2025
Contains data from OS Zoomstack. Contains National Statistics data; Crown copyright and database right 2022

13309_ISA_Scoping_Mar2025/13309_Fig4.11_WelshSpeakers_r1_A3L 21/03/2025 EB:deopante_m

# Pennod 5

## Materion Cynaliadwyedd Allweddol ac Esblygiad tebygol heb y Cynllun

**5.1** Mae dadansoddi'r wybodaeth sylfaenol wedi golygu bod modd canfod set o faterion cynaliadwyedd allweddol sy'n wynebu Ynys Môn. Mae nodi'r prif faterion cynaliadwyedd ac ystyried sut y gallai'r materion hyn ddatblygu dros amser os na chaiff y CDLl ei weithredu yn helpu i fodloni gofynion Atodlen 2 Rheoliadau AAS (Cymru) i ddarparu gwybodaeth am:

*"agweddau perthnasol ar gyflwr presennol yr amgylchedd a'i esblygiad tebygol heb weithredu'r cynllun neu'r rhaglen; ac unrhyw broblemau amgylcheddol presennol sy'n berthnasol i'r cynllun neu'r rhaglen."*

**5.2** Mae'r set bresennol o faterion cynaliadwyedd allweddol ar gyfer Ynys Môn, fel y nodir drwy'r wybodaeth sylfaenol ym **Mhennod 4**, wedi'i chyflwyno yn **Nhabl 5.1** dros y dudalen.

**5.3** Mae hefyd yn un o ofynion Rheoliadau AAS (Cymru) bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i esblygiad tebygol yr amgylchedd yn ardal y cynllun (Ynys Môn yn yr achos hwn) pe na bai'r CDLl newydd yn cael ei weithredu. Cyflwynir y dadansoddiad hwn hefyd yn **Nhabl 5.1** mewn perthynas â phob un o'r prif faterion cynaliadwyedd.

**5.4** Mae'r wybodaeth yn **Nhabl 5.1** yn dangos, yn gyffredinol, y byddai'r tueddiadau presennol mewn perthynas â'r gwahanol faterion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sy'n effeithio ar Ynys Môn yn cael llai o sylw heb weithredu'r CDLl newydd, er y byddai'r polisïau yn y CDLl ar y Cyd a fabwysiadwyd (2017) yn ogystal â pholisi cenedlaethol a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru a Cymru'r Dyfodol (fel y nodir ym **Mhennod 3**) yn dal i gyfrannu rhywfaint at fynd i'r afael â llawer o'r materion. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r CDLl newydd yn cynnig cyfleoedd i effeithio'n uniongyrchol ar dueddiadau presennol mewn ffordd gadarnhaol, drwy gynllun cyfredol sy'n adlewyrchu polisi cenedlaethol.

**Tabl 5.1: Materion Cynaliadwyedd Allweddol ar gyfer Ynys Môn a'u hesblygiad tebygol heb y Cynllun Datblygu Lleol newydd**

| Materion Cynaliadwyedd Allweddol | Esblygiad Tebygol heb y CDLl newydd |
|---|---|
| Yr angen i liniaru ac addasu i effeithiau parhaus newid yn yr hinsawdd. | Byddai polisïau perthnasol o'r CDLl ar y Cyd mabwysiedig (2017) yn dal yn berthnasol, gan gynnwys polisïau PS 7: Technoleg Ynni Adnewyddadwy, ADN 1: Ynni Gwynt ar y Tir, ADN 2: Ynni solar PV ac ADN 3: Technolegau Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel eraill, a allai helpu i liniaru allyriadau nwyon tŷ gwydr drwy gefnogi darparu ffynonellau ynni adnewyddadwy amgen. Polisi PS 5: Mae Datblygu Cynaliadwy yn cefnogi datblygu yn y prif aneddiadau, sydd â mynediad da at drafnidiaeth gyhoeddus, ac mae gwasanaethau a chyfleusterau o fewn pellter cerdded i'w gilydd. Byddai hyn yn helpu i leihau'r ddibyniaeth ar allyriadau ceir preifat a nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â defnyddio ceir preifat. Mae polisïau eraill yn y CDLl ar y Cyd mabwysiedig yn cefnogi dewisiadau amgen i geir preifat, megis PS 4: Trafnidiaeth Gynaliadwy, Datblygu a Hygyrchedd a TRA 1: Datblygiadau Rhwydwaith Trafnidiaeth. Gall gwelliannau i dechnoleg cerbydau (yn ogystal â pholisïau ym Mholisi Cynllunio Cymru a pholisi a deddfwriaeth genedlaethol arall) hefyd gyfrannu at leihau allyriadau, yn absenoldeb y CDLl ar y Cyd mabwysiedig. Polisi PS 6: Mae Lliniaru ac Addasu i Effeithiau Newid yn yr Hinsawdd yn y Cynllun Lleol mabwysiedig yn gofyn am gynigion i ddangos sut byddant yn ymateb i newid yn yr hinsawdd. Bydd cynlluniau a pholisïau eraill hefyd yn parhau i fod yn berthnasol yn absenoldeb y CDLl ar y Cyd mabwysiedig, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â risg llifogydd. Mae'r CDLl newydd yn cynnig cyfle i gryfhau a datblygu polisïau lleol-benodol cyfredol i fynd i'r afael â mater lliniaru ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd, ac i ddyrannu safleoedd ar gyfer datblygiadau newydd ar Ynys Môn nad ydynt mewn ardaloedd sy'n wynebu risg llifogydd, yn agos at gysylltiadau trafnidiaeth cynaliadwy, a gall hynny gynnwys darparu seilwaith trafnidiaeth cynaliadwy newydd. |
| Lefelau uchel o berchnogaeth ceir a mynediad cyfyngedig at drafnidiaeth gyhoeddus mewn ardaloedd gwledig. | Byddai polisïau perthnasol o'r CDLl ar y Cyd mabwysiedig (2017) yn dal yn berthnasol, gan gynnwys polisïau ISA 1: Darpariaeth Seilwaith, PS 4: Trafnidiaeth Gynaliadwy, Datblygu a Hygyrchedd a TRA 1: Datblygiadau Rhwydwaith Trafnidiaeth, sy'n cefnogi gwelliannau i seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus ac yn annog cerdded a beicio. Byddai hyn, a pholisïau perthnasol eraill (gan gynnwys ym Mholisi Cynllunio Cymru a pholisïau a deddfwriaethau cenedlaethol eraill), yn parhau i fod yn berthnasol yn absenoldeb Cynllun Datblygu Lleol newydd. Mae'r CDLl newydd yn cynnig cyfle i leihau dibyniaeth ar geir preifat drwy ganolbwyntio datblygiadau mewn ardaloedd mwy trefol, adeiledig, a gwella seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus mewn ardaloedd gwledig, er y bydd yn her gwneud hynny o'i gymharu ag ardaloedd trefol, oherwydd diffyg hyfywedd. |
| Yr angen i ddiogelu a gwella nodweddion bioamrywiaeth dynodedig a heb eu dynodi, yn enwedig yn unol â'r argyfwng natur sydd wedi cael ei ddatgan ar lefel genedlaethol. | Byddai polisïau perthnasol o'r CDLl ar y Cyd mabwysiedig (2017) yn dal yn berthnasol, gan gynnwys polisïau AMG 5: Cadwraeth Bioamrywiaeth Leol ac AMG 6: Diogelu Safleoedd o Arwyddocâd Rhanbarthol neu Leol, sy'n ceisio gwarchod a gwella treftadaeth naturiol unigryw Ynys Môn, gan gynnwys rhwydweithiau ecolegol a safleoedd dynodedig. Byddai hyn, a pholisïau perthnasol eraill (gan gynnwys ym Mholisi Cynllunio Cymru a pholisïau a deddfwriaethau cenedlaethol eraill), yn parhau i fod yn berthnasol yn absenoldeb y Cynllun Datblygu Lleol newydd. Fodd bynnag, mae'r CDLl newydd yn cynnig cyfle i ddatblygu polisïau lleol-benodol cyfredol sy'n mynd i'r afael â diogelu'r amgylchedd ac i gyfeirio datblygiadau ar Ynys Môn (drwy ddyrannu safleoedd yn briodol) i leoliadau lle bydd niwed i fioamrywiaeth yn cael ei osgoi. |
| Yr angen i warchod a gwella'r dirwedd sensitif, yn enwedig o amgylch Tirwedd Genedlaethol Ynys Môn. | Byddai polisïau perthnasol o'r CDLl ar y Cyd mabwysiedig (2017) yn dal yn berthnasol, gan gynnwys polisïau AMG1 1: Cynlluniau Rheoli Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, AMG 2: Ardaloedd Tirwedd Arbennig ac AMG 3: Diogelu a Gwella Nodweddion a Rhinweddau sy'n Unigryw i Gymeriad y Dirwedd Leol. Polisïau PCYFF 3: Dylunio a Llunio Lle a PCYFF 4: Byddai dylunio a thirlunio hefyd yn helpu i ddiogelu a gwella'r dirwedd a'r treflun drwy ddylunio o ansawdd uchel. Byddai'r rhain, a pholisïau perthnasol eraill (gan gynnwys Polisi Cynllunio Cymru a pholisïau a deddfwriaethau cenedlaethol eraill), yn parhau i fod yn berthnasol yn absenoldeb y CDLl ar y Cyd; fodd bynnag, mae'r CDLl newydd yn cynnig cyfle i ddatblygu polisïau cyfredol sy'n benodol i'r ardal leol, gan gynnwys rhai ar Dirwedd Genedlaethol Ynys Môn, yn ogystal â chyfeirio datblygiadau ar Ynys Môn (drwy ddyrannu safleoedd yn briodol) i leoliadau lle bydd niwed i dirweddau sensitif yn cael ei osgoi. Gellir datblygu polisïau a chodau dylunio hefyd i sicrhau bod datblygiad newydd yn cael ei ddylunio'n briodol i leihau effeithiau ymhellach. Ni fyddai'r mater hwn yn cael cymaint o sylw yn absenoldeb y CDLl newydd. |
| Prinder darpariaeth mannau agored gan gynnwys cyfleusterau chwaraeon a chaeau chwarae. | Byddai polisïau perthnasol o'r CDLl ar y Cyd mabwysiedig (2017) yn dal yn berthnasol, gan gynnwys polisïau ISA 1: Darpariaeth Seilwaith, ISA 2: Cyfleusterau Cymunedol ac ISA 5: Darparu Mannau Agored mewn Datblygiadau Tai Newydd, sy'n cefnogi datblygu a chyfrannu at fannau agored, gan gynnwys cyfleusterau chwaraeon a hamdden. Yn ogystal â hyn, mae Polisi ISA 4: Diogelu Mannau Agored Presennol sy'n annog peidio â cholli mannau agored. Mae'r CDLl newydd yn gyfle i gynnal a gwella ansawdd mannau agored, yn ogystal â diogelu a gwella mynediad i fannau agored, gan gynnwys cyfleusterau chwaraeon a chaeau chwarae. Bydd y broses o lunio |

| Materion Cynaliadwyedd Allweddol | Esblygiad Tebygol heb y CDLl newydd |
|---|---|
| | cynlluniau hefyd yn caniatáu i fannau agored newydd gael eu cynllunio a'u hymgorffori ochr yn ochr â datblygiadau newydd. |
| Rhai ardaloedd lle mae risg mawr o lifogydd. | Polisi ISA 1: Darparu Seilwaith, sy'n ceisio cyfraniadau tuag at fesurau rheoli risg llifogydd, tra bo polisïau PCYFF 3: Dylunio a Llunio Lle a PCYFF 6: Cadwraeth Dŵr yn cefnogi gweithredu mesurau lleihau llifogydd neu fesurau lliniaru lle bo modd i gyfyngu ar ddŵr ffo wyneb a'i gyfraniad at risg llifogydd, yn ogystal â pherygl llifogydd o'r môr ac afonydd. Yn ogystal, mae'r CDLl ar y Cyd mabwysiedig yn dynodi Ardal Rheoli Newid Arfordirol lle mae gofyniad i gyflwyno Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd sy'n cydymffurfio â NCT 15, er mwyn atal unrhyw gynnydd mewn risg llifogydd. Mae'r CDLl newydd yn rhoi cyfle i'r datblygiadau newydd sydd eu hangen dros gyfnod y cynllun gael eu lleihau gymaint â phosibl mewn ardaloedd lle mae'r risg llifogydd yn uwch. Dylai polisïau sydd wedi'u cynnwys yn y CDLl newydd fynnu mesurau lliniaru lle nad oes modd osgoi ardaloedd lle mae risg llifogydd, yn ogystal â mynnu bod systemau draenio cynaliadwy'n cael eu gosod. |
| Nodweddion treftadaeth sensitif y mae angen eu diogelu. | Mae nifer o bolisïau yn y CDLl ar y Cyd mabwysiedig sy'n ceisio diogelu asedau treftadaeth, sef PS 20: Gwarchod a Phan fo'n Briodol Gwella Asedau Treftadaeth, AT 1: Ardaloedd Cadwraeth, Safleoedd Treftadaeth y Byd a Thirweddau, Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig, AT 2: Galluogi Datblygu, AT 3: Asedau Treftadaeth Heb eu Dynodi sydd â Phwysigrwydd Lleol neu Ranbarthol ac AT 4: Gwarchod Safleoedd Archeolegol heb eu Dynodi a'u Gosodiad. Mae'r CDLl newydd yn cynnig cyfle i gyfyngu ar ddatblygu mewn ardaloedd sy'n fwy sensitif yn hanesyddol ac i sicrhau nad yw datblygiad yn arwain at effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd hanesyddol drwy ofynion polisi. |
| Gostyngiad yn y boblogaeth rhwng y ddau Gyfrifiad diwethaf. | Mae'r polisïau sydd yn y CDLl ar y Cyd mabwysiedig yn ceisio gwneud Ynys Môn yn lle deniadol i fyw ynddo, gan gynnwys polisïau PS 5: Datblygu Cynaliadwy a PCYFF 4: Dylunio a Llunio Lle, sy'n canolbwyntio ar leoliad cynaliadwy datblygiadau a chreu lleoedd. Mae polisïau hefyd sy'n cefnogi twf economaidd yn Ynys Môn, gan gynnwys CYF 1: Gwarchod, Dynodi ac Amddiffyn Tir ac Unedau ar gyfer Defnydd Cyflogaeth a CYF 2: Adwy'r Hafan Pwwllheli, tra bod y galw am dai yn cael sylw drwy bolisïau megis PS 16: Darpariaeth Tai. Byddai'r rhain, a pholisïau perthnasol eraill (gan gynnwys ym Mholisi Cynllunio Cymru a pholisïau a deddfwriaethau cenedlaethol eraill), yn parhau i fod yn berthnasol yn absenoldeb y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Fodd bynnag, mae'r CDLl newydd yn cynnig cyfle i greu a diogelu swyddi drwy ddyrannu a hyrwyddo defnyddiau sy'n creu cyflogaeth, gan gynnwys swyddfeydd a mannau diwydiannol a hyrwyddo'r economi wledig, gan hyrwyddo mynediad a chyfleoedd i bawb ar yr un pryd. |
| Rhai pocedi o amddifadedd. | Byddai polisïau perthnasol o'r CDLl ar y Cyd mabwysiedig (2017) yn dal yn berthnasol, gan gynnwys polisïau CYF 7: Safleoedd Adfywio, CYF 8: Ardal Adfywio Caergybi, TAI 5: Tai Lleol ar y Farchnad Agored, TAI 8: Cymysgedd Tai Priodol a PS 18: Tai Fforddiadwy, sy'n hyrwyddo adfywio mewn ardaloedd sydd ei angen fwyaf, gan sicrhau hefyd bod gwahanol fathau o dai ar gael, gan gynnwys tai fforddiadwy. Mae'r CDLl newydd yn gyfle i fynd i'r afael ag amddifadedd yn uniongyrchol ac mewn ardaloedd nad ydynt wedi'u nodi yn y CDLl ar y Cyd (mae'r gwaith o adfywio Caergybi bron wedi'i gwblhau). |
| Niferoedd siaradwyr Cymraeg yn gostwng. | Mae'r CDLl ar y Cyd mabwysiedig yn cynnwys polisi yn ymwneud â'r Gymraeg, sef PS 1: Yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant, sy'n mynnu bod Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg yn cael ei gyflwyno fel rhan o'r rhan fwyaf o geisiadau. Felly, bydd cefnogaeth i ddefnyddio'r Gymraeg yn parhau yn absenoldeb CDLl newydd. Fodd bynnag, mae'r CDLl newydd yn cynnig cyfle i ddiweddaru'r polisi hwn ac atgyfnerthu'r angen i warchod ac annog defnydd o'r Gymraeg. |

# Pennod 6
# Methodoleg a Fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd Integredig

## Fframwaith ISA

**6.1** Mae datblygu cyfres o amcanion ISA (a elwir yn fframwaith ISA) yn ffordd gydnabyddedig o ddisgrifio, dadansoddi a chymharu effeithiau tebygol cynllun ar gynaliadwyedd.

**6.2** Cyflwynir y fframwaith ISA arfaethedig ar gyfer CDLl newydd Ynys Môn yn **Nhabl 6.1** dros y dudalen. Mae'r holl bynciau sy'n ofynnol dan Reoliadau AAS (a nodir yn Atodlen 2 Rheoliadau AAS (Cymru)) yn cael sylw clir gan amcanion ISA, fel y dangosir yn nhrydedd golofn y tabl. Mae'r golofn olaf yn dangos sut mae'r amcanion yn mynd i'r afael â'r prosesau asesu eraill sydd i'w hintegreiddio yn yr ISA.

**Tabl 2.1: Fframwaith ISA ar gyfer CDLl newydd Ynys Môn**

| Amcan ISA | Cwestiynau i helpu gyda'r penderfyniad<br>A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth...? | Pwnc/pynciau perthnasol Rheoliadau AAS | Perthnasedd i brosesau asesu eraill sydd wedi'u hymgorffori yn yr ISA |
|---|---|---|---|
| **1.** Lliniaru ac addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd a lleihau risg llifogydd | Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr?<br>Cyfrannu at gymuned garbon-niwtral?<br>Lleihau risg llifogydd i bobl, eiddo a chynnal uniondeb y gorlifdir?<br>Hyrwyddo defnyddio Systemau Draenio Cynaliadwy a dyluniadau eraill sy'n gallu gwrthsefyll llifogydd?<br>Ystyried effeithiau tebygol newid yn yr hinsawdd ar bob math o seilwaith?<br>Annog datblygu ynni adnewyddadwy, gan gynnwys microgynhyrchu?<br>Annog safonau uchel o effeithlonrwydd ynni ym mhob datblygiad newydd?<br>Hyrwyddo dylunio a fydd yn helpu i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd (er enghraifft drwy ogwyddo adeiladau'n briodol)?<br>Llywio datblygiadau i ffwrdd o'r gorlifdir lle bo hynny'n bosibl, ac atal mwy o risg llifogydd mewn mannau eraill?<br>Hyrwyddo dylunio a fydd yn cefnogi seilwaith gwyrdd? | Ffactorau hinsoddol | Mae'n rhoi sylw i nod(au) llesiant canlynol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:<br>- Cymru gydnerth<br>- Cymru Iachach<br>- Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang |
| **2.** Darparu nifer a chymysgedd priodol o dai i ddiwallu anghenion lleol | Darparu tai o ansawdd da?<br>Hyrwyddo cymysgedd o feintiau, mathau a deiliadaeth tai?<br>Hyrwyddo tai sy'n bodloni gofynion y rheini sydd ag anghenion penodol, gan gynnwys pobl hŷn a phobl ag anableddau?<br>Helpu i ddiwallu anghenion tai fforddiadwy er mwyn caniatáu i bobl leol aros yn eu cymunedau? | Poblogaeth<br>Asedau perthnasol | Mae'n rhoi sylw i nod(au) llesiant canlynol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:<br>- Cymru fwy cyfartal<br>- Cymru o gymunedau cydlynus<br>Mae mynediad at dai priodol i ddiwallu anghenion penodol yn fater allweddol ar gyfer elfen EqIA a HIA yr ISA. |

| Amcan ISA | Cwestiynau i helpu gyda'r penderfyniad<br>A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth...? | Pwnc/pynciau perthnasol Rheoliadau AAS | Perthnasedd i brosesau asesu eraill sydd wedi'u hymgorffori yn yr ISA |
|---|---|---|---|
| **3.** Hyrwyddo cymunedau bywiog, gyda chyfleoedd i fyw, gweithio a chymdeithasu i bawb | Annog darparu cyfleusterau cymunedol mewn lleoliadau hygyrch?<br>Hyrwyddo mynediad at addysg i bawb?<br>Ystyried anghenion grwpiau penodol gan gynnwys y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig?<br>Cynllunio lleoedd gyda chyfleoedd ar gyfer dinasyddiaeth weithredol er mwyn hyrwyddo ymgysylltu â'r gymuned?<br>Darparu mannau cyfarfod ar gyfer gwahanol ddiwylliannau?<br>Hyrwyddo datblygiad cymysg?<br>Darparu mynediad cyfartal i bawb?<br>Helpu i hyrwyddo atebion dylunio a fydd yn helpu i amddiffyn cymunedau rhag troseddau a lleihau'r ofn o droseddau? | Poblogaeth<br>Asedau perthnasol | Mae'n rhoi sylw i nod(au) llesiant canlynol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:<br>- Cymru fwy cyfartal<br>- Cymru o gymunedau cydlynus<br><br>Mae mynediad at wasanaethau a chyfleusterau cymunedol sy'n berthnasol i grwpiau penodol yn fater allweddol i elfen EqIA yr ISA, ac mae lleihau arwahanrwydd yn bwysig i'r elfen HIA. |
| **4.** Annog ffyrdd iach a diogel o fyw sy'n hybu lles ac yn gwella lefelau iechyd yn gyffredinol ar Ynys Môn. | Hyrwyddo darparu cyfleusterau gofal iechyd a mynediad atynt?<br>Atal effeithiau annerbyniol ar amwynder (fel llygredd sŵn, arogl a golau)?<br>Darparu mannau megis rhandiroedd a gerddi cymunedol a fydd yn hybu bwyta'n iach?<br>Diogelu mannau agored presennol?<br>Hyrwyddo darparu cyfleusterau ar gyfer gweithgareddau hamdden corfforol a chwarae (gan gynnwys ar gyfer cerdded a beicio)?<br>Hyrwyddo pwysigrwydd gwarchod mannau chwarae naturiol?<br>Gwella mynediad y cyhoedd at fannau gwyrdd naturiol a/neu gefn gwlad? | Iechyd pobl | Mae'n rhoi sylw i nod(au) llesiant canlynol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:<br>- Cymru Iachach<br>- Cymru fwy cyfartal<br><br>Mae'n mynd i'r afael â'r gofyniad am Asesiad o'r Effaith ar Iechyd. |

| Amcan ISA | Cwestiynau i helpu gyda'r penderfyniad<br>A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth...? | Pwnc/pynciau perthnasol Rheoliadau AAS | Perthnasedd i brosesau asesu eraill sydd wedi'u hymgorffori yn yr ISA |
|---|---|---|---|
| | Darparu ar gyfer mannau awyr agored preifat personol mewn datblygiadau newydd?<br>Diogelu a gwella iechyd meddwl pobl?<br>Helpu i wella lefelau iechyd cyffredinol a lleihau anghydraddoldebau iechyd?<br>Hyrwyddo pwysigrwydd gwarchod mannau chwarae naturiol?<br>*Sylwch fod amcan 5 yr Arfarniad Cynaliadwyedd isod yn rhoi sylw i'r graddau y bydd opsiynau'n hyrwyddo defnyddio dulliau teithio llesol.* | | |
| **5.** Lleihau'r angen i deithio a hyrwyddo dulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy | Darparu ar gyfer dewisiadau eraill yn lle ceir preifat a gwella cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig?<br>Darparu ar gyfer llwybrau cerdded a beicio diogel a deniadol?<br>Lleihau'r angen i deithio mewn datblygiadau newydd?<br>Sicrhau cysylltedd i fand eang cyflym?<br>Lleihau'r angen i gymudo i'r gwaith?<br>Hyrwyddo'r gwaith o ddarparu seilwaith ategol ar gyfer cerbydau trydan a'r defnydd ohonynt? | Asedau perthnasol<br>Ffactorau hinsoddol<br>Aer | Mae'n rhoi sylw i nod(au) llesiant canlynol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:<br>- Cymru gydnerth<br>- Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang<br>- Cymru Iachach |
| **6.** Hyrwyddo, gwarchod a gwella treftadaeth ddiwylliannol a'r amgylchedd adeiledig | Diogelu a gwella ardaloedd ac adeiladau o bwysigrwydd hanesyddol neu ddiwylliannol?<br>Diogelu a gwella archaeoleg?<br>Diogelu a gwella treftadaeth ddiwydiannol?<br>Hyrwyddo mynediad cynaliadwy i safleoedd diwylliannol?<br>Sicrhau safonau dylunio uchel ym mhob datblygiad newydd? | Treftadaeth ddiwylliannol<br>Asedau perthnasol | Mae'n rhoi sylw i nod(au) llesiant canlynol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:<br>- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu |

| Amcan ISA | Cwestiynau i helpu gyda'r penderfyniad<br>A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth...? | Pwnc/pynciau perthnasol Rheoliadau AAS | Perthnasedd i brosesau asesu eraill sydd wedi'u hymgorffori yn yr ISA |
|---|---|---|---|
| | Diogelu a gwella cymeriad a nodweddion unigryw lleol, gan gydnabod rôl arloesi? | | |
| **7.** Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg | Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ymysg gwahanol grwpiau o bobl, gan gynnwys yn y gweithle ac mewn addysg?<br>Hyrwyddo cynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith?<br>Hyrwyddo statws y Gymraeg? | Treftadaeth ddiwylliannol<br>Poblogaeth | Mae'n rhoi sylw i nod(au) llesiant canlynol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:<br>- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu<br><br>Yn mynd i'r afael â'r angen am asesiad effaith ar y Gymraeg. |
| **8.** Diogelu a gwella ansawdd a chymeriad y dirwedd | Diogelu a gwella ardaloedd dynodedig, gan gynnwys y Dirwedd Genedlaethol a'r Arfordir Treftadaeth?<br>Diogelu a gwella tirweddau hanesyddol?<br>Diogelu a gwella cymeriad a nodweddion unigryw'r dirwedd leol?<br>Diogelu a gwella llonyddwch ac awyr dywyll? | Tirlun | Mae'n rhoi sylw i nod(au) llesiant canlynol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:<br>- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu<br>- Cymru Iachach |
| **9.** Gwarchod a gwella bioamrywiaeth | Gwella amrywiaeth cynefinoedd a rhywogaethau a chynnal a gwella poblogaethau rhywogaethau?<br>Gwella hyd a lled cynefinoedd a phoblogaethau rhywogaethau gwarchodedig a blaenoriaeth drwy geisio creu, adfer a rheoli rhwydweithiau a chysylltiadau gwyrdd yn briodol?<br>Gwella ac yn diogelu cyflwr ecosystemau a chefnogi'r gwaith o reoli cynefinoedd yn y tymor hir?<br>Gwella cysylltedd drwy fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i greu cynefinoedd gweithredol a rhwydweithiau ecolegol?<br>Gallu addasu i newid, yn enwedig effeithiau newid yn yr hinsawdd? | Bioamrywiaeth, fflora a ffawna | Mae'n rhoi sylw i nod(au) llesiant canlynol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:<br>- Cymru gydnerth<br>- Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang<br><br>Mae ystyriaethau Deddf yr Amgylchedd (Adran 6) yn cael eu hadlewyrchu yn y cwestiynau sy'n helpu i wneud penderfyniadau. |

| Amcan ISA | Cwestiynau i helpu gyda'r penderfyniad<br>A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth...? | Pwnc/pynciau perthnasol Rheoliadau AAS | Perthnasedd i brosesau asesu eraill sydd wedi'u hymgorffori yn yr ISA |
|---|---|---|---|
| | Cyfyngu ar y posibilrwydd o amharu ar brosesau naturiol neu gysylltedd?<br>Cefnogi'r gwaith o adfer prosesau naturiol a allai liniaru neu ddileu effeithiau eraill?<br>Gwella a diogelu cysylltiadau rhwng pobl a natur? | | |
| **10.** Diogelu ansawdd a swm adnoddau dŵr Ynys Môn | Lleihau a/neu osgoi llygredd i'r amgylchedd dŵr?<br>Cefnogi defnydd effeithlon o ddŵr, gan gynnwys ailgylchu dŵr llwyd mewn datblygiadau newydd?<br>Diogelu ansawdd a swm y ffynonellau dŵr daear?<br>Atal datblygiad newydd a fydd yn achosi problemau draenio (gan gynnwys mewn perthynas â mynychder selio pridd)?<br>Diogelu ansawdd a swm dŵr wyneb?<br>Helpu i sicrhau lefelau digonol o seilwaith carthffosiaeth a chapasiti i drin dŵr gwastraff mewn gwaith trin carthion? | Dŵr | Mae'n rhoi sylw i nod(au) llesiant canlynol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:<br>- Cymru gydnerth<br>- Cymru Iachach<br>- Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang |
| **11.** Diogelu a gwella ansawdd yr aer | Osgoi cynyddu llygredd aer a sicrhau gwelliannau yn ansawdd yr aer?<br>Hyrwyddo polisi a datblygiad sy'n galluogi ac yn cefnogi cymunedau i fabwysiadu ffyrdd o fyw a chamau gweithredu a all ddiogelu neu wella ansawdd aer lleol? | Aer | Mae'n rhoi sylw i nod(au) llesiant canlynol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:<br>- Cymru gydnerth<br>- Cymru Iachach<br>- Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang |
| **12.** Hyrwyddo defnydd effeithlon o dir, priddoedd a mwynau. | Annog ailddefnyddio tir ac adeiladau a ddatblygwyd yn flaenorol fel blaenoriaeth, lle bo hynny'n briodol?<br>Atal a rheoli llygredd i dir?<br>Hyrwyddo'r gwaith o adfer halogiad tir?<br>Diogelu adnoddau mwynol?<br>Ailddefnyddio ac ailgylchu agregau ar y safle? | Pridd<br>Asedau perthnasol | Mae'n rhoi sylw i nod(au) llesiant canlynol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:<br>- Cymru gydnerth<br>- Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang |

| Amcan ISA | Cwestiynau i helpu gyda'r penderfyniad<br>A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth...? | Pwnc/pynciau perthnasol Rheoliadau AAS | Perthnasedd i brosesau asesu eraill sydd wedi'u hymgorffori yn yr ISA |
|---|---|---|---|
| | Hyrwyddo dwysedd uwch o ddatblygiadau (lle ystyrir bod hynny'n briodol) i gefnogi defnydd mwy effeithlon o adnoddau tir? | | |
| **13.** Parhau i gynhyrchu cyn lleied o wastraff â phosibl a hyrwyddo dulliau mwy cynaliadwy o reoli gwastraff | Lleihau faint o wastraff sy'n cael ei gynhyrchu?<br>Osgoi, lleihau, ailddefnyddio, ailgylchu ac adfer cyn gwaredu i safleoedd tirlenwi?<br>Gwella perfformiad ailgylchu da ymhellach gan gynnwys darparu cyfleusterau (domestig a masnachol)?<br>Cefnogi datblygu dewisiadau eraill yn lle tirlenwi, gan gynnwys cyfleusterau compostio ac ynni o wastraff?<br>Hyrwyddo hunangynhaliaeth o ran rheoli gwastraff lle bo hynny'n briodol? | Asedau perthnasol<br>Iechyd pobl<br>Dŵr<br>Pridd | Mae'n rhoi sylw i nod(au) llesiant canlynol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:<br>- Cymru gydnerth<br>- Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang |
| **14.** Darparu ar gyfer economi gynaliadwy | Hybu twf economaidd?<br>Annog mewnfuddsoddiad a buddsoddiad cynhenid priodol?<br>Cefnogi'r economi wledig?<br>Hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy?<br>Sicrhau bod tir yn cael ei ddyrannu i ddiwallu anghenion economaidd y boblogaeth?<br>Cynnal banc tir priodol o safleoedd cyflogaeth?<br>Hyrwyddo bywiogrwydd a hyfywedd canol trefi?<br>Cefnogi'r gwaith o sicrhau economi carbon is sy'n fwy gwyrdd a all fod o fudd i holl aelodau'r gymuned? | Asedau perthnasol | Mae'n rhoi sylw i nod(au) llesiant canlynol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:<br>- Cymru ffyniannus<br>- Cymru fwy cyfartal |
| **15.** Darparu ar gyfer amrywiaeth eang o gyfleoedd gwaith | Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd cyflogaeth ar Ynys Môn?<br>Darparu cyfleoedd ar gyfer amrywiaeth o lefelau sgiliau?<br>Darparu swyddi mewn lleoliadau hygyrch? | Poblogaeth<br>Asedau perthnasol | Mae'n rhoi sylw i nod(au) llesiant canlynol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:<br>- Cymru ffyniannus<br>- Cymru fwy cyfartal |

| Amcan ISA | Cwestiynau i helpu gyda'r penderfyniad<br><br>A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth...? | Pwnc/pynciau perthnasol Rheoliadau AAS | Perthnasedd i brosesau asesu eraill sydd wedi'u hymgorffori yn yr ISA |
|---|---|---|---|
| | Darparu cyfleusterau hyfforddi i helpu i ddatblygu sylfaen sgiliau hyblyg? | | |

## Methodoleg ISA

**6.3** Bydd yr opsiynau polisi amgen rhesymol ar gyfer y CDLl yn cael eu gwerthuso yn erbyn yr amcanion yn fframwaith yr ISA, gyda symbolau'n cael eu defnyddio i ddangos effeithiau tebygol pob opsiwn neu bolisi ar bob amcan ISA fel a ganlyn:

**Ffigur 6.1: Allwedd i symbolau a chodau lliw i'w defnyddio yn ISA CDLl Ynys Môn**

| | |
|---|---|
| ++ | Effaith gadarnhaol arwyddocaol yn debygol |
| ++/-<br>NEU<br>++/-- | Effeithiau cadarnhaol arwyddocaol a mân effeithiau negyddol cymysg yn debygol |
| + | Effaith gadarnhaol fach yn debygol |
| +/- | Effeithiau mân neu arwyddocaol cymysg yn debygol |
| - | Effaith negyddol fach yn debygol |
| --/+ | Effeithiau negyddol arwyddocaol a mân effeithiau cadarnhaol cymysg yn debygol |
| -- | Effaith negyddol arwyddocaol yn debygol |
| 0 | Effaith fach iawn yn debygol |
| ? | Effaith debygol yn ansicr |

**6.4** Pan fydd effaith gadarnhaol neu negyddol bosibl yn ansicr, bydd marc cwestiwn yn cael ei ychwanegu at y symbol perthnasol (e.e. +? neu -?) a bydd y symbol yn cael cod lliw yn unol â'r effaith gadarnhaol, fach iawn neu negyddol bosibl (e.e. gwyrdd, melyn, oren, ac ati).

**6.5** Mae angen penderfynu ar effeithiau tebygol opsiynau a pholisïau ac asesu eu harwyddocâd, sy'n anochel yn golygu bod angen gwneud cyfres o benderfyniadau. Bydd yr arfarniad yn ceisio gwahaniaethu rhwng yr effeithiau mwyaf arwyddocaol ac effeithiau llai eraill drwy ddefnyddio'r symbolau a ddangosir uchod. Mae'r ffin wrth wneud penderfyniad am arwyddocâd effaith yn aml yn eithaf bach. Lle bydd naill ai (++) neu (--) yn cael eu defnyddio i wahaniaethu rhwng effeithiau arwyddocaol ac effeithiau llai (+ neu -) bydd hyn oherwydd yr ystyrir bod effaith opsiwn neu bolisi ar amcan yr ISA dan sylw mor fawr fel y bydd yn cael effaith amlwg a mesuradwy gan ystyried ffactorau eraill a allai ddylanwadu ar gyflawni'r amcan hwnnw. Fodd bynnag, bydd yr effeithiau a nodwyd yn berthnasol i faint y cynigion sy'n cael eu hystyried.

**6.6** Bydd effeithiau cymysg ond yn cael eu cyflwyno pan fydd effeithiau sy'n uniongyrchol groes i'w gilydd (h.y. cadarnhaol a negyddol) wedi cael eu nodi drwy'r arfarniad (e.e. +/-, ++/-, --/+ a ++/--). Ar gyfer rhai amcanion ISA, mae'n bosibl y gallai polisi gael effaith gadarnhaol fach mewn perthynas ag un agwedd ar y polisi ac effaith gadarnhaol arwyddocaol mewn perthynas ag agwedd arall (gan roi sgôr o +/++). Fodd bynnag, yn yr achosion hyn, dim ond y sgôr fwyaf arwyddocaol a ddangosir yn y tablau arfarnu. Yn yr un modd, pe gallai polisi neu safle gael effaith negyddol fach ac arwyddocaol (-/--) ar gyfer yr un amcan ISA, dim ond y sgôr negyddol arwyddocaol fydd yn cael ei dangos yn y tablau arfarnu. Bydd y testun cyfiawnhau sy'n ymwneud â'r arfarniad yn disgrifio lle gallai gwahanol elfennau'r polisi sy'n cael ei arfarnu fod â'r potensial i arwain at effeithiau o wahanol faint.

## Methodoleg Asesu Safleoedd Ymgeisiol

**6.7** Bydd y broses ISA ar gyfer Safleoedd Ymgeisiol yn cael ei hintegreiddio yn y broses ehangach o Asesu Safleoedd Ymgeisiol. Bydd fframwaith yr ISA yn cael ei ymgorffori yn y ffurflen Asesu Safleoedd Ymgeisiol a bydd safleoedd yn cael eu hasesu mewn perthynas â phob un o amcanion yr ISA. Er mwyn sicrhau cysondeb yn yr arfarniad, ac er mwyn sicrhau bod y broses o Asesu Safleoedd Ymgeisiol yn bodloni gofynion Rheoliadau AAS (Cymru), bydd y meini prawf a nodir yn **Nhabl 6.2** dros y dudalen yn cael eu defnyddio er mwyn pennu o dan ba amgylchiadau y bydd mân effeithiau ac effeithiau arwyddocaol, yn rhai cadarnhaol a negyddol, yn cael eu nodi.

**6.8** Mae'r meini prawf yn **Nhabl 6.2** yn ymwneud â safleoedd a gynigir ar gyfer datblygiadau preswyl a chyflogaeth. Os cynigir safleoedd ar gyfer defnyddiau eraill (h.y. mwynau neu ddatblygiadau gwastraff) bydd angen addasu'r meini prawf fel y bo'n briodol. Pan fydd meini prawf sy'n seiliedig ar bellter sy'n ymwneud â mynediad at wasanaethau a chyfleusterau a seilwaith (e.e. cyfleusterau a fyddai o fudd i iechyd a nodau trafnidiaeth gynaliadwy) yn cael eu defnyddio, bydd y rhain yn cael eu defnyddio ar sail 'pellter cerdded hawdd'. Mae nifer o ddarnau o ymchwil sy'n rhoi amrywiaeth o bellteroedd canllaw a argymhellir ar gyfer cerdded. Er enghraifft, canfu'r Sefydliad Siartredig Priffyrdd a Chludiant fod taith gerdded yn un cilometr o hyd ar gyfartaledd.

**6.9** Mae'r cwestiynau sy'n helpu i wneud penderfyniadau wedi'u cynnwys yn **Nhabl 6.2** isod yn ogystal ag yn **Nhabl 6.1** yn gynharach yn y bennod hon, sy'n nodi'r fframwaith ISA cyffredinol ar gyfer yr ISA. Mae'r cwestiynau sy'n helpu i wneud penderfyniadau yn bwysig iawn ar gyfer gwerthuso'r opsiynau polisi a strategaeth ofodol yr ystyrir eu cynnwys yn y CDLl. Er y bydd y meini prawf asesu sydd wedi'u cynnwys yng ngholofn olaf **Tabl 6.2** yn cael eu defnyddio i sicrhau cysondeb ar gyfer gwerthuso opsiynau safle, mae'r cwestiynau sy'n helpu gyda'r penderfyniad hefyd wedi cael eu cynnwys yn y tabl hwn i ddangos sut mae'r meini prawf

asesu safle'n deillio o'r cwestiynau hyn ac yn cyd-fynd â nhw. I bob pwrpas, mae'r meini prawf asesu safle a gyflwynir yn **Nhabl 6.2** yn caniatáu ar gyfer arfarniad cyson o'r opsiynau safle yn erbyn y fframwaith ISA cyffredinol (**Tabl 6.1**) sydd i'w ddefnyddio i 'brofi' pob elfen (opsiynau polisi, safle a strategaeth ofodol) yr ystyrir eu cynnwys yn y CDLl.

**Tabl 6.2: Meini prawf asesu ar gyfer Safleoedd Ymgeisiol y CDLI**

| Amcan ISA | Cwestiynau i helpu gyda'r penderfyniad<br>A fydd y Safle Ymgeisiol yn...? | Meini prawf asesu |
|---|---|---|
| **1.** Lliniaru ac addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd a lleihau risg llifogydd | Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr?<br>Cyfrannu at gymuned garbon-niwtral?<br>Lleihau risg llifogydd i bobl, eiddo a chynnal uniondeb y gorlifdir?<br>Hyrwyddo defnyddio Systemau Draenio Cynaliadwy a dyluniadau eraill sy'n gallu gwrthsefyll llifogydd?<br>Ystyried effeithiau tebygol newid yn yr hinsawdd ar bob math o seilwaith?<br>Annog datblygu ynni adnewyddadwy, gan gynnwys microgynhyrchu?<br>Annog safonau uchel o effeithlonrwydd ynni ym mhob datblygiad newydd?<br>Hyrwyddo dylunio a fydd yn helpu i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd (er enghraifft drwy ogwyddo adeiladau'n briodol)?<br>Llywio datblygiadau i ffwrdd o'r gorlifdir lle bo hynny'n bosibl, ac atal mwy o risg llifogydd mewn mannau eraill?<br>Hyrwyddo dylunio a fydd yn cefnogi seilwaith gwyrdd? | Ni fydd lleoliad y datblygiad yn effeithio ar gyflawni rhai rhannau o'r amcan hwn – bydd yr effeithiau ar allyriadau nwyon tŷ gwydr o ddatblygiadau adeiledig a chynhyrchu a defnyddio ynni adnewyddadwy, er enghraifft, yn dibynnu i raddau helaeth ar y cynigion manwl ar gyfer safleoedd a'u dyluniad, nad ydynt yn hysbys ar hyn o bryd. Mae i ba raddau y byddai lleoliad safleoedd yn hwyluso defnyddio dulliau trafnidiaeth cynaliadwy yn lle ceir yn cael ei ystyried o dan amcan 4 yr Arfarniad Cynaliadwyedd isod.<br>Lle bo Safleoedd Ymgeisiol wedi'u lleoli mewn ardaloedd lle mae risg mawr o lifogydd, gallai gynyddu'r risg llifogydd yn yr ardaloedd hynny (yn enwedig os nad yw'r safleoedd wedi'u datblygu o'r blaen) a byddai'n cynyddu nifer y bobl a'r asedau sy'n wynebu risg llifogydd. Felly:<br>- Mae safleoedd sydd yn gyfan gwbl neu'n bennaf (h.y. >50%) ar dir maes glas sydd o fewn parthau llifogydd 3a neu 3b neu ar dir llwyd o fewn parthau llifogydd 3a neu 3b yn debygol o gael effaith negyddol arwyddocaol (--).<br>- Mae safleoedd sydd naill ai'n gyfan gwbl neu'n bennaf ar faes glas y tu allan i barthau llifogydd 3a a 3b yn debygol o gael effaith negyddol fach (-).<br>- Mae safleoedd sydd ar dir llwyd y tu allan i barthau llifogydd 3a a 3b yn debygol o gael effaith (0) fach iawn. |
| **2.** Darparu nifer a chymysgedd priodol o dai i ddiwallu anghenion lleol | Darparu tai o ansawdd da?<br>Hyrwyddo cymysgedd o feintiau, mathau a deiliadaeth tai?<br>Hyrwyddo tai sy'n bodloni gofynion y rheini sydd ag anghenion penodol, gan gynnwys pobl hŷn a phobl ag anableddau?<br>Helpu i ddiwallu anghenion tai fforddiadwy er mwyn caniatáu i bobl leol aros yn eu cymunedau? | Bydd yr holl opsiynau safle a fyddai'n darparu tai yn cael effaith gadarnhaol ar yr amcan hwn oherwydd natur y datblygiad arfaethedig. Bydd safleoedd mwy yn darparu cyfleoedd ar gyfer datblygu mwy o gartrefi a gallant hefyd gynnig cyfleoedd penodol ar gyfer ymgorffori tai fforddiadwy ac amrywiaeth o fathau o dai. Byddai gweddill y cwestiynau a fyddai'n helpu gyda'r penderfyniad yn cael eu dylanwadu gan bolisïau yn y CDLI newydd yn hytrach na lleoliadau safleoedd tai. Felly:<br>- Byddai safleoedd a fyddai'n darparu 100[144] neu fwy o gartrefi'n cael effaith gadarnhaol arwyddocaol (++).<br>- Byddai safleoedd a fyddai'n darparu llai na 100 o gartrefi yn cael effaith gadarnhaol fach (+). |

[144] Sylwch y gall y trothwy a ddefnyddir i nodi safleoedd mwy at ddibenion yr ISA newid unwaith y bydd yr ystod o opsiynau safle yn hysbys.

| Amcan ISA | Cwestiynau i helpu gyda'r penderfyniad<br>A fydd y Safle Ymgeisiol yn...? | Meini prawf asesu |
|---|---|---|
| | | - Effaith fach iawn (0) fyddai i safleoedd na fyddent yn darparu tai. |
| **3.** Hyrwyddo cymunedau bywiog, gyda chyfleoedd i fyw, gweithio a chymdeithasu i bawb | Annog darparu cyfleusterau cymunedol mewn lleoliadau hygyrch?<br>Hyrwyddo mynediad at addysg i bawb?<br>Ystyried anghenion grwpiau penodol gan gynnwys y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig?<br>Cynllunio lleoedd gyda chyfleoedd ar gyfer dinasyddiaeth weithredol er mwyn hyrwyddo ymgysylltu â'r gymuned?<br>Darparu mannau cyfarfod ar gyfer gwahanol ddiwylliannau?<br>Hyrwyddo datblygiad cymysg?<br>Darparu mynediad cyfartal i bawb?<br>Helpu i hyrwyddo atebion dylunio a fydd yn helpu i amddiffyn cymunedau rhag troseddau a lleihau'r ofn o droseddau? | Ni fyddai lleoliad y datblygiad yn dylanwadu ar nifer o'r materion sy'n cael sylw gan yr amcan hwn, ac yn hytrach byddai polisïau yn y CDLl newydd yn dylanwadu arnynt. Fodd bynnag, yn gyffredinol bydd gan safleoedd sydd wedi'u lleoli yn yr aneddiadau mwy yn Ynys Môn well mynediad at ystod ehangach o wasanaethau a chyfleusterau presennol, gan gynnwys cyfleusterau addysgol, o'u cymharu â safleoedd mewn aneddiadau llai. Byddai unrhyw wasanaethau a chyfleusterau newydd a allai gael eu darparu o ganlyniad i'r datblygiad newydd hefyd yn hygyrch i nifer uwch o drigolion cyfagos.<br>- Byddai safleoedd sydd wedi'u lleoli yn un o'r canolfannau gwasanaeth trefol yn cael effaith gadarnhaol arwyddocaol (++).<br>- Byddai safleoedd sydd wedi'u lleoli yn un o'r canolfannau gwasanaeth lleol yn cael effaith gadarnhaol fach (+).<br>- Byddai safleoedd sydd wedi'u lleoli i ffwrdd o'r canolfannau gwasanaeth trefol a lleol yn cael effaith negyddol fach (-) ond cydnabyddir eu bod yn rhoi hwb i'r economi leol a'r ddarpariaeth addysg. |
| **4.** Annog ffyrdd iach a diogel o fyw sy'n hybu lles ac yn gwella lefelau iechyd yn gyffredinol ar Ynys Môn. | Hyrwyddo darparu cyfleusterau gofal iechyd a mynediad atynt?<br>Atal effeithiau annerbyniol ar amwynder (fel llygredd sŵn a golau)?<br>Darparu mannau megis rhandiroedd a gerddi cymunedol a fydd yn hybu bwyta'n iach?<br>Diogelu mannau agored presennol?<br>Hyrwyddo darparu cyfleusterau ar gyfer gweithgareddau hamdden corfforol a chwarae (gan gynnwys ar gyfer cerdded a beicio)?<br>Hyrwyddo pwysigrwydd gwarchod mannau chwarae naturiol?<br>Gwella mynediad y cyhoedd at fannau gwyrdd naturiol a/neu gefn gwlad? | Bydd safleoedd preswyl sy'n agos at gyfleusterau gofal iechyd presennol (h.y. meddygfeydd meddygon teulu) yn sicrhau bod gan breswylwyr fynediad da at wasanaethau gofal iechyd. Os bydd nifer o safleoedd yn cael eu dyrannu'n agos at ei gilydd, gallai hyn arwain at orlwytho cyfleusterau gofal iechyd presennol. Os daw gwybodaeth ar gael ar unrhyw adeg ynghylch capasiti cyfleusterau gofal iechyd presennol, bydd hyn yn cael ei ystyried yn yr ISA. Cydnabyddir hefyd y gallai datblygiad newydd ysgogi darparu cyfleusterau gofal iechyd newydd, ond ni ellir tybio hyn ar hyn o bryd.<br>Bydd iechyd y cyhoedd hefyd yn cael ei ddylanwadu gan agosrwydd safleoedd at fannau agored, llwybrau cerdded a beicio, a gall mynediad hawdd at y rhain annog pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden llesol yn yr awyr agored.<br>Felly:<br>- Byddai safleoedd preswyl sydd o fewn 400m i ddarparwr gofal iechyd yn cael effaith gadarnhaol arwyddocaol (++).<br>- Byddai safleoedd preswyl sydd o fewn 400-800m i ddarparwr gofal iechyd yn cael effaith gadarnhaol fach (+). |

| Amcan ISA | Cwestiynau i helpu gyda'r penderfyniad<br>A fydd y Safle Ymgeisiol yn...? | Meini prawf asesu |
|---|---|---|
| | Darparu ar gyfer mannau awyr agored preifat personol mewn datblygiadau newydd?<br>Diogelu a gwella iechyd meddwl pobl?<br>Helpu i wella lefelau iechyd cyffredinol a lleihau anghydraddoldebau iechyd?<br>Hyrwyddo pwysigrwydd gwarchod mannau chwarae naturiol?<br>*Sylwch fod amcan 5 yr Arfarniad Cynaliadwyedd isod yn rhoi sylw i'r graddau y bydd opsiynau safleoedd yn hyrwyddo defnyddio dulliau teithio llesol.* | - Byddai safleoedd preswyl nad ydynt o fewn 800m i ddarparwr gofal iechyd yn cael effaith negyddol fach (-).<br>- Byddai safleoedd na fyddent yn cynnwys datblygiadau preswyl yn cael effaith fach iawn (0) ar y rhan hon o'r amcan.<br>Ar ben hynny, gallai arwain at effeithiau cymysg yn gyffredinol[145]:<br>- Bydd safleoedd sydd o fewn 800m i ardal o fan agored ac sydd o fewn 400m i lwybr cerdded neu feicio yn cael effaith gadarnhaol arwyddocaol (++).<br>- Bydd safleoedd sydd o fewn 800m i ardal o fan agored neu o fewn 400m i lwybr cerdded neu feicio (ond nid y ddau) yn cael effaith gadarnhaol fach (+).<br>- Bydd safleoedd sydd dros 800m o fan agored a dros 400m o lwybr cerdded neu feicio yn cael effaith negyddol fach (-).<br>- Gallai safleoedd sy'n cynnwys ardal bresennol o fan agored (gan gynnwys rhandiroedd) neu lwybr cerdded neu feicio a allai felly gael ei golli o ganlyniad i ddatblygiad newydd gael effaith negyddol arwyddocaol (--?), er bod hyn yn ansicr gan ddibynnu ar a fyddai datblygu'r safle mewn gwirionedd yn arwain at golli'r cyfleuster hwnnw.<br>Ar ben hynny, gallai arwain at effeithiau cymysg yn gyffredinol:<br>- Byddai safleoedd preswyl a fyddai'n amlygu trigolion i lefelau sŵn o Lnight >=55.0 dB, neu Laeq,16 >= 60.0 dB yn cael effaith negyddol arwyddocaol (--).<br>- Byddai safleoedd preswyl a fyddai'n amlygu trigolion i lefelau sŵn o Lnight 50.0-54.9 dB, neu Laeq,16 55.0- 59.9 dB yn cael effaith negyddol fach (-).<br>- Byddai opsiynau safleoedd cyflogaeth yn cael effaith fach iawn (0) gan y dylanwadir yn fawr ar lefelau sŵn a brofir gan weithwyr gan y math o waith sy'n cael ei wneud ar y safle, a yw gweithwyr yn gwisgo cyfarpar diogelu'r clyw, a dyluniad yr adeilad (e.e. mae swyddfeydd yn fwy tebygol na thai o fod ag aerdymheru ac wedi'u hinswleiddio'n acwstig). |
| **5.** Lleihau'r angen i deithio a hyrwyddo dulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy | Darparu ar gyfer dewisiadau eraill yn lle ceir preifat a gwella cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig? | Bydd mynediad hwylus at gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus yn lleihau lefelau defnyddio ceir ac yn annog newid moddol. Gallai datblygiad newydd ysgogi darparu cysylltiadau newydd fel llwybrau bysiau; fodd bynnag, ni ellir tybio hyn. Ar ben hynny, nid oes gwybodaeth ar gael am amlder gwasanaethau bysiau a chydnabyddir |

Ym mhob achos, os mai'r un fath o effaith yw dwy ran sgôr, e.e. cadarnhaol a negyddol, yna bydd y senario gorau neu waethaf yn cael ei gofnodi, h.y. byddai sgôr sy'n cynnwys '+' a '++' yn cael ei gofnodi fel '++', a byddai sgôr sy'n cynnwys '-' ac '--' yn cael ei gofnodi fel '- -'. Dim ond pan fydd sgôr yn cynnwys effeithiau cadarnhaol a negyddol y bydd effeithiau cymysg yn cael eu cofnodi, e.e. '+/-' neu '+/--'.

| Amcan ISA | Cwestiynau i helpu gyda'r penderfyniad<br>A fydd y Safle Ymgeisiol yn...? | Meini prawf asesu |
|---|---|---|
| | Darparu ar gyfer llwybrau cerdded a beicio diogel a deniadol?<br>Lleihau'r angen i deithio mewn datblygiadau newydd?<br>Sicrhau cysylltedd i fand eang cyflym?<br>Lleihau'r angen i gymudo i'r gwaith?<br>Hyrwyddo'r gwaith o ddarparu seilwaith ategol ar gyfer cerbydau trydan a'r defnydd ohonynt? | mai dim ond gwasanaethau cyfyngedig y gall rhai safleoedd bysiau eu cynnig, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.<br>- Bydd safleoedd sydd o fewn 400m i orsaf reilffordd a 400m i safle bws yn cael effaith gadarnhaol arwyddocaol (++).<br>- Bydd safleoedd sydd o fewn 400m i orsaf drenau neu arosfan fysiau (ond nid y ddau) yn cael effaith gadarnhaol fach (+).<br>- Bydd safleoedd nad ydynt o fewn 400m i orsaf reilffordd neu safle bws yn cael effaith negyddol fach (-).<br>Ar ben hynny, a allai arwain at effeithiau cymysg yn gyffredinol, bydd safleoedd sydd yn yr aneddiadau mwy o faint ar Ynys Môn fel arfer angen teithiau byrrach i gael mynediad at swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau o'u cymharu â safleoedd mewn aneddiadau llai. Bydd hyn yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd siwrneiau'n cael eu gwneud ar droed neu ar feic yn hytrach nag mewn car.<br>- Byddai safleoedd sydd wedi'u lleoli yn un o'r canolfannau gwasanaeth trefol neu leol yn cael effaith gadarnhaol fach (+).<br>- |
| **6.** Hyrwyddo, gwarchod a gwella treftadaeth ddiwylliannol a'r amgylchedd adeiledig | Diogelu a gwella ardaloedd ac adeiladau o bwysigrwydd hanesyddol neu ddiwylliannol?<br>Diogelu a gwella archaeoleg?<br>Diogelu a gwella treftadaeth ddiwydiannol?<br>Hyrwyddo mynediad cynaliadwy i safleoedd diwylliannol?<br>Sicrhau safonau dylunio uchel ym mhob datblygiad newydd?<br>Diogelu a gwella cymeriad a nodweddion unigryw lleol, gan gydnabod rôl arloesi? | Bydd y fethodoleg i'w defnyddio yn yr ISA mewn perthynas ag arfarnu effeithiau tebygol opsiynau safleoedd ar yr amgylchedd hanesyddol yn cael ei phennu ar ôl i'r Cyngor benderfynu pa dystiolaeth amgylchedd hanesyddol fydd yn cael ei chynhyrchu fel sail i'r broses o baratoi'r CDLl. |
| **7.** Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg | Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ymysg gwahanol grwpiau o bobl, gan gynnwys yn y gweithle ac mewn addysg?<br>Hyrwyddo cynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith?<br>Hyrwyddo statws y Gymraeg? | Er y gellid ystyried bod tai newydd mewn ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio'n helaeth yn cynyddu'r boblogaeth yn yr ardaloedd hynny ac yn annog defnyddio'r Gymraeg, mae hefyd yn bosibl y gallai pobl sy'n symud i'r ardaloedd hynny i gael mynediad at y tai newydd 'wanhau' y defnydd o'r Gymraeg yn yr ardaloedd hynny a chael effaith i'r gwrthwyneb. Felly, nid yw'n bosibl dod i'r casgliad y bydd lleoliad gofodol Safleoedd Ymgeisiol yn effeithio'n uniongyrchol ar yr amcan hwn ac felly bydd yr holl opsiynau safleoedd yn cael effaith fach iawn (0). |

| Amcan ISA | Cwestiynau i helpu gyda'r penderfyniad<br>A fydd y Safle Ymgeisiol yn...? | Meini prawf asesu |
|---|---|---|
| | | |
| **8.** Diogelu a gwella ansawdd a chymeriad y dirwedd | Diogelu a gwella ardaloedd dynodedig, gan gynnwys y Parc Cenedlaethol, y Dirwedd Genedlaethol a'r Arfordir Treftadaeth?<br>Diogelu a gwella tirweddau hanesyddol?<br>Diogelu a gwella cymeriad a nodweddion unigryw'r dirwedd leol?<br>Diogelu a gwella llonyddwch ac awyr dywyll? | Gallai datblygiadau sy'n agos at y Parc Cenedlaethol, y Dirwedd Genedlaethol a'r Arfordir Treftadaeth gael effaith negyddol arwyddocaol ar yr amcan hwn oherwydd sensitifrwydd y tirweddau hynny; fodd bynnag, mae hyn yn ansicr nes bydd cynigion manwl ar gyfer safleoedd yn hysbys. Felly:<br>- Gallai safleoedd sydd o fewn 1km i'r Dirwedd Genedlaethol neu'r Arfordir Treftadaeth gael effaith negyddol arwyddocaol (--?).<br>Ar ben hynny:<br>- Gallai safleoedd sydd o fewn Ardal Tirwedd Arbennig gael effaith negyddol arwyddocaol (--?).<br>*Ar gyfer safleoedd y tu allan i'r ardaloedd hyn, bydd unrhyw waith asesu sensitifrwydd tirwedd y gellir ei wneud fel rhan o'r broses o lunio CDLl yn cael ei ddefnyddio, a bydd meini prawf yn cael eu nodi yma i ddangos sut mae tystiolaeth o'r fath wedi cael ei defnyddio i hysbysu'r ISA.* |
| **9.** Gwarchod a gwella bioamrywiaeth | Gwella amrywiaeth cynefinoedd a rhywogaethau a chynnal a gwella poblogaethau rhywogaethau?<br>Gwella hyd a lled cynefinoedd a phoblogaethau rhywogaethau gwarchodedig a blaenoriaeth drwy geisio creu, adfer a rheoli rhwydweithiau a chysylltiadau gwyrdd yn briodol?<br>Gwella ac yn diogelu cyflwr ecosystemau a chefnogi'r gwaith o reoli cynefinoedd yn y tymor hir?<br>Gwella cysylltedd drwy fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i greu cynefinoedd gweithredol a rhwydweithiau ecolegol?<br>Gallu addasu i newid, yn enwedig effeithiau newid yn yr hinsawdd?<br>Cyfyngu ar y posibilrwydd o amharu ar brosesau naturiol neu gysylltedd?<br>Cefnogi'r gwaith o adfer prosesau naturiol a allai liniaru neu ddileu effeithiau eraill?<br>Gwella a diogelu cysylltiadau rhwng pobl a natur? | Mae gan safleoedd datblygu sy'n agos at safle cadwraeth dynodedig rhyngwladol, cenedlaethol neu leol y potensial i effeithio ar fioamrywiaeth neu geoamrywiaeth y safleoedd/nodweddion hynny, e.e. drwy ddifrodi/colli cynefinoedd, darnio, amharu ar rywogaethau, llygredd aer, mwy o bwysau hamdden ac ati. Ar y llaw arall, efallai y bydd cyfleoedd i hyrwyddo cysylltedd cynefinoedd os bydd datblygiadau newydd yn cynnwys seilwaith gwyrdd. Felly, er bod agosrwydd at safleoedd dynodedig yn rhoi syniad o'r posibilrwydd o effaith niweidiol, mae ansicrwydd yn bodoli, oherwydd gallai mesurau lliniaru priodol osgoi effeithiau niweidiol a hyd yn oed arwain at effeithiau manteisiol. Ar ben hynny, ni ellir pennu'r effeithiau posibl ar fioamrywiaeth sy'n bresennol ar bob safle, na chynefinoedd a rhywogaethau heb eu dynodi wrth ymyl y safleoedd datblygu posibl, ar y lefel asesu strategol hon. Byddai hyn yn cael ei benderfynu unwaith y byddai cynigion mwy penodol yn cael eu datblygu a'u cyflwyno fel rhan o gais cynllunio.<br>- Gall safleoedd sydd o fewn 250m i un neu fwy o safleoedd bioamrywiaeth neu geoamrywiaeth sydd â dynodiad rhyngwladol neu genedlaethol gael effaith negyddol arwyddocaol (--?).<br>- Gall safleoedd sydd rhwng 250m ac 1km o un neu fwy o safleoedd bioamrywiaeth neu geoamrywiaeth sydd wedi'u dynodi'n rhyngwladol neu'n genedlaethol, neu sydd o fewn 250m i safle sydd wedi'i ddynodi'n lleol, gael effaith negyddol fach (-?).<br>- Gallai safleoedd sy'n fwy na 1km o unrhyw safleoedd bioamrywiaeth neu geoamrywiaeth sydd â dynodiad rhyngwladol neu genedlaethol ac sydd dros 250m o safle sydd wedi'i ddynodi'n lleol gael effaith fach iawn (0?). |

| Amcan ISA | Cwestiynau i helpu gyda'r penderfyniad<br>A fydd y Safle Ymgeisiol yn...? | Meini prawf asesu |
|---|---|---|
| **10.** Diogelu ansawdd a swm adnoddau dŵr Ynys Môn | Lleihau a/neu osgoi llygredd i'r amgylchedd dŵr?<br>Cefnogi defnydd effeithlon o ddŵr, gan gynnwys ailgylchu dŵr llwyd mewn datblygiadau newydd?<br>Diogelu ansawdd a swm y ffynonellau dŵr daear?<br>Atal datblygiad newydd a fydd yn achosi problemau draenio (gan gynnwys mewn perthynas â mynychder selio pridd)?<br>Diogelu ansawdd a swm dŵr wyneb?<br>Helpu i sicrhau lefelau digonol o seilwaith carthffosiaeth a chapasiti i drin dŵr gwastraff mewn gwaith trin carthion? | Bydd lefelau'r defnydd o ddŵr mewn datblygiad newydd yn cael eu pennu gan ei ddyluniad ac arferion ar y safle ac felly bydd polisïau yn y CDLl newydd yn dylanwadu arnynt, yn hytrach na lleoliad y safle. Fodd bynnag, gallai lleoliad y datblygiad effeithio ar ansawdd y dŵr daear yn ystod y cam adeiladu, gan ddibynnu ar ba mor agos ydyw at Ardaloedd Diogelu Tarddiad Dŵr. Byddai'r effaith ar ansawdd y dŵr yn dibynnu ar dechnegau adeiladu a defnyddio systemau draenio cynaliadwy yn y dyluniad, felly mae'r effeithiau'n ansicr ar hyn o bryd.<br>- Gallai datblygu mewn Ardal Diogelu Tarddiad Dŵr arwain at effeithiau negyddol arwyddocaol (--?) ar ansawdd dŵr er bod hyn yn ansicr ar hyn o bryd yn yr asesiad.<br>- Effaith fach iawn (0) fyddai i ddatblygu y tu allan i Ardal Diogelu Tarddiad Dŵr. |
| **11.** Diogelu a gwella ansawdd yr aer | Osgoi cynyddu llygredd aer a sicrhau gwelliannau yn ansawdd yr aer?<br>Hyrwyddo polisi a datblygiad sy'n galluogi ac yn cefnogi cymunedau i fabwysiadu ffyrdd o fyw a chamau gweithredu a all ddiogelu neu wella ansawdd aer lleol? | Gallai datblygiadau mewn ardaloedd lle mae problemau ansawdd aer gwael yn barod olygu bod trigolion newydd yn agored i lygredd aer a gallai effeithio ar eu hiechyd a'u lles:<br>- Byddai gan safleoedd sydd â chrynodiad llygryddion o >40µg/m$^3$ $NO_2$ neu $PM_{10}$, neu >20µg/m3 PM2.5 effaith negyddol arwyddocaol (--).<br>- Byddai safleoedd sydd â chrynodiad llygryddion o 10-40µg/m$^3$ NO2, 15-40µg/m$^3$ $PM_{10}$ neu 5-20µg/m$^3$ $PM_{2.5}$ yn cael effaith negyddol fach (-).<br>- Byddai safleoedd heb y crynodiadau llygryddion a ddisgrifir uchod yn cael effaith (0) fach iawn. |
| **12.** Hyrwyddo defnydd effeithlon o dir, priddoedd a mwynau. | Annog ailddefnyddio tir ac adeiladau a ddatblygwyd yn flaenorol fel blaenoriaeth, lle bo hynny'n briodol?<br>Atal a rheoli llygredd i dir?<br>Hyrwyddo'r gwaith o adfer halogiad tir?<br>Diogelu adnoddau mwynol?<br>Ailddefnyddio ac ailgylchu agregau ar y safle?<br>Hyrwyddo dwysedd uwch o ddatblygiadau (lle ystyrir bod hynny'n briodol) i gefnogi defnydd mwy effeithlon o adnoddau tir? | Mae datblygu ar dir llwyd yn golygu bod tir yn cael ei ddefnyddio'n fwy effeithlon o'i gymharu â datblygu safleoedd maes glas. Felly:<br>- Byddai safleoedd sydd ar dir llwyd yn cael effaith gadarnhaol arwyddocaol (++).<br>- Byddai safleoedd ar dir maes glas sy'n cael eu hystyried yn dir amaethyddol o ansawdd uchel (Graddau 1, 2 neu 3a) yn cael effaith negyddol arwyddocaol (--).<br>- Byddai safleoedd ar dir maes glas nad ydynt yn cael eu hystyried yn dir amaethyddol o ansawdd uchel (Graddau 3b, 4, 5 a thir trefol) yn cael effaith negyddol fach (-).<br>- Ar ben hynny, gallai safleoedd sydd ar dir maes glas ac sydd mewn Ardal Diogelu Mwynau gael effaith negyddol fach er bod hyn yn ansicr (-?) oherwydd gallai fod yn bosibl echdynnu adnoddau mwynau cyn i'r datblygiad ddigwydd ac mae potensial i'r adnodd mwynau fod wedi ei sterileiddio eisoes. |

Tudalen 83

| Amcan ISA | Cwestiynau i helpu gyda'r penderfyniad<br>A fydd y Safle Ymgeisiol yn...? | Meini prawf asesu |
|---|---|---|
| **13.** Lleihau gwastraff a hyrwyddo rheoli gwastraff mewn ffordd fwy cynaliadwy | Lleihau faint o wastraff sy'n cael ei gynhyrchu?<br>Osgoi, lleihau, ailddefnyddio, ailgylchu ac adfer cyn gwaredu i safleoedd tirlenwi?<br>Gwella perfformiad ailgylchu da ymhellach gan gynnwys darparu cyfleusterau (domestig a masnachol)?<br>Cefnogi datblygu dewisiadau eraill yn lle tirlenwi, gan gynnwys cyfleusterau compostio ac ynni o wastraff?<br>Hyrwyddo hunangynhaliaeth o ran rheoli gwastraff lle bo hynny'n briodol? | Bydd effeithiau datblygu ar gynhyrchu gwastraff a rheoli gwastraff yn gynaliadwy yn dibynnu ar yr arferion a ddefnyddir ar y safle, yn hytrach na lleoliad y datblygiad. Fodd bynnag, gall datblygu ar dir llwyd gynnig cyfleoedd i ailddefnyddio adeiladau a deunyddiau ar y safle. Felly:<br>- Gallai safleoedd sydd ar dir llwyd gael effaith gadarnhaol fach (+?).<br>- Gallai safleoedd sydd ar dir maes glas gael effaith (0) fach iawn. |
| **14.** Darparu ar gyfer economi gynaliadwy | Hybu twf economaidd?<br>Annog mewnfuddsoddiad a buddsoddiad cynhenid priodol?<br>Cefnogi'r economi wledig?<br>Hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy?<br>Sicrhau bod tir yn cael ei ddyrannu i ddiwallu anghenion economaidd y boblogaeth?<br>Cynnal banc tir priodol o safleoedd cyflogaeth?<br>Hyrwyddo bywiogrwydd a hyfywedd canol trefi?<br>Cefnogi'r gwaith o sicrhau economi carbon is sy'n fwy gwyrdd a all fod o fudd i holl aelodau'r gymuned? | Byddai'r holl Safleoedd Ymgeisiol a fyddai'n cael eu defnyddio ar gyfer datblygiadau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth yn cael effeithiau cadarnhaol ar yr economi gan y byddant yn darparu safleoedd newydd o ansawdd uchel i fusnesau leoli a gallant annog mewnfuddsoddi. Bydd safleoedd mwy yn darparu cyfleoedd penodol ar gyfer twf economaidd. Felly:<br>- Byddai safleoedd cyflogaeth sy'n fwy na 5ha[146] o ran maint yn cael effaith gadarnhaol arwyddocaol (++).<br>- Byddai safleoedd cyflogaeth sy'n llai na 5ha yn cael effaith gadarnhaol fach (+).<br>- Effaith fach iawn (0) fyddai i safleoedd na fyddai'n darparu datblygiad cyflogaeth.<br>Gallai safleoedd preswyl gael effaith negyddol ar gyflawni'r amcan hwn pe baent yn arwain at golli defnyddiau cyflogaeth presennol. Felly:<br>- Byddai safleoedd preswyl sy'n cael eu defnyddio at ddibenion cyflogaeth ar hyn o bryd yn cael effaith negyddol arwyddocaol (--) ar yr amcan hwn. |
| **15.** Darparu ar gyfer amrywiaeth eang o gyfleoedd gwaith | Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd cyflogaeth ar Ynys Môn?<br>Darparu cyfleoedd ar gyfer amrywiaeth o lefelau sgiliau?<br>Darparu swyddi mewn lleoliadau hygyrch?<br>Darparu cyfleusterau hyfforddi i helpu i ddatblygu sylfaen sgiliau hyblyg? | Byddai'r holl Safleoedd Ymgeisiol a fyddai'n cael eu defnyddio ar gyfer datblygiad sy'n gysylltiedig â chyflogaeth yn cael effeithiau cadarnhaol ar yr amcan hwn, oherwydd natur y datblygiad arfaethedig. Bydd safleoedd mwy yn darparu niferoedd uwch o swyddi, yn ogystal â'r cyfleoedd cysylltiedig ar gyfer dysgu yn y gwaith a datblygu sgiliau. Felly:<br>- Byddai safleoedd cyflogaeth sy'n fwy na 5a o ran maint yn cael effaith gadarnhaol arwyddocaol (++). |

[146] Sylwch y gall y trothwy a ddefnyddir i nodi safleoedd mwy at ddibenion yr ISA newid unwaith y bydd yr ystod o opsiynau safle yn hysbys.

| Amcan ISA | Cwestiynau i helpu gyda'r penderfyniad<br>A fydd y Safle Ymgeisiol yn...? | Meini prawf asesu |
|---|---|---|
| | | - Byddai safleoedd cyflogaeth sy'n llai na 5ha yn cael effaith gadarnhaol fach (+).<br>- Effaith fach iawn (0) fyddai i safleoedd na fyddai'n darparu datblygiad cyflogaeth. |

# Pennod 7
## Y camau nesaf

**7.1** Er mwyn bodloni gofynion Rheoliadau AAS (Cymru), ceisir barn y cyrff amgylcheddol statudol (Cyfoeth Naturiol Cymru a Cadw) mewn perthynas â chwmpas a lefel y manylion sydd i'w cynnwys yn yr Adroddiad ISA.

**7.2** Yn benodol, gofynnir i'r ymgyngoreion ystyried:

- A yw cwmpas yr ISA yn gyffredinol yn briodol fel a nodir.
- A yw'r dull o integreiddio prosesau asesu eraill, a ddisgrifir ym **Mhennod 2**, yn briodol ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau.
- A oes unrhyw gynlluniau, polisïau neu raglenni ychwanegol sy'n berthnasol i'r ISA ac y dylid eu cynnwys ym **Mhennod 3**.
- A yw'r wybodaeth a ddarperir ym **Mhennod 4** yn gadarn ac yn gynhwysfawr ac yn darparu llinell sylfaen addas ar gyfer ISA Cynllun Datblygu Lleol Ynys Môn.
- A oes unrhyw faterion cynaliadwyedd allweddol ychwanegol yn Ynys Môn (**Pennod 5**) y dylid eu cynnwys.
- A yw'r fframwaith ISA (**Pennod 6**) yn briodol ac yn cynnwys ystod addas o amcanion.
- A yw'r fethodoleg arfaethedig ar gyfer asesu Safleoedd Ymgeisiol (**Pennod 6**) yn briodol.

**7.3** Wrth i'r CDLl gael ei baratoi, bydd yn ddarostyngedig i gamau diweddarach yr ISA gan ddefnyddio fframwaith yr ISA a gyflwynir ym **Mhennod 6**. Bydd Adroddiad ISA llawn (sy'n cynnwys camau diweddarach y broses ISA) wedyn yn cael ei gynhyrchu a bydd ar gael i randdeiliaid eraill a'r cyhoedd ar gyfer ymgynghori ehangach ochr yn ochr â fersiwn Cyn-adneuo'r CDLl.

LUC
Ebrill 2025

# Atodiad A

## Adolygiad o Gynlluniau, Polisïau a Rhaglenni

**A.1** Mae'r atodiad hwn yn cyflwyno adolygiad o bolisïau, cynlluniau a rhaglenni rhyngwladol, cenedlaethol ac is-genedlaethol sy'n berthnasol i gyflawni'r ISA a pharatoi'r CDLl. Amlinellir y rhain isod, ynghyd â chrynodeb o'r goblygiadau i'r ISA a'r Cynllun Datblygu Lleol.

| Teitl a deddfwriaeth | Crynodeb, amcanion, targedau a dangosyddion allweddol | Goblygiadau i'r ISA a'r CDLl: |
|---|---|---|
| **RHYNGWLADOL** | | |
| ***Confensiwn Treftadaeth y Byd UNESCO (1972)*** | Mae gofyn i wledydd wneud y canlynol:<br>▪ Sicrhau bod mesurau'n cael eu cymryd i ddiogelu, gwarchod a chyflwyno treftadaeth ddiwylliannol a naturiol<br>▪ Mabwysiadu polisi cyffredinol sy'n rhoi swyddogaeth i dreftadaeth ddiwylliannol a naturiol ym mywyd y gymuned<br>▪ Integreiddio gwarchod treftadaeth mewn rhaglenni cynllunio cynhwysfawr.<br>▪ Mae'n nodi canllawiau ar gyfer dynodi Safleoedd Treftadaeth y Byd UNESCO. | Dylai'r ISA gynnwys amcan ar faterion treftadaeth ac archeolegol. |
| ***Comisiwn y Byd ar yr Amgylchedd a Datblygu (1987) Ein Dyfodol Cyffredin (Adroddiad Brundtland)*** | Mae Adroddiad Brundtland yn ymwneud ag economi ac amgylchedd y byd. Yr amcan yw darparu economi gynaliadwy sy'n ehangu tra'n gwarchod amgylchedd cynaliadwy. Roedd yr Adroddiad yn alwad gan y Cenhedloedd Unedig:<br>▪ i gynnig strategaethau amgylcheddol hirdymor ar gyfer cyflawni datblygu cynaliadwy erbyn y flwyddyn 2000 a thu hwnt;<br>▪ argymell ffyrdd y gellir troi pryder am yr amgylchedd yn fwy o gydweithredu ymhlith gwledydd De'r Byd a rhwng gwledydd ar wahanol gamau o ddatblygiad economaidd a chymdeithasol ac arwain at gyflawni amcanion cyffredin a chyd-gefnogol sy'n ystyried y rhyngberthynas rhwng pobl, adnoddau, yr amgylchedd a datblygiad;<br>▪ ystyried ffyrdd y gall y gymuned ryngwladol ddelio'n fwy effeithiol â phryderon amgylcheddol; a<br>▪ helpu i ddiffinio canfyddiadau cyffredin ynghylch materion amgylcheddol hirdymor a'r ymdrechion priodol sydd eu hangen i ddelio'n llwyddiannus â phroblemau gwarchod a gwella'r amgylchedd, agenda hirdymor ar gyfer gweithredu yn ystod y degawdau nesaf, a nodau uchelgeisiol ar gyfer cymuned y byd. | Yn Adroddiad Brundtland cafwyd y diffiniad gwreiddiol o ddatblygu cynaliadwy.<br>Dylai effeithiau cronedig amcanion yr ISA geisio sicrhau datblygu cynaliadwy. |
| ***UNFCCC (1997) Protocol Kyoto Protocol i UNFCCC*** | Protocol Kyoto i'r UNFCCC a sefydlodd y polisi cyntaf sy'n ceisio lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr gan wledydd diwydiannol.<br>Mae adeiladu yn ffynhonnell sylweddol o allyriadau nwyon tŷ gwydr o ganlyniad i ddefnyddio deunyddiau a defnyddio ynni. Nod Protocol Kyoto yw lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr y DU 12.5%, o'i gymharu â lefelau 1990, erbyn 2008 – 2012. | Mae Protocol Kyoto yn ddylanwadol o ran cyflawni datblygu cynaliadwy gan ei fod yn annog newid i economi carbon isel. Felly, mae'n ffactor hanfodol mewn dogfennau cynllunio. |

| Teitl a deddfwriaeth | Crynodeb, amcanion, targedau a dangosyddion allweddol | Goblygiadau i'r ISA a'r CDLl: |
|---|---|---|
| ***Uwch Gynhadledd y Byd ar Ddatblygu Cynaliadwy (WSSD), Johannesburg, Medi 2002*** | Ymrwymiadau yn codi o Uwchgynhadledd Johannesburg:<br>- Patrymau defnyddio a chynhyrchu cynaliadwy.<br>- Cyflymu'r symudiad tuag at ddefnyddio a chynhyrchu cynaliadwy – fframwaith rhaglenni gweithredu 10 mlynedd; Gwrthdroi'r duedd o golli adnoddau naturiol.<br>- Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni.<br>- Cynyddu cyfran [byd-eang] yr ynni adnewyddadwy ar frys ac yn sylweddol<br>- Lleihau cyfradd colli bioamrywiaeth yn sylweddol erbyn 2010.<br>Dim targedau na dangosyddion, ond mae'r camau gweithredu'n cynnwys:<br>- Defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon;<br>- Cefnogi arloesedd busnes a'r defnydd o arferion gorau ym maes technoleg a rheoli;<br>- Lleihau gwastraff a chyfrifoldeb cynhyrchwyr; a<br>- Caffael a defnydd cynaliadwy gan ddefnyddwyr. | Gall y CDLl annog adnoddau i fod yn fwy effeithlon. Sicrhau bod polisïau'n ymdrin â'r meysydd gweithredu.<br>Gall y CDLl annog ynni adnewyddadwy. Sicrhau bod polisïau'n ymdrin â'r meysydd gweithredu.<br>Gall y CDLl warchod a gwella bioamrywiaeth. Sicrhau bod polisïau'n ymdrin â'r meysydd gweithredu. |
| ***Cytundeb Cancun- UNFCCC (2011)*** | Gweledigaeth a rennir i sicrhau bod tymheredd y byd yn codi llai na dwy radd Celsius, gydag amcanion i'w hadolygu o ran a oes angen ei gryfhau yn y dyfodol ar sail y wybodaeth wyddonol orau sydd ar gael. | Dylai'r ISA gynnwys amcan ar allyriadau nwyon tŷ gwydr.<br>Dylai'r CDLl anelu at leihau allyriadau. |
| ***Y Cenhedloedd Unedig (2015) Cynhadledd Newid Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig (COP 21) Cytundeb Paris*** | Prif nod y cytundeb yw cadw'r cynnydd mewn tymheredd byd-eang ymhell o dan 2 radd Celsius yn y ganrif hon a sbarduno ymdrechion i gyfyngu ar y cynnydd mewn tymheredd hyd yn oed ymhellach i 1.5 gradd Celsius uwchben lefelau cyn-ddiwydiannol.<br>Mae'r terfyn 1.5 gradd Celsius yn llinell amddiffyn llawer mwy diogel rhag effeithiau gwaethaf hinsawdd sy'n newid.<br>Ar ben hynny, nod y cytundeb yw cryfhau'r gallu i ddelio ag effeithiau newid yn yr hinsawdd. | Dylai'r ISA gynnwys amcan ar ffactorau hinsoddol.<br>Dylai'r CDLl gyfrannu'n gadarnhaol at economi carbon isel. |
| ***Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd*** | Mae dau ar bymtheg o Nodau Datblygu Cynaliadwy (SDGs) yn mynd i'r afael â heriau byd-eang cydgysylltiedig gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â thlodi, anghydraddoldeb, hinsawdd, diraddio amgylcheddol, ffyniant, a heddwch a chyfiawnder. Amcanir i'r Nodau a'r targedau gael eu cyflawni erbyn 2030. Yng Nghymru, mae'r nodau'n cael eu trosi'n nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gyda dyddiad targed o 2030. | Dylai'r ISA ystyried y Nodau Datblygu Cynaliadwy wrth ddatblygu amcanion.<br>Dylai'r CDLl ystyried y Nodau Datblygu Cynaliadwy wrth ddatblygu polisïau/cynigion. |

| Teitl a deddfwriaeth | Crynodeb, amcanion, targedau a dangosyddion allweddol | Goblygiadau i'r ISA a'r CDLl: |
|---|---|---|
| ***Unedig (UN, 2015)*** | Nid yw Llywodraeth y DU wedi lleoleiddio'r Nodau Datblygu Cynaliadwy eto ac mae wedi penderfynu ar gynllun ar lefel y DU ar gyfer eu rhoi ar waith. | |
| **EWROPEAIDD** | | |
| ***Confensiwn Diogelu Treftadaeth Bensaernïol Ewrop (Confensiwn Granada 1985)*** | Prif bwrpas y confensiwn yw atgyfnerthu a hyrwyddo polisïau ar gyfer gwarchod a gwella treftadaeth Ewrop a meithrin cydweithrediad Ewropeaidd agosach i amddiffyn treftadaeth. Mae cydnabod bod cadwraeth treftadaeth yn ddiben diwylliannol ac yn gadwraeth integredig o dreftadaeth yn ffactor pwysig o ran gwella ansawdd bywyd. | Dylai'r ISA gynnwys amcan ar warchod a gwella treftadaeth a meini prawf gwneud penderfyniadau ar dreftadaeth bensaernïol. |
| ***Y Confensiwn Ewropeaidd ar Ddiogelu Treftadaeth Archeolegol (Confensiwn Valetta 1992)*** | Cytundeb bod gwarchod a gwella treftadaeth archeolegol yn un o nodau polisi cynllunio trefol a rhanbarthol. Mae'n ymwneud yn benodol â'r angen am gydweithrediad rhwng archaeolegwyr a chynllunwyr er mwyn sicrhau bod treftadaeth archeolegol yn cael ei gwarchod yn y ffordd orau bosibl. | Dylai'r ISA gynnwys amcan ar warchod a gwella treftadaeth a meini prawf gwneud penderfyniadau ar dreftadaeth bensaernïol. |
| ***Cyfarwyddeb y Cyngor 91/271/EEC ar gyfer Trin Dŵr Gwastraff Trefol*** | Ei amcan yw diogelu'r amgylchedd rhag effeithiau niweidiol gollyngiadau dŵr gwastraff trefol o rai sectorau diwydiannol ac mae'n ymwneud â chasglu, trin a gollwng:<br>■ Dŵr gwastraff domestig<br>■ Cymysgedd o ddŵr gwastraff<br>■ Dŵr gwastraff o rai sectorau diwydiannol<br>Mae'r Gyfarwyddeb yn cynnwys gofyniad gyda'r safonau penodol canlynol:<br>■ Safonau casglu a thrin dŵr gwastraff ar gyfer trothwyon poblogaeth perthnasol<br>■ Safonau triniaeth eilaidd<br>■ Gofyniad i rag-awdurdodi holl ollyngiadau dŵr gwastraff trefol<br>Monitro perfformiad safleoedd trin a dyfroedd derbyn a Rheolaethau ar waredu ac ailddefnyddio slwtsh carthion, ac ailddefnyddio dŵr gwastraff wedi'i drin. | Dylai amcanion yr ISA gynnwys blaenoriaethau i leihau effeithiau niweidiol ar ddŵr daear a/neu ddŵr wyneb. |

| Teitl a deddfwriaeth | Crynodeb, amcanion, targedau a dangosyddion allweddol | Goblygiadau i'r ISA a'r CDLl: |
|---|---|---|
| ***Persbectif Datblygu Gofodol Ewrop (1999)*** | Nod polisïau datblygu gofodol yw gweithio tuag at ddatblygiad cytbwys a chynaliadwy yn nhiriogaeth yr Undeb Ewropeaidd. Nod ESPD yw sicrhau bod tri nod sylfaenol polisi Ewropeaidd yn cael eu cyflawni'n gyfartal ym mhob rhanbarth o'r UE:<br>■ Cydlyniant economaidd a chymdeithasol;<br>■ Gwarchod a rheoli adnoddau naturiol a'r dreftadaeth ddiwylliannol;<br>■ Cystadleurwydd mwy cytbwys y diriogaeth Ewropeaidd.<br>Mae tirweddau, dinasoedd a threfi diwylliannol Ewropeaidd, yn ogystal ag amrywiaeth o henebion naturiol a hanesyddol, yn rhan o'r Dreftadaeth Ewropeaidd. Dylai ei meithrin fod yn rhan bwysig o bensaernïaeth fodern, cynllunio trefol a chynllunio tirwedd ym mhob rhanbarth o'r UE.<br>Her fawr i bolisi datblygu gofodol yw cyfrannu at yr amcanion, a gyhoeddwyd gan yr UE yn ystod cynadleddau rhyngwladol ynghylch yr amgylchedd a'r hinsawdd, o leihau allyriadau i'r system ecolegol fyd-eang. | Dylai'r ISA gynnwys amcanion sy'n ymwneud â hyrwyddo cydlyniant economaidd a chymdeithasol, gwarchod adnoddau naturiol, gwarchod treftadaeth hanesyddol a lleihau allyriadau $CO_2$. Dylid edrych yn gadarnhaol ar y cyfraniad i ffurf a swyddogaeth ardaloedd gwledig a threfol y sir a dylai amcanion y cynllun adlewyrchu hyn.<br>Dylai'r CDLl ystyried dull gweithredu sy'n hyrwyddo manteision economaidd i bawb a chydlyniant cymdeithasol yn ogystal â gwarchod a gwella'r amgylchedd hanesyddol. Gallai hyn gynnwys polisïau sy'n ymwneud ag effeithiau ar dirwedd, treflun, strwythurau a nodweddion hanesyddol. |
| ***Cyfarwyddeb Dŵr Yfed yr UE (98/83/EC)*** | Mae'n darparu ar gyfer ansawdd dŵr yfed.<br>Mae'r safonau sydd wedi'u cynnwys yn gyfreithiol rwymol. | Dylai'r ISA ystyried amcanion sy'n ymwneud ag ansawdd dŵr.<br>Dylai'r CDLl gydnabod y gall datblygiad effeithio ar ansawdd dŵr a chynnwys polisïau i ddiogelu'r adnoddau. |
| ***Cyfarwyddeb yr UE ar Dirlenwi Gwastraff (99/31/EC)*** | Mae'n nodi gofynion sy'n sicrhau bod yr effeithiau amgylcheddol yn cael eu deall a'u lliniaru pan fydd tirlenwi'n digwydd. | Dylai'r ISA gynnwys amcanion sy'n nodi blaenoriaethau i leihau gwastraff, mwy o ailgylchu ac ailddefnyddio.<br>Dylai'r CDLl ystyried tirlenwi yng nghyswllt ffactorau amgylcheddol. |
| ***Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr UE (2000/60/EC)*** | Mae'n sefydlu fframwaith ar gyfer diogelu dyfroedd wyneb mewndirol, dyfroedd aberol, dyfroedd arfordirol a dŵr daear sydd:<br>■ Mae'n atal dirywiad pellach a diogelu a gwella statws ecosystemau dyfrol ac, o ran eu hanghenion dŵr, ecosystemau daearol a gwlypdiroedd sy'n dibynnu'n uniongyrchol ar yr ecosystemau dyfrol;<br>■ Mae'n hyrwyddo defnyddio dŵr yn gynaliadwy ar sail diogelu'r adnoddau dŵr sydd ar gael yn y tymor hir;<br>■ Mae'n anelu at ddiogelu a gwella'r amgylchedd dyfrol yn well, ymhlith pethau eraill, drwy fesurau penodol ar gyfer lleihau gollyngiadau, allyriadau a cholli sylweddau â | Dylai'r ISA ystyried yr effeithiau ar adnoddau ac ansawdd dŵr.<br>Dylai polisïau'r CDLl ystyried sut y gellir diogelu a gwella'r amgylchedd dŵr. Bydd hyn yn digwydd drwy leihau llygredd ac echdynnu dŵr.<br>Gellir diogelu a gwella cyrsiau dŵr hefyd drwy eu haddasu'n ffisegol. Bydd angen i gynllunio gofodol ystyried a ellir gwella cyrsiau dŵr drwy weithio gyda datblygwyr. |

| Teitl a deddfwriaeth | Crynodeb, amcanion, targedau a dangosyddion allweddol | Goblygiadau i'r ISA a'r CDLl: |
|---|---|---|
| | blaenoriaeth yn raddol, a rhoi'r gorau i ollyngiadau, allyriadau a cholli sylweddau peryglus â blaenoriaeth, neu eu dirwyn i ben yn raddol;<br>■ Mae'n sicrhau gostyngiad cynyddol mewn llygredd dŵr daear ac yn atal ei lygru ymhellach, ac yn<br>■ Cyfrannu at liniaru effeithiau llifogydd a sychder. | |
| ***Confensiwn Aarhus (2001)*** | Mae Confensiwn Aarhus yn gytundeb amgylcheddol amlochrog sy'n cynyddu'r cyfleoedd i ddinasyddion gael gafael ar wybodaeth amgylcheddol ac yn sicrhau gweithdrefn reoleiddio dryloyw a dibynadwy. Mae'n annog mynediad at wybodaeth, cyfranogiad y cyhoedd a mynediad at gyfiawnder. | Ymgynghorir ar yr ISA a bydd yn agored i graffu arno yn unol â gofyniad y rheoliadau perthnasol.<br>Rhaid cyflwyno ymgynghoriad cyhoeddus a mynediad at wybodaeth sy'n cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau yn y gweithdrefnau ar gyfer llunio'r CDLl. |
| ***Cyfarwyddeb Sŵn Amgylcheddol yr UE (Cyfarwyddeb 2002/49/EC)*** | Mae egwyddorion sylfaenol y Gyfarwyddeb yn debyg i'r rhai sy'n sail i bolisïau amgylcheddol cyffredinol eraill (fel aer neu wastraff), h.y.:<br>■ Monitro'r broblem amgylcheddol; drwy ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cymwys mewn Aelod-wladwriaethau lunio "mapiau sŵn strategol" ar gyfer prif ffyrdd, rheilffyrdd, meysydd awyr a chrynodrefi, gan ddefnyddio dangosyddion sŵn wedi'u cysoni Lden (lefel gyfwerth â dydd-min nos-nos) a Lnight (lefel gyfwerth â nos). Bydd y mapiau hyn yn cael eu defnyddio i asesu nifer y bobl sy'n flin ac yr aflonyddir ar eu cwsg ledled Ewrop;<br>■ Hysbysu ac ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch amlygiad i sŵn, ei effeithiau, a'r mesurau a ystyrir i fynd i'r afael â sŵn, yn unol ag egwyddorion Confensiwn Aarhus;<br>■ Mynd i'r afael â materion sŵn lleol drwy ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cymwys lunio cynlluniau gweithredu i leihau sŵn lle bo angen a chynnal ansawdd sŵn amgylcheddol lle bo'n dda. Nid yw'r gyfarwyddeb yn gosod unrhyw werth terfyn, ac nid yw ychwaith yn rhagnodi'r mesurau i'w defnyddio yn y cynlluniau gweithredu, sy'n parhau'n ddibynnol ar ddisgresiwn yr awdurdodau cymwys;<br>■ Datblygu strategaeth hirdymor ar gyfer yr UE, sy'n cynnwys amcanion i leihau nifer y bobl y bydd sŵn yn effeithio arnynt yn y tymor hwy, ac sy'n darparu fframwaith ar gyfer datblygu polisi presennol y Gymuned ar leihau sŵn o'r ffynhonnell. Gyda golwg ar hyn, mae'r Comisiwn wedi gwneud datganiad ynghylch y darpariaethau a nodir yn Erthygl 1.2 mewn perthynas â pharatoi deddfwriaeth sy'n ymwneud â ffynonellau sŵn. | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n mynd i'r afael â lleihau sŵn gormodol.<br>Bydd angen i'r CDLl ystyried gofynion y Gyfarwyddeb Sŵn Amgylcheddol. |
| ***Confensiwn Tirweddau Ewropeaidd 2000 (a ddaeth*** | Roedd y Confensiwn yn amlinellu'r angen i gydnabod tirwedd yn y gyfraith, i ddatblygu polisïau tirwedd sy'n benodol ar gyfer diogelu, rheoli a chreu tirweddau, ac i sefydlu gweithdrefnau ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill yn y gwaith o greu a | Dylai'r ISA ystyried sut y bydd tirwedd yn cael ei integreiddio i'r holl feysydd polisi perthnasol, gan ystyried sut y mae canlyniadau'r Confensiwn Tirweddau Ewropeaidd yn bwydo i mewn i'r CDLl a'i ddogfennau cysylltiedig. Dylai'r CDLl ddatblygu polisïau penodol ar gyfer gwarchod, rheoli a chreu tirweddau. |

| Teitl a deddfwriaeth | Crynodeb, amcanion, targedau a dangosyddion allweddol | Goblygiadau i'r ISA a'r CDLI: |
|---|---|---|
| ***yn rhwymol ym mis Mawrth 2007)*** | gweithredu polisïau tirwedd. Mae hefyd yn annog integreiddio tirwedd i bob maes polisi perthnasol, gan gynnwys polisïau diwylliannol, economaidd a chymdeithasol.<br>Mae mesurau penodol yn cynnwys:<br>■ codi ymwybyddiaeth o werth tirweddau ymhlith pob sector o gymdeithas, ac o rôl cymdeithas wrth eu llunio;<br>■ hyrwyddo hyfforddiant ac addysg tirwedd ymysg arbenigwyr tirwedd, proffesiynau cysylltiedig eraill, ac mewn cyrsiau ysgol a phrifysgol;<br>■ adnabod ac asesu tirweddau, a dadansoddi newid yn y dirwedd, gyda rhanddeiliaid yn cymryd rhan weithredol;<br>■ pennu amcanion ar gyfer ansawdd y dirwedd, gan gynnwys y cyhoedd; a<br>■ gweithredu polisïau tirwedd, drwy sefydlu cynlluniau a rhaglenni ymarferol. | |
| ***Cyfarwyddeb Llifogydd yr UE 2007/60/EC*** | Ei nod yw darparu dull cyson o reoli risg llifogydd ledled Ewrop. | Dylai'r ISA ystyried amcanion sy'n ymwneud â risg llifogydd.<br>Dylai'r CDLl gydnabod y gall datblygiad effeithio ar fod yn agored i lifogydd a chynyddu'r risg o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd. |
| ***Cyfarwyddeb Ansawdd Aer yr UE (2008/50/EC) a chyfarwyddebau blaenorol (96/62/EC; 99/30/EC; 2000/69/EC a 2002/3/EC)*** | Darparodd y Gyfarwyddeb newydd fod y rhan fwyaf o'r ddeddfwriaeth bresennol yn cael ei huno'n un gyfarwyddeb (ac eithrio'r bedwaredd is-gyfarwyddeb) heb unrhyw newid i amcanion ansawdd aer presennol.<br>Mae'r amcanion perthnasol yn cynnwys:<br>■ Cynnal ansawdd aer amgylchynol lle mae'n dda a'i wella mewn achosion eraill; a<br>■ Cynnal ansawdd aer amgylchynol lle mae'n dda a'i wella mewn achosion eraill o ran sylffwr deuocsid, nitrogen deuocsid ac ocsidau nitrogen, deunydd gronynnol a phlwm. | Dylai'r ISA gynnwys amcanion sy'n ymwneud ag ansawdd aer.<br>Dylai polisïau cynlluniau datblygu lleol ystyried cynnal ansawdd aer da a'r mesurau y gellir eu cymryd i'w wella drwy, er enghraifft, annog cerbydau i symud llai. |
| ***Cyfarwyddeb Nitradau'r Undeb Ewropeaidd (UE) (91/676/EEC)*** | Amcan y Gyfarwyddeb hon yw:<br>■ lleihau llygredd dŵr a achosir neu a berir gan nitradau o ffynonellau amaethyddol; a<br>■ atal llygredd pellach o'r fath.<br>Darparu ar gyfer nodi ardaloedd agored i niwed. | Dylai'r CDLl ystyried effeithiau datblygiad ar unrhyw ardaloedd a nodwyd fel rhai sy'n sensitif i nitradau lle nad yw datblygiad o'r fath yn cael ei ystyried o fewn ei gwmpas.<br>Dylai polisïau ystyried yr amcan i hyrwyddo arferion amaethyddol sy'n amgylcheddol sensitif. |

| Teitl a deddfwriaeth | Crynodeb, amcanion, targedau a dangosyddion allweddol | Goblygiadau i'r ISA a'r CDLI: |
|---|---|---|
| ***Cyfarwyddeb yr UE ar Gadwraeth Adar Gwyllt (09/147/EC) (fersiwn wedi'i chodeiddio o Gyfarwyddeb y Cyngor 79/409/EEC fel y'i diwygiwyd)*** | Mae'n nodi 181 o rywogaethau ac is-rywogaethau mewn perygl y mae'n ofynnol i'r Aelod-wladwriaethau ddynodi Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig ar eu cyfer.<br>Mae'n ei gwneud yn ofyniad cyfreithiol bod gwledydd yr UE yn gwneud darpariaeth ar gyfer gwarchod adar. Mae hyn yn cynnwys dewis a dynodi Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig.<br>Mae'r Camau Targed yn cynnwys:<br>■ Creu ardaloedd gwarchodedig;<br>■ Cynnal a rheoli; ac<br>■ Ailsefydlu biotopau a ddinistriwyd. | Dylai'r ISA ystyried amcanion i warchod a gwella bioamrywiaeth, gan gynnwys adar gwyllt.<br>Dylai'r CDLI gynnwys polisïau i warchod a gwella poblogaethau adar gwyllt, gan gynnwys diogelu Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig. |
| ***Cyfarwyddeb yr UE ar Warchod Cynefinoedd Naturiol a Phlanhigion ac Anifeiliaid Gwyllt (92/43/EEC) a Diwygiadau Dilynol*** | Mae'r gyfarwyddeb yn ceisio gwarchod cynefinoedd a rhywogaethau naturiol. Mae gwarchod cynefinoedd naturiol yn ei gwneud yn ofynnol i aelod-wladwriaethau nodi ardaloedd cadwraeth arbennig a chynnal, lle bo angen, nodweddion tirwedd sydd o bwys i fywyd gwyllt a phlanhigion.<br>Mae'r gwelliannau yn 2007 yn:<br>■ symleiddio'r drefn gwarchod rhywogaethau er mwyn adlewyrchu'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn well;<br>■ darparu sail gyfreithiol glir ar gyfer goruchwylio a monitro rhywogaethau a warchodir gan Ewrop (EPS);<br>■ cryfhau'r drefn ar fasnachu EPS nad ydynt yn gynhenid i'r DU; a<br>■ sicrhau bod y gofyniad i gynnal asesiadau priodol o gydsyniadau echdynnu dŵr a chynlluniau defnydd tir yn glir. | Dylai'r ISA gynnwys blaenoriaethau ar gyfer diogelu nodweddion tirwedd er budd ecolegol.<br>Dylai polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol geisio gwarchod nodweddion tirwedd sy'n bwysig i gynefinoedd a sicrhau bod safleoedd Natura 2000 a Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop yn cael eu gwarchod. |
| ***Cyfarwyddeb yr UE ar Wastraff (Cyfarwyddeb 75/442/EEC, 2006/12/EC 2008/98/EC fel y'i diwygiwyd)*** | Mae'n ceisio atal a lleihau'r gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu a'i effeithiau. Lle bo angen, dylid gwaredu gwastraff heb greu problemau amgylcheddol<br>Mae'n ceisio diogelu'r amgylchedd ac iechyd pobl drwy atal neu leihau effeithiau niweidiol cynhyrchu a rheoli gwastraff a thrwy leihau effeithiau cyffredinol defnyddio adnoddau a gwella effeithlonrwydd defnydd o'r fath.<br>Mae'n hyrwyddo datblygu technoleg lân i brosesu gwastraff, gan hyrwyddo ailgylchu ac ailddefnyddio.<br>Mae'r Gyfarwyddeb yn cynnwys amrywiaeth o ddarpariaethau gan gynnwys: | Dylai'r ISA gynnwys blaenoriaethau i leihau gwastraff, mwy o ailgylchu ac ailddefnyddio.<br>Dylai polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol amcanu at leihau gwastraff, a'r effeithiau amgylcheddol a achosir ganddo. Dylai polisïau hyrwyddo ailgylchu ac ailddefnyddio. |

| Teitl a deddfwriaeth | Crynodeb, amcanion, targedau a dangosyddion allweddol | Goblygiadau i'r ISA a'r CDLI: |
|---|---|---|
| | ■ Sefydlu casgliadau gwastraff ar wahân lle bo hynny'n ymarferol yn dechnegol, yn amgylcheddol ac yn economaidd ac yn briodol er mwyn bodloni'r safonau ansawdd angenrheidiol ar gyfer y sectorau ailgylchu perthnasol – gan gynnwys, erbyn 2015, casgliad ar wahân ar gyfer o leiaf papur, metel, plastig a gwydr.<br>■ Targed ailgylchu gwastraff cartrefi – rhaid cynyddu'r gwaith o baratoi i ailddefnyddio ac ailgylchu deunyddiau gwastraff fel, o leiaf, papur, metel, plastig a gwydr o gartrefi ac o bosibl o darddiadau eraill, cyn belled â bod y ffrydiau gwastraff hyn yn debyg i wastraff o gartrefi, i o leiaf 50% yn ôl pwysau erbyn 2020.<br>■ Targed adfer gwastraff adeiladu a dymchwel – rhaid cynyddu'r gwaith paratoi ar gyfer ailddefnyddio, ailgylchu ac adfer deunyddiau eraill o wastraff adeiladu a dymchwel nad yw'n beryglus i isafswm o 70% yn ôl pwysau erbyn 2020. | |
| ***Cyfarwyddeb Ynni Adnewyddadwy'r UE (2009/28/EC)*** | Mae'r Gyfarwyddeb hon yn sefydlu fframwaith cyffredin ar gyfer defnyddio ynni o ffynonellau adnewyddadwy er mwyn cyfyngu ar allyriadau nwyon tŷ gwydr a hyrwyddo trafnidiaeth lanach. Mae'n annog effeithlonrwydd ynni, defnyddio ynni o ffynonellau adnewyddadwy a gwella'r cyflenwad ynni.<br>Pob Aelod-wladwriaeth i gyrraedd targed isaf o 10% ar gyfer cyfran yr ynni o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2020. | Dylai'r ISA gynnwys ystyried defnyddio ynni o ffynonellau ynni adnewyddadwy.<br>Dylai'r CDLI gyfrannu at gynyddu cyfran yr ynni o ffynonellau ynni adnewyddadwy lle bo hynny'n briodol. |
| ***EU (2009) Adnewyddiad i Strategaeth Datblygu Cynaliadwy yr UE*** | Ym mis Mehefin 2001, cytunodd Penaethiaid Gwladwriaethau'r UE ar y strategaeth datblygu cynaliadwy Ewropeaidd gyntaf. Mae'r Strategaeth yn nodi sut gall yr UE ddiwallu anghenion cenedlaethau'r presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion. Mae'r Strategaeth yn cynnig prif amcanion ac yn rhestru saith her allweddol:<br>■ Newid yn yr hinsawdd ac ynni glân;<br>■ Trafnidiaeth gynaliadwy;<br>■ Defnyddio a chynhyrchu cynaliadwy;<br>■ Cadwraeth a rheoli adnoddau naturiol;<br>■ Iechyd y cyhoedd;<br>■ Cynhwysiant cymdeithasol, demograffeg a mudo; a<br>■ Thlodi byd-eang. | Dylai'r CDLI anelu at greu patrwm datblygu sy'n gyson ag amcanion y Strategaeth ac sydd, yn ei dro, yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy. |
| ***Y Comisiwn Ewropeaidd*** | Nod y fenter flaenllaw hon yw creu fframwaith ar gyfer polisïau i gefnogi'r symudiad tuag at economi carbon isel sy'n effeithlon o ran adnoddau a fydd yn helpu i wneud y canlynol: | Dylai fframwaith asesu'r ISA gynnwys amcanion, dangosyddion a thargedau sy'n ymwneud â defnyddio adnoddau. |

| Teitl a deddfwriaeth | Crynodeb, amcanion, targedau a dangosyddion allweddol | Goblygiadau i'r ISA a'r CDLl: |
|---|---|---|
| ***(2011) Ewrop sy'n Effeithlon o ran Adnoddau - Menter Flaenllaw o dan Strategaeth Ewrop 2020, Cyfathrebiad oddi wrth y Comisiwn i Senedd Ewrop, y Cyngor, Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewrop a Phwyllgor y Rhanbarthau (COM 2011/21)*** | ■ Hybu perfformiad economaidd tra'n lleihau'r defnydd o adnoddau;<br>■ Canfod a chreu cyfleoedd newydd ar gyfer twf economaidd a mwy o arloesi a rhoi hwb i gystadleurwydd yr UE;<br>■ Sicrhau diogelwch y cyflenwad o adnoddau hanfodol; a<br>■ Brwydro yn erbyn newid yn yr hinsawdd a chyfyngu ar effeithiau amgylcheddol defnyddio adnoddau.<br>Mae gan bob Aelod-wladwriaeth darged a gyfrifir yn ôl cyfran yr ynni o ffynonellau adnewyddadwy yn ei defnydd terfynol gros ar gyfer 2020. Mae'n ofynnol i'r DU gael 15 y cant o anghenion ynni o ffynonellau adnewyddadwy, gan gynnwys biomas, hydro, gwynt ac ynni'r haul erbyn 2020.<br>O 1 Ionawr 2017, dylid cynyddu'r gyfran o fiodanwyddau a biohylifau mewn arbedion allyriadau i 50 y cant. | Dylai'r CDLl ystyried amcanion y Fenter Flaenllaw. |
| ***Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy (RHI) (Swyddfa Marchnadoedd Nwy a Thrydan, 2018)*** | Mae gwres yn cyfrif am 46% o gyfanswm defnydd ynni'r DU ac felly mae hon yn fenter allweddol i gyrraedd targedau 2020 o 15% o ynni o ffynonellau adnewyddadwy. Y cymhelliant yw rhoi incwm sefydlog i aelwyd gynhyrchu ei hynni gwres adnewyddadwy ei hun o ynni solar neu wynt.<br>Nod y Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy yw cynyddu faint o ynni adnewyddadwy a ddefnyddir i wresogi. Gosodwyd targedau ar gyfer y sectorau annomestig a domestig. Bydd hyn yn cynyddu lefel gyffredinol yr ynni adnewyddadwy a ddefnyddir ar gyfer gwresogi i 12% o'r 1.5% fel y mae ar hyn o bryd. | Mae'n cynnwys amcan cynaliadwyedd sy'n ymwneud â chynyddu'r ynni a ddarperir o ffynonellau adnewyddadwy.<br>Dylai'r CDLl gefnogi darpariaeth ynni adnewyddadwy. |
| ***Cyfarwyddeb 2015/1513 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n diwygio Cyfarwyddeb 98/70/EC sy'n ymwneud ag ansawdd tanwyddau*** | Mae'r Gyfarwyddeb hon yn creu fframwaith cyffredin ar gyfer defnyddio ynni adnewyddadwy yn yr UE er mwyn cyfyngu ar allyriadau nwyon tŷ gwydr (GHG) a hyrwyddo trafnidiaeth lanach. I wneud hynny, mae Aelod-wladwriaethau'n mynnu bod cyflenwyr tanwydd neu ynni yn lleihau cylch bywyd GHG fesul uned o ynni tanwyddau a ddefnyddir o leiaf 6% erbyn 31 Rhagfyr 2020. Cyfuno biodanwyddau yw un o'r dulliau sydd ar gael i gyflenwyr tanwydd ffosil i leihau dwysedd nwyon tŷ gwydr y tanwyddau ffosil a gyflenwir. Rhaid i bob Aelod-wladwriaeth hefyd sicrhau bod cyfran yr ynni o ffynonellau adnewyddadwy ym mhob math o drafnidiaeth yn 2020 yn o leiaf 10% o'r defnydd terfynol o ynni mewn trafnidiaeth. | Mae'n cynnwys amcan cynaliadwyedd sy'n ymwneud â chynyddu'r ynni a ddarperir o ffynonellau adnewyddadwy.<br>Dylai'r CDLl gefnogi darpariaeth ynni adnewyddadwy gan gynnwys trydan, gwres a thrafnidiaeth. |

| Teitl a deddfwriaeth | Crynodeb, amcanion, targedau a dangosyddion allweddol | Goblygiadau i'r ISA a'r CDLI: |
|---|---|---|
| ***petrol a diesel ac yn diwygio Cyfarwyddeb 2009/28/EC ar hyrwyddo defnyddio ynni o ffynonellau adnewyddadwy*** | Bydd pob gwlad yn yr UE yn gwneud cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer 2020, gan osod cyfran ar gyfer ffynonellau ynni adnewyddadwy mewn trafnidiaeth, gwresogi a chynhyrchu trydan. | |
| ***Cynllun Strategol 2016-2020 (Cyfarwyddiaeth Gyffredinol ar gyfer Symudedd a Thrafnidiaeth, 2016)*** | Er mwyn cyfrannu at gyflawni'r nodau cyffredinol a osodwyd ar lefel yr UE, mae'r Comisiwn wedi gosod nifer o Amcanion Cyffredinol yn seiliedig ar y blaenoriaethau a amlinellwyd gan yr Arlywydd Juncker. Mae gweithgareddau DG MOVE yn cyfrannu'n weithredol at y rhain ac yn benodol at y 5 Amcan Cyffredinol canlynol:<br>■ Amcan Cyffredinol 1 y Comisiwn: "Hwb Newydd i Swyddi, Twf a Buddsoddiad"<br>■ Amcan Cyffredinol 2 y Comisiwn: "Marchnad Ddigidol Sengl Gysylltiedig"<br>■ Amcan Cyffredinol 3 y Comisiwn: "Undeb Ynni Gwydn gyda Pholisi Newid Hinsawdd sy'n Edrych tua'r Dyfodol"<br>■ Amcan Cyffredinol 4 y Comisiwn: "Marchnad Fewnol Ddyfnach a Thecach gyda Sylfaen Ddiwydiannol Gryfach"<br>■ Amcan Cyffredinol 5 y Comisiwn: "Gweithredwr Byd-eang Cryfach"<br>Mae camau gweithredu DG MOVE sy'n cyfrannu at Amcanion Cyffredinol y Comisiwn yn dod o dan 3 Amcan Penodol, sy'n cyfateb i'r prif offerynnau sydd ar gael:<br>■ Amcan Penodol 1 DG MOVE: "Ardal Drafnidiaeth Ewropeaidd Sengl effeithlon, gynaliadwy, saff a diogel: Gwella rheoleiddio, sicrhau lefel uchel o weithredu deddfwriaeth yr UE ym maes trafnidiaeth a chystadleuaeth agored a theg yn yr UE ac mewn perthynas â gwledydd partner allweddol."<br>■ Amcan Penodol 2 DG MOVE: "Seilwaith trafnidiaeth Ewropeaidd modern: Sicrhau bod y Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd yn cael ei weithredu'n effeithiol gyda chymorth Cyfleuster Cysylltu Ewrop a'r offerynnau ariannol arloesol (EFSI)."<br>■ Amcan Penodol 3 DG MOVE: "Sector trafnidiaeth arloesol: Sicrhau bod cyllid yn cael ei roi ar waith yn effeithiol ar gyfer gweithgareddau ymchwil ac arloesi yn yr ardal drafnidiaeth o dan Horizon 2020." | Dylai'r ISA ystyried yr amcanion cyffredinol a phenodol wrth ddatblygu'r fframwaith cynaliadwyedd.<br>Dylai'r CDLI ystyried amcanion cyffredinol a phenodol y Cynllun Strategol wrth ddatblygu polisïau/cynigion |

| Teitl a deddfwriaeth | Crynodeb, amcanion, targedau a dangosyddion allweddol | Goblygiadau i'r ISA a'r CDLl: |
|---|---|---|
| | Er mwyn mesur y cynnydd a wnaed gan DG MOVE tuag at weithredu ei bolisïau a chyrraedd amcanion penodol, cyflwynir nifer o ddangosyddion yn atodiad y Cynllun Strategol. Rhoddir sylw arbennig i'r tri dangosydd canlynol:<br>1. Cyfradd trosi mewn deddfwriaeth trafnidiaeth (gweler amcan penodol 1)<br>2. Cyfanswm grantiau Cyfleuster Cysylltu Ewrop, dirprwyaethau, cyfraniadau a lofnodwyd ar gyfer prosiectau a rhaglenni trafnidiaeth (gweler amcan penodol 2)<br>3. Cyfanswm grantiau Horizon 2020, dirprwyaethau, cyfraniadau a lofnodwyd ar gyfer prosiectau a rhaglenni trafnidiaeth (gweler amcan penodol 3) | |
| ***Cyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol 2001/42/EC ar asesu effeithiau cynlluniau a rhaglenni penodol ar yr amgylchedd*** | Darparu ar gyfer lefel uchel o ddiogelu'r amgylchedd a chyfrannu at integreiddio ystyriaethau amgylcheddol i'r gwaith o baratoi a mabwysiadu cynlluniau a rhaglenni gyda golwg ar hyrwyddo datblygu cynaliadwy. | Rhaid bodloni gofynion y Gyfarwyddeb yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd pan fydd Arfarniad Cynaliadwyedd/AAS integredig yn cael ei gynnal (yn yr un modd â CDLl newydd Ynys Môn).<br>*Mae'n ymwneud â phroses gyffredinol yr ISA.*<br>Dyrannu safleoedd a datblygu polisïau a ddewisir ar sail canfyddiadau'r AAS (yn ogystal â ffactorau perthnasol eraill). |
| **CENEDLAETHOL (Y DU a Chymru)** | | |
| ***Deddf Seilwaith (Cymru) 2024*** | Mae'r Ddeddf yn sefydlu proses gydsynio unedig ar gyfer seilwaith yng Nghymru (a dyfroedd Cymru), o'r enw Cydsyniad Seilwaith, ar gyfer mathau penodol o seilwaith mawr a elwir yn Brosiectau Seilwaith Arwyddocaol.<br>Mae'r Ddeddf hefyd yn cynnwys y gallu i weinidogion ychwanegu, amrywio neu ddileu prosiectau cyn belled bod y prosiectau ym meysydd ynni, atal llifogydd, mwynau, trafnidiaeth, dŵr, dŵr gwastraff a gwastraff. | Dylai'r ISA ystyried effeithiau datblygu seilwaith ar gynaliadwyedd.<br>Bydd yn rhaid paratoi'r CDLl yn unol â'r Ddeddf. Gallai'r Ddeddf leihau faint o amser mae'n ei gymryd i ganiatáu a darparu seilwaith mawr. |
| ***Y Rhaglen Lywodraethu 2021 i 2026 (2021)*** | Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn nodi'r amcanion llesiant y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cyflawni dros y pum mlynedd nesaf o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Y deg amcan llesiant yw:<br>▪ Darparu gofal iechyd effeithiol, cynaliadwy ac o ansawdd uchel.<br>▪ Diogelu, ailadeiladu a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer pobl agored i niwed. | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n mynd i'r afael ag iechyd a lles (ac elfen HIA yr ISA) i ystyried effeithiau'r CDLl ar draws yr ystod o faterion a allai effeithio ar y maes pwnc hwn.<br>Dylai'r CDLl geisio mynd i'r afael â'r deg amcan llesiant a amlinellir yn y Rhaglen Lywodraethu. |

| Teitl a deddfwriaeth | Crynodeb, amcanion, targedau a dangosyddion allweddol | Goblygiadau i'r ISA a'r CDLI: |
|---|---|---|
| | ■ Adeiladu economi yn seiliedig ar egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol.<br>■ Adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth i ni wneud y cynnydd mwyaf tuag at ddatgarboneiddio.<br>■ Gwreiddio ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a byd natur ym mhopeth a wnawn.<br>■ Barhau â'n rhaglen hirdymor o ddiwygio addysg, a sicrhau bod anghydraddoldebau addysgol yn lleihau a safonau yn codi.<br>■ Dathlu amrywiaeth a gweithredu i ddileu anghydraddoldeb o bob math.<br>■ Gwthio tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg, a galluogi ein diwydiannau twristiaeth, chwaraeon a'r celfyddydau i ffynnu.<br>■ Gwneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi hyd yn oed yn llefydd gwell i fyw a gweithio ynddynt.<br>■ Arwain Cymru mewn sgwrs ddinesig genedlaethol am ein dyfodol cyfansoddiadol, a rhoi'r presenoldeb cryfaf posibl i'n gwlad ar lwyfan y byd. | |
| ***Y Fargen Twf*** | Mae'r Fargen Twf yn gytundeb a fydd yn cynhyrchu cyfanswm buddsoddiad o dros £1 biliwn ar gyfer Gogledd Cymru er mwyn cynhyrchu dros 4,000 o swyddi newydd a chreu cynyddu o £2.4 biliwn mewn gwerth ychwanegol gros. Nodau'r cytundeb yw:<br>■ Adeiladu economi fwy bywiog, cynaliadwy a chadarn yng Ngogledd Cymru.<br>■ Meithrin ein cryfderau, hybu cynhyrchiant ar yr un pryd â mynd i'r afael â heriau hirdymor a rhwystrau economaidd i sicrhau twf cynhwysol.<br>■ Hyrwyddo twf mewn ffordd raddadwy, gynhwysol a chynaliadwy, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n mynd i'r afael â thwf economaidd ac iechyd a lles (ac elfen HIA yr ISA) i ystyried effeithiau'r CDLI ar draws yr ystod o faterion a allai effeithio ar y maes pwnc hwn.<br>Dylai'r CDLI geisio cefnogi twf economaidd ac iechyd a lles. |
| ***Ailddychmygu Adeiladu Tai Cymdeithasol yng Nghymru:*** | Mae'r strategaeth yn nodi disgwyliadau sy'n ymwneud â chynhyrchu cartrefi sy'n cael eu hadeiladu, gan ddarparu canllaw i ddarparwyr tai cymdeithasol a fforddiadwy yng Nghymru ar ddefnyddio Dulliau Adeiladu Modern (MMC) i adeiladu cartrefi newydd. Mae'r strategaeth yn targedu llywodraeth leol, cymdeithasau tai a busnesau preifat, gan eu hannog i ategu gwaith | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n mynd i'r afael â'r potensial i ddarparu tai drwy MMC, gan sicrhau bod datblygiadau newydd yn cyfrannu at gynaliadwyedd, effeithlonrwydd ynni a fforddiadwyedd. |

| Teitl a deddfwriaeth | Crynodeb, amcanion, targedau a dangosyddion allweddol | Goblygiadau i'r ISA a'r CDLI: |
|---|---|---|
| ***Strategaeth Dulliau Adeiladu Modern ar gyfer Tai Cymdeithasol (2020)*** | adeiladu traddodiadol gyda thechnolegau a dulliau newydd. Mae cynhyrchion MMC yn darparu manteision clir a phendant sy'n cyflwyno achos cryf dros eu defnyddio'n eang. Mae'r rhain yn cynnwys:<br>■ Adeiladau a seilwaith o ansawdd gwell<br>■ Gweithlu mwy medrus a chynhyrchiant uwch<br>■ Gwell perfformiad mewn adeiladau<br>Nod y strategaeth hon yw canolbwyntio adnoddau i ddarparu mwy o gartrefi cymdeithasol gan ddefnyddio MMC ac, wrth wneud hynny, helpu i ddatblygu'r gadwyn gyflenwi yng Nghymru. Bydd Gweinidogion Cymru yn cefnogi MMC yng Nghymru yn y ffyrdd canlynol:<br>■ Safoni cylchoedd sicrwydd, gwarantau ac achrediadau i gefnogi hyder benthycwyr a thrydydd partïon mewn MMC<br>■ Gosod safonau ar gyfer pob cartref cymdeithasol newydd yng Nghymru<br>■ Archwilio modelau caffael gwerth uchel yn hytrach na chost isel i adlewyrchu costau oes gyfan adeiladu o'r newydd a darparu mwy o opsiynau datblygu i ddarparwyr tai<br>■ Datblygu dulliau safonol o ddylunio a gweithgynhyrchu er mwyn cynyddu niferoedd, lleihau costau ac adeiladu mwy o gartrefi<br>■ Nodi a chydlynu gofynion sgiliau a chymwysterau i gefnogi mwy o ddefnydd o MMC<br>■ Cefnogi'r gwaith o weithgynhyrchu cartrefi yng Nghymru, mewn ffordd sy'n cyfrannu at uchelgeisiau cymdeithasol ac economaidd ehangach y llywodraeth<br>■ Cydweithio a phartneriaethau<br>■ Darparu cymorth i gynhyrchwyr MMC yng Nghymru a'u cadwyni cyflenwi i helpu'r diwydiant i dyfu a ffynnu<br>■ Mwy na thai yn unig (ffocws ychwanegol ar agweddau o'r broses gynllunio ac annog mwy o gwmnïau gwaith tir lleol i ddechrau paratoi safleoedd preswyl). | Dylai polisïau tai yn y CDLI fod yn ystyriol o'r Strategaeth, gan gyd-fynd â'i hamcanion i wella ansawdd ac argaeledd cartrefi. Dylai'r CDLI gefnogi mabwysiadu MMC drwy annog arloesi mewn dulliau adeiladu, gan sicrhau bod dyraniadau tir yn addas ar gyfer datblygiadau MMC. |

| Teitl a deddfwriaeth | Crynodeb, amcanion, targedau a dangosyddion allweddol | Goblygiadau i'r ISA a'r CDLI: |
|---|---|---|
| ***Deddf Ffyniant Bro ac Adfywio 2023*** | Mae'r Ddeddf yn nodi'r cyfeiriad ar gyfer cynllunio ac yn gwneud darpariaethau i gefnogi'r agenda ffyniant bro. Mae'n ceisio symleiddio'r broses gynllunio gan roi mwy o bwys ar gynlluniau datblygu ar yr un pryd. Mae hefyd yn ceisio gwella'r gwaith o gyflenwi seilwaith gyda system ardollau newydd, gwella aliniad rhwng cynlluniau i fynd i'r afael â materion trawsffiniol, a bydd yn cyflwyno diogelwch ychwanegol ar gyfer asedau treftadaeth. Mae'r Ddeddf hefyd yn datgan y bydd systemau presennol yr UE, sef SEA, HRA ac EIA yn cael eu disodli maes o law gan broses symlach o'r enw 'Adroddiadau Canlyniadau Amgylcheddol'. | Rhaid paratoi'r ISA yn unol â gofynion deddfwriaethol y Ddeddf, gan sicrhau ei fod yn asesu effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd y CDLI.<br><br>Bydd yn rhaid paratoi'r CDLI yn unol â'r ddeddfwriaeth, gan sicrhau bod polisïau cynllunio lleol yn cyd-fynd ag amcanion y Ddeddf, gan gynnwys drwy wella'r cyflenwad tai. |
| ***Strategaeth Diogelwch Ynni Prydain (2022)*** | Mae'r Strategaeth yn nodi sut bydd y DU yn gwella ei diogelwch ynni, gan nodi cynlluniau ar gyfer defnyddio gwynt, niwclear newydd, solar a hydrogen yn y dyfodol, ac ar gyfer cefnogi'r gwaith o gynhyrchu olew a nwy domestig yn y tymor agosach. Mae'r strategaeth yn adeiladu ar 'gynllun deg pwynt ar gyfer chwyldro diwydiannol gwyrdd' y Prif Weinidog, a'r 'strategaeth sero net'. Mae'r prif nodau ac ymrwymiadau'n cynnwys:<br><br>■ Ymrwymiadau newydd i roi hwb enfawr i ynni glân a chyflymu'r defnydd, a allai olygu y bydd 95% o drydan Prydain Fawr yn garbon isel erbyn 2030.<br><br>■ Cefnogi dros 40,000 yn rhagor o swyddi mewn diwydiannau glân, gan greu cyfanswm o 480,000 o swyddi erbyn 2030.<br><br>■ Cyflymu'r gwaith o ehangu niwclear, gwynt, solar, hydrogen, olew a nwy, gan gynnwys darparu'r hyn sy'n cyfateb i un adweithydd niwclear y flwyddyn yn hytrach nag un bob degawd.<br><br>■ Gwynt ar y môr – nod o ddarparu hyd at 50GW erbyn 2030, y bwriedir i 5GW ohono fod o wynt arnofiol ar y môr mewn moroedd dyfnach. Y nod yw i hyn gael ei ategu gan ddiwygiadau cynllunio newydd i gwtogi'r amseroedd cymeradwyo ar gyfer ffermydd gwynt newydd ar y môr o 4 blynedd i 1 flwyddyn a symleiddio cyffredinol a fydd yn ceisio lleihau'r amser mae'n ei gymryd i brosiectau newydd gyrraedd camau adeiladu ar yr un pryd â gwella'r amgylchedd.<br><br>■ Olew a nwy – bwriedir lansio cylch trwyddedu ar gyfer prosiectau olew a nwy newydd ym Môr y Gogledd yn yr Hydref, gyda thasglu newydd yn darparu cymorth pwrpasol i ddatblygiadau newydd. | Dylai'r ISA gynnwys ystyried defnyddio ynni o ffynonellau ynni adnewyddadwy.<br><br>Dylai'r CDLI gyfrannu at dargedau ynni cenedlaethol a nodir yn y Strategaeth, gan gynyddu cyfran yr ynni o ffynonellau ynni adnewyddadwy lle bo hynny'n briodol. |

| Teitl a deddfwriaeth | Crynodeb, amcanion, targedau a dangosyddion allweddol | Goblygiadau i'r ISA a'r CDLl: |
|---|---|---|
| | ■ Gwynt ar y tir – Mae'r Llywodraeth yn bwriadu ymgynghori ar ddatblygu partneriaethau gyda nifer cyfyngedig o gymunedau cefnogol sy'n dymuno cynnal seilwaith gwynt newydd ar y tir yn gyfnewid am filiau ynni is gwarantedig.<br>■ Gweithgynhyrchu pympiau gwres: Nod y Llywodraeth yw cynnal Cystadleuaeth Sbarduno Buddsoddi mewn Pympiau Gwres yn 2022 sy'n werth hyd at £30 miliwn i wneud pympiau gwres o Brydain, gyda'r gobaith o leihau'r galw am nwy. | |
| ***Cynllun Strategol Iechyd Cyhoeddus Cymru 2022-25 (2022)*** | Mae'r Cynllun Strategol yn nodi'r camau allweddol y bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn eu cymryd yn 2022/23 yn erbyn nifer fach o themâu strategol, gan ganolbwyntio ar leihau anghydraddoldebau iechyd, atal clefydau, a hyrwyddo ffyrdd iachach o fyw.<br>Yn ystod y tair blynedd nesaf, mae'r Cynllun yn ceisio cyflawni gwelliannau allweddol i iechyd y cyhoedd, gan gynnwys:<br>■ Cryfhau gallu'r system iechyd y cyhoedd ehangach a chraidd i ddylanwadu ar benderfynyddion iechyd ehangach<br>■ Gweithio gyda chyflogwyr a phartneriaid cenedlaethol, rhanbarthol a lleol i ddylanwadu'n gadarnhaol ar sut gall gwaith ac addysg wella iechyd a thegwch<br>■ Sicrhau bod atebion tegwch iechyd yn cael eu gwreiddio'n llwyddiannus ym mholisïau allweddol Cymru sy'n effeithio ar benderfynyddion iechyd ehangach<br>Mae dangosyddion llwyddiant yn cynnwys disgwyliad oes gwell, llai o wahaniaethau iechyd, mwy o bobl yn manteisio ar ofal iechyd ataliol | Dylai'r ISA gynnwys amcanion sy'n mynd i'r afael ag iechyd a lles (ac elfen HIA yr ISA) i ystyried effeithiau'r CDLl ar draws yr ystod o faterion a allai effeithio ar y maes pwnc hwn. Mae hyn yn cynnwys mynediad at gyfleusterau gofal iechyd, mynediad at fannau agored a chyfleusterau hamdden, llygredd sŵn, llygredd aer a lles meddyliol (gan gynnwys ynysu cymdeithasol).<br>Dylai'r CDLl gynnwys polisïau sy'n ceisio hybu iechyd a lles. |
| ***Strategaeth Hirdymor Iechyd Cyhoeddus Cymru – Gweithio i Gyflawni Dyfodol*** | Mae'r Strategaeth yn ceisio sicrhau dyfodol iachach i Gymru, gan adlewyrchu Agenda 2030 y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a'i 17 Nod Datblygu Cynaliadwy. Mae saith blaenoriaeth strategol yn sail i'r Strategaeth:<br>■ Dylanwadu ar benderfynyddion ehangach iechyd<br>■ Gwella lles meddyliol a meithrin gwytnwch<br>■ Hyrwyddo ymddygiad iach | Fel uchod. |

| Teitl a deddfwriaeth | Crynodeb, amcanion, targedau a dangosyddion allweddol | Goblygiadau i'r ISA a'r CDLI: |
|---|---|---|
| ***Iachach i Gymru (2018)*** | ■ Sicrhau dyfodol iach i'r genhedlaeth nesaf drwy ganolbwyntio ar y blynyddoedd cynnar<br>■ Diogelu'r boblogaeth rhag heintiau a bygythiadau amgylcheddol i iechyd<br>■ Cefnogi'r gwaith o ddatblygu system iechyd a gofal gynaliadwy sy'n canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar<br>■ Meithrin a defnyddio gwybodaeth a sgiliau i wella iechyd a lles ledled Cymru | |
| ***Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004)*** | Roedd y Ddeddf yn diwygio'r ffordd yr ymdrinnir â cheisiadau cynllunio er mwyn sicrhau proses gyflymach a mwy effeithlon, yn ogystal â diwygio system y cynllun datblygu. Roedd yn cyflwyno gorchmynion datblygu lleol a yn sefydlu datblygu cynaliadwy fel un o amcanion allweddol y system gynllunio. | Bydd yn rhaid paratoi'r CDLl yn unol â'r ddeddfwriaeth. |
| ***Deddf Cydraddoldeb (2010)*** | Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn darparu amddiffyniad cyfreithiol i bobl rhag gwahaniaethu yn y gymdeithas ehangach ac yn y gweithle. | Dylai'r ISA (drwy'r elfen asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb) ystyried goblygiadau posibl y CDLl mewn perthynas â'r nodweddion gwarchodedig a nodir yn y Ddeddf Cydraddoldeb.<br>Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn darparu amddiffyniad cyfreithiol i bobl rhag gwahaniaethu yn y gymdeithas ehangach ac yn y gweithle. |
| ***Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) (2018)*** | Mae'r Ddeddf yn diddymu Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ac yn gwneud darpariaethau eraill mewn cysylltiad ag ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r UE. | Nid yw'r goblygiadau i'r CDLl a'r ISA yn gwbl hysbys eto, fodd bynnag, gallai tynnu allan o'r UE arwain at oblygiadau yn y dyfodol o ran paratoi cynlluniau. |
| ***Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) (2020)*** | Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth gyfreithiol ar gyfer ymadawiad y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer setliad ariannol a chytundeb ar hawliau dinasyddion. | Nid yw'r goblygiadau i'r CDLl a'r ISA yn gwbl hysbys eto, fodd bynnag, gallai tynnu allan o'r UE arwain at oblygiadau yn y dyfodol o ran paratoi cynlluniau. |
| ***Deddf Cynllunio (Cymru) (2015)*** | Mae'r Ddeddf yn ceisio moderneiddio a gwella system gynllunio Cymru er mwyn hwyluso'r gwaith o ddarparu tai, cyflogaeth a seilwaith. Mae'r Ddeddf yn hyrwyddo newid diwylliannol mewn cynllunio i helpu i wneud cynllunio'n fwy cadarnhaol a chefnogi datblygiad priodol.<br>Mae gofynion y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) a'r Cynlluniau Datblygu Strategol (CDS) wedi'u nodi yn y ddeddfwriaeth. | Bydd angen i'r CDLl roi sylw i'r Ddeddf, a'r goblygiadau cysylltiedig (FfDC, CDS ayb) |

| Teitl a deddfwriaeth | Crynodeb, amcanion, targedau a dangosyddion allweddol | Goblygiadau i'r ISA a'r CDLl: |
|---|---|---|
| ***Polisi Cynllunio Cymru: Rhifyn 12 (2024)*** | Dyma'r themâu allweddol a'r nodau llesiant i Gymru sy'n cael sylw ym Mholisi Cynllunio Cymru:<br>■ Amddiffyn yr amgylchedd i'r graddau mwyaf posibl a chyfyngu ar yr effaith ar yr amgylchedd (gan gynnwys mewn perthynas â bioamrywiaeth, tirweddau, seilwaith gwyrdd, newid yn yr hinsawdd a'r amgylchedd hanesyddol).<br>■ Hwyluso amgylcheddau hygyrch ac iach (gan gynnwys mewn perthynas â mannau gwyrdd o ansawdd uchel, creu lleoedd diogel a chynhwysol, teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus a mynediad at nwyddau a gwasanaethau).<br>■ Gwneud y defnydd gorau o adnoddau (gan gynnwys mewn perthynas â gwneud y defnydd gorau o adnoddau naturiol, cyfyngu ar wastraff a hyrwyddo'r defnydd o dir a ddatblygwyd yn flaenorol.<br>■ Tyfu'r economi mewn ffordd gynaliadwy (gan gynnwys ym maes ynni adnewyddadwy a thechnoleg glyfar ac arloesol).<br>■ Creu a chynnal cymunedau (gan gynnwys cefnogaeth i'r iaith Gymraeg, darparu tai a swyddi i ddiwallu anghenion cymdeithas, cefnogi profiadau diwylliannol a gwasanaethau a chyfleusterau yn y gymuned). | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n ymwneud â lliniaru newid yn yr hinsawdd, diogelu a gwella bioamrywiaeth, gwarchod yr amgylchedd hanesyddol, sicrhau mynediad at dai digonol o ansawdd uchel, hyrwyddo mynediad at gyflogaeth a gwasanaethau eraill, diogelu a gwella tirweddau, hyrwyddo a darparu seilwaith gwyrdd, a sicrhau iechyd a llesiant y cyhoedd.<br>Bydd angen i'r CDLl gynnwys ystod eang o fesurau a nodwyd gan PCC er mwyn cynorthwyo datblygu cynaliadwy a'r agenda creu lleoedd. Mae gan gynllunio hefyd rôl uniongyrchol i'w chwarae mewn perthynas ag effeithiau newid yn yr hinsawdd, a lleoliad a dyluniad adeiladau. |
| ***Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 (2021)*** | Cymru'r Dyfodol yw'r cynllun datblygu haen uchaf yng Nghymru, a rhaid i bob cynllun arall gydymffurfio â'r polisïau sydd yn y ddogfen honno. Mae'r cynllun yn nodi'r cyfeiriad ar gyfer twf, datblygu a buddsoddi mewn seilwaith yng Nghymru tan 2040. | Bydd yn rhaid i'r CDLl gydymffurfio â Cymru'r Dyfodol. Mae polisïau wedi cael eu croesgyfeirio at nifer o bynciau lefel uchel:<br>■ Dewisiadau Strategol a Gofodol<br>■ Lleoedd Actif a Chymdeithasol<br>■ Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus<br>■ Lleoedd Neilltuol a Naturiol<br>Dylai cynaliadwyedd a chreu lleoedd fod yn rhan annatod o'r broses llunio polisïau. |
| ***Adeiladu Lleoedd Gwell (2020)*** | Mae'n nodi blaenoriaethau polisi cynllunio'r Llywodraeth i helpu i weithredu yn y cyfnod adfer ar ôl pandemig COVID-19. Mae'n cydnabod pwysigrwydd y system gynllunio o ran mynd i'r afael â'r materion amgylchedd adeiledig a naturiol sydd wedi codi o'r pandemig. Mewn perthynas â Chynlluniau Datblygu Lleol, mae'n cydnabod pwysigrwydd cael cynllun cyfredol ar waith er mwyn mynd i'r afael â'r blaenoriaethau presennol a'r rôl y gall cynlluniau ei chwarae o ran gwella iechyd a lles yn fwy cyffredinol. | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n rhoi sylw i iechyd a lles.<br>Dylai'r CDLl geisio mynd i'r afael â blaenoriaethau presennol ardal y cynllun a chynnwys polisïau sy'n cefnogi adferiad yr ardal yn dilyn y pandemig yn ogystal ag iechyd a lles yn fwy cyffredinol. |

Tudalen 104

| Teitl a deddfwriaeth | Crynodeb, amcanion, targedau a dangosyddion allweddol | Goblygiadau i'r ISA a'r CDLI: |
|---|---|---|
| ***Ynni Cymru: Pontio i Economi Carbon Isel (2012)*** | Mae'r cynllun yn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gweithio tuag at y nod o greu economi gynaliadwy, carbon isel i Gymru. | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n mynd i'r afael â'r potensial i ddarparu cynlluniau adnewyddadwy ac integreiddio datblygiadau newydd i rwydweithiau newydd a rhai sy'n bodoli eisoes (fel CHP a rhwydweithiau gwres).<br><br>Dylai'r CDLl annog defnyddio ynni adnewyddadwy lle bo hynny'n briodol, gan ystyried goblygiadau amgylcheddol posibl datblygiadau o'r fath. |
| ***Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel (2019)*** | Mae casgliad 'Ffyniant Pawb' o strategaethau a pholisïau yn cynnwys cynlluniau ar gyfer mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a lleihau allyriadau carbon. Mae'r Cynllun yn gosod y sylfeini i Gymru newid i fod yn genedl carbon isel.<br><br>Mae'r Cynllun yn cydnabod bod gan y system gynllunio rôl i'w chwarae o ran hwyluso datgarboneiddio. Mae newidiadau allweddol i Bolisi Cynllunio Cymru wedi cael eu gwneud sydd wedi cael eu dylunio i helpu Cymru i leihau allyriadau carbon, er enghraifft hyrwyddo Teithio Llesol a hyrwyddo datblygu ynni adnewyddadwy. | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n ceisio hyrwyddo llai o gyfraniad at newid yn yr hinsawdd drwy drafnidiaeth, gofynion ynni a ffynonellau eraill.<br><br>Dylai'r CDLl roi pwyslais ar yr agenda newid yn yr hinsawdd a datgarboneiddio lle mae cyfleoedd ar gael, yn enwedig mewn perthynas â datblygu polisi. |
| ***Effeithlonrwydd Ynni yng Nghymru: Strategaeth ar gyfer y 10 Mlynedd Nesaf 2016-2026 (2017)*** | Nod y Cynllun yw sicrhau bod Cymru yn y sefyllfa orau i wireddu potensial effeithlonrwydd ynni llawn. Mae'n nodi'r system gynllunio fel dull o hwyluso datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel. | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n ceisio hyrwyddo llai o gyfraniad at newid yn yr hinsawdd drwy ofynion ynni, gan gynnwys hyrwyddo dylunio sy'n defnyddio ynni'n effeithlon.<br><br>Dylai'r CDLl gynllunio'n gadarnhaol ar gyfer datblygiadau adnewyddadwy a charbon isel, drwy ddatblygu polisi. |
| ***NCT 3: Parthau Cynllunio Syml (1996)*** | Mae'r NCT yn darparu canllawiau ar weithredu cynlluniau Parthau Cynllunio Syml (SPZ) yng Nghymru, gan nodi rôl awdurdodau cynllunio lleol, a gallu cynlluniau o'r fath i symleiddio rheolaeth gynllunio. | Dylai'r ISA gynnwys amcanion sy'n ymwneud â sicrhau twf economaidd cynaliadwy, gan ystyried SPZs a'u potensial ar gyfer twf economaidd ac adfywio.<br><br>Dylai'r CDLl fod yn rhagweithiol wrth nodi SPZs, gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd â blaenoriaethau economaidd ac adfywio lleol. |
| ***NCT 7: Rheoli Hysbysebion Awyr Agored (1996)*** | Mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn rhoi arweiniad ar sut y dylai awdurdodau cynllunio lleol reoleiddio hysbysebion awyr agored i sicrhau eu bod yn cyfrannu'n gadarnhaol at amwynder gweledol a diogelwch cyhoeddus ardal. | Dylai'r ISA gynnwys amcanion sy'n mynd i'r afael â dylunio o ran hyrwyddo cadwraeth treftadaeth, yr amgylchedd naturiol, cymeriad lleol a diogelwch.<br><br>Dylai'r CDLl hyrwyddo dylunio sy'n ceisio gwella amwynder gweledol, gwarchod treftadaeth a diogelwch y cyhoedd. |
| ***NCT 10: Gorchmynion*** | Mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn nodi pwrpas Gorchmynion Cadw Coed (TPO), yn ogystal ag amlinellu'r broses ar gyfer dynodi, rheoli a gorfodi TPOs. | Dylai'r ISA ystyried effeithiau ar goetir (gan gynnwys coetir hynafol a choed aeddfed eraill lle bo hynny'n briodol) fel rhan o'i amcan bioamrywiaeth. |

| Teitl a deddfwriaeth | Crynodeb, amcanion, targedau a dangosyddion allweddol | Goblygiadau i'r ISA a'r CDLl: |
|---|---|---|
| ***Cadw Coed (1997)*** | | Dylai'r CDLl ymgorffori polisïau sy'n diogelu coed sy'n cael eu gwarchod gan TPOs, gan sicrhau eu bod yn cael eu hystyried mewn penderfyniadau cynllunio, a chynigion datblygu. |
| ***NCT 14: Cynllun Arfordirol (2021)*** | Mae'r NCT hwn yn disgrifio rôl awdurdodau cynllunio lleol a'r ystod o reolaethau sectoraidd a rheoleiddiol dros ddatblygu morol ac arfordirol. Mae'r canllawiau'n rhoi manylion nifer o faterion y mae'n rhaid eu hystyried oherwydd eu heffeithiau posibl ar brosesau ffisegol ac amodau'r tir, yn ogystal â chydbwysedd cyffredinol, sensitifrwydd a chadwraeth yr ardal. Mae'r rhain yn cynnwys effaith weledol o'r tir a'r môr, a'r angen posibl am waith adfer ac amddiffyn. Mae'n ymdrin ag ystyriaethau a materion cynllunio i'w cynnwys mewn cynlluniau datblygu ac wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n ceisio gwarchod a rheoli parthau arfordirol yn gynaliadwy yn y Fwrdeistref Sirol, gan ystyried effeithiau newid yn yr hinsawdd.<br><br>Dylai'r CDLl ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar leoedd i reoli risg llifogydd. Dylai polisïau geisio cyfyngu ar y potensial ar gyfer mwy o risg llifogydd yn ardal y cynllun a, lle bo hynny'n briodol, ceisio darparu atebion ar gyfer materion cyfredol sy'n ymwneud â risg llifogydd, yn enwedig mewn perthynas ag amddiffyn yr arfordir. |
| ***NCT 13: Twristiaeth (1997)*** | Mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn nodi sut y gall y system gynllunio annog mathau cynaliadwy o dwristiaeth, gan sicrhau'r manteision economaidd mwyaf posibl a gwella a diogelu buddiannau amgylcheddol ar yr un pryd. | Dylai'r ISA gynnwys amcanion sy'n ymwneud â sicrhau twf economaidd cynaliadwy yn ogystal â diogelu a gwella'r amgylchedd naturiol.<br><br>Dylai'r CDLl ddarparu fframwaith strategol ar gyfer cyfleoedd datblygu twristiaeth, gan gyfyngu ar yr effeithiau ar yr amgylchedd ac ar gymunedau lleol ar yr un pryd. |
| ***NCT 2: Cynllunio a Thai Fforddiadwy (2006)*** | Nod y Nodyn Cyngor Technegol yw sicrhau bod tai fforddiadwy'n cael eu darparu. | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n ymwneud â darparu tai fforddiadwy.<br><br>Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol fod yn seiliedig ar Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA), a rhaid iddynt osod targed tai fforddiadwy yn seiliedig ar yr angen a nodwyd yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol. Rhaid i awdurdodau lleol nodi sut y cyflawnir y targed drwy ddulliau polisi. Rhaid i'r CDLl ystyried sut y mae tai fforddiadwy'n cael eu cynnwys yn y datblygiad. |
| ***Adolygiad Annibynnol o'r Cyflenwad Tai Fforddiadwy (2019)*** | Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yr Adolygiad Annibynnol o'r Cyflenwad o Dai Fforddiadwy ym mis Ebrill 2019. Mae'r ddogfen yn cynnwys argymhellion ar gyfer newidiadau sydd wedi'u cynllunio i gynyddu'r cyflenwad a gwella'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys y dylai fod yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu asesiadau o'r Farchnad Dai Leol (LHMA) yn seiliedig ar amserlen, data a methodoleg gyson ar draws deiliadaethau tai. Mae safonau newydd wedi'u cyfuno a'u symleiddio ar gyfer tai sy'n cael eu hariannu gan grantiau adeiladu o'r newydd a chartrefi A106 hefyd yn cael eu hargymell yn y ddogfen adolygu. | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n ymwneud â darparu tai fforddiadwy.<br><br>Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol fod yn seiliedig ar Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA), a rhaid iddynt osod targed tai fforddiadwy yn seiliedig ar yr angen a nodwyd yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol. Dylai polisïau tai yn y CDLl hefyd ystyried argymhellion y ddogfen adolygu. |
| ***NCT 18: Trafnidiaeth (2007)*** | Mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn nodi sut y gall cynllunio hyrwyddo dulliau teithio mwy cynaliadwy, a mathau o drafnidiaeth. | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n ymwneud â thrafnidiaeth a theithio ac, yn benodol, hyrwyddo dulliau cynaliadwy a llesol.<br><br>Dylai'r CDLl annog dulliau trafnidiaeth gynaliadwy, tra'n lleihau'r angen i deithio. Mae trafnidiaeth yn rhan annatod o'r rhan fwyaf o ddatblygiadau, ac mae'n ystyriaeth bwysig ar faterion cynaliadwyedd. |

| Teitl a deddfwriaeth | Crynodeb, amcanion, targedau a dangosyddion allweddol | Goblygiadau i'r ISA a'r CDLI: |
|---|---|---|
| ***Llwybr Newydd - Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021*** | Dylid darllen strategaeth 2021 ochr yn ochr â'r dogfennau canllawiau polisi cynllunio is-genedlaethol, gan gynnwys canllawiau rhanbarthol, cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol, a chynlluniau cyflawni trafnidiaeth cenedlaethol. Mae'r strategaeth yn nodi tair blaenoriaeth:<br>■ Dod â gwasanaethau i bobl er mwyn lleihau'r angen i deithio.<br>■ Caniatáu i bobl a nwyddau symud yn rhwydd o ddrws i ddrws drwy wasanaethau a seilwaith trafnidiaeth hygyrch, cynaliadwy ac effeithlon.<br>■ Annog pobl i newid i drafnidiaeth fwy cynaliadwy. | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n ymwneud â thrafnidiaeth a theithio gan gynnwys mewn perthynas ag annog dewisiadau trafnidiaeth gynaliadwy a chyfyngu ar effeithiau amgylcheddol.<br>Bydd angen ymgorffori'r strategaeth fel rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae potensial i fynd i'r afael â thrafnidiaeth a theithio drwy'r Cynllun Datblygu Lleol. |
| ***Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth 2022 i 2027*** | Y cynllun cyflawni trafnidiaeth cenedlaethol 2022 i 2027 yw'r cynllun cyflawni 5 mlynedd cyntaf er mwyn i Lywodraeth Cymru roi Llwybr Newydd: Strategaeth Trafnidiaeth Cymru 2021 ar waith. Mae'r cynllun yn nodi ac yn anelu at gyflawni'r tair blaenoriaeth, sef:<br>2. Dod â gwasanaethau i bobl er mwyn lleihau'r angen i deithio.<br>3. Caniatáu i bobl a nwyddau symud yn rhwydd o ddrws i ddrws drwy wasanaethau a seilwaith trafnidiaeth hygyrch, cynaliadwy ac effeithlon.<br>4. Annog pobl i newid i drafnidiaeth fwy cynaliadwy. | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n ymwneud â thrafnidiaeth a theithio gan gynnwys mewn perthynas ag annog dewisiadau trafnidiaeth gynaliadwy a hygyrch a chyfyngu ar effeithiau amgylcheddol.<br>Bydd angen ymgorffori'r cynllun cyflenwi fel rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae potensial i fynd i'r afael â thrafnidiaeth a theithio drwy'r Cynllun Datblygu Lleol. |
| ***Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) (2024)*** | Mae canllawiau arfarnu trafnidiaeth Cymru (WelTAG) yn helpu i gynllunio rhaglenni, polisïau a phrosiectau trafnidiaeth. Mae'r canllawiau wedi'u cynllunio i helpu i ddatblygu rhaglenni a phrosiectau sy'n mynd i'r afael â blaenoriaethau trafnidiaeth y gwledydd o'r cychwyn cyntaf.<br>Mae WelTAG 2022 yn gosod pum maen prawf a fydd yn cael eu defnyddio i benderfynu a ddylid ystyried cefnogi rhaglen neu brosiect. Mae'r rhain yn seiliedig ar ddelfrydau o gydweddiad strategol, lles, fforddiadwyedd, y gallu i gyflawni a rheoli. Oni bai fod prosiect, rhaglen neu bolisi'n bodloni'r ddau faen prawf cyntaf, ni fydd yn cael ei ystyried ar gyfer datblygu pellach, cyllid na chefnogaeth. Yn ogystal, rhaid i bob prosiect, polisi a rhaglen gael ei gefnogi gan achos busnes sy'n dangos sut y byddant yn darparu gwerth am arian yn erbyn y meini prawf hyn. | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n ymwneud â thrafnidiaeth a theithio, yn enwedig ymgorffori'r meini prawf a nodir yn y canllawiau, gan gynnwys yr angen am ddatblygiadau i fodloni'r blaenoriaethau a'r manteision llesiant a nodir yn strategaeth drafnidiaeth Cymru. |
| ***Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008*** | Y Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd yw'r sail ar gyfer dull y DU o ymdrin â newid yn yr hinsawdd. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r DU gyfan leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr i lefelau cyn 1990 erbyn 2050. Mae hyn yn cyfeirio at allyriadau carbon deuocsid net y DU a nwyon tŷ gwydr eraill. | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n ceisio lleihau cyfraniad Ynys Môn at newid yn yr hinsawdd.<br>Dylai'r strategaeth i gyrraedd lefelau nwyon tŷ gwydr sy'n is na'r rhai a welwyd yn 1990 gael ei hymgorffori fel rhan o'r CDLl a dylid cynnwys polisi i helpu i gyfyngu ar lefel yr allyriadau carbon yn y Fwrdeistref Sirol. Gallai hyn gynnwys cymorth ar gyfer dulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy a lleoli datblygiadau mewn ardaloedd a fydd yn lleihau'r angen i drigolion orfod teithio'n bell yn rheolaidd. |

| Teitl a deddfwriaeth | Crynodeb, amcanion, targedau a dangosyddion allweddol | Goblygiadau i'r ISA a'r CDLI: |
|---|---|---|
| ***Tuag at Ddyfodol Diwastraff – Strategaeth Wastraff Cymru (2010)*** | Y strategaeth hon yw strategaeth wastraff genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru. Mae'n darparu'r fframwaith hirdymor, lefel uchel ar gyfer defnyddio adnoddau'n gynaliadwy a rheoli gwastraff yng Nghymru hyd at 2050. Yn y pen draw, nod y strategaeth yw sicrhau cyfradd ailgylchu o 70% ar gyfer Gwastraff Solet Trefol ar draws pob sector erbyn 2025, ac erbyn 2050 codi hyn i 100%. | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n ymwneud â gwastraff a hyrwyddo trin gwastraff yn unol â'r hierarchaeth gwastraff.<br><br>Bydd yn rhaid ymgorffori'r strategaeth hon fel rhan o'r CDLI. Dylai'r CDLI ystyried dull gweithredu sy'n helpu i sicrhau bod gwastraff yn cael ei drin yn unol â'r hierarchaeth gwastraff |
| ***NCT 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (2010)*** | Mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn ymdrin ag economeg a chymunedau gwledig cynaliadwy, tai fforddiadwy gwledig, anheddau mentrau gwledig, datblygu un blaned, gwasanaethau gwledig cynaliadwy ac amaethyddiaeth.<br><br>Dylai cynlluniau datblygu lleol hwyluso arallgyfeirio yn yr economi wledig drwy ddiwallu anghenion mentrau gwledig traddodiadol a newydd. Dylid nodi amrywiaeth eang o safleoedd ac ystyried yr angen am bolisïau safleoedd eithriedig. | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n ymwneud â mynediad at wasanaethau a chyfleusterau yn ogystal ag effeithiau ar gymeriad, gan gynnwys y dirwedd a'r amgylchedd hanesyddol. Dylai hefyd gynnwys amcan sy'n ymwneud â hyrwyddo twf economaidd cynaliadwy.<br><br>Drwy'r sylfaen dystiolaeth, bydd angen diffinio angen lleol a hwyluso darparu gwasanaethau lle mae datblygiadau newydd o faint digonol. Dylid gweld gostyngiad yn nifer y datblygiadau yng nghefn gwlad gan ei bod yn anodd gwrthdroi'r effeithiau, a rhaid i bolisïau datblygu sydd wedi'u cynnwys yn y CDLI ystyried effeithiau cronnus.<br><br>Dylid ymgynghori â'r Adran Materion Gwledig a Llywodraeth Cymru er mwyn cael gwybodaeth am ansawdd tir amaethyddol. |
| ***Ffyniant i Bawb: Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi*** | Wedi'i ddrafftio i gefnogi'r gwaith o gyflawni Ffyniant i Bawb – y strategaeth genedlaethol i Gymru. Mae'r Cynllun yn nodi gweledigaeth ar gyfer twf cynhwysol, wedi'i hadeiladu ar sylfeini cryf, diwydiannau egnïol iawn y dyfodol a rhanbarthau cynhyrchiol. Nodau cyffredinol y Cynllun yw tyfu'r economi a lleihau anghydraddoldeb. Mae'r Contract Economaidd wedi'i nodi fel canolbwynt dull gweithredu'r Cynllun. Pwrpas y dull hwn yw fframio'r berthynas ddwyochrog rhwng y Llywodraeth a busnesau a sbarduno buddsoddiad cyhoeddus gyda phwrpas cymdeithasol. | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n ystyried twf economaidd cynaliadwy yn ogystal â lleihau gwahaniaethau yn y Fwrdeistref Sirol.<br><br>Bydd yn rhaid i'r CDLI ystyried y strategaeth hon a dylai polisïau gefnogi lefel briodol o dwf economaidd sy'n caniatáu cyflogaeth mewn sectorau cyflogaeth gwerth uchel a fydd yn cefnogi'r gwaith o gulhau mesuriadau gwahaniaethau ar Ynys Môn. |
| ***Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad Newydd (2010)*** | Nod polisi Llywodraeth Cymru yw hwyluso economi gryfach a mwy cynaliadwy drwy fuddsoddi mewn seilwaith, sgiliau, ymchwil a datblygu.<br><br>Y pum blaenoriaeth polisi yw:<br>▪ Buddsoddi mewn seilwaith cynaliadwy o ansawdd uchel;<br>▪ Gwneud Cymru'n lle mwy deniadol i wneud busnes;<br>▪ Ehangu a dyfnhau'r sylfaen sgiliau;<br>▪ Hybu arloesedd; a<br>▪ Thargedu'r cymorth busnes rydym yn ei gynnig i'n helpu i gael mantais gystadleuol. | Dylai'r ISA gynnwys amcanion sy'n mynd i'r afael â mynediad at wasanaethau a chyfleusterau i drigolion yn ogystal â seilwaith a fydd yn cefnogi twf economaidd. Dylai hefyd gynnwys amcan sy'n ystyried y gefnogaeth i dwf economaidd cynaliadwy ei hun.<br><br>Bydd yn rhaid i'r CDLI roi sylw i'r strategaeth hon a dylai ystyried dull gweithredu sy'n sicrhau buddsoddiad mewn seilwaith, sgiliau trigolion a'r datblygiad angenrheidiol i gefnogi twf economaidd cynaliadwy. |

| Teitl a deddfwriaeth | Crynodeb, amcanion, targedau a dangosyddion allweddol | Goblygiadau i'r ISA a'r CDLI: |
|---|---|---|
| ***Cymru'n Un: Un Blaned – Cynllun Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009)*** | Datblygiad Un Blaned yw datblygiad sydd naill ai'n gwella neu nad yw'n lleihau ansawdd yr amgylchedd yn sylweddol. Gellir lleoli Datblygiadau Un Blaned o fewn neu wrth ymyl aneddiadau presennol, neu yng nghefn gwlad agored. Yng nghefn gwlad agored, dylid cael cynllun rheoli fel tystiolaeth o ddatblygiadau o'r fath. | Dylai'r ISA gynnwys amcanion sy'n mynd i'r afael â diogelu rhinweddau amgylcheddol (gan gynnwys aer, sŵn a dŵr).<br><br>Bydd angen diweddaru polisïau sy'n ceisio rheoli datblygiadau yng nghefn gwlad agored fel rhan o'r CDLI.<br><br>Dylai materion cynaliadwyedd fod yn rhan annatod o'r broses o lunio polisïau. |
| ***Deddf Teithio Llesol (Cymru) (2013)*** | Mae'r Ddeddf yn darparu y gall awdurdodau lleol wella llwybrau teithio llesol a chyfleusterau cysylltiedig, gan gynhyrchu mapiau ar gyfer llwybrau teithio llesol presennol a newydd/gwell. | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n ymwneud â thrafnidiaeth a theithio ac, yn benodol, hyrwyddo dulliau cynaliadwy a llesol.<br><br>Bydd yn rhaid i'r CDLI ystyried y Ddeddf, cynigion newydd a diwygiedig ar gyfer teithio llesol a/neu fapiau integredig. Mae'n gyfle i fabwysiadu dull gweithredu sy'n cryfhau'r potensial ar gyfer teithio drwy ddulliau llesol a chynaliadwy. |
| ***Partneriaeth ar gyfer Twf: Strategaeth ar gyfer Twristiaeth 2013-2020 (dim dyddiad cyhoeddi)*** | Mae'r strategaeth yn nodi uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Twristiaeth hyd at 2020, ac yn rhoi manylion sut bydd hyn yn cael ei gyflawni. | Mae'r strategaeth yn nodi y gall hyblygrwydd yn y system gynllunio sicrhau bod datblygu priodol yn gallu cefnogi ffyniant yn y sector twristiaeth yn y dyfodol. Bydd yn rhaid i'r CDLI ystyried y strategaeth hon wrth ystyried polisïau twristiaeth. |
| ***Deddf Tai (Cymru) (2014)*** | Nod y Ddeddf yw gwella cyflenwad, ansawdd a safonau tai yng Nghymru ac mae'n nodi nifer o ofynion ar awdurdodau lleol, gan gynnwys:<br><br>▪ Asesu anghenion Sipsiwn a Theithwyr | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n rhoi sylw i ddarparu'r nifer ofynnol o gartrefi a stoc dai o ansawdd uchel yn ardal y cynllun. Dylai'r ISA hefyd ystyried y potensial i ddiwallu anghenion Sipsiwn a Theithwyr.<br><br>Mae'r ddeddfwriaeth yn mynnu bod Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (AFDL) cyfredol yn cael ei gynhyrchu. Bydd angen i anghenion tai fforddiadwy a llety Sipsiwn a Theithwyr gael eu hystyried gan y CDLI. |
| ***NCT 23: Datblygu Economaidd (2014)*** | Mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn nodi bod angen i'r system gynllunio gydnabod agweddau economaidd pob datblygiad, a bod penderfyniadau cynllunio'n cael eu gwneud mewn ffordd gynaliadwy sy'n cydbwyso ystyriaethau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n rhoi sylw i gynnal lefelau addas o dwf economaidd cynaliadwy ar draws ardal y cynllun.<br><br>Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol ddefnyddio dull dilyniannol wrth nodi safleoedd at ddibenion economaidd. |

| Teitl a deddfwriaeth | Crynodeb, amcanion, targedau a dangosyddion allweddol | Goblygiadau i'r ISA a'r CDLl: |
|---|---|---|
| | | Dylai gweledigaeth y Cynllun Datblygu Lleol fod yn gyson ac yn gydlynol fel bod ystyriaethau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol yn cefnogi ei gilydd ac yn pwyntio i'r un cyfeiriad. |
| ***NCT 12: Dylunio (2016)*** | Mae'n darparu canllawiau manwl ar 'Hyrwyddo cynaliadwyedd drwy ddylunio da' a sut y gellir hwyluso 'Cynllunio ar gyfer adeiladu cynaliadwy' drwy'r system gynllunio.<br><br>Dylid ystyried materion dylunio yn gynnar yn y broses ddatblygu. Mae angen i'r system gynllunio fod yn rhagweithiol o ran codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd materion dylunio. | Dylai'r ISA gynnwys amcanion sy'n mynd i'r afael â dylunio o ran hyrwyddo cynhwysiant mynediad, yr amgylchedd naturiol, cymeriad lleol a diogelwch.<br><br>Mae gan awdurdodau lleol rôl ddeuol i sicrhau bod rhanddeiliaid yn cael eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu polisïau dylunio, a darparu gwybodaeth am faterion dylunio.<br><br>Dylai polisïau'r CDLl ar ddylunio nodi disgwyliadau dylunio, a dylai polisïau fynd i'r afael â materion lleol a bod yn seiliedig ar dystiolaeth. |
| ***NCT 4: Adwerthu a Datblygu Masnachol (2016)*** | Mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn rhoi rhagor o gyngor mewn perthynas â strategaethau adwerthu, profion angen, ffryntiadau adwerthu a masnachol, a dangosyddion bywiogrwydd a hyfywedd. | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n ystyried bywiogrwydd a hyfywedd lleoliadau yng nghanol trefi.<br><br>Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol ddefnyddio dull dilyniannol wrth nodi safleoedd at ddibenion economaidd.<br><br>Dylai gweledigaeth y Cynllun Datblygu Lleol fod yn gyson ac yn gydlynol fel bod ystyriaethau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol yn cefnogi ei gilydd ac yn pwyntio i'r un cyfeiriad. |
| ***Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol (2017)*** | Mae'r strategaeth hon yn nodi nod Llywodraeth Cymru i 'adeiladu Cymru sy'n ffyniannus a diogel, yn iach ac yn egnïol ac sy'n uchelgeisiol ac yn dysgu, ac yn unedig a chysylltiedig'. | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n ystyried iechyd a llesiant yn ogystal â'r potensial i fynd i'r afael ag amddifadedd yn ardal y cynllun.<br><br>Nod y strategaeth yw cyfuno'r holl wahanol elfennau y mae'r Llywodraeth yn dylanwadu arnynt sy'n effeithio ar fywydau pobl megis tai, addysg a chyflogaeth. Dylai'r CDLl roi sylw i'r strategaeth hon. |
| ***NCT 21: Gwastraff (2017)*** | Mae'n rhoi cyngor ar sut y dylai cynllunio gyfrannu at reoli gwastraff yn gynaliadwy ac effeithlonrwydd adnoddau. | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n ymwneud â gwastraff a hyrwyddo trin gwastraff yn unol â'r hierarchaeth gwastraff.<br><br>Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol nodi safleoedd addas ar gyfer darparu pob math o fesurau rheoli gwastraff. Dylai strategaethau a pholisïau ddangos y dylai datblygwyr leihau gwastraff fel rhan o'r gwaith dylunio a chodi adeiladau newydd.<br><br>Bydd angen ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol wrth ddatblygu polisïau gwastraff y CDLl. |
| ***Cylchlythyr 005/2018 (2018)*** | Mae'r Cylchlythyr yn ymwneud â Sipsiwn a Theithwyr. Mae'n gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i drafod anghenion llety yn uniongyrchol gyda Sipsiwn a Theithwyr, eu cyrff cynrychioliadol a grwpiau cefnogi lleol. | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n rhoi sylw i ddarparu llety i ddiwallu'r holl anghenion perthnasol, gan gynnwys anghenion Sipsiwn a Theithwyr.<br><br>Bydd angen i'r CDLl ystyried manylion y Cylchlythyr wrth baratoi'r sylfaen dystiolaeth mewn perthynas â Sipsiwn a Theithwyr. |

| Teitl a deddfwriaeth | Crynodeb, amcanion, targedau a dangosyddion allweddol | Goblygiadau i'r ISA a'r CDLI: |
|---|---|---|
| | | Mae'r Cylchlythyr yn nodi y bydd angen polisïau sy'n seiliedig ar feini prawf, a rhaid iddynt fod yn deg, yn rhesymol, yn realistig ac yn effeithiol wrth ddarparu safleoedd. |
| ***Strategaeth Aer Glân 2019*** | Mae'r Strategaeth Aer Glân yn dangos sut bydd y DU yn mynd i'r afael â phob ffynhonnell llygredd aer, gan wneud yr aer yn iachach i'w anadlu, diogelu natur a rhoi hwb i'r economi. Mae'n nodi camau gweithredu cynhwysfawr sy'n ofynnol o bob rhan o lywodraeth a chymdeithas er mwyn cyflawni'r nodau hyn. | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n ceisio cyfyngu ar y potensial ar gyfer llygredd aer o bob ffynhonnell. Dylai'r ISA ystyried materion sy'n ymwneud ag ansawdd aer ar hyn o bryd yn ardal y cynllun.<br><br>Dylai'r CDLI ystyried effeithiau'r datblygiad ar ansawdd yr aer, ac effeithiau posibl y traffig sy'n gysylltiedig â'r datblygiad hwnnw. |
| ***Croeso i Gymru: Blaenoriaethau ar gyfer yr Economi Ymwelwyr (2020-2025)*** | Mae'r Cynllun Croeso i Gymru yn amlinellu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr economi dwristiaeth dros gyfnod o bum mlynedd. Mae'r cynllun yn tynnu sylw at yr effaith gadarnhaol y gall hamdden ac adloniant awyr agored ei chael ar yr economi dwristiaeth. | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n mynd i'r afael â thwf economaidd cynaliadwy yn ardal y cynllun a gallai hyn gynnwys cyfeiriad at y rôl y gall twristiaeth, hamdden ac adloniant awyr agored ei chwarae yn hyn o beth.<br><br>Bydd angen i'r CDLI ystyried y cynllun, yn enwedig mewn perthynas ag unrhyw gynigion a pholisïau twristiaeth/hamdden. |
| ***Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) (Diwygiad) 2018*** | O dan y Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol, mae gan Weinidogion Cymru rwymedigaeth i gynhyrchu a diweddaru mapiau sŵn ar gyfer:<br>- crynodrefi (ardaloedd trefol mawr gyda phoblogaethau o dros 100,000);<br>- prif ffyrdd (ffyrdd lle mae dros dair miliwn o gerbydau'n pasio bob blwyddyn); a<br>- phrif reilffyrdd (rheilffyrdd lle mae dros 30,000 o drenau'n pasio bob blwyddyn).<br><br>O dan y Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol, mae gan Weinidogion Cymru rwymedigaeth i lunio cynlluniau gweithredu ar gyfer lleoedd ger prif ffyrdd a phrif reilffyrdd, ac ar gyfer crynodrefi. Mae'r Rheoliadau'n gymwys i sŵn amgylcheddol y mae pobl yn agored iddo yn enwedig mewn ardaloedd adeiledig, parciau cyhoeddus neu ardaloedd tawel eraill mewn crynodrefi, ac wrth ymyl ysgolion, ysbytai ac adeiladau ac ardaloedd eraill sy'n sensitif i sŵn. | Drwy gynnwys amcanion sy'n mynd i'r afael ag iechyd a lles (ac elfen HIA yr ISA), dylai'r ISA ystyried y potensial i drigolion, gweithwyr ac ymwelwyr yn ardal y cynllun gael eu heffeithio gan lygredd sŵn.<br><br>Mae'r mapiau sŵn yn hysbysu amrywiaeth o weithgareddau a gyflawnir gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys:<br>- gwaith lliniaru sŵn â blaenoriaeth, fel rhwystrau sŵn ac ailwynebu;<br>- y broses gynllunio;<br>- ansawdd aer, seilwaith gwyrdd a chynlluniau a strategaethau trafnidiaeth;<br>- yr asesiadau llesiant lleol a gynhyrchir gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus;<br>- yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) a'r datganiadau ardal a luniwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016<br><br>Bydd yn rhaid i'r CDLI roi sylw i'r mapiau sŵn, a'r cynlluniau cysylltiedig. |
| ***Cynllun Sŵn a Seinwedd i Gymru: Ein Strategaeth Genedlaethol*** | Cynllun Sŵn a Seinwedd 2023-2028 yw strategaeth genedlaethol Cymru ar seinweddau, sy'n golygu'r amgylchedd sain fel y mae'n cael ei ganfod neu ei brofi a/neu ei ddeall gan unigolyn neu bobl, mewn cyd-destun. Ystyrir bod pob math o sain a glywir gan bobl Cymru yn yr awyr o fewn cwmpas y ddogfen. | Drwy gynnwys amcanion sy'n mynd i'r afael ag iechyd a lles (ac elfen HIA yr ISA), dylai'r ISA ystyried y potensial i drigolion, gweithwyr ac ymwelwyr yn ardal y cynllun gael eu heffeithio gan lygredd sŵn. |

Tudalen 111

| Teitl a deddfwriaeth | Crynodeb, amcanion, targedau a dangosyddion allweddol | Goblygiadau i'r ISA a'r CDLl: |
|---|---|---|
| ***ar Seinweddau, 2023-2028 (2023)*** | Mae'n rhoi crynodeb o'r dystiolaeth, polisïau cyfredol a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Mae hyn yn cynnwys cwblhau'r NCT 11: Sŵn newydd, datblygu canllawiau ynghylch dylunio seinweddau a chymryd camau i leihau sŵn mewn safleoedd blaenoriaeth wrth ymyl Rhwydwaith Ffyrdd Strategol Cymru. | Bydd angen i'r CDLl gynnwys polisïau wedi'u diweddaru sy'n caniatáu ar gyfer asesu effeithiau sŵn. |
| ***Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024*** | Mae'r Ddeddf yn ceisio gwella ansawdd yr amgylchedd aer a lleihau effeithiau llygredd aer ar iechyd pobl, natur, yr amgylchedd a'r economi. Mae'r Ddeddf yn creu fframwaith i Weinidogion Cymru osod targedau mewn perthynas ag ansawdd aer ac mae'n diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol ar ansawdd aer mewn perthynas â rheoli ansawdd aer lleol, codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd, gwrthsegura a rheoli mwg. Mae'r Ddeddf hefyd yn creu dyletswyddau newydd i Weinidogion Cymru gymryd camau i hybu ymwybyddiaeth o'r risgiau i iechyd pobl a'r amgylchedd naturiol a achosir gan lygredd aer, a ffyrdd o leihau neu gyfyngu ar lygredd aer.<br><br>Mae'r Ddeddf hefyd yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol i hyrwyddo teithio llesol fel ffordd o leihau neu gyfyngu ar lygredd aer ac mae'n darparu ar gyfer gosod y ddyletswydd hon drwy reoliadau, ar awdurdodau cyhoeddus eraill. Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio strategaeth genedlaethol ar seinweddau. | Drwy gynnwys amcanion sy'n mynd i'r afael ag iechyd a lles (ac elfen HIA yr ISA), dylai'r ISA ystyried y potensial i drigolion, gweithwyr ac ymwelwyr yn ardal y cynllun gael eu heffeithio gan lygredd sŵn. Dylai'r ISA hefyd gynnwys amcan i sicrhau aer glanach yn y sir.<br><br>Bydd angen i'r CDLl gynnwys polisïau wedi'u diweddaru ynghylch llygredd sŵn, yn ogystal â pholisïau sy'n ceisio gosod terfynau a thargedau ar bob datblygiad sydd ar y gweill i sicrhau bod effeithiau datblygiadau o'r fath ar ansawdd aer yn bodloni'r safonau a bennir gan y Ddeddf. |
| ***NCT 11: Sŵn (1997)*** | Mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn nodi sut gall y system gynllunio leihau effaith niweidiol sŵn heb osod cyfyngiadau afresymol ar ddatblygiad neu ychwanegu'n ormodol at gostau a beichiau gweinyddol busnesau. | Drwy gynnwys amcanion sy'n mynd i'r afael ag iechyd a lles (ac elfen HIA yr ISA), dylai'r ISA ystyried y potensial i drigolion, gweithwyr ac ymwelwyr yn ardal y cynllun gael eu heffeithio gan lygredd sŵn.<br><br>Dylai'r CDLl hyrwyddo dyluniad sy'n lleihau neu'n lliniaru sŵn a dylai geisio cyfyngu ar ddefnydd sy'n sensitif i sŵn mewn ardaloedd y mae sŵn yn effeithio arnynt. Efallai y bydd angen polisïau sŵn penodol ar gyfer rhai ardaloedd. |
| ***NCT 16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored (2009)*** | Mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn rhoi arweiniad ar gynllunio ar gyfer chwaraeon, mannau agored a diogelu cyfleusterau presennol. | Drwy gynnwys amcanion sy'n mynd i'r afael ag iechyd a lles (ac elfen HIA yr ISA), dylai'r ISA ystyried hygyrchedd mannau agored a chyfleusterau hamdden yn ardal y cynllun, yn ogystal â'r posibilrwydd o golli'r mathau hyn o asedau wrth i ddatblygiad newydd gael ei gyflawni.<br><br>Dylai'r CDLl nodi fframwaith ar gyfer chwaraeon a hamdden, gyda dull strategol o ymdrin â datblygiadau o'r fath. Dylai hefyd ddiogelu ardaloedd o fannau agored sydd â gwerth hamdden, amwynder a/neu gadwraeth. |
| ***Dringo'n Uwch: Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer*** | Mae'r strategaeth yn nodi y dylid cyflawni'r canlynol erbyn 2025:<br><br>■ Bydd canran y bobl yng Nghymru sy'n defnyddio'r amgylchedd naturiol ar gyfer gweithgareddau awyr agored yn cynyddu i 60% o 36% | Drwy gynnwys amcanion sy'n mynd i'r afael ag iechyd a lles (ac elfen HIA yr ISA), dylai'r ISA ystyried hygyrchedd mannau agored a chyfleusterau hamdden yn ardal y cynllun.<br><br>Dylai'r CDLl ddarparu fframwaith ar gyfer chwaraeon a hamdden a nodi dull strategol o ymdrin â datblygiadau o'r fath. Dylai'r CDLl gefnogi nodau'r strategaeth. |

| Teitl a deddfwriaeth | Crynodeb, amcanion, targedau a dangosyddion allweddol | Goblygiadau i'r ISA a'r CDLl: |
|---|---|---|
| ***Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol (2015)*** | ■ Bydd gan 95% o bobl lwybr troed neu feicio o fewn pellter cerdded o 10 munud<br>■ Ni ddylai neb fyw ymhellach na 6 munud (300m) o'u man gwyrdd naturiol agosaf<br>■ Bydd gan holl weithwyr y sector cyhoeddus a 75% o'r holl weithwyr eraill fynediad at gyfleusterau chwaraeon yn y gweithle, neu o fewn 10 munud ar droed o'r gweithle | |
| ***Law yn Llaw at Iechyd Meddwl: Strategaeth ar gyfer Iechyd Meddwl a Lles yng Nghymru (2012)*** | Mae'r strategaeth yn nodi nodau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella iechyd meddwl a gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru. Mae'n berthnasol i bob oed; plant a phobl ifanc, oedolion oed gweithio a phobl hŷn. Ei nod yw hyrwyddo lles meddyliol pawb yng Nghymru a sicrhau bod pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl a salwch meddwl yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt. | Drwy gynnwys amcanion sy'n mynd i'r afael ag iechyd a lles (ac elfen HIA yr ISA), dylai'r ISA ystyried effeithiau posibl datblygiad ar iechyd meddwl a materion yn ymwneud ag ynysu. Dylai elfen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yr ISA ystyried effeithiau posibl ar y nodweddion gwarchodedig a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys pobl hŷn a phobl iau.<br><br>Mae'r strategaeth yn nodi materion, fel tai, y mae angen mynd i'r afael â nhw er mwyn meithrin gwytnwch, diogelu a hybu iechyd meddwl. Dylai'r CDLl roi sylw i hyn. |
| ***Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*** | Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (Deddf WBFG) yn mynnu bod cyrff cyhoeddus (gan gynnwys awdurdodau lleol) yn meddwl mwy am y tymor hir; yn gweithio'n fwy effeithiol gyda phobl, cymunedau a gyda'i gilydd; yn edrych ar atal problemau ac yn mabwysiadu dull gweithredu mwy cydgysylltiedig. | Dylai'r ISA gynnwys amcanion sy'n mynd i'r afael ag iechyd a lles (ac elfen HIA yr ISA) i ystyried effeithiau'r CDLl ar draws yr ystod o faterion a allai effeithio ar y maes pwnc hwn. Mae hyn yn cynnwys mynediad at gyfleusterau gofal iechyd, mynediad at fannau agored a chyfleusterau hamdden, llygredd sŵn, llygredd aer a lles meddyliol (gan gynnwys ynysu cymdeithasol).<br><br>Yn bwysig, mae'r Ddeddf yn nodi 'egwyddor datblygu cynaliadwy', y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei hystyried yn y broses o wneud penderfyniadau. Mae'n mynnu bod penderfyniadau'n cael eu gwneud fel bod 'anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain'. |
| ***Mesur Iechyd a Lles Cenedl: Fframwaith Canlyniadau Iechyd Cyhoeddus Cymru (2016)*** | Bydd y Fframwaith yn helpu sefydliadau i gydweithio i wella iechyd nawr ac yn y dyfodol. O fewn y fframwaith, pob canlyniad fel dangosyddion unigol. Datblygwyd y fframwaith fel sail i ddangosyddion cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. | Dylai'r ISA gynnwys amcanion sy'n mynd i'r afael ag iechyd a lles (ac elfen HIA yr ISA) i ystyried effeithiau'r CDLl ar draws yr ystod o faterion a allai effeithio ar y maes pwnc hwn. Mae hyn yn cynnwys mynediad at gyfleusterau gofal iechyd, mynediad at fannau agored a chyfleusterau hamdden, llygredd sŵn, llygredd aer a lles meddyliol (gan gynnwys ynysu cymdeithasol). Dylai'r ISA hefyd ystyried yr effaith y gall mynediad at dai o ansawdd da ei chael o ran hybu iechyd a lles.<br><br>Mae'r Fframwaith yn nodi bod 'tai o ansawdd da' yn arwydd o iechyd da. Bydd yn rhaid i'r CDLl gyd-fynd â'r cynllun llesiant lleol, Polisi Cynllunio Cymru a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. |
| ***Deddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) (2017)*** | Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd yn gwella ac yn diogelu iechyd a lles Cymru. Mae'r Ddeddf yn ymateb i heriau iechyd newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg. | Dylai'r ISA gynnwys amcanion sy'n mynd i'r afael ag iechyd a lles (ac elfen HIA yr ISA) i ystyried effeithiau'r CDLl ar draws yr ystod o faterion a allai effeithio ar y maes pwnc hwn. Mae hyn yn cynnwys mynediad at gyfleusterau gofal iechyd, mynediad at fannau agored a |

| Teitl a deddfwriaeth | Crynodeb, amcanion, targedau a dangosyddion allweddol | Goblygiadau i'r ISA a'r CDLI: |
|---|---|---|
| | | chyfleusterau hamdden, llygredd sŵn, llygredd aer a lles meddyliol (gan gynnwys ynysu cymdeithasol).<br><br>Mae un o ddarpariaethau'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd mewn amgylchiadau penodol. Nid yw'r rheoliadau hyn wedi cael eu gwneud eto, fodd bynnag, yn ystod y broses o baratoi'r CDLI, gellid cyhoeddi'r rhain. |
| ***Creu Lleoedd a Mannau Iachach ar gyfer Cenedlaethau'r Presennol a'r Dyfodol (2018)*** | Mae'r ddogfen yn nodi bod Cynlluniau Datblygu Lleol yn gam gweithredu ar lefel strategol drwy ymgorffori polisïau sy'n ymwneud â seilwaith gwyrdd, teithio llesol, yr amgylchedd adwerthu, gwasanaethau iechyd, llygredd aer a dylunio adeiladau, felly gall helpu i siapio a hyrwyddo Iechyd a Llesiant. Mae 'cynllunwyr' wedi cael eu nodi fel dylanwadwyr ar y meysydd blaenoriaeth hyn, a gallant hefyd gefnogi'r gwaith o gyflawni'r nodau llesiant. | Dylai'r ISA gynnwys amcanion sy'n mynd i'r afael ag iechyd a lles (ac elfen HIA yr ISA) i ystyried effeithiau'r CDLI ar draws yr ystod o faterion a allai effeithio ar y maes pwnc hwn. Mae hyn yn cynnwys mynediad at gyfleusterau gofal iechyd, mynediad at fannau agored a chyfleusterau hamdden, llygredd sŵn, llygredd aer a lles meddyliol (gan gynnwys ynysu cymdeithasol).<br><br>Mae'r ddogfen yn rhoi enghreifftiau o sut mae Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill wedi defnyddio Cynlluniau Datblygu Lleol i hyrwyddo'r agenda Iechyd a Lles. |
| ***Gweithio Gyda'n Gilydd dros Gymru Iachach: Ein Strategaeth Tymor Hir 2023-2035 (2023)*** | Mae'r strategaeth yn nodi gweledigaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer sicrhau dyfodol iachach i Gymru erbyn 2035. Byddant yn cyflawni hyn drwy ganolbwyntio ar gyflawni chwe blaenoriaeth strategol:<br>■ Dylanwadu ar benderfynyddion ehangach iechyd<br>■ Hyrwyddo lles meddyliol a chymdeithasol<br>■ Hyrwyddo ymddygiad iach<br>■ Cefnogi'r gwaith o ddatblygu system iechyd a gofal gynaliadwy sy'n canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar<br>■ Darparu gwasanaethau iechyd cyhoeddus rhagorol i ddiogelu'r cyhoedd a sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i iechyd y boblogaeth<br>■ Mynd i'r afael ag effeithiau newid yn yr hinsawdd ar iechyd y cyhoedd | Dylai'r ISA gynnwys amcanion sy'n mynd i'r afael ag iechyd a lles (ac elfen HIA yr ISA) i ystyried effeithiau'r CDLI ar draws yr ystod o faterion a allai effeithio ar y maes pwnc hwn. Mae hyn yn cynnwys mynediad at gyfleusterau gofal iechyd, mynediad at fannau agored a chyfleusterau hamdden, llygredd sŵn, llygredd aer a lles meddyliol (gan gynnwys ynysu cymdeithasol).<br><br>Dylai'r CDLI gynnwys polisïau sy'n ceisio hybu iechyd a lles. |
| ***Cymru Iachach: Ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal*** | Mae'r cynllun hwn yn nodi gweledigaeth hirdymor ar gyfer y dyfodol o 'ddull system gyfan o ymdrin ag iechyd a gofal cymdeithasol', sy'n canolbwyntio ar iechyd a lles, ac ar atal salwch. Awgrymir modelau a dulliau amrywiol o ran sut y darperir gofal iechyd yn y dyfodol, ac awgrymir y bydd mwy o ofal iechyd yn y gymuned. | Dylai'r ISA gynnwys amcanion sy'n mynd i'r afael ag iechyd a lles (ac elfen HIA yr ISA) i ystyried effeithiau'r CDLI ar draws yr ystod o faterion a allai effeithio ar y maes pwnc hwn. Mae hyn yn cynnwys mynediad at gyfleusterau gofal iechyd, mynediad at fannau agored a chyfleusterau hamdden, llygredd sŵn, llygredd aer a lles meddyliol (gan gynnwys ynysu cymdeithasol). |

| Teitl a deddfwriaeth | Crynodeb, amcanion, targedau a dangosyddion allweddol | Goblygiadau i'r ISA a'r CDLl: |
|---|---|---|
| ***Cymdeithasol (2019)*** | | Er nad oes cyfeiriad penodol at y system gynllunio fel arf i helpu i integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, gallai cynlluniau datblygu helpu i weithredu cynlluniau a pholisïau yn y dyfodol. |
| ***Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2024)*** | Mae'r cynllun hwn yn nodi cyfres o gamau gweithredu diwygiedig y cytunwyd arnynt i gefnogi'r gwaith o gyflawni Cymru Iachach (gweler uchod). | Fel uchod. |
| ***NCT 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio (2009)*** | Dylai'r system gynllunio warchod a gwella bioamrywiaeth a chadwraeth ddaearegol. Er mwyn sicrhau bod cynlluniau datblygu'n seiliedig ar wybodaeth ddigonol am ddaeareg, tirffurf, cynefinoedd a rhywogaethau, dylid cynnwys materion cadwraeth natur mewn arolygon o ardaloedd awdurdodau lleol.<br><br>Rhaid i awdurdodau sicrhau nad yw datblygiadau'n torri amodau'r gyfarwyddeb cynefinoedd. | Dylid ymgymryd â'r ISA mewn ffordd sy'n derbyn blaenoriaeth amcanion cadwraeth natur, a dylai roi sylw manwl i'r dynodiadau hyn wrth bennu amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd a diffinio opsiynau.<br><br>Dylai awdurdodau lleol weithio mewn partneriaeth â Cyfoeth Naturiol Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill i gyflawni amcanion cadwraeth natur. Mae'n cysylltu â Chynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth cenedlaethol a lleol drwy greu a rheoli cynefinoedd. Mae mesurau lliniaru i'w cynnwys pan fydd polisïau a chynigion yn cael eu datblygu yn y CDLl sy'n debygol o gael effaith negyddol. |
| ***Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru 2020-21 (2020)*** | Mae'r cynllun hwn yn fframwaith i Gymru sy'n nodi camau gweithredu i gyflawni nodau tymor byr, ac ymrwymiadau tymor hwy ar ôl 2020 sy'n ymwneud â 'Chynllun Strategol hyd at 2050' y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol. Mae'r cynllun, a gyhoeddwyd yn wreiddiol ym mis Rhagfyr 2015 fel y 'Cynllun Adfer Natur', yn mynd i'r afael ag achosion sylfaenol colli bioamrywiaeth drwy roi natur wrth galon penderfyniadau a chynyddu cydnerthedd ecosystemau drwy gymryd camau penodol sy'n canolbwyntio ar y chwe amcan ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau. Mae rhan gyntaf y cynllun yn nodi'r strategaeth ar gyfer natur ac ymrwymiadau i wrthdroi colli bioamrywiaeth yng Nghymru. Mae rhan dau yn nodi'r cynllun gweithredu i gyflawni'r amcanion a gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth. Mae rhan tri yn canolbwyntio ar y Fframwaith Adfer Natur, gan nodi'r llywodraethiant, y partneriaethau a'r perthnasoedd a fydd yn hanfodol i gyflawni'r camau gweithredu a nodir o dan ran dau. | Yn yr un modd â'r ddyletswydd bioamrywiaeth, bydd angen i'r ISA a'r Cynllun Datblygu Lleol roi sylw i'r cynllun adfer. |
| ***Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (2016)*** | Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd bioamrywiaeth newydd, i reoli adnoddau naturiol Cymru yn rhagweithiol ac yn gynaliadwy. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno dyletswydd bioamrywiaeth well i awdurdodau lleol roi sylw i warchod a gwella bioamrywiaeth. Mae hyn yn cynnwys dull gweithredu sy'n ceisio meithrin cydnerthedd mewn ecosystemau a chydnabod y manteision y maent yn eu darparu i'r boblogaeth ddynol. Mae hefyd yn cyflwyno rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy fel dull gweithredu newydd sy'n sicrhau nad yw'r ffordd y defnyddir ein hadnoddau naturiol a'r effeithiau arnynt yn arwain at eu dirywiad yn y tymor hir. Mae datblygu Datganiadau Ardal yn un o ofynion eraill y Ddeddf er mwyn helpu i gyflawni Polisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru. Mae'r Ddeddf yn datgan bod rhaid i CNC baratoi adroddiad sy'n | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n mynd i'r afael â'r angen i ddiogelu a gwella asedau bioamrywiaeth yn ogystal ag adnoddau naturiol eraill.<br><br>Bydd yn rhaid i'r CDLl roi sylw i'r ddyletswydd bioamrywiaeth, yn enwedig mewn perthynas â datblygu polisi. |

| Teitl a deddfwriaeth | Crynodeb, amcanion, targedau a dangosyddion allweddol | Goblygiadau i'r ISA a'r CDLl: |
|---|---|---|
| | cynnwys ei asesiad o gyflwr adnoddau naturiol mewn perthynas â Chymru; Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR). | |
| ***Polisi Adnoddau Naturiol (2017).*** | Cyflwynwyd y Polisi Adnoddau Naturiol statudol fel rhan o weithredu Deddf yr Amgylchedd (Cymru). Mae'n nodi polisïau i sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy ac yn nodi tair blaenoriaeth genedlaethol;<br>■ Darparu atebion sy'n seiliedig ar natur;<br>■ Cynyddu effeithlonrwydd ynni adnewyddadwy ac adnoddau; a,<br>■ Defnyddio dull sy'n seiliedig ar le. | Dylai'r ISA gynnwys amcanion sy'n ymwneud â defnyddio adnoddau naturiol yn gynaliadwy.<br>Dylai'r CDLl ystyried nodau'r Polisi Adnoddau Naturiol wrth ddatblygu polisïau perthnasol. |
| ***Strategaeth Coetiroedd i Gymru (2018)*** | Mae'r strategaeth yn nodi'r cyfeiriad strategol ar gyfer coedwigaeth yng Nghymru. Nod y strategaeth yw sicrhau cyfradd plannu sylfaenol o 2,000ha bob blwyddyn o 2020 ymlaen, yn unol â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.<br>Mae gweledigaeth y strategaeth fel a ganlyn:<br>Bydd Cymru'n adnabyddus am ei choetiroedd o ansawdd uchel sy'n gwella'r dirwedd, sy'n briodol i amodau lleol ac sydd â chymysgedd amrywiol o rywogaethau a chynefinoedd. Bydd y rhain yn:<br>■ darparu manteision cymdeithasol a chymunedol gwirioneddol, yn lleol ac yn genedlaethol;<br>■ cefnogi diwydiannau ffyniannus sy'n seiliedig ar goetiroedd; a<br>■ chyfrannu at amgylchedd o ansawdd gwell ledled Cymru | Dylai'r ISA ystyried effeithiau ar goetir (gan gynnwys coetir hynafol a choed aeddfed eraill lle bo hynny'n briodol) fel rhan o'i amcan bioamrywiaeth.<br>Mae'r strategaeth yn nodi y gall coetiroedd a choed chwarae rhan fel elfen mewn seilwaith gwyrdd, a fydd yn cael ei hystyried fel rhan o broses y Cynllun Datblygu Lleol. Mae hefyd yn nodi y dylai awdurdodau lleol ddarparu rhagor o raglenni plannu coed a rheoli coetiroedd, a dylid hyrwyddo hyn drwy elfennau o gynllunio defnydd tir.<br>Mae'r strategaeth hefyd yn nodi 'rydym eisiau dod o hyd i ffyrdd o sicrhau bod polisi cynllunio'n adlewyrchu'r angen am blannu i ddigolledu, pan ganiateir tynnu coetir yn barhaol ar gyfer datblygu.' Mae'r CDLl yn gyfle i ymgorffori polisïau a fyddai'n symud tuag at gefnogi'r nodau hyn. |
| ***Mesur y Gymraeg (Cymru) (2011)*** | Mae'r Mesur yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg ac yn trin y Gymraeg â statws cyfartal â'r Saesneg. Mae'r statws cyfartal hwn i'r Gymraeg a'r Saesneg yn ymestyn i ddarparu gwasanaethau a llunio polisïau.<br>■ Wrth greu polisi, rhaid i'r lluniwr polisi ystyried pa effeithiau, os o gwbl (cadarnhaol a negyddol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar:<br>■ Gyfleoedd i bobl eraill ddefnyddio'r Gymraeg; neu<br>■ Beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Dylai'r ISA ystyried effaith y CDLl ar y Gymraeg.<br>Bydd yn rhaid i'r CDLl roi sylw i'r Iaith Gymraeg, yn enwedig mewn perthynas â datblygu polisi. |
| ***Cymraeg 2050: Miliwn o*** | Mae strategaeth iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru yn nodi ei weledigaeth, erbyn 2050: 'Mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu, mae nifer y siaradwyr wedi cyrraedd miliwn, ac mae'n cael ei | Dylai'r ISA ystyried effaith y CDLl ar y Gymraeg. |

| Teitl a deddfwriaeth | Crynodeb, amcanion, targedau a dangosyddion allweddol | Goblygiadau i'r ISA a'r CDLI: |
|---|---|---|
| ***Siaradwyr (2017)*** | defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd. Ymhlith y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg mae ewyllys da ac ymdeimlad o berchnogaeth tuag at yr iaith a chydnabyddiaeth gan bawb o'i holl gyfraniad i ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru.'<br>Er mwyn gwneud hyn, nodir tair thema strategol:<br>▪ Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg<br>▪ Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg<br>▪ Creu seilwaith ffafriol | Fel awdurdod lleol, bydd angen nodi'r angen am addysg mewn Ysgolion Cyfrwng Cymraeg yn y Cynllun Datblygu Lleol. |
| ***Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023*** | Mae'r Ddeddf yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer gwarchod a rheoli'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru. Paratowyd y ddeddfwriaeth gyda thri phrif nod:<br>▪ Rhoi gwarchodaeth fwy effeithiol i henebion cofrestredig ac adeiladau rhestredig Cymru.<br>▪ Gwella'r mecanweithiau presennol ar gyfer rheoli'r amgylchedd hanesyddol yn gynaliadwy.<br>▪ Cyflwyno mwy o dryloywder ac atebolrwydd mewn penderfyniadau a wneir ynghylch yr amgylchedd hanesyddol. | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n ceisio gwarchod a gwella'r amgylchedd hanesyddol gan gynnwys cyd-destun gweledol asedau treftadaeth.<br>Dylai'r CDLI ystyried darpariaethau'r Ddeddf a dylai gynnwys polisïau lleol penodol ar gyfer gwarchod a gwella asedau hanesyddol. |
| ***NCT 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol (2017)*** | Mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn rhoi arweiniad ar sut mae'r system gynllunio'n ystyried yr amgylchedd hanesyddol, ac mae'n darparu canllawiau penodol ar agweddau penodol ar yr amgylchedd hanesyddol. | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n ceisio gwarchod a gwella'r amgylchedd hanesyddol gan gynnwys cyd-destun gweledol asedau treftadaeth.<br>Rhaid i Gynlluniau Datblygu Lleol gynnwys polisïau lleol penodol ar gyfer gwarchod a gwella asedau hanesyddol, os yw hynny'n briodol. |
| ***NCT 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (2017)*** | Mae'r NCT yn rhoi arweiniad ar sut dylid ystyried y Gymraeg wrth gynllunio, ac ar gydymffurfiaeth â gofynion cynllunio a deddfwriaeth berthnasol arall.<br>Mae'r NCT hefyd yn nodi dull 'cam wrth gam' ynghylch sut a phryd y gellid ystyried y Gymraeg wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol. | Dylai'r ISA ystyried effaith y CDLI ar y Gymraeg.<br>Lle siaredir y Gymraeg yn y gymuned, mae'r CDLI yn gyfle i gynnwys polisi a fydd yn rhoi sylw i oblygiadau cymdeithasol datblygu a gwarchod y dreftadaeth ddiwylliannol. |
| ***Rheoliadau Risg Llifogydd (2009)*** | Mae Rheoliadau Risg Llifogydd 2009 yn gweithredu Cyfarwyddeb yr UE ar Lifogydd yng Nghymru. Mae Rheoliadau Risg Llifogydd 2009 yn nodi'r dyletswyddau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu asesiadau rhagarweiniol o risg llifogydd, mapiau peryglon llifogydd a mapiau risg llifogydd a chynlluniau rheoli risg llifogydd. | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n mynd i'r afael â risg llifogydd yng ngoleuni newid yn yr hinsawdd.<br>Dylai'r CDLI gynnwys polisïau sy'n ystyried ardaloedd ar Ynys Môn sy'n wynebu'r risg mwyaf o lifogydd. |

| Teitl a deddfwriaeth | Crynodeb, amcanion, targedau a dangosyddion allweddol | Goblygiadau i'r ISA a'r CDLI: |
|---|---|---|
| ***NCT 15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd (2025)*** | Mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn nodi canllawiau ar risg llifogydd, a sut y dylid rheoli a mynd i'r afael ag unrhyw risg. Mae'n nodi fframwaith rhagofalus i leihau'r risg i bobl a datblygiadau yn sgil llifogydd.<br>Nod cyffredinol y fframwaith rhagofalus, yn nhrefn blaenoriaeth, yw:-<br>■ Cyfeirio datblygiadau newydd i ffwrdd o'r ardaloedd hynny sy'n wynebu risg mawr o lifogydd.<br>■ Lle mae'n rhaid ystyried datblygiad mewn ardaloedd risg uchel (parth C) dim ond y datblygiadau hynny y gellir eu cyfiawnhau ar sail y profion a amlinellir yn adran 6 ac adran 7 sy'n cael eu lleoli mewn ardaloedd o'r fath. | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n mynd i'r afael â risg llifogydd yng ngoleuni newid yn yr hinsawdd.<br>Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol fod yn rhagofalus o ran risg llifogydd, canlyniadau posibl llifogydd a sicrhau bod lleoliad y datblygiad yn ystyried risg, achosion a chanlyniadau posibl llifogydd. |
| ***Cynllun Rheoli Risg Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru: Lle Gogledd-orllewin Cymru (dim dyddiad cyhoeddi)*** | Mae Cynllun Rheoli Risg Llifogydd (FRMP) Lle Gogledd Orllewin Cymru yn cynnwys Awdurdodau Lleol Conwy, Ynys Môn a Gwynedd, ac mae'n darparu gwybodaeth am faint y risg llifogydd, yn ogystal â blaenoriaethau Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer rheoli'r risg o lifogydd, a'r mesurau rydym yn bwriadu eu cymryd, dros y blynyddoedd nesaf. Mae'r Cynllun Rheoli Risg Llifogydd yn ymdrin â llifogydd o afonydd, cronfeydd dŵr a'r môr. Nid yw'n cynnwys llifogydd o ddŵr wyneb a chyrsiau dŵr llai, y mae gan Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol (LLFA) bwerau i gymryd yr awenau ar eu cyfer.<br>Mae'r Cynllun Rheoli Risg Llifogydd (FRMP) yn amlinellu'r mesurau ar raddfa gymunedol a roddwyd ar waith yn dilyn cylch cyntaf Cynlluniau Rheoli Risg Llifogydd (2016), gan gynnwys:<br>■ Llanfair Talhaiarn: Cwblhau cam cyntaf y gwelliannau rheoli risg llifogydd, gan wella diogelwch ar gyfer 29 o gartrefi a 4 busnes. Ar ben hynny, mae gwaith gwerthuso wedi cael ei wneud i asesu pa mor ymarferol fyddai cynllun rheoli risg llifogydd posibl yn Llangefni.<br>■ Llyn Tegid: Dechrau'r gwaith o reoli diogelwch cronfeydd dŵr, risg llifogydd a sicrhau parhad gwasanaeth ar gyfer adnoddau dŵr yn y dyfodol.<br>Mae'r Cynllun hefyd yn nodi cynllun cyflawni ar gyfer mesurau rheoli risg llifogydd arfaethedig ar draws cymunedau a lleoliadau Lle Gogledd Orllewin Cymru, gan gynnwys diweddaru modelau hydrolig presennol, a dylunio ac adeiladu gwelliannau i asedau risg llifogydd. | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n ceisio cyfyngu ar risg llifogydd yng Ngogledd Orllewin Cymru, gan ystyried effeithiau newid yn yr hinsawdd. Bydd angen i'r ISA ystyried sut y bydd polisïau rheoli risg llifogydd yn targedu'r amcanion a nodir yn y Cynllun Rheoli Risg Llifogydd yn effeithiol.<br>Dylai'r CDLl ystyried canfyddiadau'r Cynllun Rheoli Risg Llifogydd yn ei ddull o reoli risg llifogydd.  Dylai polisïau geisio cyfyngu ar y potensial ar gyfer mwy o risg llifogydd yn ardal y cynllun, yn enwedig mewn perthynas â Gogledd Orllewin Cymru, a lle bo hynny'n briodol, ceisio darparu atebion ar gyfer materion cyfredol sy'n ymwneud â risg llifogydd. Gall hyn gynnwys drwy bolisïau sy'n mynd i'r afael yn uniongyrchol â mesurau dylunio i liniaru materion sy'n ymwneud â risg llifogydd a chyfeirio datblygiadau at ardaloedd lle mae risg llifogydd yn llai tebygol o ddigwydd. |
| ***MTAN 1: Agregiadau (2004)*** | Mae'r Nodyn Cyngor Technegol Mwynau yn darparu canllawiau sy'n sicrhau bod cloddio am fwynau'n cael ei reoli mewn ffordd gynaliadwy. I sicrhau bod y cyflenwad yn cael ei reoli mewn ffordd gynaliadwy er mwyn cael y cydbwysedd gorau rhwng ystyriaethau | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n mynd i'r afael â chadw a defnyddio adnoddau naturiol yn briodol, gan gynnwys echdynnu mwynau. |

| Teitl a deddfwriaeth | Crynodeb, amcanion, targedau a dangosyddion allweddol | Goblygiadau i'r ISA a'r CDLl: |
|---|---|---|
| | amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol, gan sicrhau bod effeithiau amgylcheddol ac ar amwynder o ganlyniad i unrhyw echdynnu angenrheidiol yn cael eu cadw i lefel sy'n osgoi achosi niwed amlwg i fuddiannau o bwysigrwydd cydnabyddedig. | Mae polisïau penodol mewn perthynas ag ardaloedd dynodedig a materion penodol, fel dŵr daear, a sut dylid eu rheoli. Dylid ystyried y canllawiau hyn wrth lunio'r CDLl er mwyn sicrhau bod effeithiau cloddio am fwynau'n cael eu lleihau a'u lliniaru. |
| ***MTAN 2: Glo (2009)*** | Mae'r Nodyn Cyngor Technegol Mwynau yn darparu canllawiau arferion gorau sy'n sicrhau bod cloddio am fwynau'n cael ei reoli mewn ffordd gynaliadwy. | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n mynd i'r afael â chadw a defnyddio adnoddau naturiol yn briodol.<br><br>Dylid ystyried y canllawiau hyn wrth lunio'r CDLl er mwyn sicrhau bod effeithiau cloddio am fwynau'n cael eu lleihau a'u lliniaru. Dylid cyfeirio gwaith glo i ffwrdd o leoliadau sensitif a sicrhau y gellir lliniaru effeithiau amgylcheddol a chymunedol. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi'n glir nad oes angen diogelu glo ond efallai y bydd Awdurdodau Cynllunio Lleol unigol yn dymuno gwneud hynny gan ddibynnu ar eu hamgylchiadau. Dylid ystyried hyn wrth ddrafftio'r polisïau ar gyfer y CDLl. |
| ***Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) (2010)*** | Mae'r Rheoliadau'n nodi mesurau mewn perthynas ag asesu a rheoli ansawdd aer a chydymffurfio â gwerthoedd terfyn ansawdd aer, gwerthoedd targed ac amcanion. | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n ceisio cyfyngu ar y potensial ar gyfer llygredd aer o bob ffynhonnell. Dylai'r ISA ystyried materion sy'n ymwneud ag ansawdd aer ar hyn o bryd yn ardal y cynllun.<br><br>Dylai'r CDLl ystyried effeithiau'r datblygiad ar ansawdd yr aer, ac effeithiau posibl y traffig sy'n gysylltiedig â'r datblygiad hwnnw. |
| ***Strategaeth Ddŵr i Gymru (2015)*** | Mae'r strategaeth yn nodi sut bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau dŵr, a sut bydd yn rheoli dŵr mewn ffordd gynaliadwy ac integredig. | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n ceisio sicrhau bod ansawdd dŵr yn cael ei ddiogelu a hyrwyddo'r defnydd ohono mewn ffordd effeithlon. Dylai'r ISA ystyried meysydd sy'n profi straen ar hyn o bryd o ran swm neu ansawdd.<br><br>Dylai'r CDLl ystyried effaith datblygiad ar ddŵr. Bydd rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy hefyd yn cael ei ystyried fel rhan o'r CDLl. |
| ***Polisi Adnoddau Naturiol (2017).*** | Mae'r polisi'n nodi rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol yng Nghymru, gan adeiladu ar fframwaith Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.<br><br>Mae'r polisi'n nodi tair blaenoriaeth genedlaethol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy:<br>▪ darparu atebion sy'n seiliedig ar natur;<br>▪ Cynyddu ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd adnoddau; a<br>▪ Defnyddio dull seiliedig ar leoedd. Nod y dulliau hyn yw cefnogi'r gwaith o ddatblygu rhwydweithiau ecolegol cadarn, gwella amrywiaeth fiolegol, cefnogi'r gwaith o liniaru newid yn yr hinsawdd a rheoli risg llifogydd, a gwella seilwaith gwyrdd. | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n ceisio sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n briodol yn ardal y cynllun.<br><br>Bydd Datganiadau Ardal, a'r Polisi Adnoddau Naturiol, yn darparu llinell sylfaen ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a fydd yn cael ei hystyried fel rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol. |

| Teitl a deddfwriaeth | Crynodeb, amcanion, targedau a dangosyddion allweddol | Goblygiadau i'r ISA a'r CDLI: |
|---|---|---|
| ***Y Cynllun Aer Glân i Gymru: Awyr Iach, Cymru Iach (2020)*** | Mae'r cynllun hwn yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wella ansawdd aer a lleihau baich ansawdd aer gwael ar iechyd pobl, bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol. Mae'n nodi amrywiaeth o bolisïau a chamau gweithredu a fydd yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i iechyd a lles, yr amgylchedd naturiol, ecosystemau a bioamrywiaeth a chymunedau cynaliadwy. Mae'r cynllun yn nodi potensial Deddf Aer Glân i Gymru.<br><br>Mae'r Cynllun yn defnyddio themâu i fynd i'r afael â meysydd effaith, gan ategu ei gilydd i greu dull cynaliadwy o wella ansawdd aer. Y themâu yw:<br>▪ Diogelu iechyd a llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.<br>▪ Cymryd camau i gefnogi ein hamgylchedd naturiol, ecosystemau a bioamrywiaeth.<br>▪ Gweithio gyda'r diwydiant i leihau allyriadau, gan gefnogi Cymru lanach a mwy ffyniannus.<br>▪ Creu lleoedd cynaliadwy drwy gynllunio, seilwaith a thrafnidiaeth well. | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n ceisio cyfyngu ar y potensial ar gyfer llygredd aer o bob ffynhonnell. Dylai'r ISA ystyried materion sy'n ymwneud ag ansawdd aer ar hyn o bryd yn ardal y cynllun.<br><br>Dylai'r CDLI ddiogelu a gwella'r amgylchedd, ac mae ansawdd aer yn elfen allweddol ohono. |
| ***Y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru (2020)*** | Mae'r FCERM yn nodi amcanion a thargedau cenedlaethol ar gyfer rheoli risg llifogydd yng Nghymru a'r dull gweithredu y dylai awdurdodau cynllunio lleol a bwrdeistrefi sirol ei ddilyn, a'r camau y dylid eu cymryd, dros y 10 mlynedd nesaf. Y prif ffocws yw gwella cyfathrebu rhwng yr holl randdeiliaid ac awdurdodau er mwyn gwella ymatebion a pharatoi ar gyfer digwyddiadau llifogydd yn y dyfodol. Ar ben hynny, dylid gweithredu penderfyniadau 'seiliedig ar leoedd', sy'n golygu bod yna ddealltwriaeth nad yw mesurau atal llifogydd sy'n gweithio mewn un fwrdeistref sirol mor effeithiol mewn un arall efallai. Cafodd y FCERM ei gynhyrchu yn unol â Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n ceisio cyfyngu ar risg llifogydd yn y Fwrdeistref Sirol, gan ystyried effeithiau newid yn yr hinsawdd. Bydd angen i'r ISA ystyried sut y bydd polisïau rheoli risg llifogydd yn targedu'r amcanion a nodir yn y FCERM yn effeithiol.<br><br>Dylai'r CDLI ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar leoedd i reoli risg llifogydd. Dylai polisïau geisio cyfyngu ar y potensial ar gyfer mwy o risg llifogydd yn ardal y cynllun a, lle bo hynny'n briodol, ceisio darparu atebion ar gyfer materion cyfredol sy'n ymwneud â risg llifogydd. Gall hyn gynnwys drwy bolisïau sy'n mynd i'r afael yn uniongyrchol â mesurau dylunio i liniaru materion sy'n ymwneud â risg llifogydd a chyfeirio datblygiadau at ardaloedd lle mae risg llifogydd yn llai tebygol o ddigwydd. |
| ***Rheoliadau Ansawdd Aer (Diwygiad) (Cymru) 2002*** | Mae'n nodi amcanion ansawdd aer cenedlaethol ar gyfer Cymru fel trothwyon pragmatig lle mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y risgiau iechyd sy'n gysylltiedig â llygredd aer yn annerbyniol. | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n rhoi sylw i ansawdd aer a llygredd aer.<br><br>Dylai'r CDLI gynnwys polisïau i helpu i fynd i'r afael ag ansawdd aer mewn perthynas ag amwynder ac iechyd pobl yn ogystal â'r amgylchedd naturiol. |
| ***Mynd i'r Afael â Chrynodiadau Nitrogen Deuocsid ar Ymyl y Ffordd yng Nghymru: Cynllun Atodol Llywodraeth*** | Mae'n nodi mai'r unig gyfyngiad statudol ar ansawdd aer y mae Cymru, a gweddill y DU, yn methu ei gyrraedd ar hyn o bryd yw ynghylch crynodiadau NO2. Dywed yr adroddiad fod angen gweithredu i leihau crynodiadau o amgylch ffyrdd. Mae'n darparu cymorth i sicrhau bod camau angenrheidiol yn cael eu cymryd i fodloni'r rhwymedigaethau cyfreithiol a gwella iechyd, ni waeth beth yw cost neu amhoblogrwydd penderfyniadau. | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n ymwneud â llygredd aer a lleihau'r angen i deithio mewn car yn y Fwrdeistref Sirol.<br><br>Dylai'r CDLI gynnwys polisïau i fynd i'r afael â llygredd aer a'i effeithiau yn yr ardal leol. Dylid cynnwys polisïau hefyd i helpu i gefnogi newid moddol yn y sir. |

| Teitl a deddfwriaeth | Crynodeb, amcanion, targedau a dangosyddion allweddol | Goblygiadau i'r ISA a'r CDLl: |
|---|---|---|
| ***Cymru i Gynllun y DU ar gyfer Mynd i'r Afael â Chrynodiadau Nitrogen Deuocsid Ymyl Ffordd 2017 (2018)*** | | |
| ***Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archeolegol 1979*** | Mae'r Ddeddf yn deddfu i warchod treftadaeth archeolegol Cymru, Lloegr a'r Alban ac mae'n darparu gwarchodaeth benodol i henebion sydd o ddiddordeb cenedlaethol. Mae'n ymwneud â'r henebion, a materion o ddiddordeb archeolegol neu hanesyddol, ac mae hyn yn cynnwys darpariaeth ar gyfer ymchwilio, cadw a chofnodi, a rheoleiddio materion o'r fath. Mae'r Ddeddf yn rhoi sylw i adennill a darparu grantiau. Mae'r Ddeddf yn diffinio 'henebion cofrestredig' (safleoedd y mae angen eu diogelu) ac yn gwneud difrod i henebion cofrestredig a chwilota am fetel arnynt yn drosedd. | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n ymwneud â gwarchod henebion sydd o ddiddordeb cenedlaethol.<br><br>Dylai'r CDLl gynnwys polisïau sy'n gwarchod ac yn lliniaru niwed i gyd-destun gweledol henebion o ddiddordeb cenedlaethol, gan gynnwys henebion hynafol. |
| ***Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990*** | Mae Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yn darparu diogelwch penodol ar gyfer adeiladau ac ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Newidiodd ddeddfau ynghylch rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer gwaith adeiladu, gan gynnwys yn benodol y rhai yn y system adeiladau rhestredig yng Nghymru a Lloegr. | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n ymwneud â diogelu adeiladau ac ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig.<br><br>Dylai'r CDLl gynnwys polisïau sy'n diogelu ac yn lliniaru niwed i leoliad adeiladau ac ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, gan gynnwys adeiladau rhestredig. |
| ***Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan i Gymru (2021)*** | Mae'r Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan ar gyfer Cymru yn nodi gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwefru cerbydau trydan yng Nghymru. Darperir fframwaith a rennir gan y cynllun, sy'n nodi gweledigaeth deg ar gyfer gwefru ceir trydan, sy'n helpu'r sectorau cyhoeddus a phreifat yn ogystal â phobl wrth iddynt newid i sero net. | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n ymwneud â gwefru ceir trydan yn deg.<br><br>Dylai'r CDLl gynnwys polisïau sy'n ceisio cynyddu nifer y pwyntiau gwefru ar Ynys Môn. |
| ***Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan i Gymru: Cynllun*** | Mae'r cynllun gweithredu'n egluro sut mae'r llywodraeth yn bwriadu parhau i dyfu ei seilwaith gwefru trydan yn unol â'r cynnydd yn y galw a ddaw wrth i gerbydau tanwydd ffosil gael eu diddymu'n raddol. Mae'n rhagweld buddsoddiadau mewn seilwaith, gan gynnwys y sector preifat, i osod pwyntiau gwefru bob 20 milltir ar gefnffyrdd ar hyd a lled Cymru erbyn 2025. Mae'r cynllun yn nodi dull gweithredu i sicrhau bod nifer y pwyntiau gwefru'n parhau i dyfu i ateb y galw cynyddol wrth i gerbydau tanwydd ffosil gael eu diddymu'n raddol. | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n ymwneud â darparu seilwaith gwefru trydan.<br><br>Dylai'r CDLl gynnwys polisïau sy'n ceisio cynyddu nifer y pwyntiau gwefru ar Ynys Môn. |

| Teitl a deddfwriaeth | Crynodeb, amcanion, targedau a dangosyddion allweddol | Goblygiadau i'r ISA a'r CDLI: |
|---|---|---|
| ***Gweithred (2021)*** | | |
| ***Statws Carbon Sero Net erbyn 2030: Trywydd ar gyfer Datgarboneiddio ar draws Sector Cyhoeddus Cymru (2021)*** | Mae'r trywydd yn rhoi trosolwg strategol o'r prif feysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu a'r cerrig milltir sydd eu hangen er mwyn i sector cyhoeddus Cymru gyrraedd allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net erbyn 2030. Mae'n fframwaith strategol i helpu i asesu beth sydd ar waith a beth sydd ei angen, ac i fonitro cynnydd dros amser. Mae'r dogfennau'n canolbwyntio ar ôl troed y Sector Cyhoeddus ei hun, a'i nod yw arwain y gwaith o ddatblygu ei gyfraniad at Gynlluniau Cyflawni Carbon Isel Cymru gyfan yn y dyfodol. | Dylai'r ISA gynnwys amcan i geisio lleihau allyriadau carbon.<br><br>Dylai'r CDLl gynnwys polisïau sy'n ceisio lleihau allyriadau carbon. |
| ***Canllawiau Statudol Draenio Cynaliadwy (2019)*** | Mae'r ddogfen hon yn ganllawiau statudol y mae'n rhaid i awdurdodau lleol roi sylw iddynt mewn perthynas â'u swyddogaeth fel corff cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy sy'n ofynnol o dan baragraff 6 Atodlen 3 i Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Dylid ei darllen ar y cyd ag Atodlen 3 i Ddeddf 2010 a'r offerynnau statudol a restrir uchod. | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n ceisio lliniaru risg llifogydd, gyda chwestiwn sy'n helpu gyda'r penderfyniad sy'n cyfeirio at Systemau Draenio Cynaliadwy.<br><br>Dylai'r CDLl gynnwys polisïau ynghylch gweithredu Systemau Draenio Cynaliadwy. |
| ***RHANBARTHOL (GOGLEDD/GOGLEDD ORLLEWIN CYMRU)*** | | |
| ***Canllawiau Cynllunio Rhanbarthol Gogledd Orllewin Cymru (2002)*** | Mae'r ddogfen ganllawiau wedi cael ei mabwysiadu gan awdurdodau lleol cyfansoddol Gogledd Orllewin Cymru, ac mae'n berthnasol i'r cyfnod 1996 – 2011. Mae'r ddogfen yn darparu:<br>▪ Cyd-destun strategol ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu Unedol (CDU) yng Ngogledd Cymru<br>▪ cyd-destun ar gyfer datrys materion cynllunio trawsffiniol<br>▪ fframwaith defnydd tir ar gyfer mewnfuddsoddi, ar gyfer cronfeydd strwythurol diwygiedig yr UE ac i ddiogelu a gwella'r amgylchedd adeiledig a naturiol<br>▪ sail ar gyfer deialog gadarnhaol gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru ynghylch cynllunio i'r dyfodol yng Ngogledd Cymru .<br><br>Nod sylfaenol y canllawiau yw datblygu asedau'r rhanbarth a lledaenu twf economaidd a'i fanteision ledled y Rhanbarth yng nghyd-destun datblygu cynaliadwy. | Dylai'r ISA gyd-fynd â Chanllawiau Cynllunio Rhanbarthol Gogledd Orllewin Cymru, gan sicrhau bod amcanion cynaliadwyedd yn adlewyrchu blaenoriaethau rhanbarthol. Dylai asesu sut mae polisïau yn y CDLl yn cyfrannu at dwf cytbwys, diogelu'r amgylchedd, y gallu i wrthsefyll yr hinsawdd, a datblygu seilwaith ar draws Gogledd Orllewin Cymru.<br><br>Dylai'r Cynllun Datblygu Lleol fod yn seiliedig ar y canllawiau, gan sicrhau bod polisïau lleol yn cyd-fynd â strategaethau twf rhanbarthol a blaenoriaethau datblygu, mewn perthynas â thai, trafnidiaeth, datblygu economaidd, yr hinsawdd a risg llifogydd, |

| Teitl a deddfwriaeth | Crynodeb, amcanion, targedau a dangosyddion allweddol | Goblygiadau i'r ISA a'r CDLI: |
|---|---|---|
| ***Cynllun Rhanbarthol Gogledd Cymru 2023 i 2028 (2017)*** | Mae'r cynllun yn nodi egwyddorion, canlyniadau a blaenoriaethau lefel uchel ar gyfer gweithio'n rhanbarthol ar draws iechyd a gofal cymdeithasol yng Ngogledd Cymru. Mae'r cynllun yn ceisio darparu gwasanaethau mewn perthynas â'r canlynol:<br>■ Plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth<br>■ Pobl hŷn gan gynnwys pobl â dementia<br>■ Pobl ag anableddau dysgu a chyflyrau niwroddatblygiadol<br>■ Gofalwyr di-dâl<br>■ Pobl ag anghenion llesiant emosiynol ac iechyd meddwl. | Dylai'r ISA gynnwys amcanion sy'n mynd i'r afael ag iechyd a lles (ac elfen HIA yr ISA) i ystyried effeithiau'r CDLl ar draws yr ystod o faterion a allai effeithio ar y maes pwnc hwn. Mae hyn yn cynnwys mynediad at gyfleusterau gofal iechyd, mynediad at fannau agored a chyfleusterau hamdden, llygredd sŵn, llygredd aer a lles meddyliol (gan gynnwys ynysu cymdeithasol).<br>Er nad oes cyfeiriad penodol at y system gynllunio fel arf i helpu i integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, gallai cynlluniau datblygu helpu i weithredu cynlluniau a pholisïau yn y dyfodol. |
| ***Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru 2 (2012)*** | Mae'r Cynllun Rheoli Traethlin yn darparu asesiad ar raddfa fawr o'r risgiau sy'n gysylltiedig ag esblygiad arfordirol ac mae'n cyflwyno fframwaith polisi i fynd i'r afael â'r risgiau hyn i bobl a'r amgylchedd datblygedig, hanesyddol a naturiol mewn ffordd gynaliadwy. Amcanion Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru SMP2, sy'n seiliedig ar Ganllawiau'r Cynllun Rheoli Traethlin Cyfrol 1: Nodau a Gofynion (Defra, 2006a), fydd:<br>■ Nodi risgiau llifogydd ac erydiad i bobl a'r amgylchedd datblygedig, hanesyddol a naturiol yn ardal astudiaeth SMP2;<br>■ Nodi cyfleoedd i gynnal a gwella'r amgylchedd drwy reoli risgiau llifogydd ac erydu arfordirol;<br>■ Nodi'r polisïau sy'n cael eu ffafrio ar gyfer rheoli risgiau llifogydd ac erydiad dros y ganrif nesaf;<br>■ Nodi canlyniadau rhoi'r polisïau sy'n cael eu ffafrio ar waith; Nodi gweithdrefnau ar gyfer monitro pa mor effeithiol yw'r polisïau hyn; Hysbysu eraill fel bod defnydd tir, cynllunio a datblygu'r draethlin yn y dyfodol yn ystyried y risg a'r polisïau sy'n cael eu ffafrio;<br>■ Atal datblygiadau amhriodol mewn ardaloedd lle mae'r risg llifogydd ac erydu yn uchel; a<br>■ Bodloni deddfwriaeth cadwraeth natur ryngwladol a chenedlaethol a cheisio cyflawni'r amcanion bioamrywiaeth. | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n ceisio cyfyngu ar risg llifogydd yng Ngogledd Orllewin Cymru, gan ystyried effeithiau newid yn yr hinsawdd. Yn unol â'r Cynllun Rheoli Traethlin (CRhT), dylai'r ISA asesu sut y gall polisïau rheoli risg llifogydd gefnogi cydnerthedd yr arfordir yn effeithiol er mwyn targedu'r amcanion a nodir yn y Cynllun Rheoli Traethlin yn effeithiol.<br>Dylai'r CDLl ystyried yr amcanion a nodir yn y Cynllun Rheoli Traethlin, gan lywio datblygiadau oddi wrth ardaloedd arfordirol sy'n agored i niwed, a lle bo hynny'n briodol, ceisio darparu atebion ar gyfer materion sy'n bodoli eisoes sy'n ymwneud â risg llifogydd. Gall hyn gynnwys drwy bolisïau sy'n mynd i'r afael yn uniongyrchol â mesurau dylunio i liniaru materion sy'n ymwneud â risg llifogydd a chyfeirio datblygiadau at ardaloedd lle mae risg llifogydd yn llai tebygol o ddigwydd. |

| Teitl a deddfwriaeth | Crynodeb, amcanion, targedau a dangosyddion allweddol | Goblygiadau i'r ISA a'r CDLl: |
|---|---|---|
| ***Strategaeth 10 Mlynedd Actif Gogledd Cymru 2023 – 2033 (dim dyddiad)*** | Mae'r strategaeth ddeng mlynedd ar y cyd yn nodi ein gweledigaeth, ein cenhadaeth a'n blaenoriaethau ar gyfer sicrhau Gogledd Cymru fwy gweithgar. Mae fframwaith y strategaeth yn seiliedig ar bedwar amcan strategol:<br>■ Pobl egnïol - Creu a hyrwyddo cyfleoedd i bawb fod yn egnïol<br>■ Amgylchedd egnïol – Gwneud y defnydd gorau o fannau a gofodau lleol i fod yn actif<br>■ Cymdeithasau egnïol - Cynnal a thyfu drwy wrando ar gymunedau, eu cefnogi a gweithio gyda nhw i wneud 'bod yn actif' yn norm<br>■ Systemau egnïol - Ymgysylltu, cydlynu a chydweithio aml-sector.<br>Mae'r strategaeth yn pwysleisio pwysigrwydd gweithgarwch corfforol nid yn unig er mwyn gwella iechyd meddwl a chorfforol ond hefyd er mwyn meithrin cysylltiadau cymdeithasol, gwella hunanhyder, lleihau unigrwydd, ac adeiladu cymunedau cryfach a mwy diogel. | Drwy gynnwys amcanion sy'n mynd i'r afael ag iechyd a lles (ac elfen HIA yr ISA), dylai'r ISA ystyried hygyrchedd mannau agored a chyfleusterau hamdden yn ardal y cynllun.<br>Dylai'r CDLl ddarparu fframwaith ar gyfer chwaraeon a hamdden a nodi dull strategol o ymdrin â datblygiadau o'r fath. Dylai'r CDLl gefnogi nodau'r strategaeth. |
| ***Strategaeth Ynni Gogledd Cymru (2021)*** | Amcan cyffredinol Strategaeth Ynni Gogledd Cymru yw datblygu llwybr strategol sy'n nodi ymyriadau allweddol i gyflawni uchelgeisiau'r rhanbarth ar gyfer datgarboneiddio ei system ynni a sicrhau bod y rhanbarth yn elwa o'r newid. Mae senario Gweledigaeth Ynni wedi cael ei modelu i nodi llwybr datgarboneiddio posibl a fydd yn rhoi'r rhanbarth ar y trywydd iawn i gyflawni system ynni sero net erbyn 2050. Dyma'r blaenoriaethau a amlinellir ar gyfer gwireddu'r weledigaeth hon:<br>■ Manteisio ar ddigonedd yr adnoddau carbon isel lleol i fod yn bwerdy gwyrdd ac amrywio'r cymysgedd ynni.<br>■ Dod yn arweinydd byd-eang mewn technolegau gwynt ar y môr a morol.<br>■ Gwella effeithlonrwydd ynni tai'r rhanbarth a chyflymu'r gwaith o ddatgarboneiddio stoc adeiladu Gogledd Cymru.<br>■ Newid i drafnidiaeth carbon is<br>Mae'r strategaeth yn nodi, er mwyn cyrraedd targedau Llywodraeth Cymru a bod ar y trywydd iawn ar gyfer sero net erbyn 2050, bod angen i Ogledd Cymru leihau allyriadau o'i system ynni 55% erbyn 2035, wedi'u rhannu yn ôl sector yn y llwybr a fodelwyd fel a ganlyn: | Dylai'r ISA gynnwys ystyried defnyddio ynni o ffynonellau ynni adnewyddadwy.<br>Dylai'r CDLl gyfrannu at dargedau ynni rhanbarthol a nodir yn y Strategaeth, gan gynyddu cyfran yr ynni o ffynonellau ynni adnewyddadwy lle bo hynny'n briodol. Dylai'r CDLl hefyd gynllunio'n gadarnhaol ar gyfer datblygiadau adnewyddadwy a charbon isel, drwy ddatblygu polisi. |

Tudalen 124

| Teitl a deddfwriaeth | Crynodeb, amcanion, targedau a dangosyddion allweddol | Goblygiadau i'r ISA a'r CDLI: |
|---|---|---|
| | ■ Gostyngiad o 57% mewn allyriadau gwres a phŵer domestig;<br>■ Gostyngiad o 54% mewn allyriadau masnachol a diwydiannol;<br>■ Gostyngiad o 55% mewn allyriadau trafnidiaeth ffordd.<br>Mae'r strategaeth hefyd yn darparu tri cham nesaf i'r rhanbarth eu cymryd er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd yng Ngogledd Cymru. Mae'r rhain fel a ganlyn:<br>■ Diffinio trefn lywodraethu'r strategaeth.<br>■ Cyfathrebu a chymdeithasu'r strategaeth.<br>■ Sefydlu cynllun gweithredu. | |
| ***Datganiad Ardal Gogledd Orllewin Cymru Cyfoeth Naturiol Cymru*** | Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynhyrchu Datganiadau Ardal ar gyfer pob ardal yng Nghymru – mae Datganiad Ardal Gogledd Orllewin Cymru yn cynnwys Ynys Môn yn ogystal â Chonwy a Gwynedd. Mae pob Datganiad Ardal yn amlinellu'r heriau allweddol sy'n wynebu'r ardal benodol honno, yr hyn y gallwn i gyd ei wneud i ateb yr heriau hynny, a sut y gallwn reoli ein hadnoddau naturiol yn well er budd cenedlaethau'r dyfodol. Byddant yn cael eu diweddaru'n rheolaidd. Gyda'i gilydd, gellir gweld y saith Datganiad Ardal fel ymateb cydweithredol i'r hyn a elwir yn Bolisi Adnoddau Naturiol, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2017, sy'n nodi'r heriau a'r cyfleoedd allweddol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy yn y dyfodol. Mae Datganiad Ardal Gogledd Orllewin Cymru yn rhoi sylw i'r themâu canlynol:<br>■ Ffyrdd o weithio.<br>■ Argyfwng hinsawdd a natur.<br>■ Ailgysylltu pobl â byd natur.<br>■ Hybu economi gynaliadwy.<br>■ Cefnogi rheoli tir yn gynaliadwy.<br>■ Cyfleoedd ar gyfer ecosystemau cydnerth. | Bydd angen i'r ISA ystyried amcanion y Datganiad Ardal a dylai chwilio am gyfleoedd i gyfrannu at yr amcanion hynny. |
| ***Cynllun Datblygu Strategol Gogledd*** | Bydd y Cynllun Datblygu Strategol yn meithrin twf economaidd cynaliadwy, yn gwella seilwaith, ac yn gwella ansawdd bywyd cyffredinol trigolion. Bydd y cynllun yn helpu i sicrhau bod y datblygiad yn gytbwys ac yn gynhwysol, gan adlewyrchu dyheadau'r boblogaeth. Bydd | Bydd angen i'r CDLl roi sylw i'r Cynllun Datblygu Strategol wrth iddo gael ei ddatblygu, gan sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r cynllun ac yn adlewyrchu ei uchelgeisiau. |

| Teitl a deddfwriaeth | Crynodeb, amcanion, targedau a dangosyddion allweddol | Goblygiadau i'r ISA a'r CDLl: |
|---|---|---|
| ***Cymru sydd ar y gweill*** | yn bwynt canol rhwng y Cynllun Cenedlaethol a'r CDLl, a bydd yn darparu cyd-destun strategol ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu Lleol dilynol. | |
| ***Cydgynllun Trafnidiaeth Lleol Gogledd Cymru 2015*** | Mae Cydgynllun Trafnidiaeth Lleol o'r enw Cydgynllun Trafnidiaeth Lleol Gogledd Cymru yn cynnwys Bwrdeistref Sirol Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn a Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae'r cynllun yn cwmpasu rhan ogleddol Gwynedd yn unig gyda Meirionnydd yn cael ei chynnwys yng Nghynllun Trafnidiaeth Lleol Canolbarth Cymru. Mae rhan o Barc Cenedlaethol Eryri o fewn ardal Gogledd Cymru ac mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol hefyd wedi bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cynllun. Mae'r saith awdurdod wedi paratoi'r cynllun ar y cyd i nodi materion a chyfleoedd ar gyfer trafnidiaeth yn ardal y cynllun.<br><br>Mae llawer o'r materion a nodwyd yn gyffredin i'r saith awdurdod, ac mae gan drafnidiaeth rôl i'w chwarae o ran lleihau gwahaniaethau ar draws yr ardal a chysylltu â gweddill Cymru. | Bydd angen i'r CDLl roi sylw i'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol, wrth greu polisïau trafnidiaeth a diogelu llwybrau. Dylid hefyd ystyried cyfleoedd ar gyfer teithio cynaliadwy. |
| ***Cynllun Datblygu Lleol Conwy 2007-2022 (2013)*** | Mae Cynllun Datblygu Lleol Conwy yn amlinellu fframwaith strategol ar gyfer datblygu cynaliadwy ym Mwrdeistref Sirol Conwy, ac eithrio Parc Cenedlaethol Eryri. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn mynd i'r afael â heriau allweddol fel twf poblogaeth, datblygu economaidd, anghenion tai, a chadwraeth amgylcheddol.<br><br>O ran tai, mae'r Cynllun yn ceisio darparu tua 6,520 o unedau tai newydd, gyda lefel wrth gefn o hyd at 7,170 o anheddau. Mae hyn yn cynnwys targed o 1,875 o unedau tai fforddiadwy newydd, gyda 1,000 o adeiladau newydd. Mae'r Cynllun hefyd yn ceisio creu tua 2,350 o swyddi newydd, gyda hyd at 2,585 wrth gefn. | Mae gan gyrff cyhoeddus ddyletswydd i gydweithredu ar faterion cynllunio sy'n croesi ffiniau gweinyddol. Felly, mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn ymwybodol o'r amcanion strategol perthnasol a/neu unrhyw ofynion penodol yn Strategaethau Craidd eu hawdurdodau cyfagos a fyddai'n cael effeithiau trawsffiniol penodol.<br><br>Dylai'r CDLl ystyried goblygiadau ei bolisïau i ardaloedd cyfagos, a sut y gallai ardaloedd cyfagos effeithio ar ardal y cynllun lleol. |
| ***Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006-2021 (2013)*** | Mae Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych yn darparu casgliad o bolisïau sy'n nodi'r weledigaeth hirdymor a'r cyd-destun strategol ar gyfer rheoli a darparu ar gyfer twf yn Sir Ddinbych tan 2021. Mae'n canolbwyntio ar feysydd allweddol fel tai, twf economaidd a chadwraeth amgylcheddol. O'r 7,500 o anheddau sydd eu hangen, mae 1,410 eisoes wedi cael eu hadeiladu ers dechrau cyfnod y cynllun (2006). Mae gan 1,749 arall ganiatâd cynllunio. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn gwneud dyraniadau newydd ar gyfer oddeutu 3,300 o dai newydd ym Modelwyddan yn bennaf ac aneddiadau eraill i'r gogledd o'r A55 ynghyd â safleoedd yn Ninbych, Llanelwy, Rhuthun a Chorwen. | Mae gan gyrff cyhoeddus ddyletswydd i gydweithredu ar faterion cynllunio sy'n croesi ffiniau gweinyddol. Felly, mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn ymwybodol o'r amcanion strategol perthnasol a/neu unrhyw ofynion penodol yn Strategaethau Craidd eu hawdurdodau cyfagos a fyddai'n cael effeithiau trawsffiniol penodol.<br><br>Felly, bydd angen i'r CDLl ystyried Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych, gan sicrhau cysondeb lle bo hynny'n briodol i gefnogi datblygu cynaliadwy, cynllunio seilwaith a thwf economaidd ar draws y rhanbarth. |
| ***Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint 2015-2030 (2023)*** | Mae Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint yn darparu casgliad o bolisïau sy'n nodi'r weledigaeth hirdymor a'r cyd-destun strategol ar gyfer rheoli a darparu ar gyfer twf yn Sir y Fflint tan 2023.<br><br>■ Mae'r polisïau strategol yn y cynllun yn ymwneud â'r themâu canlynol:<br><br>■ Creu Lleoedd a Chymunedau Cynaliadwy | Mae gan gyrff cyhoeddus ddyletswydd i gydweithredu ar faterion cynllunio sy'n croesi ffiniau gweinyddol. Felly, mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn ymwybodol o'r amcanion strategol perthnasol a/neu unrhyw ofynion penodol yn Strategaethau Craidd eu hawdurdodau cyfagos a fyddai'n cael effeithiau trawsffiniol penodol.<br><br>Dylai'r CDLl ystyried goblygiadau ei bolisïau i ardaloedd cyfagos, a sut y gallai ardaloedd cyfagos effeithio ar ardal y cynllun lleol. |

| Teitl a deddfwriaeth | Crynodeb, amcanion, targedau a dangosyddion allweddol | Goblygiadau i'r ISA a'r CDLl: |
|---|---|---|
| | ▪ Cefnogi Economi Ffyniannus<br>▪ Diwallu Anghenion Tai<br>▪ Gwerthfawrogi'r Amgylchedd | |
| ***Cynllun Datblygu Lleol Wrecsam 2 (CDLl2) 2013 i 2028 (2023)*** | Mae Cynllun Datblygu Lleol Wrecsam yn darparu casgliad o bolisïau sy'n nodi'r weledigaeth hirdymor a'r cyd-destun strategol ar gyfer rheoli a darparu ar gyfer twf yn Wrecsam tan 2023. Elfen allweddol o CDLl2 yw dyrannu tir ar gyfer dros 8,000 o gartrefi newydd a 111 erw o ofod cyflogaeth i fynd i'r afael ag anghenion tai ac ysgogi twf economaidd. | Mae gan gyrff cyhoeddus ddyletswydd i gydweithredu ar faterion cynllunio sy'n croesi ffiniau gweinyddol. Felly, mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn ymwybodol o'r amcanion strategol perthnasol a/neu unrhyw ofynion penodol yn Strategaethau Craidd eu hawdurdodau cyfagos a fyddai'n cael effeithiau trawsffiniol penodol.<br><br>Dylai'r CDLl ystyried goblygiadau ei bolisïau i ardaloedd cyfagos, a sut y gallai ardaloedd cyfagos effeithio ar ardal y cynllun lleol. |
| ***Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031 (2019)*** | Cynllun Datblygu Lleol Eryri yw'r fframwaith strategol sy'n llywio defnydd a datblygiad tir ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Nod y cynllun yw cydbwyso diogelu harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y parc ag anghenion ei gymunedau. Bydd y Cynllun Datblygu Lleol hwn yn arwain datblygiad mewn ffordd a fydd yn sicrhau y bydd Eryri, yn ystod oes y cynllun, yn parhau i fod yn dirwedd sy'n cael ei gwarchod a'i datblygu, ei diogelu a'i gwella i ddarparu amgylchedd naturiol cyfoethog ac amrywiol; gan ddarparu manteision cymdeithasol, economaidd a llesiant yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. | Mae gan gyrff cyhoeddus ddyletswydd i gydweithredu ar faterion cynllunio sy'n croesi ffiniau gweinyddol. Felly, mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn ymwybodol o'r amcanion strategol perthnasol a/neu unrhyw ofynion penodol yn Strategaethau Craidd eu hawdurdodau cyfagos a fyddai'n cael effeithiau trawsffiniol penodol.<br><br>Dylai'r CDLl ystyried goblygiadau ei bolisïau i ardaloedd cyfagos, a sut y gallai ardaloedd cyfagos effeithio ar ardal y cynllun lleol. |
| ***Datganiad Technegol Rhanbarthol 2il Adolygiad (2019)*** | Mae'r Datganiad Technegol Rhanbarthol (DTRh) yn nodi gofynion pob Awdurdod Cynllunio Lleol (LPA) o ran faint o agregau adeiladu y mae angen eu cyflenwi o'u hardal (dosraniadau) dros gyfnod penodol. Os bydd y DTRh yn nodi diffygion, bydd hefyd yn nodi maint y dyraniadau newydd angenrheidiol mewn CDLl i sicrhau bod cyflenwad digonol yn cael ei gynnal drwy gydol cyfnod y cynllun.<br><br>Mae'r ddogfen yn nodi cyfrifiadau manwl i bennu'r galw a ragwelir am agregau yn rhanbarth De Cymru rhwng mis Rhagfyr 2010 a 2036. Yn dilyn hynny, mae'n dosrannu tunelli o agregau y mae angen i bob un o'r 18 awdurdod lleol yn y rhanbarth eu darparu ar ffurf banciau tir o ganiatâd. | Bydd angen ystyried canlyniadau Ail Adolygiad DTRh wrth baratoi polisïau CDLl yn ystod y broses adolygu. |
| ***Fframwaith Economaidd Rhanbarthol Gogledd Cymru (2022)*** | Mae'r fframwaith yn ganllaw strategol ar gyfer cysoni ymdrechion ac adnoddau rhanbarthol i wella llesiant cymunedau ledled Gogledd Cymru. Y genhadaeth drwy'r fframwaith yw creu cyfleoedd arloesol i sicrhau bod yr amgylchedd naturiol yn cael ei ddiogelu a'i wella, a bod cymunedau hefyd yn cael ffynnu. Mae blaenoriaethau'r fframwaith yn cynnwys cefnogi gwasanaethau cyhoeddus a busnesau preifat gan ganolbwyntio ar fusnesau bach a chanolig brodorol lleol, a chefnogi'r gwaith o gyflymu'r broses o adeiladu cartrefi gan gynghorau, | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n ystyried hyrwyddo twf economaidd cynaliadwy.<br><br>Bydd angen i'r CDLl ystyried polisïau sy'n hyrwyddo cyflawni twf economaidd cynaliadwy ar draws Ynys Môn, wedi'u cefnogi gan lefelau priodol o seilwaith. |

| Teitl a deddfwriaeth | Crynodeb, amcanion, targedau a dangosyddion allweddol | Goblygiadau i'r ISA a'r CDLl: |
|---|---|---|
| | cymdeithasau tai a datblygwyr preifat, gan sicrhau bod y rhain yn cael eu darparu er budd cymunedau lleol gan ddefnyddio sgiliau a deunyddiau lleol lle bynnag y bo modd. | |
| ***CYNLLUNIAU, POLISIAU A RHAGLENNI LLEOL*** | | |
| ***Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd 2011 - 2026 (2017)*** | Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn gweithredu fel y fframwaith strategol ar gyfer defnydd a datblygiad tir o fewn awdurdodaethau Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd, ac eithrio Parc Cenedlaethol Eryri. Mae'r cynllun yn amlinellu polisïau a chynigion i arwain datblygu cynaliadwy, mynd i'r afael ag anghenion tai, ysgogi twf economaidd, a diogelu'r amgylchedd naturiol ac adeiledig. Mae'n nodi safleoedd penodol ar gyfer gwahanol fathau o ddatblygiadau, gan gynnwys tai, cyflogaeth ac adwerthu, ar yr un pryd â dynodi ardaloedd cadwraeth i gynnal a gwella tirwedd a threftadaeth ddiwylliannol unigryw'r rhanbarth. | Rhaid asesu'r targedau tai a thwf economaidd a bennir yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar gyfer eu cynaliadwyedd amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Mae hyn yn cynnwys gwerthuso effaith datblygiadau tai ar raddfa fawr ar seilwaith, adnoddau naturiol a'r gallu i wrthsefyll yr hinsawdd, yn enwedig yn ardaloedd arfordirol a gwledig Ynys Môn.<br><br>Bydd yn rhaid i'r CDLl roi sylw i amcanion strategol y Cynllun Datblygu Lleol. |
| ***Wylfa Newydd: Canllawiau Cynllunio Atodol (2018)*** | Mae'r ddogfen yn rhoi canllawiau manwl ar gyfer cynllunio a datblygu gorsaf bŵer niwclear arfaethedig Wylfa Newydd ar Ynys Môn. Mae'r canllawiau'n nodi mai gweledigaeth y Cyngor Sir ar gyfer prosiect Wylfa Newydd yw:<br><br>'Mae'r Orsaf Niwclear Newydd yn Wylfa yn sbardun ar gyfer trawsnewid yr economi a chymunedau ar Ynys Môn, gan ddarparu cyfleoedd gwaith cynaliadwy, gwella ansawdd bywyd a llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol a hyrwyddo hunaniaeth a nodweddion unigryw lleol. | Dylai'r ISA gynnwys amcan i geisio lleihau allyriadau carbon.<br><br>Dylai'r CDLl sicrhau bod polisïau sy'n ymwneud â Wylfa Newydd yn cyd-fynd ag amcanion ehangach adfywio economaidd a thwf cynaliadwy, a lliniaru newid yn yr hinsawdd. |
| ***Canllawiau Cynllunio Atodol Cymysgedd o Dai (2018)*** | Y canllawiau ar sicrhau cymysgedd cytbwys a chynaliadwy o dai mewn datblygiadau preswyl newydd ar draws Ynys Môn. | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n ymwneud â datblygu tai cynaliadwy o ansawdd uchel, gan ddefnyddio cymysgedd o fathau o dai. |
| ***Mannau Agored mewn Datblygiad Preswyl Newydd (2019)*** | Mae'r ddogfen yn rhoi canllawiau manwl i sicrhau bod datblygiadau tai newydd yn Ynys Môn a Gwynedd yn cynnwys mannau agored digonol o ansawdd uchel. Mae'n nodi y dylai datblygiad preswyl newydd gyfrannu at ddarparu mannau agored, gan gadw at safon meincnod Meysydd Chwarae Cymru (FiT) o 2.4 hectar am bob 1,000 o'r boblogaeth. | Drwy gynnwys amcanion sy'n mynd i'r afael ag iechyd a lles (ac elfen HIA yr ISA), dylai'r ISA ystyried hygyrchedd mannau agored a chyfleusterau hamdden yn ardal y cynllun, yn arbennig mewn perthynas â datblygiadau preswyl newydd, yn ogystal â'r posibilrwydd o golli'r mathau hyn o asedau wrth i ddatblygiad newydd gael ei gyflawni.<br><br>Dylai'r CDLl nodi fframwaith ar gyfer chwaraeon a hamdden, gyda dull strategol o ymdrin â datblygiadau o'r fath. Dylai hefyd ddiogelu ardaloedd o fannau agored sydd â gwerth hamdden, amwynder a/neu gadwraeth, a hyrwyddo mannau agored mewn datblygiadau preswyl newydd. |

| Teitl a deddfwriaeth | Crynodeb, amcanion, targedau a dangosyddion allweddol | Goblygiadau i'r ISA a'r CDLl: |
|---|---|---|
| ***Canllawiau Cynllunio Atodol Tai yn y Farchnad Leol (2019)*** | Mae'r ddogfen yn diffinio'r meini prawf ar gyfer meddiannu tai ar y farchnad leol, ac yn amlinellu mecanweithiau i gynnal fforddiadwyedd tai ar y farchnad leol am byth, gan sicrhau manteision tymor hir i drigolion lleol. | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n ymwneud â darparu tai fforddiadwy a thai ar y farchnad leol.<br><br>Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol fod yn seiliedig ar Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA), a rhaid iddynt osod targed tai fforddiadwy yn seiliedig ar yr angen a nodwyd yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol. Rhaid i awdurdodau lleol nodi sut y cyflawnir y targed drwy ddulliau polisi. Rhaid i'r CDLl ystyried sut y mae tai fforddiadwy'n cael eu cynnwys yn y datblygiad. |
| ***Canllawiau Cynllunio Atodol Tai Fforddiadwy (2019)*** | Mae'r ddogfen yn rhoi arweiniad ynghylch tai fforddiadwy yn y Sir. Mae'r ddogfen yn cynnwys argymhellion ar gyfer newidiadau sydd wedi'u cynllunio i gynyddu'r cyflenwad a gwella'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys y dylai fod yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu asesiadau o'r Farchnad Dai Leol (LHMA) yn seiliedig ar amserlen, data a methodoleg gyson ar draws deiliadaethau tai. Mae safonau newydd wedi'u cyfuno a'u symleiddio ar gyfer tai sy'n cael eu hariannu gan grantiau adeiladu o'r newydd a chartrefi A106 hefyd yn cael eu hargymell yn y ddogfen adolygu. | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n ymwneud â darparu tai fforddiadwy.<br><br>Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol fod yn seiliedig ar Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA), a rhaid iddynt osod targed tai fforddiadwy yn seiliedig ar yr angen a nodwyd yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol. Rhaid i awdurdodau lleol nodi sut y cyflawnir y targed drwy ddulliau polisi. Rhaid i'r CDLl ystyried sut y mae tai fforddiadwy'n cael eu cynnwys yn y datblygiad. |
| ***Canllawiau Cynllunio Atodol Anheddau Newydd a Throsi Eiddo yng Nghefn Gwlad (2019)*** | Mae'r ddogfen gynllunio atodol yn rhoi arweiniad ar gynigion i amnewid anheddau presennol a throsi adeiladau mewn ardaloedd gwledig, gan sicrhau bod datblygiadau o'r fath yn cyd-fynd ag egwyddorion datblygu cynaliadwy ac yn parchu cymeriad cefn gwlad. | Dylai'r ISA gynnwys amcan i sicrhau bod anheddau newydd a throsi eiddo yng nghefn gwlad yn cadw cymeriad cefn gwlad, yn ogystal â chefnogi anghenion tai lleol.<br><br>Bydd angen diweddaru polisïau sy'n ceisio rheoli datblygiadau yng nghefn gwlad agored fel rhan o'r CDLl.<br><br>Dylai materion cynaliadwyedd fod yn rhan annatod o'r broses o lunio polisïau. |
| ***Canllawiau Cynllunio Atodol Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy (2019)*** | Mae'r CCA yn darparu canllawiau manwl i sicrhau bod datblygiadau'n cyfrannu'n gadarnhaol at gynaliadwyedd a natur unigryw cymunedau lleol. Mae'r CCA yn pwysleisio pwysigrwydd ystyried yr iaith Gymraeg, treftadaeth ddiwylliannol a chydlyniant cymdeithasol mewn cynigion cynllunio. | Dylai'r ISA gynnwys amcanion sy'n mynd i'r afael â dylunio o ran hyrwyddo cynhwysiant a hynodrwydd cymunedau, cymeriad lleol a diogelwch.<br><br>Mae gan awdurdodau lleol rôl ddeuol i sicrhau bod rhanddeiliaid yn cael eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu polisïau dylunio, a darparu gwybodaeth am faterion dylunio.<br><br>Dylai polisïau'r CDLl ar ddylunio nodi disgwyliadau dylunio, a dylai polisïau fynd i'r afael â materion lleol a bod yn seiliedig ar dystiolaeth. |
| ***Newid defnydd cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol, safleoedd cyflogaeth ac unedau*** | Mae'r CCA yn darparu canllawiau manwl o ran newid defnydd cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol, safleoedd cyflogaeth ac unedau adwerthu | Dylai'r ISA gynnwys amcanion sy'n ceisio diogelu cyfleusterau cymunedol, adwerthu ac economaidd.<br><br>Drwy'r sylfaen dystiolaeth, bydd angen diffinio angen lleol a hwyluso darparu gwasanaethau lle mae datblygiadau newydd o faint digonol. |

| Teitl a deddfwriaeth | Crynodeb, amcanion, targedau a dangosyddion allweddol | Goblygiadau i'r ISA a'r CDLl: |
|---|---|---|
| ***adwerthu (2021)*** | | |
| ***Canllawiau Cynllunio Atodol Cyfleusterau a Llety Twristiaeth (2021)*** | Mae'r ddogfen yn darparu canllawiau manwl i gefnogi'r gwaith o weithredu polisïau sy'n ymwneud â thwristiaeth yng Nghynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd. Nod y CCA hyn yw hyrwyddo datblygu twristiaeth gynaliadwy sydd o fudd i'r economi leol ar yr un pryd â gwarchod uniondeb diwylliannol ac amgylcheddol y rhanbarth. | Dylai'r ISA gynnwys amcanion sy'n ymwneud â sicrhau twf economaidd cynaliadwy yn ogystal â diogelu a gwella'r amgylchedd naturiol.<br>Dylai'r CDLl ddarparu fframwaith strategol ar gyfer cyfleoedd datblygu twristiaeth, gan gyfyngu ar yr effeithiau ar yr amgylchedd ac ar gymunedau lleol ar yr un pryd. |
| ***Canllawiau Cynllunio Atodol Canllaw Dylunio ar gyfer yr Amgylchedd Trefol a Gwledig (2008)*** | Mae'r CCA yn ceisio egluro'r materion dylunio sylfaenol a sut y dylid mynd i'r afael â nhw. Un nodyn cyfarwyddyd nodedig yn y gyfres hon yw Nodyn Cyfarwyddyd 14: Addasiadau mewn Ardaloedd Gwledig, sy'n cynnig cyngor penodol ar drosi adeiladau allanol gwledig yn dai preswyl. Mae'r nodyn hwn yn pwysleisio pwysigrwydd cynnal cymeriad ac uniondeb strwythurau presennol tra'n sicrhau bod unrhyw addasiadau'n cyfrannu'n gadarnhaol at y dirwedd wledig. | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n ceisio mynd i'r afael â materion dylunio (gan gynnwys effeithiau ar y dirwedd a'r amgylchedd hanesyddol yn ogystal â materion cynaliadwyedd ehangach).<br>Dylai'r CDLl hyrwyddo dylunio cynaliadwy o ansawdd uchel. |
| ***Canllawiau Cynllunio Atodol Llety Gwyliau (2007)*** | Mae'r CCA yn darparu canllawiau manwl ynghylch llety gwyliau ar Ynys Môn. Mae'r ddogfen yn darparu diffiniadau ar gyfer y mathau o ddatblygiadau sy'n dod o dan y CCA ynghylch llety gwyliau, a meini prawf i helpu i ddiffinio datblygiadau o ansawdd uchel o ran ystyriaethau defnydd tir. | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n ceisio sicrhau twf economaidd cynaliadwy y mae twristiaeth yn debygol o chwarae rhan bwysig ynddo. Dylai hefyd gynnwys amcan sy'n ceisio sicrhau bod yr amgylchedd naturiol yn cael ei ddiogelu, gan gynnwys asedau bioamrywiaeth pwysig, rhwydweithiau ecolegol ehangach a'r dirwedd naturiol.<br>Bydd yn rhaid i'r CDLl gynllunio'n unol â hynny ar gyfer Twristiaeth yn y Sir. |
| ***Canllawiau Cynllunio Atodol Sefydliadau Bwyd Tecawê Poeth ar Ynys Môn (1993)*** | Mae'r CCA yn darparu fframwaith ar gyfer gwerthuso cynigion ar gyfer sefydliadau bwyd tecawê poeth ar Ynys Môn. Nod y canllawiau hyn yw cydbwyso manteision busnesau o'r fath ag effeithiau posibl ar gymunedau lleol. | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n ceisio lleihau effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol sefydliadau tecawê.<br>Dylai'r CDLl ystyried polisïau priodol i reoli lleoliad sefydliadau bwyd tecawê poeth, gan sicrhau eu bod yn cefnogi gweithgarwch economaidd ar yr un pryd â lleihau effeithiau negyddol ar ardaloedd preswyl ac amwynderau lleol. |
| ***Canllawiau Cynllunio Atodol Ynni Gwynt ar y Tir (2013)*** | Mae'r CCA yn darparu fframwaith i arwain y gwaith o ddatblygu tyrbinau gwynt ar y tir ar Ynys Môn. | Dylai'r ISA gynnwys ystyried defnyddio ynni o ffynonellau ynni adnewyddadwy, gan hyrwyddo ynni gwynt ar y tir yn benodol.<br>Dylai'r CDLl gyfrannu at gynyddu cyfran yr ynni o ffynonellau ynni adnewyddadwy lle bo hynny'n briodol, gan hyrwyddo ynni gwynt ar y tir yn benodol. |

| Teitl a deddfwriaeth | Crynodeb, amcanion, targedau a dangosyddion allweddol | Goblygiadau i'r ISA a'r CDLl: |
|---|---|---|
| | | |
| ***Canllawiau Cynllunio Atodol Safonau Parcio (2008)*** | Mae'r ddogfen yn rhoi canllawiau manwl ar gyfer darpariaeth parcio sy'n gysylltiedig â datblygiadau newydd a cheisiadau newid defnydd. | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n ceisio mynd i'r afael â materion dylunio (gan gynnwys effeithiau ar y dirwedd a'r amgylchedd hanesyddol yn ogystal â materion cynaliadwyedd ehangach).<br><br>Dylai'r CDLl hyrwyddo dylunio cynaliadwy o ansawdd uchel. Dylid cynnwys polisïau hefyd i helpu i gefnogi newid moddol yn y sir. |
| ***Cynllun Tuag at Sero Net 2022-2025 (2022)*** | Nod y cynllun yw "Moderneiddio ac addasu i ddod yn Gyngor Sero Net erbyn 2030". Cyflawnir y nod hwn drwy gyflawni'r amcanion canlynol:<br><br>1. Lleihau a datgarboneiddio'r defnydd o ynni yn adeiladau ac asedau'r Cyngor<br>2. Parhau i ddarparu gwasanaethau'r Cyngor ar yr un pryd â lleihau allyriadau carbon o'n cerbydau a'n harferion gweithio<br>3. Gwella bioamrywiaeth a gorchudd coed ar dir ac asedau'r Cyngor<br>4. Hwyluso'r gwaith o ddatblygu dull newydd o gynhyrchu ynni carbon isel<br>5. Addasu polisïau, prosesau, diwylliant, gwerthoedd ac ymddygiad (staff y Cyngor ac aelodau etholedig)<br>6. Deall cyfanswm ôl troed carbon y Cyngor, sefydlu trefniadau monitro ac adrodd effeithiol ac effeithlon | Dylai'r ISA gynnwys amcan i geisio lleihau allyriadau carbon.<br><br>Bydd y CDLl yn ystyried y cynllun ac yn rhoi cyfle i gynnwys polisïau a fydd yn lliniaru newid yn yr hinsawdd. |
| ***Cynllun y Cyngor 2023-2028 (dim dyddiad)*** | Gweledigaeth y cynllun yw "Creu Ynys Môn sy'n iach ac yn ffyniannus lle gall pobl ffynnu". Mae'n canolbwyntio ar chwe amcan:<br><br>■ Y Gymraeg – cynyddu cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith<br>■ Gofal Cymdeithasol a Lles – darparu'r gefnogaeth iawn ar yr adeg iawn<br>■ Addysg – sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol<br>■ Tai – sicrhau bod gan bawb yr hawl i alw i rywle yn y cartref | Dylai'r ISA gynnwys amcanion sy'n cwmpasu amcanion Cynllun y Cyngor.<br><br>Bydd y CDLl yn rhoi sylw i'r cynllun ac yn rhoi cyfle i gynnwys polisïau sy'n ymwneud ag amcanion Cynllun y Cyngor. |

Tudalen 131

| Teitl a deddfwriaeth | Crynodeb, amcanion, targedau a dangosyddion allweddol | Goblygiadau i'r ISA a'r CDLI: |
|---|---|---|
| | ■ Economi – hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu economi'r Ynys<br>■ Newid yn yr Hinsawdd – ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael â newid a gweithio tuag at fod yn sefydliad sero net erbyn 2030 | |
| ***Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (2021)*** | Mae'r cynllun yn cwmpasu'r cyfnod 2022-2032 ac mae'n ceisio helpu pobl Ynys Môn i ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir i gynnal yr iaith, y diwylliant a'r economi yn lleol a darparu ar gyfer ein disgyblion ar gyfer y dyfodol. Gweledigaeth y cynllun yw "bod pob disgybl sy'n mynd drwy system addysg Ynys Môn yn gwbl ddwyieithog erbyn 16 oed ac yn hyderus i gyfathrebu yn y ddwy iaith yn gyfartal ym myd gwaith, yn ddiwylliannol ac yn gymdeithasol." Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy nodau fel cynnig addysg drwy gyfrwng y Gymraeg i fwy o blant meithrin / plant tair oed. | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n rhoi sylw i'r Gymraeg.<br>Dylai'r CDLl ddarparu sail polisi ar gyfer cynyddu ac amddiffyn y defnydd o'r Gymraeg mewn sefydliadau addysgol. |
| ***Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2021-2026 (2021)*** | Mae Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2021-2026 yn adeiladu ar sylfeini'r strategaeth gyntaf ac yn mabwysiadu targed a meysydd blaenoriaeth cyson. Themâu strategol y strategaeth yw:<br>■ Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg<br>■ Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg<br>■ Chreu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun | Fel uchod. |
| ***Cynllun Strategol Cartrefi Gwag 2023-2028 (dim dyddiad)*** | Pwrpas Cynllun Strategol Cartrefi Gwag yw sicrhau bod cyn lleied â phosibl o eiddo gwag ac annog perchnogion i'w defnyddio eto. Mae'n darparu gwybodaeth am sut bydd y Cyngor yn delio ag eiddo gwag. | Dylai'r ISA gynnwys amcanion sy'n cefnogi ailddefnyddio cartrefi gwag i hyrwyddo atebion tai cynaliadwy.<br>Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol fod yn seiliedig ar Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA). Dylai polisïau tai yn y CDLl fod yn ystyriol o'r amcanion a nodir yn y Cynllun Strategol Cartrefi Gwag, gan gydnabod sut y mae cartrefi gwag yn effeithio ar argaeledd tai. |
| ***Strategaeth Dai Ynys Môn 2022-27 (2021)*** | Nod strategol cyffredinol y strategaeth yw sicrhau bod gan bobl Ynys Môn le i'w alw'n gartref, eu bod yn cael eu grymuso a'u cefnogi i gyfrannu at eu cymuned leol. Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar chwe thema allweddol:<br>■ Thema 1 – Datblygu'r cartrefi iawn ar gyfer dyfodol Ynys Môn<br>■ Thema 2 – Gwneud y defnydd gorau o'r stoc dai bresennol a gwella cartrefi a chymunedau<br>■ Thema 3 – Atal argyfwng tai a chynyddu opsiynau tai | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n rhoi sylw i ddarparu'r nifer ofynnol o gartrefi a stoc dai o ansawdd uchel yn ardal y cynllun. Dylai'r ISA hefyd ystyried y potensial i ddiwallu anghenion Sipsiwn a Theithwyr.<br>Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol fod yn seiliedig ar Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA). Bydd angen i anghenion tai fforddiadwy a llety Sipsiwn a Theithwyr gael eu hystyried gan y CDLl. |

Tudalen 132

| Teitl a deddfwriaeth | Crynodeb, amcanion, targedau a dangosyddion allweddol | Goblygiadau i'r ISA a'r CDLI: |
|---|---|---|
| | ■ Thema 4 – Cefnogaeth i hyrwyddo annibyniaeth tai<br>■ Thema 5 – Cartrefi ar gyfer bywydau hirach<br>■ Thema 6 – Mae tai yn cyfrannu at yr economi leol | |
| ***Cynllun Strategol Môn Actif 2024-2029 (dim dyddiad)*** | Mae'r cynllun yn nodi'r meysydd blaenoriaeth allweddol a'r weledigaeth ar gyfer creu cymunedau iach dros y pum mlynedd nesaf. Y nod yw sicrhau bod gan y Cyngor gynllun cyraeddadwy, cynaliadwy ac addas i'r diben, i ddarparu gwasanaethau i wella iechyd a lles trigolion ac ymwelwyr â'r ynys. | Drwy gynnwys amcanion sy'n mynd i'r afael ag iechyd a lles (ac elfen HIA yr ISA), dylai'r ISA ystyried effeithiau posibl datblygiad ar iechyd meddwl a materion yn ymwneud ag ynysu. Dylai elfen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yr ISA ystyried effeithiau posibl ar y nodweddion gwarchodedig a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys pobl hŷn a phobl iau.<br><br>Mae'r cynllun yn nodi materion fel diffyg mynediad at fannau agored y dylid mynd i'r afael â nhw er mwyn meithrin gwytnwch, diogelu a hyrwyddo iechyd meddwl. Dylai'r CDLI roi sylw i hyn. |
| ***Cynllun Strategol Trechu Tlodi 2024-2029 (dim dyddiad)*** | Mae'r cynllun yn nodi blaenoriaethau allweddol i fynd i'r afael â thlodi yn y Sir:<br>■ Darparu mynediad at gymorth i reoli gwariant a dyledion<br>■ Sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu cyflawni eu potensial yn llawn<br>■ Cydweithio i sicrhau bod pobl leol yn gallu manteisio ar gyfleoedd cyflogaeth lleol<br>■ Sicrhau bod y boblogaeth yn iach, yn ddiogel ac yn annibynnol<br>■ Cefnogi ein cymunedau i fod yn oed-gyfeillgar<br>■ Gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod cartrefi fforddiadwy a hygyrch o safon yn cael eu darparu | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n ystyried iechyd a llesiant yn ogystal â'r potensial i fynd i'r afael ag amddifadedd yn y Sir.<br><br>Mae'r strategaeth yn nodi materion, fel tai, y mae angen mynd i'r afael â nhw er mwyn meithrin gwytnwch, diogelu a a lleihau tlodi. Dylai'r CDLI roi sylw i hyn. |
| ***Strategaeth Plant sy'n Derbyn Gofal ac yn Gadael Gofal 2023-2028 (2023)*** | Mae'r strategaeth wedi ymrwymo i gefnogi plant a phobl ifanc yn ei gofal. Mae blaenoriaethau allweddol yn cynnwys sicrhau cartrefi diogel sy'n meithrin, hybu iechyd a lles, cefnogi cyrhaeddiad addysgol, a pharatoi pobl ifanc ar gyfer byw'n annibynnol. | Dylai'r ISA gynnwys amcanion sy'n mynd i'r afael ag iechyd a lles (ac elfen HIA yr ISA) i ystyried effeithiau'r CDLI ar draws yr ystod o faterion a allai effeithio ar y maes pwnc hwn. Mae hyn yn cynnwys mynediad at gyfleusterau gofal iechyd, mynediad at fannau agored a chyfleusterau hamdden, llygredd sŵn, llygredd aer a lles meddyliol (gan gynnwys ynysu cymdeithasol). Dylai'r ISA hefyd ystyried yr effaith y gall mynediad at dai o ansawdd da ei chael o ran mwy o sefydlogrwydd i blant a phobl ifanc.<br><br>Dylai'r CDLI roi sylw i'r strategaeth drwy bolisïau sy'n cefnogi tai o ansawdd uchel sy'n cefnogi plant a phobl ifanc, gan sicrhau mynediad at wasanaethau hanfodol, a meithrin cymunedau diogel a chynhwysol. |

| Teitl a deddfwriaeth | Crynodeb, amcanion, targedau a dangosyddion allweddol | Goblygiadau i'r ISA a'r CDLI: |
|---|---|---|
| | | . |
| ***Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu Strategaeth y Gymraeg (2023)*** | Mae'r rhaglen hon yn amlinellu cynlluniau posib y Cyngor ar gyfer ysgolion Môn am y 9 mlynedd nesaf, hyd at 2033. Prif ffocws Cynllun Amlinellol Strategol Cyngor Sir Ynys Môn fydd y sector uwchradd. Er mwyn cynyddu cyfran y disgyblion Cyfnod Sylfaen sy'n cyflawni targedau iaith Gymraeg fel yr amlinellir mewn dogfennau strategol gan Lywodraeth Cymru a chynlluniau lleol, bwriedir hefyd defnyddio modelau gofal plant i gynyddu capasiti gofal plant Cymru ar Ynys Môn. Mae gan y model partneriaeth gofal plant y potensial i fod yn gyfrannwr allweddol at uchelgais Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n rhoi sylw i'r Gymraeg.<br><br>Dylai'r CDLl ddarparu sail polisi ar gyfer cynyddu ac amddiffyn y defnydd o'r Gymraeg mewn sefydliadau addysgol. |
| ***Cynllun Strategol Adnoddau a Gwastraff 2023-2028 (dim dyddiad)*** | Mae'r cynllun yn nodi ein nod o symud tuag at Economi Gylchol ar Ynys Môn; cadw adnoddau'n cylchredeg yn yr economi am gyn hired â phosibl cyn eu taflu i ffwrdd. Bydd hyn yn helpu ar y daith tuag at allyriadau carbon sero net erbyn 2030. Mae'r Cynllun yn darparu pedair blaenoriaeth strategol:<br>- Lleihau gwastraff a chynyddu ailddefnyddio<br>- Cynyddu cyfraddau ailgylchu a gwella ansawdd<br>- Gwella glanhau strydoedd a lleihau tipio anghyfreithlon<br>- Arwain drwy esiampl | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n ymwneud â gwastraff a hyrwyddo trin gwastraff yn unol â'r hierarchaeth gwastraff.<br><br>Bydd yn rhaid ymgorffori'r strategaeth hon fel rhan o'r CDLl. Dylai'r CDLl ystyried dull gweithredu sy'n helpu i sicrhau bod gwastraff yn cael ei drin yn unol â'r hierarchaeth gwastraff |
| ***Cynllun Newid Fflyd Ynys Môn: Arwain y Newid i Gerbydau Di-allyriadau (2023)*** | Mae'r cynllun yn cefnogi amcan y Cyngor o ddod yn sefydliad sero net erbyn 2030, gan hyrwyddo newid i gerbydau trydan. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar ddull gweithredu fesul cam:<br>- Tymor Byr (2023): Blaenoriaethu newid cerbydau bach i ganolig am fodelau trydan.<br>- Tymor Canolig (2024 ymlaen): Newid cerbydau fflyd mwy i rai trydan neu ddewisiadau eraill isel iawn eu hallyriadau. | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n ymwneud â llygredd aer a lleihau'r angen i deithio mewn car yn y Fwrdeistref Sirol.<br><br>Dylai'r CDLl gynnwys polisïau i fynd i'r afael â llygredd aer a'i effeithiau yn yr ardal leol. Dylid cynnwys polisïau hefyd i helpu i gefnogi newid moddol yn y sir. |
| ***Strategaeth Gwella Canol Trefi 2023-28 (2023)*** | Mae'r strategaeth yn darparu fframwaith ar gyfer cyflawni'r nod a nodir yng Nghynllun y Cyngor o 'wella bywiogrwydd a hyfywedd canol ein trefi'. Mae hefyd yn cefnogi ein hamcan llesiant 'bod pobl Ynys Môn a'i chymunedau yn mwynhau, yn diogelu ac yn gwella eu hamgylchedd adeiledig a naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol'. Ffocws y ddogfen hon yw canol yr aneddiadau sydd wedi'u dynodi'n gyfreithiol yn drefi ac sydd â chynghorau tref, sef Caergybi, Llangefni, Amlwch, Porthaethwy a Biwmares. Mae llawer o bentrefi'r Sir hefyd yn bwysig iawn i economi'r Ynys, gyda nifer ohonynt yn gyrchfannau poblogaidd i ymwelwyr, ac | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n ystyried bywiogrwydd a hyfywedd lleoliadau yng nghanol trefi.<br><br>Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol ddefnyddio dull dilyniannol wrth nodi safleoedd at ddibenion economaidd.<br><br>Dylai gweledigaeth y Cynllun Datblygu Lleol fod yn gyson ac yn gydlynol fel bod ystyriaethau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol yn cefnogi ei gilydd ac yn pwyntio i'r un cyfeiriad. |

Tudalen 134

| Teitl a deddfwriaeth | Crynodeb, amcanion, targedau a dangosyddion allweddol | Goblygiadau i'r ISA a'r CDLI: |
|---|---|---|
| | efallai y bydd angen gwelliannau a phrosiectau tebyg i'w hystyried o dan gynlluniau a rhaglenni perthnasol. | |
| ***Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol 2023-2028 (dim dyddiad)*** | Gweledigaeth gyffredinol y cynllun rheoli yw y bydd Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Ynys Môn yn parhau i gael ei chydnabod fel ased lleol a chenedlaethol, sy'n hanfodol i economi, amgylchedd, diwylliant a lles ei chymunedau a'r rheini sy'n ymweld ag Ynys Môn.<br><br>Mae yna gysylltiad cynyddol â'r rhinweddau arbennig, ac mae'r rhain yn cael eu gwarchod, eu gwella, eu gwerthfawrogi, eu deall, a maent yn gallu bod wrth galon y gymuned, a diwydiant ymwelwyr sy'n amgylcheddol gyfrifol ac yn economaidd gynaliadwy. Mae parhad ac atgyfnerthu arferion a thraddodiadau, a'r defnydd o'r Gymraeg wedi ychwanegu at hunaniaeth unigryw ac ymdeimlad o le. Mae AHNE Ynys Môn wedi gallu gwneud iawn am y dirywiad mewn bioamrywiaeth, ac mae'n cael ei rheoli mewn ffordd sy'n addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd ac yn lliniaru yn eu herbyn er mwyn diogelu ei harddwch naturiol ar yr un pryd â chefnogi anghenion cymunedau lleol a busnesau gwledig. | Dylai'r ISA (drwy gynnwys amcanion priodol) a'r CDLI geisio gwella polisïau a gweledigaeth Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Ynys Môn. Dylid ystyried dibenion a rhinweddau arbennig yr AHNE, yn enwedig wrth ystyried safleoedd datblygu posibl yn ei chyd-destun. |
| ***Cynllun Rheoli Cyrchfan Ynys Môn 2023 i 2028 (dim dyddiad)*** | Mae'r cynllun yn darparu gweledigaeth ar gyfer Ynys Môn rhwng 2023 a 2028, gan nodi bod y cynllun yn ceisio darparu economi ymwelwyr sy'n empathig at ymdeimlad yr Ynys o le, ac sydd o fudd i bobl, yr amgylchedd, diwylliant, treftadaeth a'r iaith, ac sy'n parhau i chwarae rhan ganolog yn sefydlogrwydd economaidd yr ynys. Mae'r cynllun hwn yn ceisio gwella ysbryd o gydweithio a meddwl cyfannol er mwyn datblygu cynnig sy'n gwella'r nodweddion allweddol hyn, ac sy'n sicrhau manteision economaidd a chymdeithasol i'r cymunedau lleol. | Dylai'r ISA gynnwys amcan sy'n ceisio sicrhau twf economaidd cynaliadwy y mae twristiaeth yn debygol o chwarae rhan bwysig ynddo. Dylai hefyd gynnwys amcan sy'n ceisio sicrhau bod yr amgylchedd naturiol yn cael ei ddiogelu, gan gynnwys asedau bioamrywiaeth pwysig, rhwydweithiau ecolegol ehangach a'r dirwedd naturiol.<br><br>Bydd yn rhaid i'r CDLI gynllunio'n unol â hynny ar gyfer Twristiaeth ar Ynys Môn. |
| ***Cynllun Strategol Cyfranogiad y Cyhoedd 2023-2028 (dim dyddiad)*** | Mae'r cynllun yn amlinellu amcanion, dull gweithredu a mecanweithiau'r cyngor ar gyfer annog a galluogi cyfranogiad y cyhoedd, ynghyd â gwybodaeth am sut gall pobl leol ddylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau. Mae hyn yn cynnwys drwy godi ymwybyddiaeth, annog cyfranogiad drwy gyfathrebu heb adnoddau digidol ac ymgysylltu â phob aelod o'r cyhoedd, a gwella ffyrdd o dderbyn ac ymgorffori adborth drwy ddefnyddio'r adnoddau traddodiadol a digidol sydd ar gael. | Dylai amcanion yr ISA hefyd ystyried anghenion pob carfan o'r gymuned. Dylai hyn gael ei ategu gan ganfyddiadau'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a fydd yn ystyried effeithiau'r CDLI mewn perthynas â'r nodweddion gwarchodedig a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.<br><br>Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau annog pobl leol i gymryd rhan yn eu penderfyniadau. Mae hyn yn cynnwys pan fydd cynghorau'n gwneud penderfyniadau mewn partneriaeth â phrif gyngor arall neu ar y cyd ag unigolyn neu gorff arall fel bwrdd iechyd lleol. Dylai'r CDLI adlewyrchu'r gofyniad hwn drwy hyrwyddo ymgysylltu â'r gymuned mewn penderfyniadau cynllunio, gan sicrhau bod lleisiau lleol yn cael eu hystyried wrth lunio polisïau datblygu. |
| ***Trin Pobl yn Deg: Ein Cynllun ar gyfer 2024 i 2028 (2024)*** | Mae'r cynllun yn nodi sut mae'r Cyngor yn bwriadu cyflawni ei ymrwymiad i gydraddoldeb a sut bydd yn cyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol yn cynnwys strategaethau cenedlaethol, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.<br><br>Dyma'r Amcanion Cydraddoldeb ar gyfer 2024 – 2028: | Dylai amcanion yr ISA hefyd ystyried anghenion pob carfan o'r gymuned. Dylai hyn gael ei ategu gan ganfyddiadau'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a fydd yn ystyried effeithiau'r CDLI mewn perthynas â'r nodweddion gwarchodedig a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.<br><br>Bydd angen i'r CDLI ystyried anghenion holl aelodau'r gymuned wrth ddatblygu polisïau. |

| Teitl a deddfwriaeth | Crynodeb, amcanion, targedau a dangosyddion allweddol | Goblygiadau i'r ISA a'r CDLl: |
|---|---|---|
| | ■ Dylunio gwasanaethau teg<br>■ Bod yn gyflogwr o ddewis<br>■ Arwain drwy esiampl<br>■ Creu cynghreiriaeth | |
| ***Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028 (dim dyddiad)*** | Mae'r cynllun yn edrych ar les yng nghyd-destun ffactorau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol. Yn benodol, mae'r cynllun yn ceisio lliniaru effaith tlodi ar les cymunedau yn ogystal â chynllunio gwasanaethau a gweithgareddau ataliol gyda'i gilydd i gefnogi teuluoedd cyn i'r angen am ymyriadau dwys godi. Byddwn yn annog plant, pobl ifanc a'u teuluoedd i wella eu hiechyd er mwyn iddynt allu byw'n iach ac yn annibynnol yn eu cymunedau yn y tymor hir. | Drwy gynnwys amcanion sy'n mynd i'r afael ag iechyd a lles (ac elfen HIA yr ISA), dylai'r ISA ystyried effeithiau posibl datblygiad ar iechyd cymunedol, mynediad at wasanaethau, a lles cyffredinol. Dylai elfen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yr ISA ystyried effeithiau posibl ar y nodweddion gwarchodedig a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys pobl hŷn a phobl iau.<br><br>Mae'r strategaeth yn nodi materion fel tlodi, bylchau mewn cyrhaeddiad addysgol, a safonau byw, y mae angen mynd i'r afael â nhw er mwyn meithrin gwytnwch, diogelu a hyrwyddo iechyd meddwl. Dylai'r CDLl roi sylw i hyn. |
| ***Cynllun Cyfathrebu Strategol 2023 i 2028 (dim dyddiad)*** | Mae'r cynllun yn amlinellu dull rhagweithiol o ymgysylltu â'r cyhoedd a phartneriaid allweddol. Yn unol â Chynllun y Cyngor, mae'r strategaeth hon yn pwysleisio pwysigrwydd cyfathrebu clir, cyson a thryloyw er mwyn gwella ymddiriedaeth a chyfranogiad y cyhoedd. Bydd y tîm cyfathrebu'n gwneud hyn drwy:<br>■ Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg drwy rannu ein gohebiaeth yn ddwyieithog (e.e. datganiadau i'r wasg a negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol).<br>■ Rhoi negeseuon cefnogol allweddol a chyfredol ynghylch gofal cymdeithasol a lles i breswylwyr e.e. argyfwng costau byw, cyhoeddiadau cyllideb, datblygiadau economaidd a materion trafnidiaeth.<br>■ Rhannu negeseuon allweddol ynghylch y Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu newydd a Strategaeth Datblygu'r Gymraeg, prydau ysgol am ddim, derbyniadau i ysgolion a straeon am lwyddiannau ysgolion / disgyblion.<br>■ Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i breswylwyr am y gefnogaeth sydd ar gael ar hyn o bryd i brynwyr tro cyntaf, datblygiadau tai newydd, cymorth grant a digwyddiadau cyfranogiad tenantiaid. | Dylai'r ISA ystyried effeithiau datblygiad telathrebu ar gynaliadwyedd.<br><br>Dylai'r CDLl ystyried y potensial i gryfhau cysylltedd digidol wrth gydbwyso'r angen am dwf economaidd ag effeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol. |

| Teitl a deddfwriaeth | Crynodeb, amcanion, targedau a dangosyddion allweddol | Goblygiadau i'r ISA a'r CDLI: |
|---|---|---|
| | ■ Darparu diweddariadau allweddol ynghylch datblygiadau Porthladd Rhydd, Ynys Ynni ac unedau busnes Ynys Môn. Rhannu cyfleoedd cyllid grant a fyddai'n cefnogi busnesau lleol newydd a rhai sy'n bodoli eisoes.<br>■ Tynnu sylw at brosiectau newid yn yr hinsawdd fel rhan o'n Cynllun Tuag at Sero Net 2022-25 a'n Cynllun Bioamrywiaeth. | |
| ***Cynllun Strategol Digidol Corfforaethol 2024-2029 (dim dyddiad)*** | Prif nod y cynllun strategol yw sicrhau bod trigolion ac ymwelwyr i Ynys Môn yn gallu cael gafael ar wasanaethau o ansawdd uchel drwy amrywiaeth o sianeli digidol a thraddodiadol. | Drwy gynnwys amcanion sy'n mynd i'r afael ag iechyd a lles (ac elfen HIA yr ISA), dylai'r ISA ystyried potensial gwasanaethau digidol ar gyfer darparu gofal cymdeithasol a lles, addysg, a chynyddu cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg.<br>Dylai'r ISA ystyried effeithiau datblygiad telathrebu ar gynaliadwyedd.<br>Dylai'r CDLI ystyried y potensial i gryfhau cysylltedd digidol wrth gydbwyso'r angen am dwf economaidd ag effeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol. |
| ***Cynllun Llesiant Ynys Môn a Gwynedd 2023-28 (dim dyddiad)*** | Mae'r cynllun yn amlinellu strategaeth gydweithredol gan ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus lleol i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol cymunedau. Mae'r Cynllun yn nodi tri amcan llesiant:<br>■ Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i liniaru effaith tlodi ar lesiant ein cymunedau.<br>■ Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i flaenoriaethu lles a chyflawniad ein plant a'n pobl ifanc er mwyn gwireddu eu potensial yn llawn.<br>■ Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i gefnogi ein cymunedau i symud tuag at Sero Net Carbon. | Dylai'r ISA gynnwys amcanion sy'n mynd i'r afael ag iechyd a lles (ac elfen HIA yr ISA) i ystyried effeithiau'r CDLI ar draws yr ystod o faterion a allai effeithio ar y maes pwnc hwn. Mae hyn yn cynnwys mynediad at gyfleusterau gofal iechyd, mynediad at fannau agored a chyfleusterau hamdden, llygredd sŵn, llygredd aer a lles meddyliol (gan gynnwys ynysu cymdeithasol). Dylai elfen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yr ISA ystyried effeithiau posibl ar y nodweddion gwarchodedig a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys pobl hŷn a phobl iau.<br>Er nad oes cyfeiriad penodol at y system gynllunio fel arf i helpu i integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, gallai cynlluniau datblygu helpu i weithredu cynlluniau a pholisïau yn y dyfodol. |

Cyngor Sir Ynys Môn

# Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Newydd

## Adroddiad Cwmpasu

**Adroddiad terfynol**
Mai 2025



**Cyngor Sir Ynys Môn**

# Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Newydd

## Adroddiad Cwmpasu

**Rhif y Prosiect**
13309

| Fersiwn | Statws | Paratowyd | Gwiriwyd | Cymeradwywyd | Dyddiad |
|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Adroddiad Drafft | H. Mukeshkumar<br>M. Hopes | R. Turner | K Nicholls | 27.03.2025 |
| 2. | Adroddiad terfynol | H. Mukeshkumar<br>M. Hopes | R. Turner | K. Nicholls | 02.05.2025 |


Bristol
Cardiff

Caeredin
Glasgow
London
Manchester
Sheffield

landuse.co.uk

Land Use Consultants Ltd
Cofrestrwyd yn Lloegr

Rhif cofrestredig 2549296
Swyddfagofrestredig
250 Waterloo Road
London SE1 8RD

Papur wedi'i ailgylchu 100%

Dylunio Tirwedd
Cynllunio ac Asesu Strategol

Cynllunio Datblygu
Dylunio Trefol ac Uwchgynllunio
Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol
Cynllunio Tirwedd ac Asesu
Rheoli Tirwedd
Ecoleg
Amgylchedd
Hanesyddol
GIS a Delweddu
Trafnidiaeth a Chynllunio Symudiadau
Coedyddiaeth

FS566056
EMS566057
OHS627041

# Cynnwys

**Pennod 1**

**Cyflwyniad 1**

Cyd-destun ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol 1
Y gofyniad i gynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd 2
Strwythur yr adroddiad hwn 3

**Pennod 2**
**Dull gweithredu ar gyfer HRA 4**

Camau HRA 4
Cyfraith Achosion 6
Methodoleg Sgrinio 7
Methodoleg Asesu briodol 9

**Pennod 3**
**Safleoedd Ewropeaidd yn Ynys Môn a'r cyffiniau 11**

**Pennod 4**
**Tybiaethau Asesu 13**

Difrod Ffisegol a Cholli Cynefin - ar y safle 13
Colli Cynefin yn Ffisegol – Cynefin Swyddogaethol Gysylltiedig 14
Aflonyddwch anffisegol 16
Halogiad diwenwyn 19
Llygredd aer 19
Pwysau hamdden 21
Dŵr 22
Crynodeb o dybiaethau sgrinio 24

**Pennod 5**
**Casgliad a'r Camau Nesaf 26**

**Atodiad A**
**Ffigyrau A-1**

**Atodiad B**
**Gwybodaeth am Safleoedd Ewropeaidd B-1**

# Pennod 1
## Cyflwyniad

**1.1** Mae Cyngor Sir Ynys Môn (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel 'y Cyngor') wedi comisiynu LUC i gynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) mewn perthynas â'i Gynllun Datblygu Lleol (CDLl) newydd. Ar y cam cynnar hwn yn y broses o lunio'r cynllun, mae'r Adroddiad Cwmpasu HRA hwn yn cynnwys sylwebaeth lefel uchel ar faterion y bwriedir eu hystyried yn HRA y CDLl. Wrth i'r CDLl ddatblygu, bydd fersiynau pellach o'r adroddiad HRA yn cael eu cynhyrchu a fydd yn cynnwys Sgrinio ac Asesiad Priodol lle bo angen.

**1.2** Mae dibenion yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

- Nodi pa safleoedd Ewropeaidd y gallai'r Cynllun Datblygu Lleol newydd effeithio arnynt, gan gynnwys sefydlu gwybodaeth allweddol fel bygythiadau a gwendidau, pwysau presennol ac unrhyw ryngddibyniaethau rhwng rhywogaethau a chynefinoedd; a
- Nodi cwmpas Sgrinio'r HRA a'r Asesiad Priodol dilynol os oes angen.

## Cyd-destun ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol

**1.3** Mae Cynllun Datblygu Lleol yn nodi strategaeth awdurdod cynllunio lleol ar gyfer datblygu a defnyddio tir yn ei ardal. Ar ôl ei fabwysiadu, mae'r CDLl yn sail i benderfyniadau cynllunio yn yr ardal.

### Cynllun Datblygu Lleol Ynys Môn

**1.4** Mabwysiadodd Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd y CDLl ar y Cyd presennol ym mis Gorffennaf 2017, a oedd yn nodi'r strategaeth gynllunio ar gyfer yr ardal (ac eithrio'r rhannau o Wynedd sydd ym Mharc Cenedlaethol Eryri) dros y 15 mlynedd hyd at 2026.

**1.5** I ddechrau roedd y ddau Gyngor yn bwriadu paratoi CDLl ar y Cyd newydd; fodd bynnag ym mis Mawrth 2023 penderfynwyd rhoi'r gorau i'r cytundeb cydweithio ar faterion polisi cynllunio ac mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi dechrau gweithio ar baratoi ei CDLl newydd ei hun.

**1.6** Mae'r Cyngor bellach yng nghamau cynnar paratoi'r CDLl newydd, yn dilyn ymgynghoriad ar Gytundeb Cyflawni Drafft yn ystod Haf 2024.

**1.7** Disgwylir i'r CDLl newydd gynnwys gweledigaeth ac amcanion ar gyfer ardal y cynllun, strategaeth gyffredinol ar gyfer datblygu ar Ynys Môn, dyraniadau safle ar gyfer gwahanol fathau o ddatblygiadau gan gynnwys tai a chyflogaeth, a

pholisïau ar ffurf rheoli datblygiadau ar gyfer rheoli ceisiadau a ddaw gerbron.

## Y gofyniad i gynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

**1.8** Cadarnhawyd y gofyniad i gynnal HRA ar gyfer cynlluniau datblygu gan y diwygiadau i'r Rheoliadau Cynefinoedd a gyhoeddwyd ar gyfer Cymru a Lloegr yn 20071; y fersiwn sy'n berthnasol ar hyn o bryd yw Rheoliadau Cynefinoedd 2017, fel y'u diwygiwyd2.

**1.9** Felly, wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd, mae'r gyfraith yn mynnu bod Cyngor Sir Ynys Môn yn cynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Gall y Cyngor gomisiynu ymgynghorwyr i ymgymryd â gwaith HRA ar ei ran ac mae hyn (y gwaith a ddogfennwyd yn yr adroddiad HRA) wedyn yn cael ei adrodd i'r Cyngor a'i ystyried ganddo fel yr 'awdurdod cymwys'. Bydd y Cyngor yn ystyried y gwaith hwn ac fel arfer ni fyddai'n bwrw ymlaen â chynllun oni bai ei fod o'r farn na fydd y cynllun yn cael effaith andwyol ar uniondeb3 unrhyw 'safle Ewropeaidd', fel y'i diffinnir isod (yr eithriad i hyn fyddai lle gellir dangos 'rhesymau hanfodol sef er budd cyhoeddus tra phwysig'). Mae'r gofyniad i awdurdodau gydymffurfio â'r Rheoliadau Cynefinoedd wrth baratoi Cynllun hefyd wedi'i nodi ym Mholisi Cynllunio Cymru (PCC)4.

**1.10** Mae HRA yn cyfeirio at yr asesiad o effeithiau posibl cynllun ar un neu fwy o safleoedd sydd wedi cael y lefel uchaf o ddiogelwch yn y DU: Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA). Cafodd y rhain eu dosbarthu o dan ddeddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd (UE) ond ers 1 Ionawr 2021 maent wedi'u diogelu yn y DU gan Reoliadau Cynefinoedd 2017 2 (fel y'u diwygiwyd). Er nad yw Cyfarwyddebau'r UE y deilliodd Rheoliadau Cynefinoedd y DU ohonynt yn wreiddiol yn rhwymol mwyach, mae'r Rheoliadau'n dal i gyfeirio at y rhestrau o gynefinoedd a rhywogaethau y dynodwyd y safleoedd ar eu cyfer, sydd wedi'u rhestru mewn atodiadau i Gyfarwyddebau'r UE:

- Mae Ardaloedd Cadwraeth Arbennig wedi'u dynodi ar gyfer mathau penodol o gynefinoedd (a nodir yn Atodiad 1 Cyfarwyddeb Cynefinoedd yr UE5) a rhywogaethau (Atodiad II). Y mathau o gynefinoedd a rhywogaethau rhestredig (ac eithrio adar) yw'r rhai yr ystyrir bod angen eu gwarchod fwyaf ar lefel Ewropeaidd. Cyn diwrnod ymadael â'r UE, roedd dynodi Ardaloedd Cadwraeth Arbennig hefyd yn ystyried cydlyniant rhwydwaith 'Natura 2000' o safleoedd Ewropeaidd. Ar ôl diwrnod ymadael â'r UE, rhoddir sylw i bwysigrwydd safleoedd o'r fath ar gyfer cydlyniant 'rhwydwaith safleoedd cenedlaethol' y DU.
- Mae Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig wedi'u dosbarthu ar gyfer adar prin ac agored i niwed (Atodiad I Cyfarwyddeb Adar yr UE6), ac ar gyfer rhywogaethau mudol sy'n digwydd yn rheolaidd nad ydynt wedi'u rhestru yn Atodiad I.

**1.11** Arferai'r term 'safleoedd Ewropeaidd' gael ei ddefnyddio'n gyffredin mewn HRA i gyfeirio at safleoedd 'Natura 2000'7 a safleoedd Ramsar (a ddynodwyd yn rhyngwladol o dan Gonfensiwn Ramsar).
Fodd bynnag, mae Papur Polisi'r Llywodraeth8 ar newidiadau i Reoliadau Cynefinoedd 2017 ar ôl Brexit yn datgan:

- Mae unrhyw gyfeiriadau at Natura 2000 yn Rheoliadau 2017 ac mewn canllawiau bellach yn cyfeirio at y 'rhwydwaith safleoedd cenedlaethol' newydd.
- Mae'r rhwydwaith safleoedd cenedlaethol yn cynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig presennol; ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig newydd sydd wedi'u dynodi o dan y Rheoliadau hyn.
- Nid yw Gwlypdiroedd Dynodedig o Bwysigrwydd Rhyngwladol (a elwir yn safleoedd Ramsar) yn rhan o'r rhwydwaith safleoedd cenedlaethol. Mae llawer o safleoedd Ramsar yn gorgyffwrdd ag Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig a gallant fod wedi'u dynodi ar gyfer yr un rhywogaethau a chynefinoedd neu rywogaethau a chynefinoedd gwahanol.

**1.12** Er nad yw safleoedd Ramsar yn rhan o'r rhwydwaith safleoedd cenedlaethol newydd, mae canllawiau'r Llywodraeth4 a'r canllawiau ymarfer9 yn nodi y dylid trin safleoedd Ramsar o fewn y system gynllunio yn yr un modd ag ACA ac AGA.

**1.13** Ar ben hynny, dylai safleoedd sydd wedi cael eu cynnig yn ffurfiol fel Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ond nad ydynt wedi cael eu diogelu'n gyfreithiol eto o dan y Rheoliadau Cynefinoedd, gael eu trin yn y system gynllunio yn yr un ffordd â phe baent wedi cael eu dynodi'n gyfreithiol. Dylid cymhwyso'r un ystyriaethau, fel mater o bolisi, i safleoedd Ramsar arfaethedig.4

> "Byddai unrhyw gynigion sy'n effeithio ar y safleoedd canlynol [yn ogystal ag Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig] hefyd angen HRA oherwydd bod y rhain yn cael eu gwarchod gan bolisi'r llywodraeth10:
>
> - Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Arfaethedig

1 The Conservation (Natural Habitats, &c.) (Amendment) Regulations 2007 (2007) SI No. 2007/1843. TSO (The Stationery Office), London.
2 The Conservation of Habitats and Species Regulations 2017 (2017) SI No. 2017/1012, as amended by The Conservation of Habitats and Species (Amendment) (EU Exit) Regulations 2019 (SI 2019/579).
3 Uniondeb safle yw cydlyniad ei strwythur a'i swyddogaeth ecolegol, ar draws ei ardal gyfan, sy'n ei alluogi i gynnal cynefin, cymhlethdod cynefinoedd a/neu lefelau poblogaethau'r rhywogaeth y cafodd ei ddynodi ar ei chyfer. (Ffynhonnell: UK Government Planning Practice Guidance)
4 Llywodraeth Cymru (2024) Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 12.
5 Directive 92/43/EEC of 21 May 1992 on the conservation of natural habitats and of wild fauna and flora (the 'Habitats Directive')
9 The HRA Handbook, Section A3. David Tyldesley & Associates, a subscription based online guidance document: https://www.dtapublications.co.uk/handbook/European
10 Llywodraeth Cymru (2021) Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd: Gwarchod Safle Ewropeaidd. Ar gael yn: https://www.gov.wales/habitats-regulations-assessments-protecting-european-site-html

- Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig Posibl
- Safleoedd Ramsar – gwlypdiroedd o bwysigrwydd rhyngwladol (rhai rhestredig a rhai arfaethedig)
- Ardaloedd sy'n cael eu diogelu fel safleoedd sy'n gwneud iawn am ddifrod i safle Ewropeaidd."

**1.14** Nid yw'r gofyniad deddfwriaethol ar gyfer HRA yn berthnasol i safleoedd bywyd gwyllt eraill sydd wedi'u dynodi'n genedlaethol fel Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig neu Warchodfeydd Natur Cenedlaethol.

**1.15** Er mwyn cadw pethau'n syml, mae'r adroddiad hwn yn defnyddio'r term 'safle Ewropeaidd' i gyfeirio at bob math o safle dynodedig y mae canllawiau'r Llywodraeth10 yn gofyn am HRA ar ei gyfer.

**1.16** Pwrpas cyffredinol Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yw dod i gasgliad ynghylch a fyddai cynnig neu bolisi, neu gynllun cyfan, yn cael effaith niweidiol ar uniondeb y safle Ewropeaidd dan sylw. Bernir hyn yn nhermau goblygiadau'r cynllun ar gyfer 'nodweddion cymwys' safle (h.y. y cynefinoedd Atodiad I hynny, rhywogaethau Atodiad II, a phoblogaethau adar Atodiad I y mae wedi'i ddynodi ar eu cyfer). Yn arwyddocaol, mae HRA yn seiliedig ar yr egwyddor ragofalus. Os oes ansicrwydd neu amheuaeth o hyd, dylid tybio effaith niweidiol.

## Strwythur yr adroddiad hwn

**1.17** Mae'r bennod hon wedi cyflwyno'r gofyniad i gynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o Gynllun Datblygu Lleol newydd Ynys Môn. Dyma strwythur gweddill yr adroddiad hwn:

- Mae **Pennod 2** yn disgrifio'r dull sy'n cael ei ddefnyddio mewn perthynas â'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer y CDLl newydd. Mae hefyd yn disgrifio newidiadau mewn cyfraith achosion, yn crynhoi'r prif faterion y bydd angen eu hystyried yn ystod proses yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ac yn disgrifio'r safleoedd Ewropeaidd yn Ynys Môn a'r cyffiniau y gallai'r Cynllun Datblygu Lleol newydd effeithio arnynt.
- Mae **Pennod 3** yn disgrifio'r safleoedd Ewropeaidd yn Ynys Môn a'r cyffiniau a'u prif wendidau.
- Mae **Pennod 4** yn nodi'r tybiaethau a fydd yn sail i'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ac yn archwilio pob llwybr effaith yn ei dro.
- Mae **Pennod 5** yn disgrifio'r camau nesaf a fydd yn cael eu cymryd yn HRA y Cynllun Datblygu Lleol newydd.

**1.18** Cefnogir y wybodaeth ym mhrif gorff yr adroddiad gan yr atodiadau canlynol:

- Mae **Atodiad A** yn cyflwyno map (**Ffigur A.1**) sy'n dangos y safleoedd Ewropeaidd yn Ynys Môn a'r cyffiniau a map (**Ffigur A.2**) sy'n dangos lleoliad y safleoedd Ewropeaidd hynny mewn perthynas â'r rhwydwaith ffyrdd strategol.
- Mae **Atodiad B** yn nodi gwybodaeth fanwl am y safleoedd Ewropeaidd y mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn canolbwyntio arnynt.

# Pennod 2
## Dull gweithredu ar gyfer HRA

**2.1** Yr 'awdurdod cymwys' ddylai gynnal yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, sef Cyngor Sir Ynys Môn yn yr achos hwn. Mae'r Cyngor wedi comisiynu LUC i wneud gwaith HRA ar ei ran, er y bydd hyn yn cael ei adrodd i'r Cyngor a'i ystyried ganddo fel yr awdurdod cymwys wrth ddatblygu'r Cynllun Datblygu Lleol newydd, cyn mabwysiadu'r CDLl. Mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hefyd fel arfer yn gofyn am weithio'n agos gyda Cyfoeth Naturiol Cymru fel y corff cadwraeth natur statudol11 i gael yr wybodaeth angenrheidiol, cytuno ar y broses, y canlyniadau a'r cynigion lliniaru. Pan fydd angen Asesiad Priodol ar gynllun neu brosiect, mae ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru yn ofyniad statudol.

## Camau HRA

**2.2** Cynhelir HRA cynlluniau fesul cam (fel y disgrifir isod) a dylai ddod i'r casgliad a fyddai cynnig yn cael effaith niweidiol ar uniondeb y safle Ewropeaidd dan sylw ai peidio.

**2.3** Cynhelir Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd ar bob lefel o lunio cynlluniau, gan gynnwys cynlluniau haen uwch fel cynlluniau cenedlaethol i gynlluniau lleol haen is ac ar lefel prosiect. Mae'r broses ar gyfer cynnal HRA yr un fath ar gyfer unrhyw gynllun neu brosiect. Fodd bynnag, bydd Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd a gynhelir ar gyfer cynlluniau a phrosiectau ar lefel leol yn fwy penodol i ardal neu gynnig datblygu penodol sy'n cwmpasu ardal lai nag Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o gynllun cenedlaethol. Yn ei dro, bydd Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect yn gallu bod yn fwy penodol.

**2.4** Dylai proses yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd gyfrannu at baratoi cynllun drwy geisio osgoi effeithiau niweidiol ar uniondeb safleoedd Ewropeaidd. Felly, bydd canlyniad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn helpu i benderfynu a ddylid mabwysiadu cynllun. Os penderfynir nad oes modd osgoi effeithiau niweidiol, gwneir argymhellion drwy'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd i sicrhau bod mesurau lliniaru'n cael eu cynnwys yn y polisïau yn y cynllun i sicrhau bod mesurau lliniaru priodol yn cael eu rhoi ar waith. Bydd hyn yn lleihau tebygolrwydd neu ddifrifoldeb unrhyw effaith andwyol ar safleoedd Ewropeaidd. Gallai mesurau lliniaru gynnwys y gofyniad am Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect/safle penodol ar gyfer cynigion penodol mewn cynllun.

### Gofynion y Rheoliadau Cynefinoedd

**2.5** Wrth asesu effeithiau cynllun yn unol â Rheoliad 105 Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd) (y 'Rheoliadau Cynefinoedd'),

[11] Regulation 5 of the Habitats Regulations 2017.

mae dau brawf posibl i'w defnyddio gan yr awdurdod cymwys: 'Prawf Arwyddocâd', wedi'i ddilyn os oes angen, gan Asesiad Priodol a fyddai'n sail i'r 'Prawf Uniondeb'. Mae'r dilyniant perthnasol o gwestiynau fel a ganlyn:

- Cam 1: O dan Reoliad 105(1)(b), ystyriwch a yw'r cynllun yn uniongyrchol gysylltiedig â rheoli'r safleoedd neu'n angenrheidiol iddynt. Os nad, ewch ymlaen i Gam 2.
- Cam 2: O dan Reoliad 105(1)(a) ystyriwch a yw'r cynllun yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar safle Ewropeaidd, naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill (y 'Prawf Arwyddocâd'). Os ydyw, ewch ymlaen i Gam 3.

**2.6** [Mae camau 1 a 2 yn cael eu cynnal fel rhan o Gam 1: Sgrinio HRA, a ddangosir yn **Nhabl 2.1** isod.]

- Cam 3: O dan Reoliad 105(1), gwnewch Asesiad Priodol o'r goblygiadau i'r safle Ewropeaidd yng ngoleuni ei amcanion cadwraeth presennol (y 'Prawf Uniondeb). Wrth wneud hynny, mae'n orfodol o dan Reoliad 105(2) i ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru, ac mae'n ddewisol o dan Reoliad 105(3) i ystyried barn y cyhoedd.

**2.7** [Cymerir y cam hwn yn ystod Cam 2: Asesiad Priodol, a ddangosir yn **Nhabl 2.1.**]

- Cam 4: Yn unol â Rheoliad 105(4), ond yn ddarostyngedig i Reoliad 107, dim ond ar ôl canfod na fyddai'r cynllun yn effeithio'n niweidiol ar uniondeb safle Ewropeaidd y dylid rhoi effaith i'r cynllun.

**2.8** [Mae'r cam hwn yn dilyn Cam 2 lle deuir i gasgliad 'dim effaith niweidiol'. Os na ellir gwneud hynny, mae'n mynd ymlaen i Gam 5 fel Cam 3 y broses HRA]

- Cam 5: O dan Reoliad 107, os nad yw Cam 4 yn gallu diystyru effeithiau niweidiol ar uniondeb safle Ewropeaidd ac nad oes atebion amgen yn bodoli, yna gall yr awdurdod cymwys, serch hynny, gytuno i'r cynllun neu'r prosiect os oes rhaid ei gyflawni am 'resymau hanfodol sef er budd cyhoeddus tra phwysig' (IROPI).

**2.9** [Cymerir y cam hwn yn ystod Cam 3: Asesiad lle nad oes dewisiadau eraill ar gael a lle mae effeithiau niweidiol yn parhau, gan ystyried y mesurau lliniaru a ddangosir yn **Nhabl 2.1**]

### Camau nodweddiadol

**2.10** Mae **Tabl 2.1** yn crynhoi'r camau a'r tasgau a'r canlyniadau cysylltiedig sydd fel arfer yn gysylltiedig â chynnal HRA llawn ar gyfer cynllun, yn seiliedig ar amrywiol ddogfennau cyfarwyddyd12,13, 14.

**Tabl 2.1: Camau HRA**

| Cam | Tasg | Canlyniad |
|---|---|---|
| **Cam 1:**<br>Sgrinio HRA | Disgrifiad o'r cynllun a chadarnhad nad yw'n uniongyrchol gysylltiedig â rheoli safleoedd Ewropeaidd nac yn angenrheidiol ar gyfer hynny.<br>Nodi safleoedd Ewropeaidd a allai gael eu heffeithio a'u hamcanion cadwraeth15.<br>Asesiad o effeithiau arwyddocaol tebygol y cynllun ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynlluniau a phrosiectau eraill, cyn ystyried mesurau osgoi neu leihau ('lliniaru')16. | Lle mae effeithiau'n annhebygol, paratoi 'adroddiad canfod dim effaith arwyddocaol'.<br>Lle bernir bod effeithiau'n debygol, neu pan fo diffyg gwybodaeth i brofi fel arall, ewch ymlaen i Gam 2. |
| **Cam 2:** | Casglu gwybodaeth (cynllun a Safleoedd Ewropeaidd17).<br>Rhagfynegi effaith. | Adroddiad Asesiad Priodol yn disgrifio'r cynllun, amodau gwaelodlin y safle Ewropeaidd, effeithiau niweidiol y cynllun ar y safle Ewropeaidd, sut bydd yr effeithiau hyn yn cael eu hosgoi neu eu lleihau, gan gynnwys y mecanweithiau a'r amserlen ar gyfer y mesurau lliniaru hyn. |

[12] Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009) Polisi Cynllunio Cymru, Nodyn Cyngor Technegol, 5. Cynllunio a Chadwraeth Natur, ar gael yn https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-09/tan5-nature-conservation.pdf
[13] European Commission (2001) Assessment of plans and projects significantly affecting European Sites. Methodological guidance on the provisions of Article 6(3) and (4) of the Habitats Directive 92/43/EEC.
[14] The HRA Handbook. David Tyldesley & Associates, a subscription based online guidance document: https://www.dtapublications.co.uk/handbook/European
[15] .Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyhoeddi amcanion cadwraeth ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig – sydd wedi'u lleoli yn y Cynlluniau Rheoli Craidd
[16] Yn unol â dyfarniad CJEU yn Achos C-323/17 People Over Wind v Coillte Teoranta, dim ond ar y cam hwn y dylid ystyried lliniaru ac nid yn ystod Cam 1: Sgrinio HRA.
[17] Yn ogystal â dyfyniadau o safleoedd Ewropeaidd ac amcanion cadwraeth, mae ffynonellau gwybodaeth allweddol ar gyfer deall ffactorau sy'n cyfrannu at uniondeb safleoedd Ewropeaidd yn cynnwys (lle maent ar gael): Cynlluniau Rheoli Craidd (a baratowyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru).

| Cam | Tasg | Canlyniad |
|---|---|---|
| Asesiad Priodol (lle nad yw Cam 1 yn diystyru effeithiau arwyddocaol tebygol) | Gwerthuso effeithiau'r cynllun yng ngoleuni amcanion cadwraeth safleoedd Ewropeaidd.<br><br>Pan ystyrir bod effeithiau'n effeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar nodweddion cymwys safleoedd Ewropeaidd, nodwch sut bydd yr effeithiau hyn yn cael eu hosgoi neu eu lleihau ('lliniaru'). | bydd yr effeithiau hyn yn cael eu hosgoi neu eu lleihau, gan gynnwys y mecanweithiau a'r amserlen ar gyfer y mesurau lliniaru hyn.<br><br>Os bydd yr effeithiau'n parhau ar ôl ystyried yr holl opsiynau eraill a'r mesurau lliniaru, symudwch ymlaen i Gam 3. |
| **Cam 3:**<br><br>Asesiad lle nad oes dewisiadau eraill ar gael a lle mae effeithiau niweidiol yn parhau, gan ystyried y mesurau lliniaru | Nodi 'rhesymau hanfodol sef er budd cyhoeddus tra phwysig' (IROPI).<br><br>Dangos nad oes dewisiadau eraill ar gael.<br><br>Nodi mesurau digolledu posibl. | Dylid osgoi'r cam hwn os oes modd. Mae'r prawf IROPI a'r gofynion ar gyfer digolledu yn feichus dros ben. |

**2.11** Fel arfer, rhagwelir y bydd pwyslais ar Gamau 1 a 2 y broses hon, drwy gyfres o iteriadau, yn helpu i sicrhau bod effeithiau niweidiol posibl yn cael eu nodi a'u dileu drwy gynnwys mesurau lliniaru sydd wedi'u dylunio i osgoi neu leihau effeithiau. Gallai'r angen i ystyried opsiynau eraill awgrymu newidiadau mwy beichus i ddogfen cynllun. Deellir yn gyffredinol mai dim ond yn achlysurol iawn y gellir cyfiawnhau'r hyn a elwir yn 'resymau hanfodol sef er budd cyhoeddus tra phwysig' (IROPI) ac y byddent yn cynnwys ymgysylltu â'r Llywodraeth.

## Cyfraith achosion

**2.12** Bydd y HRA hwn yn cael ei baratoi yn unol â chanfyddiadau cyfraith achosion perthnasol, gan gynnwys yn fwyaf arbennig dyfarniadau 'People over Wind' a 'Holohan' gan Lys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd (CJEU).

**2.13** Dyfarnodd dyfarniad *People over Wind, Peter Sweetman v Coillte Teoranta* (Ebrill 2018) y dylid dehongli Erthygl 6(3) y Gyfarwyddeb Cynefinoedd fel rhywbeth sy'n golygu y dylid asesu mesurau lliniaru fel rhan o Asesiad Priodol ac na ddylid eu hystyried yn y cam Sgrinio. Dyma union eiriad y dyfarniad:

> "Article 6(3) ………must be interpreted as meaning that, in order to determine whether it is necessary to carry out, subsequently, an appropriate assessment of the implications, for a site concerned, of a plan or project, it is not appropriate, at the Screening stage, to take account of measures intended to avoid or reduce the harmful effects of the plan or project on that site.

**2.14** Yng ngoleuni'r uchod, ni fydd cam Sgrinio'r HRA yn dibynnu ar fesurau osgoi na lliniaru i ddod i gasgliadau ynghylch a allai'r Cynllun Datblygu Lleol newydd arwain at effeithiau arwyddocaol tebygol ar safleoedd Ewropeaidd, gydag unrhyw fesurau o'r fath yn cael eu hystyried yn y cam Asesu Priodol fel sy'n berthnasol.

conclusions as to whether the new Local Development Plan could result in likely significant effects on European sites, with any such measures being considered at the Appropriate Assessment stage as relevant.

**2.15** Bydd yr HRA hwn hefyd yn ystyried dyfarniad *Holohan v An Bord Pleanala* yn llawn (Tachwedd 2018) a oedd yn datgan:

> "Article 6(3) of Council Directive 92/43/EEC of 21 May 1992 on the conservation of natural habitats and of wild fauna and flora must be interpreted as meaning that an 'appropriate assessment' must, on the one hand, catalogue the entirety of habitat types and species for which a site is protected, and, on the other, identify and examine both the implications of the proposed project for the species present on that site, and for which that site has not been listed, and the implications for habitat types and species to be found outside the boundaries of that site, provided that those implications are liable to affect the conservation objectives of the site."

**2.16** Wrth gynnal yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, bydd LUC yn ystyried yn llawn y posibilrwydd y bydd effeithiau ar rywogaethau a chynefinoedd, gan gynnwys y rheini nad ydynt wedi'u rhestru fel nodweddion cymwys, yn arwain at effeithiau eilaidd ar nodweddion cymwys safleoedd Ewropeaidd, gan gynnwys y posibilrwydd o ryngweithiadau a dibyniaethau cymhleth. Hefyd, bydd yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hwn yn ystyried yn llawn y posibilrwydd o effeithiau oddi ar y safle, fel effeithiau ar dir sydd â chysylltiad swyddogaethol, a/neu rywogaethau a chynefinoedd sydd y tu hwnt i ffiniau'r safle Ewropeaidd, ond a allai fod yn bwysig o ran cefnogi prosesau ecolegol y nodweddion cymwys.

**2.17** Yn ogystal â hyn, bydd yr HRAs yn ystyried dyfarniad 'Wealden' gan CJEU.

**2.18** Dyfarnodd *Wealden District Council v Secretary of State for Communities and Local Government, Lewes District Council and South Downs National Park Authority* (2017) nad oedd yn briodol cwmpasu'r angen am asesiad manwl ar gyfer cynllun neu brosiect unigol yn seiliedig ar y ffigurau traffig dyddiol cyfartalog blynyddol (AADT) a nodir yn y Llawlyfr Dylunio ar gyfer Ffyrdd a Phontydd na'r llwythi critigol a ddefnyddir gan Defra neu Asiantaeth yr Amgylchedd heb ystyried yr effeithiau ar y cyd â chynlluniau a phrosiectau eraill.

**2.19** Yng ngoleuni'r dyfarniad hwn, bydd yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd felly'n ystyried twf traffig ar sail effeithiau datblygiadau o'r Cynllun Datblygu Lleol newydd ar y cyd ag ysgogwyr twf eraill fel datblygiadau arfaethedig mewn ardaloedd cyfagos a newid demograffig.

**2.20** Bydd y HRA hefyd yn ystyried dyfarniad *Grace and Sweetman* (Gorffennaf 2018) gan CJEU a nododd:

> ""there is a distinction to be drawn between protective measures forming part of a project and intended avoid or reduce any direct adverse effects that may be caused by the project in order to ensure that the project does not adversely affect the integrity of the area, which are covered by Article 6(3), and measures which, in accordance with Article 6(4), are aimed at compensating for the negative effects of the project on a protected area and cannot be taken into account in the assessment of the implications of the project."
>
> "As a general rule, any positive effects of the future creation of a new habitat, which is aimed at compensating for the loss of area and quality of that habitat type in a protected area, are highly difficult to forecast with any degree of certainty or will be visible only in the future."
>
> "A mitigation strategy may only be taken into account at AA (a.6(3)) where the competent authority is "sufficiently certain that a measure will make an effective contribution to avoiding harm, guaranteeing beyond all reasonable doubt that the project will not adversely affect the integrity of the area."
>
> "Otherwise, it falls to be considered to be a compensatory measure to be considered under a.6(4) only where there are imperative reasons of overriding public interest."

**2.21** Felly, ni fydd yr Asesiad Priodol o'r Cynllun Datblygu Lleol ond yn ystyried bodolaeth mesurau i osgoi neu leihau eu heffeithiau niweidiol uniongyrchol (lliniaru) os yw manteision disgwyliedig y mesurau hynny y tu hwnt i amheuaeth resymol ar adeg yr asesiad.

## Methodoleg Sgrinio

**2.22** Bydd gwaith Sgrinio HRA ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol newydd yn cael ei wneud yn unol â'r canllawiau sydd ar gael ar hyn o bryd ac yn ceisio bodloni gofynion y Rheoliadau Cynefinoedd.

**2.23** Pwrpas y cam Sgrinio yw:

- Nodi pob agwedd ar y cynllun na fyddai'n cael unrhyw effaith ar safle Ewropeaidd, fel y gellir eu dileu o ystyriaeth bellach mewn perthynas â'r cynllun hwn a chynlluniau eraill.
- Nodi pob agwedd ar y cynllun na fyddai'n debygol o gael effaith sylweddol ar safle Ewropeaidd (h.y. a fyddai'n cael rhywfaint o effaith, oherwydd cysylltiadau/cysylltedd, ond nad ydynt yn arwyddocaol), naill ai ar eu pen eu hunain neu ar y cyd ag agweddau eraill ar yr un cynllun neu gynlluniau neu brosiectau eraill, nad oes felly angen 'asesiad priodol' arnynt.
- Nodi'r agweddau hynny ar y cynllun lle nad yw'n bosibl diystyru'r risg o effeithiau arwyddocaol ar safle Ewropeaidd, naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill. Mae hyn yn rhoi cwmpas clir ar gyfer y rhannau o'r cynllun y bydd angen eu hasesu'n briodol.

### Nodi safleoedd Ewropeaidd y gallai'r Cynllun Datblygu Lleol newydd effeithio arnynt

**2.24** Er mwyn dechrau chwilio am safleoedd Ewropeaidd y gallai'r CDLl effeithio arnynt, mae'n arfer sefydledig mewn Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd i ystyried safleoedd Ewropeaidd yn ardal yr awdurdod cynllunio lleol sy'n dod o dan gynllun, a hefyd o fewn pellter clustogi o ffin ardal y cynllun.

**2.25** Mae pellter o 15km o ffin Ynys Môn wedi cael ei ddefnyddio fel man cychwyn i nodi safleoedd Ewropeaidd y gallai effeithiau sy'n ymwneud â'r CDLl effeithio arnynt. Mae defnyddio'r pellter hwn yn arfer cyffredin mewn HRAs cynlluniau.

### Asesiad o 'effaith arwyddocaol debygol'

**2.26** Fel sy'n ofynnol o dan Reoliad 105 Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (SI 2017/1012), fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygiad) (Ymadael â'r UE) 2019 (SI 2019/579), cynhelir asesiad o 'effeithiau arwyddocaol tebygol' y dulliau polisi a nodir yn y Cynllun Datblygu Lleol newydd. Bydd yr asesiad yn cael ei gynnal i ganfod pa bolisïau fyddai'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar safleoedd Ewropeaidd ar Ynys Môn (+15km). Bydd angen ailadrodd yr asesiad hwn gyda phob iteriad o'r HRA. Bydd yr asesiad Sgrinio yn cael ei gynnal heb ystyried mesurau lliniaru yn unol â dyfarniad 'People over Wind'.

**2.27** Rhoddir ystyriaeth i'r potensial i'r datblygiad arfaethedig fel rhan o'r cynlluniau arwain at effeithiau arwyddocaol sy'n gysylltiedig â'r canlynol:

- Colli neu ddifrodi cynefin yn ffisegol;
- Aflonyddwch nad yw'n ffisegol (llygredd sŵn, dirgrynu a golau);
- Halogiad diwenwyn;
- Llygredd aer;
- Pwysau hamdden; a
- Newidiadau i hydroleg, gan gynnwys swm ac ansawdd dŵr.

**2.28** Bydd y dull thematig/categori effaith hwn yn caniatáu ystyried effeithiau cronnus y cynllun yn hytrach na chanolbwyntio'n unig ar ddatblygiadau unigol y darperir ar eu cyfer gan y Cynllun Datblygu Lleol newydd.

**2.29** Bydd dull seiliedig ar risg sy'n cynnwys defnyddio'r egwyddor ragofalus yn cael ei fabwysiadu yn yr asesiad, fel mai dim ond pan ystyrir ei bod yn annhebygol iawn, ar sail y wybodaeth gyfredol a'r wybodaeth sydd ar gael, y byddai cynnig yn y cynllun dan sylw yn cael effaith arwyddocaol ar uniondeb safle Ewropeaidd, y deuir i gasgliad 'dim effaith arwyddocaol'.

**2.30** Ar gyfer rhai mathau o effeithiau, gellir pennu'r posibilrwydd o effeithiau arwyddocaol tebygol ar sail agosrwydd. Mae'r Adroddiad Cwmpasu hwn yn nodi'r safleoedd Ewropeaidd y gallai'r CDLl effeithio arnynt ac yn ystyried y mathau o effeithiau a allai fod yn berthnasol i lwybrau effaith posibl y cynllun i safleoedd Ewropeaidd. Manylir ar hyn ym **Mhennod 4**.

### Dehongliad o 'effaith arwyddocaol debygol'

**2.31** Mae cyfraith achosion berthnasol yn helpu i ddehongli pryd y dylid ystyried bod effeithiau'n debygol o arwain at effaith arwyddocaol, wrth gynnal HRA ar gyfer Cynllun.

**2.32** Yn achos Waddenzee[18], dyfarnodd Llys Cyfiawnder Ewrop ar ddehongliad Erthygl 6(3) y Gyfarwyddeb Cynefinoedd (wedi'i throsi i Reoliad 102 yn y Rheoliadau Cynefinoedd), gan gynnwys:

- Dylid ystyried effaith yn 'debygol', "if it cannot be excluded, on the basis of objective information, that it will have a significant effect on the site" (para 44).
- Dylid ystyried bod effaith yn 'arwyddocaol', "if it undermines the conservation objectives" (para 48).
- Pan fydd cynllun neu brosiect yn cael effaith ar safle "but is not likely to undermine its conservation objectives, it cannot be considered likely to have a significant effect on the site concerned" (para 47).

**2.33** Dyma farn a gyflwynwyd i Lys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd19:

> "The requirement that an effect in question be 'significant' exists in order to lay down a de minimis threshold. Plans or projects that have no appreciable effect on the site are thereby excluded. If all plans or projects capable of having any effect whatsoever on the site were to be caught by Article 6(3), activities on or near the site would risk being impossible by reason of legislative overkill."

**2.34** Mae'r farn hon (achos 'Sweetman') felly'n caniatáu awdurdodi cynlluniau a phrosiectau y gellir ystyried bod eu heffeithiau posibl, ar eu pen eu hunain neu gyda'i gilydd, yn 'ddibwys' neu'n de minimis; gan gyfeirio at achosion fel y rhai "nad ydynt yn cael unrhyw effaith sylweddol ar y safle". Yn ymarferol, gellid sgrinio effeithiau o'r fath fel rhai nad ydynt yn debygol o gael unrhyw effaith arwyddocaol; byddent yn 'ansylweddol'.

**2.35** Felly, bydd asesiad Sgrinio HRA yn ystyried a allai CDLl Ynys Môn gael effeithiau arwyddocaol tebygol naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd.

### Mesurau lliniaru a ddarperir gan y Cynllun Datblygu Lleol newydd

**2.36** Gellid lliniaru rhai o effeithiau posibl y cynlluniau drwy weithredu polisïau eraill yn y cynllun ei hun. Er enghraifft, gallai darparu seilwaith gwyrdd mewn datblygiadau newydd sydd wedi'u dyrannu yn y CDLl helpu i liniaru'r pwysau cynyddol o weithgareddau hamdden ar safleoedd Ewropeaidd. Serch hynny, yn unol â dyfarniad 'People over Wind', ni ellir dibynnu ar fesurau osgoi a lliniaru ar y cam Sgrinio, ac felly, lle mae mesurau o'r fath yn bodoli, byddant yn cael eu hystyried yn y cam Asesu Priodol ar gyfer effeithiau a pholisïau lle na ellid diystyru effeithiau arwyddocaol tebygol, naill ai ar eu pen eu hunain neu ar y cyd.

### Asesiad o'r effeithiau cyfunol posibl

**2.37** Mae Rheoliad 105 Rheoliadau Cynefinoedd 2017 yn mynnu Asesiad Priodol lle mae "cynllun defnydd tir yn debygol o gael effaith sylweddol ar safle Ewropeaidd (naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill) ac nad yw'n uniongyrchol gysylltiedig â rheoli'r safle nac yn angenrheidiol ar gyfer hynny".

[18] European Court of Justice in Case C-127/02 Landelijke Vereniging tot Behoud van de Waddenzee

[19] Advocate General's Opinion to CJEU in Case C-258/11 Sweetman and others v An Bord Pleanala 22nd Nov 2012.

Felly, bydd angen ystyried a allai unrhyw effeithiau a nodir yn y CDLl gyfuno â chynlluniau neu brosiectau eraill i arwain at effeithiau arwyddocaol ar y cyd.

**2.38** Lle mae'r CDLl yn debygol o gael effaith ar ei ben ei hun e.e. oherwydd llygredd dŵr (oherwydd bod llwybrau effaith yn bresennol), ond nad yw'n debygol o fod yn arwyddocaol, bydd angen i'r asesiad ar y cyd yn ystod y cam Sgrinio benderfynu a oes hefyd yr un mathau o effaith yn deillio o gynlluniau neu brosiectau eraill a allai gyfuno â'r cynllun er mwyn cael effaith arwyddocaol. Os felly, byddai angen ystyried yr effaith arwyddocaol debygol hon (e.e. llygredd dŵr) sy'n codi ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill, drwy'r cam Asesu Priodol (er enghraifft, i benderfynu a fyddai llygredd dŵr yn cael effaith niweidiol ar uniondeb y safle Ewropeaidd perthnasol). Pan fydd yr asesiad Sgrinio wedi dod i'r casgliad nad oes llwybr effaith rhwng datblygiad y gellid ei gynnig yn y CDLl a'r amodau sy'n angenrheidiol i gynnal nodweddion cymwys safle Ewropeaidd, yna ni fydd unrhyw effeithiau ar y cyd i'w hasesu yn y cam Sgrinio nac Asesiad Priodol. Mae'r dull hwn yn cyd-fynd â chanllawiau diweddar ar HRA[20].

**2.39** Bydd y potensial ar gyfer effeithiau cyfunol yn canolbwyntio ar gynlluniau a baratowyd gan awdurdodau lleol sy'n gorgyffwrdd â safleoedd Ewropeaidd sydd o fewn cwmpas yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Bydd canfyddiadau unrhyw waith HRA cysylltiedig ar gyfer y cynlluniau hynny'n cael eu hadolygu pan fyddant ar gael. Lle bo'n berthnasol, bydd unrhyw brosiectau strategol yn yr ardal a allai gael effeithiau ar y cyd â'r cynlluniau hefyd yn cael eu nodi a'u hadolygu. Bydd hyn yn cynnwys adolygiad o Brosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol fel y nodir ar wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol.

**2.40** Mae'r Llawlyfr HRA ar-lein yn awgrymu y gallai'r cynlluniau a'r prosiectau canlynol fod yn berthnasol i'w hystyried fel rhan o'r asesiad ar y cyd:

- Ceisiadau a gyflwynwyd ond na phenderfynwyd arnynt eto, gan gynnwys gwrthodiadau sy'n destun apêl neu her gyfreithiol sy'n disgwyl sylw.
- Prosiectau sy'n cael eu hadolygu'n gyfnodol e.e. trwyddedau blynyddol, yn ystod y cyfnod y mae eu hadnewyddu'n cael ei hystyried.
- Prosiectau wedi'u hawdurdodi ond heb eu dechrau eto.
- Prosiectau a ddechreuwyd ond heb eu cwblhau eto;
- Prosiectau hysbys nad oes angen awdurdodiad allanol ar eu cyfer.
- Cynigion mewn cynlluniau sydd wedi'u mabwysiadu.
- Cynigion mewn cynlluniau drafft a gyhoeddir yn ffurfiol neu a gyflwynir ar gyfer ymgynghori, archwilio neu fabwysiadu terfynol.

**2.41** Mae'r angen am asesu cyfunol hefyd yn codi yn y cam Asesiad Priodol, fel y trafodir yn yr adran isod.

## Methodoleg Asesiad Priodol

**2.42** Yn dilyn y cam Sgrinio, os nad oes modd diystyru effeithiau arwyddocaol tebygol ar safleoedd Ewropeaidd, mae'n ofynnol i'r awdurdod sy'n llunio cynlluniau, o dan Reoliad 105 Rheoliadau Cynefinoedd 2017, wneud 'Asesiad Priodol' o oblygiadau'r cynllun i safleoedd Ewropeaidd, yng ngoleuni eu hamcanion cadwraeth. Mae Canllawiau'r Comisiwn Ewropeaidd yn datgan y dylai'r Asesiad Priodol ystyried effeithiau'r cynllun (naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â phrosiectau neu gynlluniau eraill) ar uniondeb safleoedd Ewropeaidd mewn perthynas â'u hamcanion cadwraeth ac ar eu strwythur a'u swyddogaeth.

### Asesu'r effeithiau ar uniondeb y safle

**2.43** Mae uniondeb safle'n dibynnu ar ei allu i gynnal ei 'nodweddion cymwys' (h.y. y cynefinoedd Atodiad 1, rhywogaethau Atodiad II, a phoblogaethau adar Atodiad 1 y mae wedi'i ddynodi ar eu cyfer) a sicrhau eu bod yn parhau i fod yn hyfyw. Ystyrir bod lefel uchel o uniondeb yn bodoli lle mae'r potensial i gyflawni amcanion cadwraeth safle'n cael ei wireddu a lle mae'r safle'n gallu atgyweirio ac adnewyddu ei hun gyda chyn lleied â phosibl o gymorth rheoli allanol.

**2.44** Mae angen dod i gasgliad ynghylch a fyddai'r Cynllun Datblygu Lleol newydd yn cael effaith niweidiol ar uniondeb safle Ewropeaidd. Fel y nodir yng Nghanllawiau'r Comisiwn Ewropeaidd, mae asesu'r effeithiau ar uniondeb safle(oedd) yn golygu ystyried a oes gan effeithiau disgwyliedig polisïau'r cynllun (naill ai ar eu pen eu hunain neu ar y cyd) y potensial i wneud y canlynol:

- Achosi oedi o ran cyflawni amcanion cadwraeth ar gyfer y safle.
- Amharu ar gynnydd tuag at gyflawni amcanion cadwraeth ar gyfer y safle.
- Amharu ar y ffactorau hynny sy'n helpu i gynnal amodau ffafriol y safle.
- Ymyrryd â chydbwysedd, dosbarthiad a dwysedd rhywogaethau allweddol sy'n ddangosyddion o gyflwr ffafriol y safle.
- Achosi newidiadau i'r agweddau diffiniol hanfodol (e.e. cydbwysedd maethynnau) sy'n pennu sut mae'r safle'n gweithredu fel cynefin neu ecosystem.

---

[20] Ar gael yn - The HRA Handbook. David Tyldesley & Associates, dogfen canllawiau ar-lein sy'n seiliedig ar danysgrifiad

- Newid deinameg perthnasoedd sy'n diffinio strwythur neu swyddogaeth y safle (e.e. y berthynas rhwng pridd a dŵr, neu anifeiliaid a phlanhigion).
- Ymyrryd â newidiadau naturiol a ragwelir i'r safle.
- Lleihau hyd a lled cynefinoedd allweddol neu boblogaeth rhywogaethau allweddol.
- Lleihau amrywiaeth y safle.
- Arwain at aflonyddwch a allai effeithio ar niferoedd, dwysedd neu'r cydbwysedd rhwng rhywogaethau allweddol.
- Arwain at ddarnio.
- Arwain at golli nodweddion allweddol.

**2.45** Amcanion cadwraeth pob safle Ewropeaidd (**Atodiad B**) yn gyffredinol yw cynnal cyflwr ffafriol y nodweddion cymwys. Mae'r Ffurflenni Data Safonol, y Cynlluniau Rheoli Craidd ac, os yw'n berthnasol, y Daflen Wybodaeth am Wlypdiroedd Ramsar (RIS) ar gyfer pob safle Ewropeaidd yn darparu
trosolwg lefel uchel o'r materion (cyfredol a disgwyliedig) sy'n effeithio ar gyflwr y nodweddion Ewropeaidd ar y safle(oedd) ac yn amlinellu'r mesurau blaenoriaeth sydd eu hangen i wella cyflwr y nodweddion. Defnyddiwyd y rhain i helpu i ddeall beth sydd ei angen i gynnal uniondeb y safleoedd Ewropeaidd.

**2.46** Ar gyfer pob safle Ewropeaidd lle nodir effaith arwyddocaol ansicr neu debygol mewn perthynas â'r CDLl, bydd yr effeithiau posibl yn cael eu nodi a bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud (ar sail y wybodaeth sydd ar gael) ynghylch a fydd yr effaith yn cael effaith niweidiol ar uniondeb y safle.
Rhoddir ystyriaeth i'r posibilrwydd o roi mesurau lliniaru ar waith a allai leihau tebygolrwydd neu ddifrifoldeb yr effeithiau posibl fel na fyddai effaith niweidiol ar uniondeb y safle.

# Pennod 3

## Safleoedd Ewropeaidd yn Ynys Môn a'r cyffiniau

**3.1** Mae data Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) wedi cael ei ddefnyddio i fapio lleoliadau a ffiniau safleoedd Ewropeaidd yn ac o fewn 15km i ffin Ynys Môn (**Ffigur A.1, Atodiad A**), gan ddefnyddio data sydd ar gael i'r cyhoedd gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae pob safle Ewropeaidd sy'n rhannol neu'n gyfan gwbl o fewn 15km wedi cael ei gynnwys. Yn gyffredinol, ystyrir bod pellter o 15km yn briodol ar gyfer nodi llwybrau effaith posibl. Gellir cynnwys safleoedd Ewropeaidd y tu hwnt i 15km os ydynt yn rhannu cysylltedd ecolegol swyddogaethol ag ardal y cynllun, er enghraifft drwy systemau afonydd. Fodd bynnag, yn yr achos hwn, nid oes unrhyw safleoedd Ewropeaidd y tu hwnt i 15km o Ynys Môn wedi cael eu cwmpasu ar gyfer asesiad pellach gan nad oes llwybrau posibl y gallai'r Cynllun Datblygu Lleol newydd effeithio arnynt.

**3.2** Mae safleoedd Ewropeaidd sydd o fewn cwmpas Ynys Môn neu o fewn 15km wedi'u rhestru yn **Nhabl 3.1** isod. Ceir gwybodaeth fanwl am bob safle yn **Atodiad B**.

**Tabl 3.1 Safleoedd Ewropeaidd ar Ynys Môn ac o fewn 15km i'r ardal**

| Safle Ewropeaidd | Pellter Agosaf / Cyfeiriad o Ynys Môn |
|---|---|
| Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA): | |
| Llyn Dinam | O fewn ffin Ynys Môn |
| Bae Cemlyn | O fewn ffin Ynys Môn |
| Corsydd Môn | O fewn ffin Ynys Môn |
| Y Twyni o Abermenai i Aberffraw | O fewn ffin Ynys Môn |
| Y Fenai a Bae Conwy | O fewn ffin Ynys Môn |
| Glannau Ynys Gybi | O fewn ffin Ynys Môn |
| Arfordir Ynys Môn: Morfa heli Glannau Môn: Cors Heli | O fewn ffin Ynys Môn |
| Glan-traeth | O fewn ffin Ynys Môn |

| Safle Ewropeaidd | Pellter Agosaf / Cyfeiriad o Ynys Môn |
|---|---|
| Gogledd Môn Forol | O fewn ffin Ynys Môn |
| Afon Gwyrfai a Llyn Cwellyn | 2.4km i'r de ddwyrain |
| Glynllifon | 5.3km i'r de |
| Coedydd Aber | 5.8km i'r dwyrain |
| Eryri | 5.8km i'r dwyrain |
| Pen y Gogarth | 9.4km i'r dwyrain |
| Corsydd Eifionydd | 9.7km i'r de |
| Coed Penrhyn Creuddyn Coedwigoedd Penrhyn Creuddyn | 14km i'r dwyrain |
| Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) | |
| Glannau Ynys Gybi | O fewn ffin Ynys Môn |
| Ynys Seiriol | O fewn ffin Ynys Môn |
| Môr-wenoliaid Ynys Môn | O fewn ffin Ynys Môn |
| Bae Lerpwl | O fewn ffin Ynys Môn |
| Traeth Lafan | 0.2km i'r dwyrain |
| **Safleoedd Ramsar** | |
| Corsydd Môn a Llŷn | O fewn ffin Ynys Môn |
| Llyn Idwal | 14.5km i'r de ddwyrain |

**3.3** Disgrifiwyd priodoleddau'r safleoedd Ewropeaidd hyn sy'n cyfrannu at eu huniondeb ac yn ei ddiffinio yn **Atodiad B**. Wrth wneud hynny, cyfeiriwyd at y Ffurflenni Data Safonol a gyhoeddwyd ar wefan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC),[21] Cynlluniau Rheoli Craidd gan gynnwys Amcanion Cadwraeth a gyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac, os yw'n berthnasol, Taflen Wybodaeth ar Wlypdiroedd Ramsar. Mae'r dadansoddiad hwn yn galluogi i nodweddion o ddiddordeb mewn safleoedd Ewropeaidd gael eu nodi, ynghyd â nodweddion pob safle sy'n pennu uniondeb y safle a sensitifrwydd penodol y safle. Bydd yr wybodaeth hon yn ein galluogi i ddadansoddi sut gallai effeithiau posibl y CDLl newydd effeithio ar uniondeb pob safle.

[21] Ar gael yn: https://jncc.gov.uk/our-work/ramsar-sites/

# Pennod 4
# Tybiaethau Asesu

**4.1** Ar gyfer llawer o'r effeithiau eang a allai ddeillio o'r Cynllun Datblygu Lleol newydd, bydd y potensial ar gyfer effeithiau arwyddocaol yn cael ei bennu yn ôl lleoliad, gan ddefnyddio data GIS i bennu pa mor agos yw lleoliadau datblygu posibl i'r safleoedd Ewropeaidd sy'n destun yr asesiad.

**4.2** Fodd bynnag, mae llawer o ansicrwydd yn gysylltiedig â defnyddio pellteroedd penodol gan mai ychydig iawn o safonau sydd ar gael fel canllaw ynghylch pa mor bell y bydd effeithiau'n teithio. Felly, bydd nifer o dybiaethau'n cael eu defnyddio mewn perthynas ag asesu'r effeithiau posibl ar safleoedd Ewropeaidd a allai ddeillio o'r CDLl, fel y disgrifir isod.

**4.3** Gellir nodi mathau eraill o effeithiau posibl yn ystod y broses HRA. Os felly, bydd unrhyw dybiaethau y seilir yr asesiad o'r effeithiau hynny arnynt yn cael eu nodi yn yr adroddiadau HRA llawn.

## Difrod Ffisegol a Cholli Cynefin - ar y safle

**4.4** Byddai unrhyw ddatblygiad a fyddai'n deillio o'r Cynllun Datblygu Lleol newydd yn digwydd ar Ynys Môn. Felly, dim ond safleoedd Ewropeaidd o fewn ffin weinyddol y Cyngor allai gael eu heffeithio gan ddifrod ffisegol neu golli cynefin o fewn ffiniau'r safle Ewropeaidd o ganlyniad i'r cynllun. Mae'r safleoedd Ewropeaidd canlynol o fewn ffin Ynys Môn ac felly gallai effeithiau o ganlyniad i ddifrod ffisegol a/neu golli cynefinoedd ar y safle ddeillio o'r CDLl:

- ACA Llyn Dinam
- ACA Bae Cemlyn
- ACA Corsydd Môn
- ACA Twyni Abermenai i Aberffraw
- ACA Afon Menai a Bae Conwy
- ACA Arfordir Ynys Gybi
- Arfordir Ynys Môn: ACA Morfa Heli
- ACA Glan-traeth
- ACA Ardal Forol Gogledd Ynys Môn
- AGA Arfordir Ynys Gybi
- AGA Ynys Seiriol

- AGA Môr-wenoliaid Ynys Môn
- AGA Bae Lerpwl
- Safle Ramsar Corsydd Môn a Llŷn

**4.5** Bydd angen ystyried y safleoedd Ewropeaidd hyn ymhellach yn ystod y cam Sgrinio.

**4.6** Mae pob safle Ewropeaidd arall y tu allan i'r ardal a gwmpesir gan CDLl y Cyngor ac felly maent wedi'u cwmpasu o'r asesiad mewn perthynas â difrod ffisegol a cholled ar y safle.

**Felly, mae'r safleoedd Ewropeaidd canlynol wedi cael eu cwmpasu i'w hasesu yn y cam Sgrinio mewn perthynas â difrod a cholled ffisegol ar y safle:**

- **ACA Llyn Dinam**
- **ACA Bae Cemlyn**
- **ACA Corsydd Môn**
- **ACA Twyni Abermenai i Aberffraw**
- **ACA Afon Menai a Bae Conwy**
- **ACA Arfordir Ynys Gybi**
- **Arfordir Ynys Môn: ACA Morfa Heli**
- **ACA Glan-traeth**
- **ACA Ardal Forol Gogledd Ynys Môn**
- **AGA Arfordir Ynys Gybi**
- **AGA Ynys Seiriol**
- **AGA Môr-wenoliaid Ynys Môn**
- **AGA Bae Lerpwl**

## Colli Cynefin yn Ffisegol – Cynefin Swyddogaethol Gysylltiedig

**4.7** Gallai colli cynefinoedd o ganlyniad i ddatblygu mewn ardaloedd y tu allan i ffiniau'r safle Ewropeaidd (oddi ar y safle) hefyd arwain at effeithiau arwyddocaol tebygol lle mae'r cynefin hwnnw'n cyfrannu at gynnal y nodwedd o ddiddordeb y mae'r safle Ewropeaidd wedi'i ddynodi ar ei chyfer. Mae hyn yn cynnwys tir a allai ddarparu coridorau symud oddi ar y safle neu gynefin bwydo a chysgodi ar gyfer rhywogaethau mudol fel ystlumod, adar a physgod (a elwir fel arfer yn gynefin 'sydd â chysylltiad swyddogaethol').

**4.8** Mae'r safleoedd Ewropeaidd canlynol o fewn 15km i Ynys Môn ac yn cefnogi rhywogaethau sy'n agored i effeithiau difrod ffisegol a cholli tir sydd â chysylltiad swyddogaethol:

- ACA Llyn Dinam - dyfrgwn
- ACA Corsydd Môn – dyfrgwn, britheg y gors, madfallod dŵr cribog, malwen droellog Geyer, mursen las Penfro
- ACA Twyni Abermenai i Aberffraw – madfall ddŵr gribog
- ACA y Fenai a Bae Conwy – llysywen bendoll y môr, llysywen bendoll yr afon Ewropeaidd, gwangen, herlyn, morlo llwyd
- ACA Arfordir Ynys Gybi - morlo llwyd
- AGA Arfordir Ynys Gybi - brân goesgoch
- ACA Glan-traeth – madfall ddŵr gribog
- ACA Coed Penrhyn Creuddyn – yr ystlum pedol lleiaf
- ACA Corsydd Eifionydd – britheg y gors, eog
- ACA Pen y Gogarth – yr ystlum pedol lleiaf
- ACA Eryri – Eog
- ACA Coedydd Aber – dyfrgi, eog
- ACA Glynliffon – dyfrgi, yr ystlum pedol lleiaf
- ACA Afon Gwyrfai a Llyn Cwellyn – dyfrgi, eog, llysywod pendoll y môr, llysywod pendoll yr afon Ewropeaidd
- AGA Ynys Seiriol – mulfran
- AGA Môr-wenoliaid Ynys Môn – môr-wennol ffrwynog, môr-wennol gyffredin, môr-wennol y Gogledd, môr-wennol bigddu
- AGA Bae Lerpwl – trochydd gyddfgoch, gwylan fechan, môr-hwyaden ddu, môr-wennol fach, môr-wennol gyffredin
- Traeth Lafan, AGA Bae Conwy – Pioden fôr Ewrasiaidd, hwyaden frongoch, gylfinir Ewrasiaidd, gwyach fawr gopog, pibydd coesgoch cyffredin

**4.9** Nid yw ACA Bae Cemlyn, safle Ramsar Corsydd Môn a Llŷn, Arfordir Ynys Môn: ACA Morfa Heli, ACA Ardal Forol Gogledd Ynys Môn na safle Ramsar Llyn Idwal yn cefnogi unrhyw rywogaethau cymwys y gallai cynefinoedd sydd â chysylltiad swyddogaethol effeithio arnynt, ac o ganlyniad mae'r safleoedd hyn hefyd wedi'u heithrio o asesiad pellach.

**4.10** Yn ogystal â hyn, mae AGA Ardal Forol Gogledd Ynys Môn wedi cael ei chwmpasu o'r asesiad, gan ei bod wedi'i dynodi ar gyfer llamhidyddion, sy'n dibynnu ar gynefinoedd morol ac felly ni fydd y twf arfaethedig yn Ynys Môn yn effeithio arnynt.

### Cynefin sydd â chysylltiad swyddogaethol – dyfrgi

**4.11** Mae dyfrgwn yn ddibynnol iawn ar gynefinoedd dŵr croyw (ac felly'n debygol o fod yn agos iawn atynt) a gallant

fod ag amrediadau cartrefi arbennig o fawr o hyd at 32km,22 er bod hyn yn debygol ar gyfer ardaloedd parhaus o gynefin dŵr croyw. Mae ACA Llyn Dinam ac ACA Corsydd Môn ar Ynys Môn, ac felly gallai datblygiad sy'n effeithio ar gynefinoedd dŵr croyw sydd â chysylltiad ecolegol â'r cynefinoedd dŵr croyw yn yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig hyn effeithio ar boblogaethau cysylltiedig y dyfrgwn, sy'n un o nodweddion cymwys y safleoedd hyn. Felly, mae'r safleoedd hyn wedi'u cwmpasu ar gyfer asesiad pellach yn y cam Sgrinio.

**4.12** Mae ACA Afon Gwyrfai a Llyn Cwellyn, ACA Coedydd Aber ac ACA Glynlliffon i gyd y tu allan i Ynys Môn ar bellteroedd o 2.4km, 5.3km a 5.8km yn y drefn honno. Er bod y pellteroedd hyn o fewn 32km, o ystyried y rhwystr morol ffisegol rhwng Ynys Môn a thir mawr Cymru (lleoliad y safleoedd Ewropeaidd hyn), mae'n annhebygol y bydd datblygu fel rhan o'r CDLl newydd yn effeithio ar y poblogaethau hyn o ddyfrgwn, ac felly nid ydynt yn cael eu cwmpasu ar gyfer eu hasesu ymhellach.

### Cynefin sydd â chysylltiad swyddogaethol – britheg y gors

**4.13** Mae amcanion cadwraeth ar gyfer gloÿnnod byw britheg y gors yn mynnu bod o leiaf 50ha o gynefin addas yn cael ei warchod, a rhaid i o leiaf 10ha o'r rhain fod mewn cyflwr da. Y rhesymeg yw nad oes disgwyl i'r cynefin hwn i gyd gael ei ganfod o fewn y safleoedd Ewropeaidd ac y bydd peth ar dir cyfagos o fewn radiws o tua 2km.

**4.14** Mae ACA Corsydd Môn o fewn ffin Ynys Môn ac felly bydd yn cael ei hystyried ymhellach mewn perthynas â cholli cynefin sydd â chysylltiad swyddogaethol ar gyfer britheg y gors gan ei bod yn bosibl y bydd cynefin addas o fewn 2km i'r Ardal Cadwraeth Arbennig yn cael ei golli.

**4.15** Fodd bynnag, mae ACA Cors Eifionydd 9.7km i'r de o Ynys Môn ac oherwydd y pellter hwnnw mae wedi cael ei gwmpasu o asesiad pellach mewn perthynas â britheg y gors.

### Cynefin sydd â chysylltiad swyddogaethol – mursen las Penfro

**4.16** Mae gwasgariadau oes mursen las Penfro yn bellteroedd byr ar gyfartaledd; fodd bynnag, canfuwyd bod rhai yn gwasgaru hyd at 1km.23 Mae ACA Corsydd Môn o fewn ffin Ynys Môn ac felly byddant yn cael eu cwmpasu ar gyfer asesiad pellach yn y cam Sgrinio.

## Cynefin cysylltiedig gweithredol – malwen droellog Geyer

**4.17** Prin yw'r ymchwil i amrediad malwod troellog Geyer, ond mae rhywogaethau malwod troellog eraill yn gwasgaru hyd at 100m o safleoedd hysbys.24 Gwyddys fod amrediad lleol i'r rhywogaeth, sydd i'w ganfod yn benodol ar gorsydd blagurog calchaidd cymharol agored, cyson laith25. Oherwydd hyn, ystyrir bod y rhywogaeth yn debygol o fod wedi'i chrynhoi'n bennaf o fewn ffin y safle Ewropeaidd, ond mae potensial i'r rhywogaeth hon ddefnyddio cynefin yn agos at y safle dynodedig. Mae gallu'r rhywogaeth hon i hunanffrwythloni yn ei gwneud yn bosibl i un cytrefwr sefydlu poblogaeth newydd, sy'n golygu ei bod yn bosibl y gallai'r rhywogaeth ddefnyddio cynefin cyfagos ac felly, yn unol â dull rhagofalus, ni ellir diystyru effeithiau ar gynefin cysylltiedig yn swyddogaethol sy'n effeithio ar y rhywogaeth. Mae Ardal Cadwraeth Arbennig Corsydd Môn ar Ynys Môn ac felly mae wedi cael ei chwmpasu ar gyfer asesiad pellach yn ystod y cam Sgrinio.

### Cynefin sydd â chysylltiad swyddogaethol – madfall ddŵr gribog

**4.18** Bydd madfallod dŵr cribog fel arfer yn gwasgaru hyd at 500m i ffwrdd o byllau bridio ac felly mae'r ystod hon wedi cael ei defnyddio i asesu am effeithiau ar gynefinoedd sydd â chysylltiad swyddogaethol. Mae ACA Corsydd Môn, ACA Twyni Abermenai i Aberffraw ac ACA Glan-traeth i gyd yn Ynys Môn ac felly maent wedi cael eu cwmpasu ar gyfer asesiad pellach yn y cam Sgrinio.

### Cynefin sydd â chysylltiad swyddogaethol – casgliad o bysgod mudol

**4.19** Mae poblogaethau'r pysgod mudol cymwys (eog, llysywen bendoll yr afon Ewropeaidd, llysywen bendoll y môr, herlyn, gwangen) yn dibynnu ar gynefinoedd dŵr croyw'r safleoedd Ewropeaidd lle maent yn bresennol. Mae Ardal Cadwraeth Arbennig y Fenai a Bae Conwy, sydd wedi'i dynodi ar gyfer cefnogi llysywod pendoll y môr, llysywod pendoll yr afon Ewropeaidd, gwangod, herlyn, yn Ynys Môn ac felly mae angen ystyried unrhyw effeithiau ar gynefinoedd dŵr croyw sydd â chysylltiad ecolegol y tu allan i'r safle hwn ymhellach yn y cam Sgrinio.

**4.20** Mae ACA Cors Eifionydd, ACA Eryri, ACA Coedydd Aber ac ACA Afon Gwyrfai a Llyn Cwellyn i gyd y tu allan i Ynys Môn ar dir mawr Cymru ac felly mae modd eu cwmpasu allan oherwydd y pellter a'r rhwystr morol.

### Cynefin sydd â chysylltiad swyddogaethol – ystlumod

**4.21** Gall ystlumod pedol lleiaf chwilota hyd at 2km i ffwrdd o safleoedd clwydo fel y nodir yng nghanllawiau'r Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod ar Barthau Cynnal Craidd, sy'n ymwneud ag ardaloedd o amgylch clwydfan lle bydd argaeledd ac ansawdd cynefinoedd yn cael dylanwad arwyddocaol ar gadernid

[22] NatureScot (2024) Otters. Ar gael yn: https://www.nature.scot/plants-animals-and-fungi/mammals/land-mammals/otter
[23] Thompson DJ, Rouquette JR & Purse BV (2003). Ecology of the Southern Damselfly. Conserving Natura 2000 Rivers Ecology Series No. 8.
[24] Office of Public Works (2009) Ecological Impact Assessment (EcIA) of the Effects of Statutory Arterial Drainage Maintenance Activities on Fens, Mires & Whorl Snails.
[25] Special Areas of Conservation: JNCC: Geyer's whorl snail Vertigo geyeri: https://sac.jncc.gov.uk/species/S1013/

a statws cadwraeth y gytref2627. Mae Ardal Cadwraeth Arbennig Coedwig Penrhyn Creuddyn, Ardal Cadwraeth Arbennig Pen y Gogarth ac Ardal Cadwraeth Arbennig Glynlliffon yn 14km, 9.4km a 5.3km yn y drefn honno o Ynys Môn ac felly maent wedi cael eu cwmpasu allan o asesiad pellach.

### Cynefin sydd â chysylltiad swyddogaethol – casgliad o adar

**4.22** O'n profiad o waith HRA mewn mannau eraill, mae'r pellter cydnabyddedig ar gyfer ystyried cynefinoedd adar sydd â chysylltiad swyddogaethol oddi ar y safle yn 2km yn gyffredinol, ond ar gyfer rhai rhywogaethau gallai pellter mwy fod yn briodol, gan gynnwys yn fwyaf nodedig, alarch y gogledd (5km o glustogfa), gylfinir, cwtiad aur a chornchwiglen (15km o glustogfa), a'r ŵydd troedbinc (20km). Nid oes yr un o'r safleoedd yn cynnal y rhywogaethau hyn ac felly mae'r glustogfa 2km wedi cael ei defnyddio.

**4.23** Mae AGA Arfordir Ynys Gybi, AGA Ynys Seiriol, AGA Môr-wenoliaid Ynys Môn ac AGA Bae Lerpwl yn Ynys Môn ac felly maent wedi cael eu cwmpasu ar gyfer asesiad pellach yn y cam Sgrinio. Mae Ardal Gwarchodaeth Arbennig Traeth Lafan, Bae Conwy hefyd wedi cael ei chwmpasu, gan ei bod 0.2km i ffwrdd o Ynys Môn ac felly o fewn y glustogfa 2km.

### Cynefin sydd â chysylltiad swyddogaethol – morlo llwyd

**4.24** Mae morloi llwyd yn defnyddio cynefinoedd arfordirol fel traethau, glannau creigiog a banciau tywod. Nid oes data gwasgariad ar gyfer morloi llwyd o safleoedd tynnu allan ac mae'n bosibl bod y rhywogaethau hyn yn defnyddio nifer o safleoedd tynnu allan, y gallai rhai ohonynt fod y tu allan i ardaloedd y safle Ewropeaidd. Felly, yn unol â dull rhagofalus, mae Ardal Cadwraeth Arbennig y Fenai a Bae Conwy ac Ardal Cadwraeth Arbennig Arfordir Ynys Gybi, sydd wedi'u dynodi ar gyfer y rhywogaeth hon ac sydd wedi'u lleoli ar Ynys Môn, wedi cael eu cwmpasu ar gyfer asesiad pellach.

**Felly, mae'r safleoedd Ewropeaidd canlynol wedi cael eu cwmpasu i'w hasesu yn y cam Sgrinio mewn perthynas â difrod a cholled ffisegol mewn cynefin sydd â chysylltiad swyddogaethol (oddi ar y safle):**

- **ACA Llyn Dinam**
- **ACA Corsydd Môn**
- **ACA Twyni Abermenai i Aberffraw**
- **ACA Glan-traeth**
- **ACA Afon Menai a Bae Conwy**
- **ACA Arfordir Ynys Gybi**
- **AGA Ynys Gybi**
- **AGA Ynys Seiriol**
- **AGA Môr-wenoliaid Ynys Môn**
- **AGA Bae Lerpwl**
- **Traeth Lafan, AGA Bae Conwy**

### Aflonyddwch Anffisegol

**4.25** Mae effeithiau sŵn a dirgryndod, e.e. wrth adeiladu tai newydd, seilwaith trafnidiaeth neu ddatblygiad arall, yn fwyaf tebygol o darfu ar rywogaethau adar ac felly maent yn ystyriaeth allweddol mewn perthynas â safleoedd Ewropeaidd lle mai adar yw'r nodweddion cymwys, er y gallai effeithiau o'r fath hefyd effeithio ar rai mamaliaid a rhywogaethau pysgod. Mae gan oleuadau artiffisial yn y nos (e.e. o oleuadau mewnol o strwythurau drwy ffenestri, lampau stryd, llifoleuadau a goleuadau diogelwch) y potensial i effeithio ar rywogaethau lle mae'n bodoli yn agos at ardaloedd cynefin allweddol, fel ystlumod a dyfrgwn yn symud neu'n chwilota am fwyd, rhywogaethau pysgod yn symud a safleoedd clwydo allweddol ar gyfer rhywogaethau adar.

### Aflonyddwch Anffisegol - ar y safle

**4.26** Tybiwyd (ar sail ragofalus ac ar sail ein profiad o Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd blaenorol ac ymgynghori â chyrff statudol) y gall effeithiau llygredd sŵn, dirgryndod a golau achosi effaith niweidiol os bydd datblygiad yn digwydd o fewn 500m i safle Ewropeaidd gyda nodweddion cymwys sy'n sensitif i'r aflonyddwch hwn. Mae'r dull hwn wedi'i gymhwyso i HRAs Cynlluniau Lleol a Chynlluniau Datblygu Lleol ar gyfer nifer o awdurdodau lleol yn y DU ac ystyriwyd bod defnyddio'r glustogfa hon yn briodol ac yn unol ag egwyddor ragofalus.

**4.27** Felly, mae safleoedd Ewropeaidd y gallai llygredd sŵn, dirgryndod a golau effeithio arnynt o ganlyniad i'r Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys y rheini yn Ynys Môn neu'r rheini sydd o fewn 500m i ardal y cynllun, sy'n cefnogi rhywogaethau sy'n agored i aflonyddwch nad yw'n ffisegol. Mae hyn yn cynnwys:

- ACA Llyn Dinam - dyfrgwn
- ACA Corsydd Môn - dyfrgwn
- ACA y Fenai a Bae Conwy – llysywen bendoll y môr, llysywen bendoll yr afon Ewropeaidd, gwangen, herlyn, morlo llwyd
- ACA Ynys Gybi - morlo llwyd
- AGA Arfordir Ynys Gybi - brân goesgoch
- ACA Glan-traeth – madfall ddŵr gribog

[26] Bat Conservation Trust (2016) Core Sustenance Zones: Determining Zone Size: Core_Sustenance_Zones_Explained_04.02.16.pdf

[27] Bat Conservation Trust (2019) Species information guide: lesser horseshoe bat.

- AGA Ynys Seiriol – mulfran
- AGA Môr-wenoliaid Ynys Môn – môr-wennol ffrwynog, môr-wennol gyffredin, môr-wennol y Gogledd, môr-wennol bigddu
- AGA Bae Lerpwl – trochydd gyddfgoch, gwylan fechan, môr-hwyaden ddu, môr-wennol fach, môr-wennol gyffredin
- Traeth Lafan, AGA Bae Conwy – Pioden fôr Ewrasiaidd, hwyaden frongoch, gylfinir Ewrasiaidd, gwyach fawr gopog, pibydd coesgoch cyffredin
- ACA Ardal Forol Gogledd Ynys Môn - llamhidyddion

**4.28** Nid yw'r holl safleoedd sy'n weddill naill ai'n cefnogi nodweddion sy'n agored i effeithiau aflonyddu nad ydynt yn ffisegol neu maent dros 500m o ffin Ynys Môn ac felly, cawsant eu cwmpasu allan o asesiad pellach.

**Felly, mae'r safleoedd Ewropeaidd canlynol wedi cael eu cwmpasu i'w hasesu yn y cam Sgrinio mewn perthynas ag aflonyddu nad yw'n ffisegol (ar y safle):**

- **ACA Llyn Dinam**
- **ACA Corsydd Môn**
- **ACA Afon Menai a Bae Conwy**
- **AGA Ynys Gybi**
- **AGA Arfordir Ynys Gybi**
- **ACA Glan-traeth**
- **AGA Ynys Seiriol**
- **AGA Môr-wenoliaid Ynys Môn**
- **AGA Bae Lerpwl**
- **Traeth Lafan, AGA Bae Conwy**
- **ACA Ardal Forol Gogledd Ynys Môn**

### Aflonyddu nad yw'n ffisegol – Tir â Chyswllt Swyddogaethol

**4.29** Gall aflonyddu anffisegol hefyd effeithio ar rywogaethau cymwys mewn cynefin sydd â chysylltiad swyddogaethol. Sefydlwyd yn yr adran Colli Cynefin yn Ffisegol – Cynefin Swyddogaethol Gysylltiedig uchod y gallai'r rhywogaethau cymwys canlynol ddefnyddio cynefin â chysylltiad swyddogaethol sy'n bodoli o fewn ffin y Cyngor:

- ACA Llyn Dinam - dyfrgwn
- ACA Corsydd Môn – dyfrgwn, britheg y gors, madfallod dŵr cribog, malwen droellog Geyer, mursen las Penfro
- ACA Twyni Abermenai i Aberffraw – madfall ddŵr gribog
- ACA y Fenai a Bae Conwy – llysywen bendoll y môr, llysywen bendoll yr afon Ewropeaidd, gwangen, herlyn, morlo llwyd
- ACA Arfordir Ynys Gybi - morlo llwyd
- AGA Arfordir Ynys Gybi - brân goesgoch
- ACA Glan-traeth – madfall ddŵr gribog
- ACA Coed Penrhyn Creuddyn – yr ystlum pedol lleiaf
- ACA Corsydd Eifionydd – britheg y gors, eog
- ACA Pen y Gogarth – yr ystlum pedol lleiaf
- ACA Eryri – Eog
- ACA Coedydd Aber – dyfrgi, eog
- ACA Glynliffon – dyfrgi, yr ystlum pedol lleiaf
- ACA Afon Gwyrfai a Llyn Cwellyn – dyfrgi, eog, llysywod pendoll y môr, llysywod pendoll yr afon Ewropeaidd
- AGA Ynys Seiriol – mulfran
- AGA Môr-wenoliaid Ynys Môn – môr-wennol ffrwynog, môr-wennol gyffredin, môr-wennol y Gogledd, môr-wennol bigddu
- AGA Bae Lerpwl – trochydd gyddfgoch, gwylan fechan, môr-hwyaden ddu, môr-wennol fach, môr-wennol gyffredin
- Traeth Lafan, AGA Bae Conwy – Pioden fôr Ewrasiaidd, hwyaden frongoch, gylfinir Ewrasiaidd, gwyach fawr gopog, pibydd coesgoch cyffredin
- ACA Gogledd Ynys Môn - llamhidyddion

**4.30** Ni ystyriwyd bod yr holl safleoedd Ewropeaidd eraill yn cefnogi nodweddion a allai gael eu heffeithio gan aflonyddu nad yw'n ffisegol ac felly maent wedi cael eu cwmpasu allan o asesiad pellach. Mae effeithiau ACA Corsydd Eifionydd ac ACA Corsydd Môn wedi cael eu cwmpasu allan mewn perthynas â britheg y gors, mursen las Penfro a malwen droellog Geyer, nad ydynt yn cael eu hystyried yn sensitif i effeithiau aflonyddu nad yw'n ffisegol.

### Tir sydd â chysylltiad swyddogaethol – dyfrgi

**4.31** Mae dyfrgwn, fel y trafodir uchod, yn nodwedd gymwys ar gyfer ACA Llyn Dinam, ACA Corsydd Môn, ACA Coedydd Aber, ACA Glynliffon ac ACA Afon Gwyrfai a Llyn Cwellyn. Maen nhw'n rhywogaethau nosol yn bennaf ac o ganlyniad gallai goleuadau artiffisial effeithio arnyn nhw o fewn 500m i'r Safle Ewropeaidd neu gynefin sydd â chysylltiad swyddogaethol. Ar ben hynny, gallai effeithiau anuniongyrchol ddigwydd hefyd os bydd aflonyddu nad yw'n ffisegol yn effeithio ar rywogaethau ysglyfaeth fel pysgod. Mae ACA Llyn Dinam ac ACA Corsydd Môn ill dau yn Ynys Môn ac mae ganddynt gynefin sydd â chysylltiad swyddogaethol y gellid effeithio arno o fewn 500m, ac o ganlyniad maent wedi'u cwmpasu ar gyfer asesiad pellach.

**4.32** Mae ACA Coedydd Aber, ACA Glynliffon ac ACA Afon Gwyrfai a Llyn Cwellyn ar dir mawr Cymru, ac er y gall y rhywogaeth hon ddefnyddio amrediad cartrefi hyd at 32km, cyn belled bod yna gynefin dŵr croyw parhaus, o ystyried y rhwystr morol ffisegol rhwng Ynys Môn a'r tir mawr yng Nghymru, mae'n annhebygol y bydd datblygiad a ddaw gerbron fel rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol yn effeithio ar y rhywogaeth hon, ac o'r herwydd mae wedi cael ei gwmpasu allan o asesiad pellach.

#### Cynefin sydd â chysylltiad swyddogaethol – madfall ddŵr gribog

**4.33** Mae ACA Corsydd Môn ac ACA Glan-traeth yn cefnogi'r fadfall ddŵr gribog fel rhywogaeth gymwys. Bydd madfallod dŵr cribog fel arfer yn gwasgaru hyd at 500m i ffwrdd oddi wrth byllau bridio ac felly, mae'n bosibl y bydd tarfu nad yw'n ffisegol yn effeithio ar y rhywogaeth hon sy'n defnyddio tir sydd â chysylltiad swyddogaethol. Mae'r safleoedd Ewropeaidd hyn ar Ynys Môn ac felly maent wedi cael eu cwmpasu ar gyfer asesiad pellach.

#### Tir sydd â chysylltiad swyddogaethol – ystlumod pedol lleiaf

**4.34** Fel rhywogaeth nosol, mae'r ystlum pedol lleiaf yn dibynnu ar gynefin clwydo heb ei oleuo a heb aflonyddwch a nodweddion tirwedd llinol i gymudo i ardaloedd porthi a chlwydo eraill. Maent yn arbennig o sensitif i effeithiau goleuadau, yn ogystal ag effeithiau aflonyddwch o ganlyniad i ddirgryniad a sŵn.

**4.35** Fel yr amlinellir yn yr Adran Difrod a Cholled Ffisegol ar dir sydd â chysylltiad swyddogaethol ym mharagraff 4.20 uchod, ystyrir bod y rhywogaeth hon yn defnyddio cynefin o fewn 2km i'w safle clwydo, fel y nodir yng nghanllawiau'r Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod ar Barthau Cynnal Craidd. Mae'r pellter hwn wedi cael ei ddefnyddio yn yr asesiad hwn i bennu'r posibilrwydd y bydd effeithiau'n deillio o ddatblygiad arfaethedig yn y CDLl.

**4.36** Mae ACA Coedwigoedd Penrhyn Creuddyn, ACA Pen y Gogarth a Glynliffon wedi'u dynodi ar gyfer cytrefi clwydo ystlumod pedol lleiaf. Mae'r safleoedd 14km, 9.4km a 5.3km i ffwrdd o Ynys Môn yn y drefn honno ac felly oherwydd pellter y safleoedd dynodedig hyn a'r tir â chysylltiad swyddogaethol o Ynys Môn, ni ystyrir ei bod yn debygol y bydd y datblygiad a gynigir yn y CDLl yn effeithio ar y rhywogaeth hon. Felly, mae'r safleoedd Ewropeaidd hyn wedi cael eu cwmpasu allan o asesiad pellach yn ystod y cam Sgrinio.

#### Tir â chysylltiad swyddogaethol – casgliad o adar

**4.37** Mae AGA Arfordir Ynys Gybi, AGA Ynys Seiriol, AGA Môr-wenoliaid Ynys Môn, AGA Bae Lerpwl a Thraeth Lafan, AGA Bae Conwy i gyd yn cefnogi poblogaethau cymwys o adar sy'n bridio ac yn gaeafu, cyfnod sy'n arbennig o sensitif i aflonyddu nad yw'n ffisegol.

**4.38** Fel yr amlinellir yn yr Adran Difrod a Cholled Ffisegol ar dir sydd â chysylltiad swyddogaethol ym mharagraff 4.20 uchod, defnyddiwyd pellter clustogi o 2km. Mae'r safleoedd Ewropeaidd canlynol yn cefnogi rhywogaethau adar cymwys, a allai ddefnyddio cynefinoedd ar Ynys Môn a chlustogfa o 500m:

- AGA Arfordir Ynys Gybi
- AGA Ynys Seiriol
- AGA Môr-wenoliaid Ynys Môn
- AGA Bae Lerpwl
- Traeth Lafan, AGA Bae Conwy

**4.39** Mae'r safleoedd dynodedig hyn wedi cael eu cwmpasu ar gyfer asesiad pellach yn y cam Sgrinio.

#### Tir â chysylltiad swyddogaethol – pysgod mudol

**4.40** Gall pysgod mudol, ac yn enwedig eogiaid, fod yn sensitif i aflonyddwch nad yw'n ffisegol, fel sŵn, ac mae'n bwysig ystyried unrhyw effeithiau ar y pysgod a'r epil.

**4.41** Mae Ardal Cadwraeth Arbennig y Fenai a Bae Conwy yn Ynys Môn ac felly disgwylir y bydd rhywogaethau pysgod cymwys o'r Ardal Cadwraeth Arbennig yn defnyddio tir sydd â chysylltiad swyddogaethol o fewn ffin y Cyngor ac, o'r herwydd, mae'n bosibl y bydd y datblygiad arfaethedig yn y Cynllun Datblygu Lleol yn effeithio arnynt o ganlyniad i aflonyddwch nad yw'n ffisegol. Felly, mae'r safle dynodedig hwn wedi cael ei gwmpasu i'w ystyried ymhellach yn ystod y cam Sgrinio.

**4.42** Mae ACA Cors Eifionydd, ACA Eryri, ACA Coedydd Aber ac ACA Afon Gwyrfai a Llyn Cwellyn i gyd y tu allan i Ynys Môn ar dir mawr Cymru ac felly mae modd eu cwmpasu allan oherwydd y pellter a'r rhwystr morol.

#### Tir â chysylltiad swyddogaethol – morlo llwyd

**4.43** Mae ACA Afon Menai a Bae Conwy ac ACA Arfordir Ynys Gybi wedi'u dynodi am gefnogi morloi llwyd. Nid oes data gwasgariad ar gyfer morloi llwyd o safleoedd tynnu allan, ond mae potensial i'r rhywogaeth hon ddefnyddio tir sydd wedi'i gysylltu'n swyddogaethol ar hyd yr arfordir. Mae'r safleoedd Ewropeaidd hyn wedi'u lleoli ar Ynys Môn ac felly mae'n bosibl y bydd effeithiau ar y rhywogaeth hon sy'n defnyddio tir sydd â chysylltiad swyddogaethol yn deillio o ganlyniad i'r datblygiad a gynigir yn y CDLl.

#### Tir sydd â chysylltiad swyddogaethol – llamhidyddion

**4.44** Mae ACA Ardal Forol Gogledd Ynys Môn wedi'i dynodi ar gyfer llamhidyddion, sy'n dibynnu ar gynefinoedd morol ac arfordirol. Mae'r rhywogaeth hon yn arbennig o sensitif i sŵn a dirgryndod ac felly mae'n bosibl y bydd effeithiau os ydynt yn bresennol mewn dŵr arfordirol y tu allan i'r ACA wrth ymyl yr arfordir. Felly, mae'r ACA hon wedi cael ei chwmpasu i'w hystyried ymhellach.

**Felly, mae'r safleoedd Ewropeaidd canlynol wedi cael eu cwmpasu i'w hasesu yn y cam Sgrinio mewn perthynas ag aflonyddu nad yw'n ffisegol ar dir sydd â chysylltiad swyddogaethol:**

- **ACA Llyn Dinam**
- **ACA Corsydd Môn**
- **ACA Afon Menai a Bae Conwy**
- **ACA Arfordir Ynys Gybi**
- **AGA Arfordir Ynys Gybi**
- **AGA Ynys Seiriol**
- **AGA Môr-wenoliaid Ynys Môn**
- **AGA Bae Lerpwl**
- **Traeth Lafan, AGA Bae Conwy**
- **ACA Ardal Forol Gogledd Ynys Môn**
- **ACA Glan-traeth**

## Halogiad Diwenwyn

**4.45** Gall halogiad diwenwyn gynnwys creu llwch sy'n gallu mygu cynefinoedd sy'n atal prosesau naturiol a gall hefyd arwain at effeithiau sy'n gysylltiedig â mwy o waddodion a llwch a allai effeithio ar afloywder cynefinoedd dyfrol a gall hefyd gyfrannu at orfaethu a all arwain at newidiadau yng nghyfradd olyniaeth llystyfiant a chyfansoddiad cynefinoedd.

**4.46** Mae effeithiau halogiad diwenwyn yn fwyaf tebygol o fod yn sylweddol os bydd datblygiad yn digwydd o fewn 500m i safle Ewropeaidd gyda nodweddion cymwys sy'n sensitif i'r aflonyddwch hwn, fel cynefinoedd glannau afon a gwlypdir, neu safleoedd sydd wedi'u dynodi ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau planhigion. Dyma'r pellter sydd, yn ein profiad ni, yn darparu asesiad cadarn o'r effeithiau mewn Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel cynllun ac mae'n cyd-fynd â chytundeb cyrff statudol.

**4.47** Mae pob safle o fewn ffin Ynys Môn sydd wedi'i ddynodi ar gyfer cynefinoedd gwlypdir/arfordirol yn agored i effeithiau halogiad diwenwyn. Mae'r rhain yn cynnwys:

- ACA Llyn Dinam
- ACA Bae Cemlyn
- ACA Corsydd Môn
- ACA Twyni Abermenai i Aberffraw
- ACA Afon Menai a Bae Conwy
- Arfordir Ynys Môn: ACA Morfa Heli
- ACA Glan-traeth
- ACA Ardal Forol Gogledd Ynys Môn
- ACA Arfordir Ynys Gybi

**4.48** Mae safleoedd Ewropeaidd sydd â chynefinoedd gwlypdir o fewn 500m i Ynys Môn a allai fod yn agored i effeithiau halogiad diwenwyn yn cynnwys:

- Traeth Lafan, AGA Bae Conwy

**4.49** Fel y trafodwyd uchod, gall yr effeithiau sy'n gysylltiedig â mwy o waddodion a llwch effeithio ar afloywder gwlypdiroedd a chael effeithiau dilynol ar dwf llystyfiant a gorfaethu. Mae'r holl safleoedd Ewropeaidd a restrir uchod ar Ynys Môn a Thraeth Lafan, AGA Bae Conwy, yn cynnwys cynefinoedd gwlypdir sy'n agored i halogiad diwenwyn ac o fewn 500m i ddatblygiadau posibl. Felly, mae'r safleoedd hyn wedi'u cwmpasu ar gyfer asesiad pellach yn y cam Sgrinio.

**4.50** Nid yw gweddill y safleoedd Ewropeaidd yn cael eu hystyried yn sensitif i effeithiau halogiad diwenwyn ac, o'r herwydd, gellir eu cwmpasu allan o asesiad pellach.

**Felly, mae'r safleoedd Ewropeaidd canlynol wedi cael eu cwmpasu i'w hasesu yn y cam Sgrinio mewn perthynas â halogiad diwenwyn:**

- **ACA Llyn Dinam**
- **ACA Bae Cemlyn**
- **ACA Corsydd Môn**
- **ACA Twyni Abermenai i Aberffraw**
- **ACA Afon Menai a Bae Conwy**
- **Arfordir Ynys Môn: ACA Morfa Heli**
- **ACA Glan-traeth**
- **ACA Ardal Forol Gogledd Ynys Môn**
- **ACA Arfordir Ynys Gybi**
- **Traeth Lafan, AGA Bae Conwy**

## Llygredd Aer

**4.51** O ran traffig cerbydau, ystyrir mai ocsidau nitrogen (NOx, h.y. NO a NO2) yw'r prif lygryddion. Gall dyddodi cyfansoddion nitrogen arwain at asideiddio pridd a dŵr croyw, a gall NOx achosi ewtroffigedd priddoedd a dŵr. Bydd y HRA yn cyfeirio at System Wybodaeth Llygredd Aer y DU 28 i benderfynu a yw crynodiadau o NOx yn y safleoedd Ewropeaidd yn fwy na llwythi critigol ar hyn o bryd ai peidio.

**4.52** Yn seiliedig ar Ddogfen Llawlyfr Dylunio Ffyrdd a Phontydd (DMRB) yr Asiantaeth Priffyrdd LA105: Ansawdd Aer29 (a gynhyrchwyd i roi cyngor ynghylch dylunio, asesu a gweithredu cefnffyrdd (gan gynnwys traffyrdd)), tybir bod llygredd aer o ffyrdd yn annhebygol o fod yn sylweddol y tu hwnt i 200m o'r ffordd ei hun. Pan ragwelir cynnydd mewn lefelau traffig, mae angen defnyddio'r glustogfa 200m hon ar y ffyrdd perthnasol er mwyn dod i benderfyniad ynghylch hyd a lled daearyddol tebygol yr effeithiau llygredd aer.

**4.53** Mae Canllawiau'r Llawlyfr Dylunio Ffyrdd a Phontydd ar gyfer asesu ansawdd aer lleol mewn perthynas â datblygiadau priffyrdd yn darparu meini prawf y dylid eu defnyddio i ganfod a yw'n debygol y bydd effeithiau arwyddocaol yn gysylltiedig â llwybrau neu goridorau. Ar sail canllawiau'r Llawlyfr Dylunio Ffyrdd a Phontydd, dyma'r ffyrdd yr effeithir arnynt y dylid eu hasesu:

- Bydd newid o 1,000 AADT (Traffig Dyddiol Cyfartalog Blynyddol) neu fwy yn y llif traffig dyddiol; neu
- Bydd newid o 200 AADT neu fwy mewn llif cerbydau trwm (HDV); neu
- Bydd cyflymder cyfartalog dyddiol yn newid 10 km/awr neu fwy; neu
- Bydd cyflymder oriau brig yn newid 20 km/awr neu fwy; neu
- Bydd aliniad y ffordd yn newid 5m neu fwy.

**4.54** Yn unol â dyfarniad Wealden[30], mae ymgyngoreion statudol nawr yn disgwyl gweld bod effeithiau llygredd aer cyfunol yn cael eu hasesu. O ganlyniad i'r dyfarniad, pan fydd effeithiau cynlluniau neu brosiectau eraill ar draffig ffyrdd yn hysbys neu pan fydd modd eu hamcangyfrif yn rhesymol (gan gynnwys effeithiau cynlluniau a fabwysiadwyd neu brosiectau a ganiatawyd), dylai'r rhain gael eu cynnwys mewn gwaith modelu traffig ffyrdd gan yr awdurdod lleol y mae ei gynllun neu brosiect lleol yn cael ei asesu. Yna dylid cymhwyso'r meini prawf sgrinio o 1,000 AADT i lif traffig y cynlluniau gyda'i gilydd.

**4.55** Ffyrdd sy'n rhan o'r rhwydwaith ffyrdd strategol[31] (traffyrdd a chefnffyrdd) sydd fwyaf tebygol o weld unrhyw gynnydd sylweddol mewn traffig cerbydau o ganlyniad i ddatblygu (h.y. mwy na 1,000 AADT etc.) ochr yn ochr â rhai prif ffyrdd pwysig. O'r herwydd, os yw safle o fewn 200m i is-ffyrdd yn unig, ni ystyrir y bydd effaith arwyddocaol o lygredd aer sy'n gysylltiedig â thraffig yn ganlyniad tebygol.

**4.56** Mae 'Canllawiau ar drothwyon gwneud penderfyniadau ar gyfer llygredd aer'32 y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur yn datgan, wrth asesu effeithiau cynllun ar lygredd aer, y dylid defnyddio 10km fel parth dylanwad lle mae'r cynllun yn debygol o gael effeithiau arwyddocaol ar ansawdd aer. Mae'r glustogfa hon wedi'i defnyddio yn yr asesiad hwn.

**4.57** Mae ffyrdd strategol o fewn ffin Ynys Môn a chlustogfa 10km yn cynnwys yr A5, A5025, A5108. A5154, A55, A4080, A5114, A5152, A545, A487, A4087, A4871, A499,
A487, A4085, A4086 a'r A4244. Dangosir y rhain yn **Ffigur A.2, Atodiad A**.

**4.58** Mae'r safleoedd Ewropeaidd canlynol o fewn 200m i ffordd strategol:

- ACA Afon Gwyrfai a Llyn Cwellyn – A4085, A487, A4871
- ACA Coedydd Aber – A55
- ACA Eryri – A4086, A5
- Arfordir Ynys Môn: ACA Morfa Heli A4080
- ACA Glan-traeth - A4080
- ACA Twyni Abermenai i Aberffraw - A4080

**4.59** Mae ACA Glynllifon, ACA Ardal Forol Gogledd Ynys Môn, ACA y Fenai a Bae Conwy, AGA Môr-wenoliaid Ynys Môn, AGA Bae Lerpwl ac AGA Traeth Lafan, Bae Conwy hefyd o fewn 200m i ffordd strategol. Fodd bynnag, nid ystyrir bod nodweddion cymwys y safleoedd Ewropeaidd hyn yn agored i effeithiau ac felly maent wedi cael eu cwmpasu allan o asesiad pellach.

**4.60** Mae'r holl safleoedd Ewropeaidd eraill wedi'u lleoli ymhellach na 200m o'r rhwydwaith ffyrdd strategol neu ymhellach na 10km o ffin Cyngor Ynys Môn ac felly maent wedi'u cwmpasu allan o asesiad pellach o'r Cynllun Datblygu Lleol newydd mewn perthynas â llygredd aer.

**Felly, mae'r safleoedd Ewropeaidd canlynol wedi cael eu cwmpasu i'w hasesu yn y cam Sgrinio mewn perthynas â llygredd aer:**

- **ACA Afon Gwyrfai a Llyn Cwellyn**
- **ACA Coedydd Aber**
- **ACA Eryri**
- **Arfordir Ynys Môn: ACA Morfa Heli**
- **ACA Glan-traeth**

[28] http://www.apis.ac.uk/
[29] https://www.standardsforhighways.co.uk/dmrb/search/10191621-07df-44a3-892e-c1d5c7a28d90
[30] Wealden District Council v. (1) Secretary of State for Communities and Local Government; (2) Lewes District Council; (3) South Downs National Park Authority and Natural England
[31] At ddibenion yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hwn, mae'r rhwydwaith ffyrdd strategol yn ymwneud â'r rhwydwaith ffyrdd sylfaenol yn Ynys Môn a chlustogfa 10km.
[32] JNCC (2021) Guidance on decision-making thresholds for air pollution, https://hub.jncc.gov.uk/assets/6cce4f2e-e481-4ec2-b369-2b4026c88447

- **ACA Twyni Abermenai i Aberffraw**

## Pwysau Hamdden

**4.61** Gall gweithgareddau hamdden a phresenoldeb dynol arwain at effeithiau sylweddol ar safleoedd Ewropeaidd o ganlyniad i erydu a sathru, effeithiau cysylltiedig fel tân a fandaliaeth neu darfu ar nodweddion sensitif, fel adar drwy fathau o hamdden ar y tir ac ar ddŵr.

**4.62** Bydd y CDLl yn arwain at dwf tai a chynnydd cysylltiedig yn y boblogaeth ar Ynys Môn. Pan fydd cynnydd yn y boblogaeth yn debygol o arwain at gynnydd sylweddol mewn hamdden ar safle Ewropeaidd, naill ai ar ei ben ei hun neu gyda'i gilydd, bydd angen asesu'r posibilrwydd o effeithiau arwyddocaol tebygol. Ar hyn o bryd, nid oes ffigur pendant ar gyfer faint o gartrefi y bydd y cynllun yn darparu ar eu cyfer dros gyfnod y cynllun.

**4.63** Fel arfer, mae gan safleoedd Ewropeaidd 'Barth Dylanwad' (ZOI) lle byddai disgwyl i gynnydd yn y boblogaeth arwain at effeithiau arwyddocaol tebygol. Fel arfer sefydlir ZOIs yn dilyn arolygon ymwelwyr wedi'u targedu ac felly mae'r canfyddiadau fel arfer yn benodol i bob safle Ewropeaidd (ac yn aml i ardaloedd penodol o fewn safle Ewropeaidd). Mae'r canfyddiadau'n debygol o gael eu dylanwadu gan nifer o ffactorau cymhleth sy'n rhyngweithio â'i gilydd ac felly nid yw bob amser yn briodol cymhwyso ZOI generig neu amhenodol i safle Ewropeaidd. Mae hyn yn arbennig o wir mewn perthynas â safleoedd arfordirol Ewropeaidd, sydd â'r potensial i ddenu nifer fawr o ymwelwyr o ardaloedd sy'n bellach o lawer i ffwrdd. Yn benodol, mae Ynys Môn yn gyrchfan boblogaidd a hysbys i dwristiaid yng Ngogledd Cymru ac felly mae'n bosibl y bydd effeithiau arwyddocaol tebygol yn deillio o ganlyniad i dwf cynyddol o'r CDLl arfaethedig ar y cyd â'r lefelau hamdden presennol, gan gynnwys mewn perthynas â thwristiaeth, sy'n digwydd yn yr ardal hon.

**4.64** Yn wahanol i safleoedd arfordirol Ewropeaidd, mae'r Parth Dylanwad ar gyfer safleoedd Ewropeaidd nad ydynt yn rhai arfordirol fel arfer yn llai amrywiol, gydag ymwelwyr yn teithio o ardaloedd sy'n fwy lleol i safle. Er bod y safleoedd hyn yn unigryw ynddynt eu hunain, tueddant i beidio â chael yr un atyniad â safleoedd arfordirol a chyda gweithgareddau hamdden yn cael eu rheoli a'u cyfeirio'n haws at fannau gwyrdd eraill yn yr ardal. Gan ddefnyddio dull rhagofalus, yn seiliedig ar Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru 2014[33], defnyddiwyd ZOI o 8km ar gyfer safleoedd Ewropeaidd nad ydynt yn rhai arfordirol lle nad oes ZOI arall ar gael. Mae hyn wedi cael ei gymhwyso i bob safle Ewropeaidd nad yw'n un arfordirol gan nad oedd data presennol ar gael ar safleoedd penodol. Mae'r Parth Dylanwad 8km sy'n deillio o ddata'r Arolwg Hamdden Awyr Agored yn ymwneud â'r pellter o '1 i 5 milltir' y mae 75% o ymwelwyr o Gymru yn ei deithio i gyrraedd amgylchedd naturiol. Mae ZOIs fel arfer yn seiliedig ar y pellter y mae 75% o ymwelwyr yn teithio oddi wrtho; felly, ystyrir bod 8km yn debygol o gynrychioli ZOI hynod ragofalus yn yr asesiad hwn, ac un y gellir ei addasu ar ôl i wybodaeth newydd ddod i'r amlwg.

**4.65** Ar sail y wybodaeth uchod, mae ZOI o 8km wedi cael ei ddefnyddio. Mae'r safleoedd Ewropeaidd canlynol wedi cael eu nodi o fewn y pellter hwnnw ac wedi cael eu cwmpasu i'w hystyried ymhellach:

- Safle Ramsar Corsydd Môn a Llŷn
- ACA Corsydd Môn
- AGA Bae Lerpwl
- AGA Môr-wenoliaid Ynys Môn
- AGA Ynys Seiriol
- ACA Arfordir Ynys Gybi
- AGA Arfordir Ynys Gybi
- ACA Ardal Forol Gogledd Ynys Môn
- ACA Bae Cemlyn
- ACA Glan-traeth
- ACA Morfa Heli Arfordir Ynys Môn
- ACA Llyn Dinam
- ACA Afon Menai a Bae Conwy
- ACA Twyni Abermenai i Aberffraw
- Traeth Lafan, AGA Bae Conwy
- ACA Afon Gwyrfai a Llyn Cwellyn
- ACA Glynllifon
- ACA Coedydd Aber
- ACA Eryri

**4.66** Mae'r holl safleoedd Ewropeaidd sy'n weddill dros 8km o Ynys Môn ac, o'r herwydd, nid ydynt yn cael eu hystyried yn debygol o gael eu heffeithio gan fwy o bwysau hamdden o ganlyniad i ddatblygiadau yn y CDLl ac maent wedi'u cwmpasu allan o asesiad pellach.

**Felly, mae'r safleoedd Ewropeaidd canlynol wedi cael eu cwmpasu i'w hasesu yn y cam Sgrinio mewn perthynas â phwysau hamdden:**

- **Safle Ramsar Corsydd Môn a Llŷn**
- **ACA Corsydd Môn**
- **AGA Bae Lerpwl**

[33] Cyfoeth Naturiol Cymru (2015). Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru 2014: Adroddiad Terfynol. Cyhoeddwyd: Gorffennaf 2015

- **AGA Môr-wenoliaid Ynys Môn**
- **AGA Ynys Seiriol**
- **ACA Arfordir Ynys Gybi**
- **AGA Arfordir Ynys Gybi**
- **ACA Ardal Forol Gogledd Ynys Môn**
- **ACA Bae Cemlyn**
- **ACA Glan-traeth**
- **ACA Morfa Heli Arfordir Ynys Môn**
- **ACA Llyn Dinam**
- **ACA Afon Menai a Bae Conwy**
- **ACA Twyni Abermenai i Aberffraw**
- **Traeth Lafan, AGA Bae Conwy**
- **ACA Afon Gwyrfai a Llyn Cwellyn**
- **ACA Glynllifon**
- **ACA Coedydd Aber**
- **ACA Eryri**

### Dŵr

**4.67** Gallai cynnydd yn y galw am echdynnu a thrin dŵr, a newidiadau mewn defnydd tir o ganlyniad i'r twf a gynigir yn y CDLI newydd arwain at newidiadau mewn hydroleg ar safleoedd Ewropeaidd. Gan ddibynnu ar nodweddion cymwys a gwendidau penodol y safleoedd Ewropeaidd, gallai hyn arwain at effeithiau arwyddocaol tebygol; er enghraifft oherwydd newidiadau mewn amodau amgylcheddol neu fiotig, cemeg dŵr a maint a dosbarthiad amodau cynefinoedd sy'n cael eu ffafrio. Gall cynefinoedd hefyd gael eu heffeithio gan newidiadau yn ansawdd y dŵr fel gorfaethu, newidiadau mewn halwynedd, mygu o ganlyniad i lwch, a dŵr ffo, gollyngiadau o ddiwydiant, amaethyddiaeth neu adeiladu. Gall newidiadau mewn echdynnu a gollwng dŵr a defnyddio tir hefyd effeithio ar ansawdd dŵr, er enghraifft mae newid mewn defnydd tir o amaethyddiaeth i ddefnydd preswyl yn lleihau dŵr ffo â maethynnau yn uniongyrchol i gyrsiau dŵr ond yn cynyddu faint o faetholion sy'n cael eu gollwng o waith trin dŵr gwastraff.

**4.68** Mae gan y safleoedd Ewropeaidd canlynol nodweddion cymwys sydd â'r potensial i fod yn sensitif i newidiadau o ran swm neu ansawdd dŵr:

- Safle Ramsar Corsydd Môn a Llŷn
- ACA Corsydd Môn
- ACA Glan-traeth
- ACA Arfordir Ynys Gybi
- AGA Arfordir Ynys Gybi
- ACA Llyn Dinam
- ACA Twyni Abermenai i Aberffraw
- ACA Afon Gwyrfai a Llyn Cwellyn
- ACA Eryri
- ACA Corsydd Eifionydd
- ACA Llyn Idwal
- ACA Afon Menai a Bae Conwy
- ACA Bae Cemlyn
- ACA Morfa Heli Arfordir Ynys Môn
- ACA Ardal Forol Gogledd Ynys Môn

**4.69** Mae'r holl safleoedd Ewropeaidd sy'n weddill wedi'u cwmpasu allan o'r asesiad gan nad ydynt yn cael eu hystyried yn sensitif i effeithiau newidiadau o ran swm ac ansawdd dŵr.

### Swm Dŵr

**4.70** Mae Ynys Môn yn cael ei chyflenwi gan Dŵr Cymru ac mae wedi'i lleoli ym Mharth Adnoddau Dŵr (PAD) Gogledd Eryri / Ynys Môn. Mae'r Parth hwn yn cynnwys y tir mawr wrth ymyl y Fenai (Gogledd Eryri) ac Ynys Môn (Ynys Môn). Mae'r adnoddau dŵr yn y parth yn cynnwys pum cronfa ddŵr sy'n dal a chadw, gan gynnwys Ffynnon Llugwy, Llyn Cwellyn a Llyn Marchlyn Bach ar y tir mawr a Llyn Alaw a Llyn Cefni ar Ynys Môn.

**4.71** Mae'r safleoedd Ewropeaidd canlynol wedi'u cysylltu'n hydrolegol â'r Parth Adnoddau Dŵr sy'n cyflenwi dŵr i Ynys Môn ac, o'r herwydd, mae'n bosibl y bydd y cynnydd yn y galw am echdynnu dŵr yn effeithio arnynt o ganlyniad i dwf yn y Cynllun Datblygu Lleol:

- Safle Ramsar Corsydd Môn a Llŷn
- ACA Corsydd Môn
- ACA Glan-traeth
- ACA Arfordir Ynys Gybi
- ACA Llyn Dinam
- ACA Twyni Abermenai i Aberffraw
- ACA Afon Gwyrfai a Llyn Cwellyn
- ACA Eryri
- ACA Corsydd Eifionydd
- ACA Llyn Idwal
- ACA Afon Menai a Bae Conwy
- ACA Bae Cemlyn
- ACA Morfa Heli Arfordir Ynys Môn

- ACA Ardal Forol Gogledd Ynys Môn

**Felly, mae'r safleoedd Ewropeaidd canlynol wedi cael eu cwmpasu i'w hasesu yn y cam Sgrinio mewn perthynas â swm dŵr:**

- **Safle Ramsar Corsydd Môn a Llŷn**
- **ACA Corsydd Môn**
- **ACA Glan-traeth**
- **ACA Arfordir Ynys Gybi**
- **ACA Llyn Dinam**
- **ACA Twyni Abermenai i Aberffraw**
- **ACA Afon Gwyrfai a Llyn Cwellyn**
- **ACA Eryri**
- **ACA Corsydd Eifionydd**
- **ACA Llyn Idwal**
- **ACA Afon Menai a Bae Conwy**
- **ACA Bae Cemlyn**
- **ACA Morfa Heli Arfordir Ynys Môn**
- **ACA Ardal Forol Gogledd Ynys Môn**

## Ansawdd Dŵr

### Trin a gollwng dŵr

**4.72** Gall cynefinoedd hefyd gael eu heffeithio gan newidiadau yn ansawdd y dŵr fel gorfaethu, newidiadau mewn halwynedd, mygu o ganlyniad i lwch, a dŵr ffo, gollyngiadau o ddiwydiant, amaethyddiaeth neu adeiladu. Gall newidiadau mewn echdynnu a gollwng dŵr a defnyddio tir hefyd effeithio ar ansawdd dŵr, er enghraifft mae newid mewn defnydd tir o amaethyddiaeth i ddefnydd preswyl yn lleihau dŵr ffo â maethynnau yn uniongyrchol i gyrsiau dŵr ond yn cynyddu faint o faetholion sy'n cael eu gollwng o waith trin dŵr gwastraff.

**4.73** Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi nodi nifer o safleoedd Ewropeaidd sydd mewn cyflwr anffafriol oherwydd maethynnau gormodol, sy'n gofyn am niwtraliaeth maethynnau fel camau lliniaru34 ac felly maent yn sensitif i newidiadau yn ansawdd y dŵr sy'n deillio o'r datblygiad arfaethedig yn y CDLl. Cadarnhaodd adolygiad o safleoedd Ewropeaidd a nodwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru nad oedd unrhyw safleoedd Ewropeaidd sydd wedi'u cysylltu'n hydrolegol ag Ynys Môn mewn cyflwr anfoddhaol, ac felly ni ragwelir unrhyw effeithiau mewn perthynas â'r llwybr effaith hwn. Felly, mae pob safle Ewropeaidd wedi cael eu cwmpasu allan o asesiad pellach.

### Llygredd uniongyrchol / dŵr ffo

**4.74** Mae gan ddatblygiadau sy'n deillio o'r CDLl y potensial i gynyddu llygredd o ddŵr ffo uniongyrchol mewn safleoedd Ewropeaidd cyfagos neu dir sydd â chysylltiad swyddogaethol. Gall pellter amrywio yn dibynnu ar dopograffeg a chysylltedd. Fel arfer, mae clustogfa o 500m yn cael ei defnyddio, ond oherwydd bod Ynys Môn wedi'i gwahanu oddi wrth y tir mawr gan rwystr morol, nid yw effeithiau llygredd uniongyrchol/dŵr ffo yn cael eu hystyried yn debygol y tu allan i ffin Ynys Môn. Felly, dim ond safleoedd ar Ynys Môn sydd wedi cael eu cwmpasu.

**4.75** Mae'r safleoedd canlynol ar Ynys Môn:

- Safle Ramsar Corsydd Môn a Llŷn
- ACA Corsydd Môn
- ACA Glan-traeth
- ACA Arfordir Ynys Gybi
- ACA Llyn Dinam
- ACA Twyni Abermenai i Aberffraw
- ACA Afon Menai a Bae Conwy
- ACA Bae Cemlyn
- ACA Morfa Heli Arfordir Ynys Môn
- ACA Ardal Forol Gogledd Ynys Môn

**4.76** Mae'r holl safleoedd Ewropeaidd sy'n weddill wedi'u cwmpasu allan oherwydd eu bod dros 500m o ffin y Cyngor ac o'r herwydd nid ystyrir eu bod yn debygol o gael eu heffeithio gan effeithiau llygredd/dŵr ffo uniongyrchol sy'n deillio o'r twf arfaethedig yn Ynys Môn.

**Felly, mae'r safleoedd Ewropeaidd canlynol wedi cael eu cwmpasu i'w hasesu yn y cam Sgrinio mewn perthynas ag ansawdd dŵr:**

- **Safle Ramsar Corsydd Môn a Llŷn**
- **ACA Corsydd Môn**
- **ACA Glan-traeth**
- **ACA Arfordir Ynys Gybi**
- **ACA Llyn Dinam**
- **ACA Twyni Abermenai i Aberffraw**
- **ACA Afon Menai a Bae Conwy**
- **ACA Bae Cemlyn**
- **ACA Morfa Heli Arfordir Ynys Môn**

[34] Ar gael: Cyfoeth Naturiol Cymru / Egwyddorion niwtraliaeth maethynnau mewn perthynas â datblygiadau neu gynigion trwydded gollwng dŵr

- **ACA Ardal Forol Gogledd Ynys Môn**
- **AGA Môr-wenoliaid Ynys Môn**
- **AGA Ynys Seiriol**

## Crynodeb o Dybiaethau Sgrinio

Mae canlyniad yr asesiad Cwmpasu a chrynodeb o ba safleoedd Ewropeaidd fydd angen asesiad pellach yn ystod y cam Sgrinio mewn perthynas â phob math o effaith eang wedi'u crynhoi yn **Nhabl 4.1** isod.

**Tabl 4.1 Crynodeb o Dybiaethau Sgrinio**

| Safle Ewropeaidd | Difrod ffisegol/colli cynefin | Aflonyddwch anffisegol | Halogiad diwenwyn | Llygredd Aer | Pwysau Hamdden | Swm Dŵr | Ansawdd Dŵr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ACA Llyn Dinam | Wedi'i gwmpasu | Wedi'i gwmpasu | Wedi'i gwmpasu | Heb ei gwmpasu | Wedi'i gwmpasu | Wedi'i gwmpasu | Wedi'i gwmpasu |
| ACA Bae Cemlyn | Wedi'i gwmpasu (ar y safle yn unig) | Heb ei gwmpasu | Wedi'i gwmpasu | Heb ei gwmpasu | Wedi'i gwmpasu | Wedi'i gwmpasu | Wedi'i gwmpasu |
| ACA Corsydd Môn | Wedi'i gwmpasu | Wedi'i gwmpasu | Wedi'i gwmpasu | Heb ei gwmpasu | Wedi'i gwmpasu | Wedi'i gwmpasu | Wedi'i gwmpasu |
| ACA Twyni Abermenai i Aberffraw | Wedi'i gwmpasu | Heb ei gwmpasu | Wedi'i gwmpasu | Wedi'i gwmpasu | Wedi'i gwmpasu | Wedi'i gwmpasu | Wedi'i gwmpasu |
| ACA Afon Menai a Bae Conwy | Wedi'i gwmpasu | Wedi'i gwmpasu | Wedi'i gwmpasu | Heb ei gwmpasu | Wedi'i gwmpasu | Wedi'i gwmpasu | Wedi'i gwmpasu |
| ACA Arfordir Ynys Gybi | Wedi'i gwmpasu (ar y safle yn unig) | Wedi'i gwmpasu | Wedi'i gwmpasu | Heb ei gwmpasu | Wedi'i gwmpasu | Wedi'i gwmpasu | Wedi'i gwmpasu |
| Arfordir Ynys Môn: ACA Morfa Heli | Wedi'i gwmpasu (ar y safle yn unig) | Heb ei gwmpasu | Wedi'i gwmpasu | Wedi'i gwmpasu | Wedi'i gwmpasu | Wedi'i gwmpasu | Wedi'i gwmpasu |
| ACA Glan-traeth | Wedi'i gwmpasu | Wedi'i gwmpasu | Wedi'i gwmpasu | Wedi'i gwmpasu | Wedi'i gwmpasu | Wedi'i gwmpasu | Wedi'i gwmpasu |
| ACA Ardal Forol Gogledd Ynys Môn | Wedi'i gwmpasu (ar y safle yn unig) | Wedi'i gwmpasu | Wedi'i gwmpasu | Heb ei gwmpasu | Wedi'i gwmpasu | Wedi'i gwmpasu | Wedi'i gwmpasu |
| ACA Coed Penrhyn Creuddyn | Heb ei gwmpasu | Heb ei gwmpasu | Heb ei gwmpasu | Heb ei gwmpasu | Heb ei gwmpasu | Heb ei gwmpasu | Heb ei gwmpasu |
| ACA Corsydd Eifionydd | Heb ei gwmpasu | Heb ei gwmpasu | Heb ei gwmpasu | Heb ei gwmpasu | Heb ei gwmpasu | Wedi'i gwmpasu | Heb ei gwmpasu |
| ACA Pen y Gogarth | Heb ei gwmpasu | Heb ei gwmpasu | Heb ei gwmpasu | Heb ei gwmpasu | Heb ei gwmpasu | Heb ei gwmpasu | Heb ei gwmpasu |
| ACA Eryri | Heb ei gwmpasu | Heb ei gwmpasu | Heb ei gwmpasu | Wedi'i gwmpasu | Wedi'i gwmpasu | Wedi'i gwmpasu | Heb ei gwmpasu |

| Safle Ewropeaidd | Difrod ffisegol/colli cynefin | Aflonyddwch anffisegol | Halogiad diwenwyn | Llygredd Aer | Pwysau Hamdden | Swm Dŵr | Ansawdd Dŵr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ACA Coedydd Aber | Heb ei gwmpasu | Heb ei gwmpasu | Heb ei gwmpasu | Wedi'i gwmpasu | Wedi'i gwmpasu | Heb ei gwmpasu | Heb ei gwmpasu |
| ACA Glynllifon | Heb ei gwmpasu | Heb ei gwmpasu | Heb ei gwmpasu | Heb ei gwmpasu | Wedi'i gwmpasu | Heb ei gwmpasu | Heb ei gwmpasu |
| ACA Afon Gwyrfai a Llyn Cwellyn | Heb ei gwmpasu | Heb ei gwmpasu | Heb ei gwmpasu | Wedi'i gwmpasu | Wedi'i gwmpasu | Wedi'i gwmpasu | Wedi'i gwmpasu |
| AGA Arfordir Ynys Gybi | Wedi'i gwmpasu | Wedi'i gwmpasu | Heb ei gwmpasu | Heb ei gwmpasu | Wedi'i gwmpasu | Heb ei gwmpasu | Heb ei gwmpasu |
| AGA Ynys Seiriol | Wedi'i gwmpasu | Wedi'i gwmpasu | Heb ei gwmpasu | Heb ei gwmpasu | Wedi'i gwmpasu | Heb ei gwmpasu | Wedi'i gwmpasu |
| AGA Môr-wenoliaid Ynys Môn | Wedi'i gwmpasu | Wedi'i gwmpasu | Heb ei gwmpasu | Heb ei gwmpasu | Wedi'i gwmpasu | Heb ei gwmpasu | Wedi'i gwmpasu |
| AGA Bae Lerpwl | Wedi'i gwmpasu | Wedi'i gwmpasu | Heb ei gwmpasu | Heb ei gwmpasu | Wedi'i gwmpasu | Heb ei gwmpasu | Heb ei gwmpasu |
| Traeth Lafan, AGA Bae Conwy | Wedi'i gwmpasu (cynefin â chysylltiad swyddogaethol yn unig) | Wedi'i gwmpasu | Wedi'i gwmpasu | Heb ei gwmpasu | Wedi'i gwmpasu | Heb ei gwmpasu | Heb ei gwmpasu |
| Safle Ramsar Corsydd Môn a Llŷn | Wedi'i gwmpasu (ar y safle yn unig) | Heb ei gwmpasu | Heb ei gwmpasu | Heb ei gwmpasu | Wedi'i gwmpasu | Wedi'i gwmpasu | Wedi'i gwmpasu |
| Ramsar Llyn Idwal | Heb ei gwmpasu | Heb ei gwmpasu | Heb ei gwmpasu | Heb ei gwmpasu | Heb ei gwmpasu | Wedi'i gwmpasu | Heb ei gwmpasu |

# Pennod 5
## Casgliad a'r Camau Nesaf

**5.1** Mae'r Adroddiad Cwmpasu hwn wedi cyflwyno prosesau'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a fydd yn cael eu cynnal mewn perthynas â Chynllun Datblygu Lleol newydd Ynys Môn. Fe'i cynhyrchwyd i ddarparu canllawiau ar gyfer datblygu'r cynllun yng nghyd-destun safleoedd Ewropeaidd ac fel pwynt cyfeirio cynnar ar gyfer rhanddeiliaid sy'n dymuno gwneud sylwadau ar gwmpas yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Fel yr eglurwyd ym **Mhennod 1**, bydd camau canlynol y HRA yn cael eu cymryd, ac adroddir arnynt ar wahân.

**5.2** Mae'r Adroddiad Cwmpasu HRA hwn yn cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru. Er nad oes gofyniad ffurfiol i wneud hynny ar hyn o bryd, bydd yr ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal i gadarnhau bod cwmpas arfaethedig yr asesiad yn cael ei ystyried yn briodol cyn Sgrinio HRA (ac Asesiad Priodol, os oes angen) mewn perthynas â'r ddau gynllun.

**5.3** Gofynnir i Cyfoeth Naturiol Cymru ystyried y cwestiynau canlynol yn benodol:

- A ydym wedi nodi'n gywir pa safleoedd Ewropeaidd y dylid eu cynnwys yn HRA y Cynllun Datblygu Lleol newydd (gweler **Pennod 3** ac **Atodiad A**)?
- A ydym wedi nodi'n gywir sensitifrwydd y safleoedd Ewropeaidd sydd wedi'u cwmpasu i effeithiau posibl y Cynllun Datblygu Lleol newydd (gweler **Pennod 4** ac **Atodiad B**)?
- A yw'r dull a gynigir ar gyfer HRA y Cynllun Datblygu Lleol newydd yn rhesymol (gweler **Penodau 2 a 4**)?

**5.4** Bydd ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei adolygu a bydd unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol i'r dull gweithredu a'r wybodaeth yn yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn cael eu gwneud cyn fersiwn gyntaf Sgrinio HRA ar gyfer y cynllun.

**5.5** Yn dilyn y fethodoleg a nodir ym **Mhennod 2**, bydd adroddiad yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn cael ei ddatblygu drwy gydol proses baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd, a bydd adroddiadau'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd sy'n ymwneud â phob fersiwn o'r cynllun yn cael eu cyhoeddi yn ystod cyfnodau ymgynghori. Bydd ymgynghoriad penodol ar Adroddiadau HRA dilynol yn cael ei gynnal gyda Cyfoeth Naturiol Cymru fel y corff ymgynghori statudol ar gyfer HRA wrth i'r Cynllun Datblygu Lleol newydd fynd rhagddo.

**5.6** Ar ôl yr ymgynghoriad Cwmpasu, bydd cam nesaf y broses HRA (Sgrinio) yn penderfynu a fydd y Cynllun Datblygu Lleol newydd yn arwain at unrhyw effeithiau arwyddocaol tebygol ar y safleoedd Ewropeaidd a gwmpesir. Ochr yn ochr â

bydd angen y darnau allweddol canlynol o wybodaeth yn ystod y cam Sgrinio:

- Strategaethau osgoi a lliniaru presennol ar gyfer safleoedd Ewropeaidd.
- Gwybodaeth arolwg ymwelwyr ar gyfer safleoedd Ewropeaidd, gan gynnwys unrhyw Barthau Dylanwad diffiniedig.
- Cyfrifiadau AADT traffig ffyrdd i benderfynu a eir dros y trothwyon ar y cyd â chynlluniau a phrosiectau eraill o ganlyniad i'r Cynllun Datblygu Lleol newydd. Os eir dros drothwyon AADT, bydd angen modelu ansawdd aer er mwyn deall a fydd y cynllun datblygu lleol yn arwain at effaith niweidiol ar uniondeb, ac a oes modd defnyddio mesurau osgoi a lliniaru a fyddai'n atal effaith niweidiol ar uniondeb.
- Cynlluniau rheoli adnoddau dŵr ac astudiaethau cylch dŵr ar gyfer Ynys Môn ac awdurdodau cyfagos.

**5.7** Bydd angen i safleoedd Ewropeaidd lle nodir Effeithiau Arwyddocaol Tebygol symud ymlaen i'r cam Asesiad Priodol i benderfynu a fydd y Cynllun Datblygu Lleol newydd yn arwain at Effeithiau Niweidiol ar Uniondeb (AEoI). Ar y cam hwnnw, gall yr Asesiad Priodol ystyried unrhyw fesurau lliniaru, fel mesurau diogelu wedi'u gwreiddio ym mholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol.


LUC
Mai 2025

# Atodiad A

## Ffigurau

Isle of Anglesey Habitat Regulation Assessment
Isle of Anglesey County Council

**Figure 1: European sites within 15km of the Isle of Anglesey**




- Isle of Anglesey
- Isle of Anglesey 15km buffer
- Local Planning Authority (LPA) boundary
- Special Area of Conservation (SAC)
- Special Protection Area (SPA)
- Ramsar



Contains Natural Resources Wales information © Natural Resources Wales and Database right. All rights Reserved.
Contains derived Ordnance Survey Data. © Crown Copyright and Database right 2025.


13309_HRA_Scoping_Feb2025/17/03/2025 EB:Grace_I

Isle of Anglesey Habitat Regulation Assessment
Isle of Anglesey County Council

LUC

**Figure 2: Strategic Roads within 15km of the Isle of Anglesey**

- Isle of Anglesey
- Isle of Anglesey 10km buffer
- Isle of Anglesey 15km buffer
- Local Planning Authority (LPA) boundary
- Special Area of Conservation (SAC)
- Special Protection Area (SPA)
- Ramsar
- A Road






Contains Natural Resources Wales information © Natural Resources Wales and Database right. All rights Reserved.
Contains derived Ordnance Survey Data. © Crown Copyright and Database right 2025.

13309_HRA_Scoping_Feb2025/ 17/03/2025 EB:Grace_I

# Atodiad B

## Gwybodaeth am Safleoedd Ewropeaidd

**B.1** Mae'r atodiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am y safleoedd Ewropeaidd sydd wedi'u cwmpasu yn yr HRA. Daw gwybodaeth am ardal pob safle, disgrifiadau'r safle, nodweddion cymwys a phwysau a bygythiadau o Gynlluniau Rheoli Craidd Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n cynnwys Amcanion Cadwraeth a'r Ffurflenni Data Safonol neu Daflenni Gwybodaeth am Wlypdiroedd Ramsar sydd ar gael o wefan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur.

| ACA Llyn Dinam |
| --- |
| **Disgrifiad o'r Safle** |
| Llyn Dinam (9.7ha) yw'r llyn mwyaf gogleddol o'r casgliad o lynnoedd sy'n ffurfio Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Llynnau y Fali yng ngorllewin Ynys Môn. Mae'r llynnoedd hyn yn fas ac wedi'u nodweddu gan lefelau maethol cymharol uchel. Llyn Dinam yw'r llyn sy'n cael ei effeithio leiaf ac mae'n cael ei reoli gan RSPB fel gwarchodfa.<br><br>Mae nodweddion pwysig y safle'n cynnwys cynefinoedd dŵr llonydd a gwlypdiroedd yn ogystal â phoblogaeth dyfrgwn *Lutra lutra*. Mae nodweddion eraill yn cynnwys planhigion dyfrol fel cyrs cyffredin *Phragmites australis*, cyrnddail caled *Ceratophyllum demersum* a rhedyn y gors *Thelypteris palustris*. Mae lilïau dŵr gwyn a melyn *Nymphaea alba* a *Nuphar lutea* hefyd yn dominyddu mewn braich gysgodol ar yr ochr orllewinol. Ar ben hynny, gwyddys bod y llyn yn cynnal adar sy'n bridio ac yn gaeafu.<br><br>Mae cynefinoedd eraill ar y safle'n cynnwys glaswelltir sych, glaswelltir llaith a mesoffylaidd a rhywfaint o goetir collddail llydanddail. |
| **Nodweddion Cymwys** |
| ■ 3150 Llynnoedd ewtroffig naturiol gyda llystyfiant o fath Magnopotamion neu Hydrocharition<br>■ 7140 Mignenni pontio a chorsydd crynedig (wedi'u rhestru fel nodwedd gymwys yn unig o dan Ffurflen Data Safonol JNCC)<br>■ 1355 Dyfrgi Ewrasiaidd *Lutra lutra* (a restrir fel nodwedd gymwys o dan Ffurflen Data Safonol JNCC yn unig) |
| **Gwendidau Allweddol** |
| ■ Addasu arferion tyfu a ffrwythloni: mae amaethyddiaeth ddwys yn cwmpasu 75% o'r dalgylch ac o ganlyniad mae risg o wrtaith ffo i'r llyn a'r effaith ar gynefinoedd cyfagos, yn ogystal ag effeithiau gwastraff lladd-dai ar dir fferm. Rhestrwyd y llyn mewn arolwg a gwblhawyd yn 2016 gyda hyder 'eithaf sicr' neu 'sicr iawn' o effaith ewtroffigedd.'35<br>■ Llygredd dŵr (i ddŵr wyneb a dŵr daear): Mae ewtroffigedd yn debygol o effeithio ar Lyn Dinam. Daw maetholion yn bennaf o ffynonellau gwasgaredig.35 Gall ffynonellau eraill o fewnbynnau i'r llyn fod yn ffynonellau â tharddle fel tanciau septig. Mae tystiolaeth o ffosfforws uwch yn Llyn Dinam, gydag effeithiau ecolegol posibl ar y cymunedau planhigion dŵr croyw a diatomau.<br>■ Rhywogaethau estron goresgynnol: mae presenoldeb rhedyn y dŵr *Azolla filiculoides* a llinad y dŵr fel *Lemna minuta* yn anffafriol o dan ganllawiau Monitro Safonau Cyffredin (CSM) JNCC. Mae rhywogaethau estron goresgynnol eraill yn annhebygol o ymsefydlu mewn dŵr agored oherwydd straen gwynt, ond maent yn fygythiad i byllau bach cysgodol yn y gors cyrs helaeth i'r de a'r dwyrain o'r llyn. Mae dyfrllys *Elodea canadensis* yn bresennol, ond mae'n parhau ar werth gorchudd isel.36 |
| **Amcanion Cadwraeth** |
| Sicrhau bod uniondeb y safle'n cael ei gynnal neu ei adfer fel y bo'n briodol, a sicrhau bod y safle'n cyfrannu at gyflawni Statws Cadwraeth Ffafriol ei Nodweddion Cymwys, drwy gynnal neu adfer;<br>■ Maint a dosbarthiad cynefinoedd naturiol cymwys<br>■ Strwythur a swyddogaeth (gan gynnwys rhywogaethau nodweddiadol) cynefinoedd naturiol cymwys, a'r<br>■ Prosesau cefnogi y mae cynefinoedd naturiol cymwys yn dibynnu arnynt. |
| **Cynefinoedd a rhywogaethau anghymwys y mae'r cynefinoedd a/neu'r rhywogaethau cymwys yn dibynnu arnynt** |
| Mae'r dyfrgi Ewrasiaidd, rhywogaeth gymwys yn yr Ardal Cadwraeth Arbennig hon, yn dibynnu ar gynefinoedd dŵr croyw a rhywogaethau eraill. Mae hyn yn golygu y dylid ystyried y cynefinoedd a'r rhywogaethau hyn, er nad ydynt yn gymwys, gan eu bod yn effeithio ar nodwedd gymwys. |

[35] Cyfoeth Naturiol Cymru (2016) Adolygiad Tystiolaeth o Ewtroffigedd Llynnoedd yng Nghymru. Ar gael yn: https://www.gov.wales/sites/default/files/consultations/2018-01/160929-evidence-review-of-welsh-lake-nitrate-vulnerable-zones-en.pdf
[36] Cyfoeth Naturiol Cymru (2018) Arolygon Ecolegol Llynnoedd Cymru. Ar gael yn: https://naturalresourceswales.gov.uk/media/689953/nrw-evidence-report-no-343-ecological-surveys-of-welsh-lakes-2018.pdf

**ACA Llyn Dinam**

Mae hon yn cynnwys y rhywogaethau ysglyfaeth e.e. pysgod ac amffibiaid y mae dyfrgwn yn bwydo arnynt, a'r gadwyn fwyd yn ei chyfanrwydd. Yn ogystal, mae dyfrgwn yn dibynnu ar doreth o lystyfiant trwchus ar lan y tir ar gyfer lloches, yn ogystal ag ardaloedd gwarchodedig i gefnogi bridio a gorffwys ar y safle. Dylid cynnal a gwella ansawdd y cynefin dŵr croyw cefnogol lle bo hynny'n bosibl, ac ni ddylai fod unrhyw rwystrau artiffisial sylweddol i lwybr diogel a symudiad dyfrgwn i'r safle, oddi mewn iddo ac oddi arno.

Nodweddir llynnoedd ewtroffig naturiol gyda llystyfiant o fath Magnopotamion neu Hydrocharition, sy'n gynefin cymwys yn yr ACA hon, gan lefelau maethynnau a chynhyrchiant uwch na chyrff dŵr eraill a phresenoldeb cymunedau planhigion penodol fel dyfrllys *Potamogeton spp.*, myrddail pigfain *Myriophyllum spicatum*, lili'r dŵr felen *Nuphar lutea*, ac weithiau gan gysylltiadau o rawn yr ebol *Chara spp.* Fodd bynnag, gall gor-gyfoethogi'r cynefin hwn arwain at amodau hypertroffig a dirywiad mewn cyfoeth rhywogaethau.

Nodweddir mignenni pontio gan lystyfiant craidd yn y Deyrnas Unedig gan gynnwys hesg gylfinfain *Carex rostrata*, mwsogl mawn *Sphagnum recurvum*, migwyn pigog *Sphagnum sgwarrosum*, mawnogydd ffen *Sphagnum warnstorfii* ayb. Mae gwarchod y cymunedau planhigion hyn yn hanfodol gan eu bod yn dylanwadu ar gyflwr y mignenni.

**ACA Bae Cemlyn**

**Disgrifiad o'r Safle**

Mae Bae Cemlyn (25ha) yn cynnal set gymharol amrywiol o rywogaethau, ac mae nifer ohonynt yn benodol i fôr-lynnoedd, gan gynnwys y *Conopeum seurati*, cocos y morlyn *Cerastoderma glaucum* a malwoden y llaid *Ventrosia ventrosa*. Ceir nifer o rywogaethau planhigion anghyffredin yn y morlyn hefyd, gan gynnwys crafanc-y-frân y morfa *Ranunculus baudotii* a'r tusw arfor *Ruppia maritima.*

Mae'r safle wedi'i ddynodi ar gyfer ei forlyn arfordirol, ac ystyrir bod hwn yn un o'r ardaloedd gorau yn y Deyrnas Unedig, a llystyfiant lluosflwydd ar fanciau cerrig yr ystyrir bod yr ardal yn cynnal presenoldeb sylweddol ohonynt. Mae cynefinoedd eraill yn cynnwys clogwyni môr, ynysoedd bach, afonydd llanw, aberoedd, fflatiau llaid, fflatiau tywod, glaswelltir llaith a glaswelltir mesoffylaidd.

Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol sy'n berchen ar y rhan fwyaf o'r safle ac mae'n cael ei reoli gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru. Mae'n rhan o Ardal Gwarchodaeth Arbennig Ynys Feurig, Bae Cemlyn ac Ynysoedd y Moelrhoniaid, a elwir hefyd yn Ardal Gwarchodaeth Arbennig Môr-wenoliaid Ynys Môn, sy'n cael ei hystyried ar wahân yn yr adroddiad hwn. O ganlyniad, ar gyfer y safle hwn, dim ond nodweddion cymwys yr Ardal Cadwraeth Arbennig fydd yn cael eu cynnwys gan wybod y bydd unrhyw effeithiau ar adar o ganlyniad i'r Cynllun Datblygu Lleol newydd sy'n berthnasol i Ardal Gwarchodaeth Arbennig Môr-wenoliaid Ynys Môn hefyd yn berthnasol i Ardal Cadwraeth Arbennig Bae Cemlyn.

**Nodweddion Cymwys**

- 1150 Morlynnoedd arfordirol
- 1220 Llystyfiant lluosflwydd ar fanciau cerrig

**Gwendidau Allweddol**

- Ffrwythloni: mae cyffredinedd amaethyddiaeth ar Ynys Môn yn golygu bod perygl o wrtaith ffo yn ogystal ag effeithiau gwastraff lladd-dai ar dir fferm sy'n gallu effeithio ar gynefinoedd yn ACA Bae Cemlyn.
- Newidiadau a ysgogwyd gan bobl mewn amodau hydrolig: cyfeirir at hyn yn aml fel lefelau dŵr amhriodol ac mae'n cwmpasu amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â rheoli dŵr a llifogydd, amaethyddiaeth a rheoli tir fel draenio, seilwaith tynnu dŵr hanesyddol, a thynnu dŵr ei hun, yn ogystal â rheoli erydiad.

**Amcanion Cadwraeth**

Sicrhau bod uniondeb y safle'n cael ei gynnal neu ei adfer fel y bo'n briodol, a sicrhau bod y safle'n cyfrannu at gyflawni Statws Cadwraeth Ffafriol ei Nodweddion Cymwys, drwy gynnal neu adfer;

- Maint a dosbarthiad cynefinoedd naturiol cymwys
- Strwythur a swyddogaeth (gan gynnwys rhywogaethau nodweddiadol) cynefinoedd naturiol cymwys

| ACA Bae Cemlyn |
|---|
| ■ Prosesau cefnogi y mae cynefinoedd naturiol cymwys yn dibynnu arnynt. |
| **Cynefinoedd a rhywogaethau anghymwys y mae'r cynefinoedd a/neu'r rhywogaethau cymwys yn dibynnu arnynt** |
| Bydd sawl ffactor yn dylanwadu ar gymuned planhigion banciau cerrig, gan gynnwys halwynedd y dŵr yn y morlyn a'r dirwedd ffisegol a allai effeithio ar gysylltiad â thonnau a/neu chwistrellu halen. Er enghraifft, lle mae ynni'r tonnau'n achosi symudiad y marian, mae gan y cymunedau planhigion gysylltiadau â 1210 Llystyfiant unflwydd ar linellau drifft, a lle mae'r chwistrell o'r môr yn cael ei chwythu dros y marian, gall cymunedau planhigion gyda rhywogaethau sy'n gallu gwrthsefyll halen fel clustog Fair *Armeria maritima* a'r gludlys arfor Silene uniflora fodoli. Gall cylchoedd naturiol o ddirywiad ac adfywiad y llystyfiant ddylanwadu ar gymunedau planhigion hefyd. |

| ACA Corsydd Môn a Ramsar Corsydd Môn a Llŷn |
|---|
| **Disgrifiad o'r Safle** |
| Corsydd Môn (465ha) yw'r ail ardal fwyaf o gors galchaidd yn y Deyrnas Unedig ac mae'n cynnwys nifer o safleoedd dynodedig gan gynnwys SoDdGA Cors Erddreiniog, SoDdGA Cors Goch, SoDdGA Cors Bodeilio, SoDdGA Cors y Farl, SoDdGA Gwenfro Rhos y Gad, SoDdGA Waun Eurad a SoDdGA Caeau Talwrn. Mae'r safle hefyd yn cynnwys rhai o'r enghreifftiau gorau o gorsydd alcalïaidd yng Nghymru ynghyd â llynnoedd oligotroffig (prin ei faethynnau). Mae cynefinoedd eraill yn cynnwys rhostir, glaswelltir sych, coetir cymysg, mignenni a chorsydd.<br><br>Mae ACA Corsydd Môn yn gorgyffwrdd â Chorsydd Môn a Llŷn, sy'n safle Ramsar, ac felly mae'r safleoedd hyn yn rhannu Cynllun Rheoli Craidd, yn ogystal â chwmpasu llawer o'r un cynefinoedd. Mae Corsydd Môn a Llŷn yn cynnwys cynefinoedd gwlypdir sy'n nodedig fel y safleoedd gorau yng Nghymru ar gyfer rhawn yr ebol fel *Nitella tenuissima*, sef rhywogaeth sy'n ffynnu mewn amgylcheddau dŵr croyw calchaidd.<br><br>Mae Corsydd Môn yn cynnal amrywiaeth o rywogaethau, llawer ohonynt yn nodweddion cymwys yn yr ACA, gan gynnwys un o'r poblogaethau mwyaf y gwyddys amdanynt o falwen droellog Geyer, *Vertigo geyeri*, mewn cors galchaidd ar dir isel a dyfrgwn Ewrasiaidd *Lutra lutra*.<br>Mae gan Safle Ramsar Corsydd Môn a Llŷn ddwy nodwedd gymwys sy'n cael eu rhannu â'r Ardal Cadwraeth Arbennig ac mae'r rhain yn gorsydd alcalïaidd a chorsydd calchaidd gyda *Cladium mariscus* a rhywogaethau o *Caricion davallianae.* |
| **Nodweddion Cymwys** |
| ■ 3140 Dŵr oligo-mesotroffig caled gyda llystyfiant benthig *Chara spp*.<br>■ 4010 Rhosydd gwlyb Gogledd Cefnfor Iwerydd gydag *Erica tetralix*<br>■ 4030 Rhosydd sych Ewropeaidd<br>■ 6410 Dolydd *Molinia* ar briddoedd calchaidd, mawnaidd neu llawn silt cleiog<br>■ 7210 Corsydd calchaidd gyda *Cladium mariscus* a rhywogaethau *Caricion davallianae* (hefyd yn nodwedd Ramsar)<br>■ 7230 Corsydd alcalïaidd (hefyd yn nodwedd Ramsar)<br>■ 1044 Mursen las Penfro *Coenagrion mercuriale*<br>■ 1065 Britheg y gors *Euphydryas aurinia*<br>■ 1355 Dyfrgi Ewrasiaidd *Lutra lutra*<br>■ 1166 Madfall ddŵr gribog *Triturus cristatus*<br>■ 1013 Malwen droellog Geyer *Vertigo geyeri* |
| **Gwendidau Allweddol** |
| ■ Llygredd i ddŵr wyneb a dŵr daear: fel y trafodwyd uchod ar gyfer ACA Llyn Dinam, mae llygredd mewn cynefinoedd gwlypdir sy'n debygol o gael ei achosi gan ddŵr ffo amaethyddol o nitradau a ffosffad ar gyfer y safle hwn, yn cynyddu'r risg o ewtroffigedd. |

| ACA Corsydd Môn a Ramsar Corsydd Môn a Llŷn |
|---|
| Gall hyn amharu ar dwf llystyfiant a chael effeithiau ar lefel droffig, yn enwedig ar gyfer rhywogaethau sydd wedi'u haddasu ar gyfer amgylcheddau prin eu maethynnau.<br>■ Newidiadau a ysgogwyd gan bobl mewn amodau hydrolig: roedd ymdrechion yn y gorffennol i ddraenio a chynnal lefelau dŵr is mewn rhannau o'r safle wedi difrodi rhai rhannau o'r gors, sy'n un o nodweddion cymwys y safle hwn.<br>■ Torri glaswelltir: Mae rheoli glaswelltir yn bwysig er mwyn atal y gors rhag cael ei dominyddu gan *Cladium mariscus*. Ystyrir mai trefn bori ysgafn gan dda byw trwm yn hytrach na thorri mecanyddol yw'r un fwyaf effeithiol er mwyn i'r safle gynnal ardaloedd o lastir agored. |
| **Amcanion Cadwraeth** |
| Sicrhau bod uniondeb y safle'n cael ei gynnal neu ei adfer fel y bo'n briodol, a sicrhau bod y safle'n cyfrannu at gyflawni Statws Cadwraeth Ffafriol ei Nodweddion Cymwys, drwy gynnal neu adfer;<br>■ Maint a dosbarthiad cynefinoedd naturiol cymwys<br>■ Strwythur a swyddogaeth (gan gynnwys rhywogaethau nodweddiadol) cynefinoedd naturiol cymwys, a'r<br>■ Prosesau cefnogi y mae cynefinoedd naturiol cymwys yn dibynnu arnynt. |
| **Cynefinoedd a rhywogaethau anghymwys y mae'r cynefinoedd a/neu'r rhywogaethau cymwys yn dibynnu arnynt** |
| Fel y trafodwyd uchod ar gyfer ACA Llyn Dinam, mae dyfrgwn yn dibynnu ar gynefinoedd dŵr croyw, ardaloedd llystyfiant addas i ddarparu lloches a'r rhywogaethau ysglyfaeth y maent yn bwydo arnynt fel pysgod ac amffibiaid, yn ogystal â'r gadwyn fwyd yn ei chyfanrwydd.<br>Mae angen cynefin tiriogaethol a dŵr croyw addas ar fadfallod dŵr cribog. Dylai pyllau bridio gael llystyfiant helaeth gyda gorchudd planhigion tanddwr o tua dwy ran o dair o'r pwll a gorchudd llystyfiant sy'n dod i'r amlwg/arnofiol o chwarter i hanner pwll.37 Mae ardaloedd â llai o lystyfiant hefyd yn bwysig i hwyluso arddangosfeydd gwrywod yn ystod y tymor paru. Ar ben hynny, dylai cynefinoedd daearol gynnwys gorchudd trwchus o dir fel porfa arw, deiliach marw a choetir. Mae'r madfallod hefyd yn dibynnu ar y rhywogaethau di-asgwrn-cefn y maent yn bwydo arnynt ac o ganlyniad, y cynefinoedd/rhywogaethau cysylltiedig y mae'r rhywogaethau ysglyfaeth yn dibynnu arnynt.<br>Mae mursennod glas Penfro, fel pob mursen, yn bwydo ar bryfed fel mosgitos, gloÿnnod byw a gwyfynod. Maent yn dibynnu ar gynefinoedd dŵr croyw bas ar gyfer bridio, gan ffafrio amodau alcalïaidd yn benodol.<br>Ceir britheg y gors mewn amrywiaeth o gynefinoedd lle mae ei blanhigyn bwyd larfal, tamaid y cythraul *Succisa pratensis* yn bodoli. Bydd y cynefin bridio gorau posibl ar gyfer britheg y gors yn cynnwys glaswelltir lle mae uchder y llystyfiant yn 10-20cm, ac yn cynnwys glaswelltir corsiog a phorfeydd a rhostiroedd llaith.<br>Mae malwen droellog Geyer i'w gweld mewn corsydd alcalïaidd a chalchaidd, gyda chynefinoedd a ffafrir yn cynnwys gorchudd trwchus o laswelltau a hesgau sy'n tyfu'n isel, sy'n gymharol rydd o *Sphagnum* a mwsoglau eraill. Rhywogaethau a ganfuwyd yn y cynefinoedd hyn yw corsfrwyn du *Schoenus nigricans* a hesg melyn *Carex viridula*.<br>Ceir rhostiroedd sych Ewropeaidd fel arfer ar briddoedd asidaidd i amniwtral sy'n draenio'n rhydd, gyda chynnwys maethol isel yn gyffredinol a chorlwyni grugaidd fel y llystyfiant trechaf. Y mwyaf cyffredin yw grug *Calluna vulgaris*, a geir yn aml ar y cyd ag eithin *Ulex spp*., llus *Vaccinium spp*. neu grug y mêl *Erica cinerea*, er bod corlwyni eraill yn bwysig yn lleol. Yn yr un modd, ceir rhostiroedd gwlyb hefyd fel arfer ar is-haenau asidaidd, prin eu maethynnau, fel mawn bas neu briddoedd tywodlyd, ond gyda rhwystr i'r draeniad. Dominyddir y llystyfiant fel arfer gan gymysgeddau o rug deilgroes *Erica tetralix*, grug, glaswelltau, hesgau a migwyn *Sphagnum*.<br>Mae dolydd *Molinia* ar briddoedd calchaidd, mawnaidd neu rai llawn silt cleiog yn dibynnu ar amodau llaith a chymharol alcalïaidd yn y mawn ac maent yn aml yn elfennau o borfeydd neu gorsydd gwlyb. Gellir dod o hyd i laswellt y gweunydd *Molinia caerulea* ymhlith rhywogaethau eraill yn y cynefin hwn. Mae cynefinoedd cymwys eraill ar y safle hwn fel dyfroedd oligo-mesotroffig caled gyda llystyfiant benthig *Chara spp*., corsyd calchaidd a chorsydd alcalïaidd hefyd yn cael eu nodweddu gan eu hamodau alcalïaidd.<br>Mae corsydd calchaidd yn gynefin prin yn y Deyrnas Unedig, gydag ardaloedd bach wedi'u gwasgaru ledled y wlad, ond mae'r rhan fwyaf o'r arwynebedd yn Nwyrain Anglia ac Ynys Môn. Mae'r cynefinoedd hyn yn gyforiog o rywogaethau gyda chorsfrwynen lem *Cladium mariscus* yn bresennol ac fe'u ceir yn aml mewn mosaigau gyda mathau eraill o gorsydd fel corsydd alcalïaidd. |

[37] Froglife (2001) Great Crested Newt Conservation Handbook. Ar gael yn: https://www.froglife.org/wp-content/uploads/2013/06/GCN-Conservation-Handbook_compressed.pdf

| ACA Twyni Abermenai i Aberffraw |
| --- |
| **Disgrifiad o'r Safle** |
| Dynodwyd Twyni Abermenai i Aberffraw (1869ha) ar gyfer y gwahanol gynefinoedd twyni ar y safle, a llawer ohonynt yn cael eu hystyried yn un o'r ardaloedd gorau ar gyfer y cynefinoedd hyn yn y Deyrnas Unedig. Mae'r twyni'n cynnal gwahanol gymunedau planhigion gan gynnwys llysiau'r afu petalog *Petalophyllum ralfsii* a thafolen y traeth *Rumex rupestris*, sef nodweddion cymwys y safle hwn. Mae cynefinoedd eraill ar y safle'n cynnwys traethau tywod, graean bras, clogwyni môr, ynysoedd, cyrff dŵr mewndirol, mignenni, corsydd, ffeniau, rhostir a choetir conifferaidd.<br><br>Mae ACA Twyni Abermenai i Aberffraw yn cydffinio ac mewn rhai ardaloedd mae'n gorgyffwrdd ag ACA Glan-traeth ac Arfordir Ynys Môn: ACA Morfa Heli. O ganlyniad, mae un Cynllun Rheoli Craidd yn berthnasol i bob un o'r tri safle Ewropeaidd, ond adroddir arnynt ar wahân. Mae rhannau o ACA Twyni Abermenai i Aberffraw hefyd o fewn Ardal Gwarchodaeth Arbennig Môr-wenoliaid Ynys Môn, yr adroddir arni ar wahân hefyd. Ar gyfer y safle hwn, dim ond nodweddion cymwys yr Ardal Cadwraeth Arbennig fydd yn cael eu cynnwys gan wybod y bydd unrhyw effeithiau ar adar o ganlyniad i'r Cynllun Datblygu Lleol newydd sy'n berthnasol i Ardal Gwarchodaeth Arbennig Môr-wenoliaid Ynys Môn hefyd yn berthnasol i ACA Twyni Abermenai i Aberffraw. |
| **Nodweddion Cymwys** |
| ▪ 2110 Egin-dwyni symudol<br>▪ 2120 Twyni symudol ar hyd y draethlin gydag *Ammophila arenaria* ("twyni gwyn")<br>▪ 2130 Twyni arfordirol sefydlog gyda llystyfiant llysieuol ("twyni llwyd")<br>▪ 2150 Twyn sefydlog datgalchedig Iwerydd (*Calluno-Ulicetea*)<br>▪ 2170 Twyni gyda *Salix repens ssp. argentea (Salicion arenariae*)<br>▪ 2190 Llaciau twyni gwlyb<br>▪ 3150 Llynnoedd ewtroffig naturiol gyda llystyfiant o fath Magnopotamion neu Hydrocharition<br>▪ 7140 Mignenni pontio a chorsydd crynedig<br>▪ 1395 Llysiau'r afu petalog *Petalophyllum ralfsii*<br>▪ 1441 Tafolen y traeth *Rumex rupestris*<br>▪ 1166 Madfall ddŵr gribog *Triturus cristatus* (a restrir fel nodwedd gymwys o dan Ffurflen Ddata Safonol JNCC yn unig) |
| **Gwendidau Allweddol** |
| ▪ Newidiadau mewn amodau anfiotig: mae cynefinoedd arfordirol mewn perygl penodol o ganlyniad i newidiadau sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd. Mae hyn yn cynnwys cynnydd yn lefel y môr a newidiadau i fyrddau dŵr daear sy'n effeithio ar dwyni a llaciau twyni.<br>▪ Plannu coedwigoedd ar dir agored: mae coedwigo coed conwydd anfrodorol ar systemau twyni wedi newid datblygiad ecolegol twyni, ond mae'n cynnig cynefinoedd tiriogaethol addas ar gyfer madfallod dŵr cribog. |
| **Amcanion Cadwraeth** |
| Sicrhau bod uniondeb y safle'n cael ei gynnal neu ei adfer fel y bo'n briodol, a sicrhau bod y safle'n cyfrannu at gyflawni Statws Cadwraeth Ffafriol ei Nodweddion Cymwys, drwy gynnal neu adfer;<br>▪ Maint a dosbarthiad cynefinoedd naturiol cymwys<br>▪ Strwythur a swyddogaeth (gan gynnwys rhywogaethau nodweddiadol) cynefinoedd naturiol cymwys, a'r<br>▪ Prosesau cefnogi y mae cynefinoedd naturiol cymwys yn dibynnu arnynt. |
| **Cynefinoedd a rhywogaethau anghymwys y mae'r cynefinoedd a/neu'r rhywogaethau cymwys yn dibynnu arnynt** |
| Mae'r gwahanol dwyni cymwys yn dibynnu ar lystyfiant i greu a chynnal strwythurau twyni, yn ogystal â phlanhigion arbenigol fel moresg *Ammophila arenaria* sy'n goddef gorlif o dywod ac yn dal mwy o dywod. |

| ACA Twyni Abermenai i Aberffraw |
|---|
| Gan fod priddoedd twyni'n isel o ran maetholion/ffrwythlondeb, mae llystyfiant yn y cynefinoedd hyn wedi addasu ar gyfer yr amodau hyn. Ar ben hynny, mae llaciau twyni'n dibynnu ar lefel trwythiad y dŵr daear, ac mae dŵr yn effeithio ar ddosbarthiad ac amodau'r cynefinoedd hyn.<br><br>Fel y trafodwyd uchod ar gyfer ACA Llyn Dinam, gall mignennau pontio a chorsydd crynedig gael eu nodweddu gan lystyfiant craidd ac mae'r cymunedau planhigion hyn yn rhan annatod o amodau'r mignennau. Nodweddir llynnoedd ewtroffig naturiol gyda llystyfiant o fath Magnopotamion neu Hydrocharition gan lefelau maethol a chynhyrchiant uwch na chyrff dŵr eraill a phresenoldeb cymunedau planhigion penodol. Mae'r cynefinoedd hyn mewn perygl o lygredd sy'n achosi cyflyrau hypertroffig.<br><br>Mae llysiau'r afu petalog yn dibynnu ar laciau twyni calchaidd agored, llaith (ond heb eu llenwi â dŵr) ac, o bryd i'w gilydd, fe'u ceir hefyd ar lannau a glaswelltir arfordirol sydd ag amodau tebyg. Yn ddiddorol, mae pwysau hamddena ar rai safleoedd wedi cynyddu o ganlyniad i sathru a chywasgu pridd.<br><br>Mae tafolen y traeth yn tyfu ar draethau creigiog, tywodlyd a thraethau dyrchafedig, platfformau glannau a llethrau is clogwyni, sy'n galw am ffynhonnell gyson o ddŵr croyw, boed yn rhedeg neu'n statig. Rydym yn gwybod bod poblogaethau'n amrywio yn ôl difrifoldeb stormydd y gaeaf ac mae'r safle'n sensitif i effeithiau pwysau hamdden. |

| ACA Afon Menai a Bae Conwy |
|---|
| **Disgrifiad o'r Safle** |
| Mae'r Fenai a Bae Conwy (26,502ha) yn cynnwys ardal forol rhwng tir mawr Cymru ac Ynys Môn, sydd wedi'i dynodi ar gyfer cynefinoedd morol fel banciau tywod a orchuddir yn rhannol gan y môr drwy'r adeg, ac mae hyn yn cael ei ystyried yn un o'r ardaloedd gorau yn y Deyrnas Unedig. Mae cynefinoedd cymwys eraill yn cynnwys gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod, aberoedd, cilfachau a baeau bas mawr yr ystyrir bod y safle'n cynnal presenoldeb sylweddol ohonynt, riffiau ac ogofâu môr sydd o dan ddŵr neu'n rhannol dan ddŵr. Mae cynefinoedd eraill ar y safle yn cynnwys morlynnoedd, morfeydd heli, graean bras, clogwyni môr ac ynysoedd. Mae nifer o rywogaethau cymwys ar gyfer y safle hwn, gan gynnwys morlo llwyd *Halichoerus grypus* a physgod mudol. |
| **Nodweddion Cymwys** |
| ■ 1110 Banciau tywod a orchuddir yn rhannol gan y môr drwy'r adeg<br>■ 1130 Aberoedd<br>■ 1140 Gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod nad ydynt o dan ddŵr môr adeg llanw isel<br>■ 1160 Cilfachau a baeau bas mawr<br>■ 1170 Riffiau<br>■ 1330 Dolydd heli Iwerydd (*Glauco-Puccinellietalia maritimae*)<br>■ 8330 Ogofâu môr sydd dan ddŵr neu'n rhannol dan ddŵr<br>■ 1102 Herlyn *Alosa alosa*<br>■ 1103 Gwangen Alosa fallax<br>■ 1364 Morlo llwyd *Halichoerus grypus*<br>■ 1099 Llysywen bendoll yr afon Ewropeaidd *Lampetra fluviatilis*<br>■ 1095 Llysywen bendoll y môr *Petromyzon marinus* |
| **Gwendidau Allweddol** |
| ■ Pysgota a chynaeafu adnoddau dŵr: mae hanes o bysgota yn yr ardal hon sydd wedi effeithio ar rywogaethau pysgod yn y gorffennol fel herlynod a gwangod drwy sgil-ddalfa, ac wedi effeithio ar gynefinoedd clogfeini o ganlyniad i bysgota am grancod.<br>■ Rhywogaethau estron goresgynnol: mae'r rhain yn fygythiad i'r riffiau oherwydd gallant fygu gwely'r môr neu drechu rhywogaethau brodorol, gan arwain at newidiadau i strwythur y gymuned. |
| **Amcanion Cadwraeth** |

| ACA Afon Menai a Bae Conwy |
|---|
| Sicrhau bod uniondeb y safle'n cael ei gynnal neu ei adfer fel y bo'n briodol, a sicrhau bod y safle'n cyfrannu at gyflawni Statws Cadwraeth Ffafriol ei Nodweddion Cymwys, drwy gynnal neu adfer;<br>■ Maint a dosbarthiad cynefinoedd naturiol cymwys<br>■ Strwythur a swyddogaeth (gan gynnwys rhywogaethau nodweddiadol) cynefinoedd naturiol cymwys, a'r<br>■ Prosesau cefnogi y mae cynefinoedd naturiol cymwys yn dibynnu arnynt. |
| **Cynefinoedd a rhywogaethau anghymwys y mae'r cynefinoedd a/neu'r rhywogaethau cymwys yn dibynnu arnynt** |
| Mae'r rhywogaethau pysgod mudol (herlod, gwangod, llysywod pendoll yr afon Ewropeaidd a llysywod pendoll y môr) i gyd yn dibynnu ar gynefinoedd dŵr croyw i silio wrth gwblhau'r rhan fwyaf, os nad y cyfan, o'u cylch bywyd yn y môr. Mae angen graean glân/is-haenau afonydd creigiog ar bob rhywogaeth i silio, ac mae angen llaid ymylol neu dywod ar lysywod pendoll i dyrchu amosetau ifanc, lle maent yn bwydo drwy hidlo ar ddiatomau, algâu a bacteria. Mae herlod a gwangod yn dibynnu ar gramenogion morol a physgod bach fel ffynhonnell fwyd. Mae'r holl rywogaethau hyn yn dibynnu ar y cynefinoedd a'r rhywogaethau sy'n effeithio ar niferoedd eu hysglyfaeth. Gall llygredd a rhwystrau ffisegol fel argaeau atal mudo ac felly mae'n ystyriaeth bwysig.<br><br>Mae morloi llwyd yn treulio'r rhan fwyaf o'r flwyddyn yn y môr, a gallant grwydro'n eang wrth chwilio am rywogaethau ysglyfaeth, sef pysgod yn bennaf. Deuant i'r lan yn yr hydref i ffurfio nythfeydd bridio ar lannau creigiog, traethau, mewn ogofâu, weithiau ar fanciau tywod, ac ar ynysoedd bychain nad oes llawer o fywyd arnynt. Mewn lleoliadau o'r fath, efallai y byddant yn ymestyn gryn bellter o'r lan ac yn esgyn i uchder sylweddol.<br><br>Nodweddir dolydd heli'r Iwerydd gan lystyfiant sy'n gallu ymdopi â halen a gallant fod yn wahanol iawn o ran cyfansoddiad rhywogaethau gyda newidiadau yn yr hinsawdd, amlder a hyd llifogydd o'r môr, dylanwadau pori a lleoliadau o fewn y morfa heli ei hun.<br>Mae cymunedau *Juncus maritimus* yn nodweddiadol o forfeydd heli Cymru. |

| ACA ac AGA Arfordir Ynys Gybi |
|---|
| **Disgrifiad o'r Safle** |
| Mae gorgyffwrdd rhwng ACA Arfordir Ynys Gybi (464ha) ac AGA Arfordir Ynys Gybi (608ha) ac o ganlyniad maent yn cael eu hystyried gyda'i gilydd. Mae'r Ardal Gwarchodaeth Arbennig yn cynnal nifer sylweddol o frain coesgoch sy'n bridio *Pyrrhocorax pyrrhocorax*, y mae'r safle wedi'i ddynodi ar eu cyfer, ac mae'r Ardal Cadwraeth Arbennig yn cynnwys nodweddion cymwys fel rhostiroedd gwlyb a sych, a chlogwyni môr â llystyfiant. Mae cynefinoedd eraill yn cynnwys graean bras, ynysoedd bach, mignennau, corsydd, llystyfiant ar ymylon dŵr, ffeniau, prysgwydd, glaswelltir llaith, glaswelltir mesoffylaidd, creigiau mewndirol a sgrïau. Ceir y cor-rosyn rhuddfannog *Tuberaria guttata* sy'n genedlaethol brin o fewn y mosaig o gymunedau rhostir a glaswelltir uwchlaw'r clogwyni. |
| **Nodweddion Cymwys** |
| ■ A346 Y Frân Goesgoch *Pyrrhocorax pyrrhocorax* (nodwedd gymwys AGA)<br>■ 1230 Clogwyni môr â llystyfiant Arfordir yr Iwerydd a'r Baltig<br>■ 4030 Rhosydd sych Ewropeaidd<br>■ 4010 Rhosydd gwlyb Gogledd Cefnfor Iwerydd gydag *Erica tetralix*<br>■ 1170 Riffiau<br>■ 8330 Ogofâu môr sydd dan ddŵr neu'n rhannol dan ddŵr<br>■ 1364 Morlo llwyd *Halichoerus grypus* |
| **Gwendidau Allweddol** |
| ■ Tân ac atal tân: mae hanes o losgi ar y safle, gan gynnwys llosgiadau wedi'u rheoli a llosgiadau heb eu rheoli gan drydydd partïon. Mae llosgi'n niweidio'r haen bryoffyt ac yn annog aildyfiant egnïol o rywogaethau mwy cystadleuol sy'n gwrthsefyll tân fel glaswellt y gweunydd. |

| ACA ac AGA Arfordir Ynys Gybi |
|---|
| ■ Pori: mae'r rhostir a'r glaswelltir ar y safle angen pori ysgafn i gynnal strwythur agored da i gynnal rhywogaethau planhigion pwysig ac i atal y rhostir rhag cael ei ddominyddu gan brysgwydd, rhedyn ac eithin. |
| **Amcanion Cadwraeth** |
| Sicrhau bod uniondeb y safle'n cael ei gynnal neu ei adfer fel y bo'n briodol, a sicrhau bod y safle'n cyfrannu at gyflawni Statws Cadwraeth Ffafriol ei Nodweddion Cymwys, drwy gynnal neu adfer;<br>■ Maint a dosbarthiad cynefinoedd naturiol cymwys<br>■ Strwythur a swyddogaeth (gan gynnwys rhywogaethau nodweddiadol) cynefinoedd naturiol cymwys, a'r<br>■ Prosesau cefnogi y mae cynefinoedd naturiol cymwys yn dibynnu arnynt. |
| **Cynefinoedd a rhywogaethau anghymwys y mae'r cynefinoedd a/neu'r rhywogaethau cymwys yn dibynnu arnynt** |
| Mae brain coesgoch yn dibynnu ar gynefinoedd allweddol fel rhostir sych, clogwyni môr ar gyfer nythu a glaswelltir byr ar gyfer chwilota am fwyd, yn ogystal â rhywogaethau di-asgwrn-cefn fel cynrhon lledr *Tipula spp*. y maent yn bwydo arnynt.<br>Mae morloi llwyd, fel y trafodwyd uchod ar gyfer Ardal Cadwraeth Arbennig y Fenai a Bae Conwy, yn dibynnu ar rywogaethau pysgod ysglyfaeth yn ogystal â chynefinoedd i ffurfio nythfeydd bridio fel glannau, traethau, mewn ogofâu, weithiau ar fanciau tywod, ac ar ynysoedd bach nad oes llawer o fywyd arnynt. |

| Arfordir Ynys Môn: ACA Morfa Heli |
|---|
| **Disgrifiad o'r Safle** |
| Mae Arfordir Ynys Môn: Morfa heli (1057ha) gerllaw ac mewn rhai ardaloedd mae'n gorgyffwrdd ag ACA Glan-traeth ac ACA Twyni Abermenai i Aberffraw. O ganlyniad, mae un Cynllun Rheoli Craidd yn berthnasol i bob un o'r tri safle Ewropeaidd.<br>Mae cynefinoedd cymwys yn cynnwys aberoedd yr ystyrir bod yr ardal yn cynnal presenoldeb sylweddol ynddynt, *Salicornia* a phlanhigion unflwydd eraill ar laid a thywod, sy'n bwysig ar gyfer uniondeb strwythurol mewn amgylcheddau twyni, ac yr ystyrir bod y safle hwn yn un o'r ardaloedd gorau yn y Deyrnas Unedig ar eu cyfer, yn ogystal â dolydd heli Iwerydd (*Glauco-Puccinellietalia maritimae*) yr ystyrir bod y safle hwn hefyd yn un o'r ardaloedd gorau yn y Deyrnas Unedig ar eu cyfer. Mae cynefinoedd eraill ar y safle yn cynnwys morlynnoedd, morfeydd heli, graean bras ac ynysoedd. |
| **Nodweddion Cymwys** |
| ■ 1130 Aberoedd<br>■ 1140 Gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod nad ydynt o dan ddŵr môr adeg llanw isel<br>■ 1230 Clogwyni môr â llystyfiant Arfordir yr Iwerydd a'r Baltig<br>■ 1310 *Salicornia* a phlanhigion unflwydd eraill ar laid a thywod<br>■ 1320 Lleiniau cordwellt bach (*Spartina maritima*)<br>■ 1330 Dolydd heli Iwerydd (*Glauco-Puccinellietalia maritimae*) |
| **Gwendidau Allweddol** |
| ■ Newidiadau mewn amodau anfiotig: mae cynefinoedd arfordirol mewn perygl penodol o ganlyniad i newidiadau sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd. Mae hyn yn cynnwys cynnydd yn lefel y môr a newidiadau i fyrddau dŵr daear sy'n effeithio ar dwyni a morfeydd heli. |
| **Amcanion Cadwraeth** |
| Sicrhau bod uniondeb y safle'n cael ei gynnal neu ei adfer fel y bo'n briodol, a sicrhau bod y safle'n cyfrannu at gyflawni Statws Cadwraeth Ffafriol ei Nodweddion Cymwys, drwy gynnal neu adfer. |

| Mae Arfordir Ynys Môn: ACA Morfa Heli |
|---|
| ■ Maint a dosbarthiad cynefinoedd naturiol cymwys<br>■ Strwythur a swyddogaeth (gan gynnwys rhywogaethau nodweddiadol) cynefinoedd naturiol cymwys, a'r<br>■ Prosesau cefnogi y mae cynefinoedd naturiol cymwys yn dibynnu arnynt. |
| **Cynefinoedd a rhywogaethau anghymwys y mae'r cynefinoedd a/neu'r rhywogaethau cymwys yn dibynnu arnynt** |
| Nodweddir dolydd heli'r Iwerydd gan lystyfiant sy'n gallu ymdopi â halen a gallant fod yn wahanol iawn o ran cyfansoddiad rhywogaethau gyda newidiadau yn yr hinsawdd, amlder a hyd llifogydd o'r môr, dylanwadau pori a lleoliadau o fewn y morfa heli ei hun.<br>Mae cymunedau *Juncus maritimus* yn nodweddiadol o forfeydd heli Cymru. |

| ACA Glan-traeth |
|---|
| **Disgrifiad o'r Safle** |
| Mae ACA Glan-traeth (14ha) wrth ymyl, ac mewn rhai ardaloedd mae'n gorgyffwrdd ag Arfordir Ynys Môn: Morfa Heli ac ACA Twyni Abermenai i Aberffraw. O ganlyniad, mae un Cynllun Rheoli Craidd yn berthnasol i bob un o'r tri safle Ewropeaidd.<br>Dynodwyd y safle hwn am ei boblogaeth o fadfallod dŵr cribog *Triturus cristatus*, yr ystyrir ei fod yn un o'r ardaloedd gorau yn y Deyrnas Unedig ar eu cyfer. Ar ben hynny, mae twyni arfordirol sefydlog yn nodwedd gymwys yn y safle hwn gyda chynefinoedd eraill hefyd yn bresennol fel traethau tywod, llaciau twyni a chyrff dŵr mewndirol, sy'n cynnal poblogaeth y madfallod cribog. |
| **Nodweddion Cymwys** |
| ■ 2130 Twyni arfordirol sefydlog gyda llystyfiant llysieuol ("twyni llwyd")<br>■ 1166 Madfall ddŵr gribog *Triturus cristatus* |
| **Gwendidau Allweddol** |
| ■ Olyniaeth ecolegol: mae'r broses olyniaeth yn aml yn gallu arwain at sychu cynefinoedd daearol a dŵr croyw pwysig ar gyfer madfallod dŵr cribog, ac os caiff ei rheoli'n amhriodol gallai arwain at golli llaciau twyni neu gynefinoedd pyllau allweddol sy'n cefnogi dodwy wyau a pharu. |
| **Amcanion Cadwraeth** |
| Sicrhau bod uniondeb y safle'n cael ei gynnal neu ei adfer fel y bo'n briodol, a sicrhau bod y safle'n cyfrannu at gyflawni Statws Cadwraeth Ffafriol ei Nodweddion Cymwys, drwy gynnal neu adfer;<br>■ Maint a dosbarthiad cynefinoedd naturiol cymwys<br>■ Strwythur a swyddogaeth (gan gynnwys rhywogaethau nodweddiadol) cynefinoedd naturiol cymwys, a'r<br>■ Prosesau cefnogi y mae cynefinoedd naturiol cymwys yn dibynnu arnynt. |
| **Cynefinoedd a rhywogaethau anghymwys y mae'r cynefinoedd a/neu'r rhywogaethau cymwys yn dibynnu arnynt** |
| Fel y trafodwyd uchod ar gyfer ACA Twyni Abermenai i Aberffraw, mae cynefinoedd twyni'n dibynnu ar lystyfiant a chyfuniad o wynt/dŵr ar gyfer eu datblygiad a'u huniondeb strwythurol.<br>Mae angen cynefin tiriogaethol a dŵr croyw addas ar fadfallod dŵr cribog. Dylai pyllau bridio gael llystyfiant helaeth gyda gorchudd planhigion tanddwr o tua dwy ran o dair o'r pwll a gorchudd llystyfiant sy'n dod i'r amlwg/arnofiol o chwarter i hanner pwll.37 Mae ardaloedd â llai o lystyfiant hefyd yn bwysig i hwyluso arddangosfeydd gwrywod yn ystod y tymor paru. Ar ben hynny, dylai cynefinoedd daearol gynnwys gorchudd trwchus o dir fel porfa arw, deiliach marw a choetir. Mae'r madfallod hefyd yn dibynnu ar y rhywogaethau di-asgwrn-cefn y maent yn bwydo arnynt ac o ganlyniad, y cynefinoedd/rhywogaethau cysylltiedig y mae'r rhywogaethau ysglyfaeth yn dibynnu arnynt. |

| ACA Ardal Forol Gogledd Ynys Môn |
|---|
| **Disgrifiad o'r Safle** |
| Mae Ardal Forol Gogledd Ynys Môn (324,949ha) yn ardal forol fawr sy'n ymestyn i'r gogledd orllewin o Ynys Môn i Fôr Iwerddon ac mae wedi'i dynodi am ei phoblogaethau o lamidyddion *Phocoena phocoena*, gyda'r safle'n darparu cynefin bwydo da y gellir ei ddefnyddio hefyd ar gyfer bridio a lloia. |
| **Nodweddion Cymwys** |
| ■ 1351 Llamhidydd *Phocoena phocoena* |
| **Gwendidau Allweddol** |
| ■ Pysgota a chynaeafu adnoddau dyfrol: mae perygl y bydd llamhidyddion yn gorfod cystadlu â physgodfeydd masnachol am fwyd, yn ogystal â sgil-ddalfa llamhidyddion o bosibl a fyddai'n effeithio'n uniongyrchol ar boblogaeth y rhywogaethau yn Ardal Forol Gogledd Ynys Môn.<br>■ Halogion: gallai gollyngiadau/dŵr ffo o safleoedd tirlenwi a diwydiannau daearol/ar y môr effeithio ar ansawdd dŵr a rhywogaethau ysglyfaeth, yn ogystal ag iechyd llamhidyddion.<br>■ Ymyriadau ac aflonyddwch dynol eraill: mae'r rhain yn ymwneud yn benodol â sŵn fel gweithgarwch milwrol a gweithgarwch cychod a allai arwain at effeithiau ffisiolegol ac ymddygiadol fel anallu neu rwystr i lywio, cymdeithasu a chanfod ysglyfaethwyr, a allai arwain at ddadleoli. |
| **Amcanion Cadwraeth** |
| Sicrhau bod uniondeb y safle'n cael ei gynnal neu ei adfer fel y bo'n briodol, a sicrhau bod y safle'n cyfrannu at gyflawni Statws Cadwraeth Ffafriol ei Nodweddion Cymwys, drwy gynnal neu adfer;<br>■ Maint a dosbarthiad cynefinoedd naturiol cymwys<br>■ Strwythur a swyddogaeth (gan gynnwys rhywogaethau nodweddiadol) cynefinoedd naturiol cymwys, a'r<br>■ Prosesau cefnogi y mae cynefinoedd naturiol cymwys yn dibynnu arnynt. |
| **Cynefinoedd a rhywogaethau anghymwys y mae'r cynefinoedd a/neu'r rhywogaethau cymwys yn dibynnu arnynt** |
| Mae llamhidyddion yn bwyta amrywiaeth o ysglyfaethau gan gynnwys gobïaid, llymrïaid, gwyniad môr, penwaig a chorbenwaig (efallai fod gan rai ohonynt silfeydd yn safle Ardal Forol Gogledd Ynys Môn), ac felly maent yn dibynnu ar unrhyw brosesau sy'n effeithio ar niferoedd ysglyfaeth. Maent yn nofio pellteroedd mawr a gellir dod o hyd iddynt mewn dyfroedd bas a dyfnach. |

| ACA Coed Penrhyn Creuddyn |
|---|
| **Disgrifiad o'r Safle** |
| Mae Coed Penrhyn Creuddyn (118ha) yn cynnwys SDdGA Gloddaeth, SDdGA Coed Neuadd Marle, SDdGA Coed Bron Garth a SDdGA Pydew. Mae'r safle'n gynefin coetir ar greigwely calchfaen gyda chanopi onnen *Fraxinus excelsior* a masarn *Acer pseudoplatanus* yn bennaf gyda blodau llawr ac isdyfiant calchaidd. Rhywogaethau nodweddiadol gan gynnwys bresychen y cŵn *Mercurialis perennis*, tafod yr hydd *Phyllitis scolopendrium* a llaethlys *Daphne laureola*. Mae'r ywen *Taxus baccata* yn dominyddu yn lleol, a cheir graddoliadau i goetir derw *Cuercus petraea*. Mewn mannau ceir mosaigau hefyd gyda glaswelltir calchaidd cyfoethog sy'n cynnwys rhywogaethau prin, gan gynnwys tegeirianau.<br>Mae ystlumod pedol lleiaf *Rhinolophus hipposideros* hefyd yn nodwedd gymwys ar y safle hwn. |
| **Nodweddion Cymwys** |
| ■ 9180 *Coedwigoedd Tilio-Acerion* ar lethrau, sgrïau a cheunentydd<br>■ 6210 Glaswelltir sych lled-naturiol a phrysgdir ar is-haenau calchaidd (*Festuco-Brometalia*) |

| ACA Coed Penrhyn Creuddyn |
| --- |
| ■ 8240 Calchbalmentydd (a restrir fel nodwedd gymwys  o dan Ffurflen Data Safonol JNCC yn unig)<br>■ 8310 Ogofâu nad ydynt ar agor i'r cyhoedd (a restrir fel nodwedd gymwys  o dan Ffurflen Data Safonol JNCC yn unig)<br>■ 9130 Coedwigoedd ffawydd *Asperulo-Fagetum* (a restrir fel nodwedd gymwys  o dan Ffurflen Data Safonol JNCC yn unig)<br>■ 91J0 Coedwigoedd *Taxus baccata* Ynysoedd Prydain<br>■ 1303 Ystlum pedol lleiaf *Rhinolophus hipposideros* (a restrir fel nodwedd gymwys o dan Ffurflen Ddata Safonol JNCC yn unig) |
| **Gwendidau Allweddol** |
| ■ Torri glaswelltir: mae glaswelltir yn cael ei reoli'n amhriodol ac o ganlyniad mae ardaloedd o laswelltir calchaidd mewn cyflwr anffafriol oherwydd presenoldeb prysgwydd a rhywogaethau anfrodorol. Dylid tynnu prysgwydd a thorri'r glaswelltir yn ôl yr angen.<br>■ Pwysau hamdden: mae rhai rhannau o'r coetir yn cael eu sathru gan gerddwyr sy'n niweidio blodau'r llawr. |
| **Amcanion Cadwraeth** |
| Sicrhau bod uniondeb y safle'n cael ei gynnal neu ei adfer fel y bo'n briodol, a sicrhau bod y safle'n cyfrannu at gyflawni Statws Cadwraeth Ffafriol ei Nodweddion Cymwys, drwy gynnal neu adfer;<br>■ Maint a dosbarthiad cynefinoedd naturiol cymwys<br>■ Strwythur a swyddogaeth (gan gynnwys rhywogaethau nodweddiadol) cynefinoedd naturiol cymwys, a'r<br>■ Prosesau cefnogi y mae cynefinoedd naturiol cymwys yn dibynnu arnynt. |
| **Cynefinoedd a rhywogaethau anghymwys y mae'r cynefinoedd a/neu'r rhywogaethau cymwys yn dibynnu arnynt** |
| Mae ystlumod pedol lleiaf yn byw mewn ogofâu ac fe'u ceir yn ogofau a siafftiau'r mwynglawdd sy'n bresennol ar y safle. Fodd bynnag, canfyddir hefyd eu bod yn clwydo mewn toeau a selerau adeiladau yn ogystal â thwneli. Maen nhw'n bwydo ar bryfed fel clêr, gwyfynod, chwilod a phryfed cop ac maen nhw'n dibynnu ar brosesau sy'n effeithio ar rywogaethau ysglyfaeth, yn enwedig ar ôl gaeafgysgu lle mae'r galw am egni yn uwch.38 |

| ACA Corsydd Eifionydd |
| --- |
| **Disgrifiad o'r Safle** |
| Mae Corsydd Eifionydd (144ha) yn cynnwys 4 SDdGA: SDdGA Cors Graianog, SDdGA/GNG Cors Gyfelog, SDdGA Cors Llanllyfni a SoDdGA Cors y Wlad, gyda chynefinoedd cymwys yn cynnwys mignennau, coetir corsiog a chynefinoedd gwlypdir eraill. Mae'r safle'n cynnal y boblogaeth fwyaf arwyddocaol o loÿnnod britheg y gors yng Ngogledd Cymru ac yn cynnal mwsoglau plu gwyrdd main ac eogiaid, sydd i gyd yn rhywogaethau cymwys ar gyfer y safle. |
| **Nodweddion Cymwys** |
| ■ 7140 Mignenni pontio a chorsydd crynedig<br>■ 3260 Cyrsiau dŵr ar lefelau gwastadedd i fynyddig gyda llystyfiant *Ranunculion fluitantis* a *Callitricho-Batrachion* (sydd wedi'u rhestru fel nodwedd gymwys  o dan Ffurflen Ddata Safonol JNCC yn unig)<br>■ 4010 Rhosydd gwlyb Gogledd Cefnfor Iwerydd *Erica tetralix* (a restrir fel nodwedd gymwys o dan Ffurflen Ddata Safonol JNCC yn unig) |

[38] Bat Conservation Trust (2019) Lesser horseshoe bat. Ar gael yn: https://www.bats.org.uk/about-bats/what-are-bats/uk-bats/lesser-horsehoe.

**ACA Corsydd Eifionydd**

- 6410 Dolydd *Molinia* ar briddoedd calchaidd, mawnaidd neu llawn silt cleiog (*Molinia caerulea*) (sydd wedi'u rhestru fel nodwedd gymwys o dan Ffurflen Ddata Safonol JNCC yn unig)
- 91D0 Coetir corsiog (a restrir fel nodwedd gymwys  o dan Ffurflen Data Safonol JNCC yn unig)
- 1065 Britheg y gors *Euphydryas aurinia*
- 1393 Mwsogl pluog main gwyrdd *Hamatocaulis vernicosus*
- 1106 Eog *Salmo salar* (a restrir fel nodwedd gymwys o dan Ffurflen Data Safonol JNCC yn unig )

**Gwendidau Allweddol**

- Rhywogaethau anfrodorol goresgynnol: mae rhododendron wedi'i wasgaru dros ran o Gors Graianog, ac awgrymir ei dynnu drwy bigiad bôn neu driniaeth torri a stwmp i atal aildyfiant, cynhyrchu hadau a lledaenu ymhellach.

**Amcanion Cadwraeth**

Sicrhau bod uniondeb y safle'n cael ei gynnal neu ei adfer fel y bo'n briodol, a sicrhau bod y safle'n cyfrannu at gyflawni Statws Cadwraeth Ffafriol ei Nodweddion Cymwys, drwy gynnal neu adfer;

- Maint a dosbarthiad cynefinoedd naturiol cymwys
- Strwythur a swyddogaeth (gan gynnwys rhywogaethau nodweddiadol) cynefinoedd naturiol cymwys, a'r
- Prosesau cefnogi y mae cynefinoedd naturiol cymwys yn dibynnu arnynt.

**Cynefinoedd a rhywogaethau anghymwys y mae'r cynefinoedd a/neu'r rhywogaethau cymwys yn dibynnu arnynt**

Mae gloÿnnod byw britheg y gors, fel y trafodir uchod ar gyfer ACA Corsydd Môn, yn dibynnu ar eu planhigyn bwyd larfal, tamaid y cythraul *Succisa pratensis.* Bydd y cynefin bridio gorau posibl ar gyfer britheg y gors yn cynnwys glaswelltir lle mae uchder y llystyfiant yn 10-20cm, ac yn cynnwys glaswelltir corsiog a phorfeydd a rhostiroedd llaith.

Mae mwsogl pluog main gwyrdd yn gofyn am amodau gwlypdir agored lle nad oes gormod o gysgod yn ogystal ag amodau alcalïaidd. Gall y planhigion dyfu gyda hesgau bach *Carex spp*., corsfrwyn du *Schoenus nigricans* a mwsoglau nodweddiadol eraill o flaguriadau a ffeniau tra-fasig, fel *Campylium stellatum*.

Yn debyg i'r pysgod mudol a ddisgrifir uchod ar gyfer Ardal Cadwraeth Arbennig y Fenai a Bae Conwy, mae eogiaid yn treulio'r rhan fwyaf o'u cylch bywyd yn y môr ac yn dychwelyd i afonydd i silio. Mae eogiaid yn dychwelyd i'w afon frodorol, a hyd yn oed yr un darn o'r afon y cawsant eu geni ynddo, sy'n amlygu pwysigrwydd gwarchod y cynefinoedd hyn. Mae pysgod ifanc yn bwydo ar bryfed, creaduriaid di-asgwrn-cefn ac weithiau plancton, ac mae pysgod yn eu llawn dwf yn bwydo ar bysgod llai fel y caplan *Mallotus villosus*. Mae eogiaid hefyd yn dibynnu ar goed a llystyfiant ar lannau afonydd i gynnal symudiadau i fyny'r afon, ac mae malurion prennaidd yn bwysig wrth ffurfio gwelyau gro newydd, gan ddarparu gorchudd.

**ACA Pen y Gogarth**

**Disgrifiad o'r Safle**

Mae Pen y Gogarth (302ha) yn cynnwys clogwyni môr â llystyfiant, y mae'r safle wedi'i ddynodi ar eu cyfer yn ogystal â rhostiroedd sych Ewropeaidd y mae'r safle hwn yn cael ei ystyried yn un o'r ardaloedd gorau yn y Deyrnas Unedig. Mae'r pentir calchfaen yn ymestyn bron i 8km ac yn cyrraedd uchder o 207m, gan ddarparu amrywiaeth o gynefinoedd ar gyfer fflora a ffawna fel ei gilydd. Mae'r cynefinoedd yn cynnwys rhostir asidaidd, glaswelltir llaith, glaswelltir calchfaen, glaswelltir wedi'i wella, graean bras, ynysoedd bach, creigiau mewndirol, tywodau yn ogystal â seilwaith diddorol oherwydd hanes y safle fel hen safle mwyngloddio a diwydiannol.

Mae'r cynefinoedd yn cynnal rhywogaethau planhigion amrywiol, yr ystlum pedol lleiaf *Rhinolophus hipposideros* yn yr ogofâu a gweithfeydd mwyngloddio segur, sy'n rhywogaeth gymwys ar y safle hwn, a chreaduriaid di-asgwrn-cefn glaswelltir fel gwiddonyn *Helianthemapion aciculare* a chwilen baill *Meligethes brevis*. Ar ben hynny, mae clogwyni'r môr yn cynnal nythfa fawr o adar môr sy'n bridio'n rheolaidd, sef gwylan goesddu *Rissa tridactyla*, gwylog *Uria aalge* a llurs *Alca torda*.

| ACA Pen y Gogarth |
|---|
| Ceir ardal helaeth hefyd o laswelltir CG2 *Festuca ovina – Avenula pratensis.* Dyma un o ddim ond tri safle dethol yn y DU lle ceir y math hwn o laswelltir *Xerobromion*. . |
| **Nodweddion Cymwys** |
| ■ 1230 Clogwyni môr â llystyfiant Arfordir yr Iwerydd a'r Baltig<br>■ 4030 Rhosydd sych Ewropeaidd<br>■ 6130 Glaswelltiroedd metelaidd y *Violetalia calaminariae*<br>■ 6210 Glaswelltir sych lled-naturiol a phrysgdir ar is-haenau calchaidd (*Festuco-Brometalia*)<br>■ 6410 Dolydd *Molinia* ar briddoedd calchaidd, mawnaidd neu llawn silt cleiog (*Molinia caerulea*)<br>■ 8240 Calchbalmentydd<br>■ 8310 Ogofâu nad ydynt ar agor i'r cyhoedd<br>■ 9180 *Coedwigoedd Tilio-Acerion* ar lethrau, sgrïau a cheunentydd<br>■ 1303 Yr ystlum pedol lleiaf *Rhinolophus hipposideros* |
| **Gwendidau Allweddol** |
| ■ Tân ac atal tân: mae llosgi heb reolaeth yn digwydd mewn rhai ardaloedd, weithiau ar adegau amhriodol o'r flwyddyn, yn aml o ganlyniad i wersylla. Os na chaiff ei ddefnyddio'n iawn a'i gysylltu â threfn bori briodol, gall arwain at aildyfiant egnïol o rywogaethau cystadleuol sy'n gwrthsefyll tân fel eithin mân *Ulex gallii*. |
| **Amcanion Cadwraeth** |
| Sicrhau bod uniondeb y safle'n cael ei gynnal neu ei adfer fel y bo'n briodol, a sicrhau bod y safle'n cyfrannu at gyflawni Statws Cadwraeth Ffafriol ei Nodweddion Cymwys, drwy gynnal neu adfer;<br>■ Maint a dosbarthiad cynefinoedd naturiol cymwys<br>■ Strwythur a swyddogaeth (gan gynnwys rhywogaethau nodweddiadol) cynefinoedd naturiol cymwys, a'r<br>■ Prosesau cefnogi y mae cynefinoedd naturiol cymwys yn dibynnu arnynt. |
| **Cynefinoedd a rhywogaethau anghymwys y mae'r cynefinoedd a/neu'r rhywogaethau cymwys yn dibynnu arnynt** |
| Mae ystlumod pedol lleiaf yn byw mewn ogofâu ac fe'u ceir yn ogofau a siafftiau'r mwynglawdd sy'n bresennol ar y safle. Fodd bynnag, canfyddir hefyd eu bod yn clwydo mewn toeau a selerau adeiladau yn ogystal â thwneli. Maen nhw'n bwydo ar bryfed fel clêr, gwyfynod, chwilod a phryfed cop ac maen nhw'n dibynnu ar brosesau sy'n effeithio ar rywogaethau ysglyfaeth, yn enwedig ar ôl gaeafgysgu lle mae'r galw am egni yn uwch.38 |

| ACA Eryri a Ramsar Llyn Idwal |
|---|
| **Disgrifiad o'r Safle** |
| Mae Eryri (19,733ha) yn cwmpasu amrywiaeth eang o gynefinoedd sydd â phresenoldeb sylweddol ac mae wedi'i dynodi'n Ardal Cadwraeth Arbennig oherwydd y cynefinoedd hyn a nifer o rywogaethau cymwys, gan gynnwys cynefinoedd gwlypdir fel dŵr llonydd, mignenni a chorsydd, a nifer o gynefinoedd glaswelltir sy'n cynnal gwahanol gymunedau planhigion, yn ogystal â rhywogaethau fel mwsoglau plu gwyrdd main *Hamatocaulis vernicosus* ac eog *Salmo salar*. Y cynefinoedd o bwysigrwydd arbennig yw cynefinoedd mynyddig a'r rhywogaethau o bwysigrwydd arbennig yw'r cymunedau planhigion arctig-alpaidd cysylltiedig a lili'r Wyddfa *Lloydia serotina*, sydd i'w cael yn Eryri yn unig, mewn craciau ac agennau yn y creigiau ar is-haenau calchaidd a mwy silicaidd.<br>Mae Llyn Idwal (13.5ha), safle Ramsar, ym mynyddoedd Eryri ac felly mae'r safleoedd hyn yn rhannu Cynllun Rheoli Craidd. Llyn oligotroffig yw Llyn Idwal, gyda rhywogaethau planhigion sy'n addas ar gyfer y cynefinoedd hyn yn bresennol, |

**ACA Eryri a Ramsar Llyn Idwal**

gan gynnwys gwybybyr chwebrigerog *Elatine hexandra* sy'n genedlaethol brin a'r pelenllys gronynnog *Pilularia globulifera* sy'n agored i niwed ar lefel Ewropeaidd. Mae'r llyn hefyd yn cynnal sawl rhywogaeth o adar.

**Nodweddion Cymwys**

- 3130 Merddwr oligotroffig i fesotroffig gyda llystyfiant *Littorelletea uniflorae* a/neu *Isoëto- Nanojuncetea*
- 4010 Rhosydd gwlyb Gogledd Cefnfor Iwerydd gydag *Erica tetralix*
- 4030 Rhosydd sych Ewropeaidd
- 4060 Rhosydd alpaidd a boreol
- 6130 Glaswelltiroedd metelaidd y *Violetalia calaminariae*
- 6150 Glaswelltiroedd boreol ac alpaidd silicaidd
- 6170 Glaswelltir calchaidd Alpaidd ac isalpaidd
- 6230 Glaswelltir *Nardus* llawn rhywogaethau, ar is-haenau silicaidd mewn ardaloedd mynyddig (ac ardaloedd islaw'r mynydd yng Nghyfandir Ewrop)
- 6430 Cymunedau llystyfiant tal ymylol hydroffilaidd ar wastadeddau a lefelau mynyddig i alpaidd
- 7130 Gorgorsydd
- 7140 Mignenni pontio a chorsydd crynedig
- 7150 Pantiau ar isbriddoedd mawn Rhynchosporion
- 7220 Ffynhonnau caregu gyda ffurfiant twffa (*Cratoneurion*)
- 7230 Corsydd alcalïaidd
- 7240 Ffurfiannau alpaidd y *Caricion bicoloris-atrofuscae*
- 8110 Sgri silicaidd lefel fynyddig i lefel eira (*Androsacetalia alpinae* a *Galeopsietalia ladani*)
- 8210 Llethrau creigiog calchaidd gyda llystyfiant casmophytig
- 8220 Llethrau creigiog silicaidd gyda llystyfiant casmophytig
- 91A0 Hen goed derw mes di-goes gydag *Ilex* a *Blechnum* yn Ynysoedd Prydain
- 1393 Mwsogl pluog main gwyrdd *Hamatocaulis vernicosus*
- 1831 Llyriad-y-dŵr arnofiol *Luronium natans*
- 1106 Eog *Salmo salar* (a restrir fel nodwedd gymwys o dan Ffurflen Data Safonol JNCC yn unig )

**Gwendidau Allweddol**

- Pori cymunedau planhigion alpaidd: mae'r cymunedau hyn yn sensitif i ddifrod gan stoc pori ac mewn rhai ardaloedd, yn enwedig ar gribau, oherwydd pwysau hamdden e.e. sathru gan gerddwyr. Mae'r cymunedau mwy calchaidd yn ddeniadol iawn i stoc, ac yn agored i niwed lle mae defaid a geifr yn gallu cael gafael arnynt. Mae uchder y cynefinoedd hyn, yn ogystal, yn golygu bod yr adferiad yn araf iawn. Mae pwysau pori eraill yn cynnwys geifr gwyllt ar goed derw'r ucheldir yn ogystal â lefelau uchel o ddefaid yn pori gan achosi dirywiad mewn corlwyni a mwsogl *Racomitrium*.
- Pysgota: mae eogiaid a'u rhywogaethau ysglyfaeth yn agored i effeithiau pysgota ar y boblogaeth ac, o ganlyniad, dylid monitro pysgota yn yr ardal hon.

**Amcanion Cadwraeth**

| ACA Eryri a Ramsar Llyn Idwal |
|---|
| Sicrhau bod uniondeb y safle'n cael ei gynnal neu ei adfer fel y bo'n briodol, a sicrhau bod y safle'n cyfrannu at gyflawni Statws Cadwraeth Ffafriol ei Nodweddion Cymwys, drwy gynnal neu adfer;<br>■ Maint a dosbarthiad cynefinoedd naturiol cymwys<br>■ Strwythur a swyddogaeth (gan gynnwys rhywogaethau nodweddiadol) cynefinoedd naturiol cymwys, a'r<br>■ Prosesau cefnogi y mae cynefinoedd naturiol cymwys yn dibynnu arnynt. |
| **Cynefinoedd a rhywogaethau anghymwys y mae'r cynefinoedd a/neu'r rhywogaethau cymwys yn dibynnu arnynt** |
| Mae gan llyriad-y-dŵr arnofiol hanes cyson o bresenoldeb ar y safle hwn, ac mae i'w weld mewn cynefinoedd dŵr croyw, prin eu maethynnau yn bennaf ond sydd hefyd i'w gweld mewn amodau cymharol faeth-gyfoethog. Mae'r planhigyn yn ffynnu orau mewn sefyllfaoedd agored gyda rhywfaint o aflonyddwch, lle mae twf llystyfiant sy'n dod i'r amlwg yn cael ei gadw dan reolaeth. Mae poblogaethau'n amrywio'n fawr o ran maint, gan gynyddu'n aml pan fydd lefelau dŵr yn gostwng i amlygu gwaelod y corff dŵr.<br><br>Mae eogiaid yn treulio'r rhan fwyaf o'u cylch bywyd yn y môr ac yn dychwelyd i afonydd i silio. Mae eogiaid yn dychwelyd i'w afon frodorol, a hyd yn oed yr un darn o'r afon y cawsant eu geni ynddo. Mae pysgod ifanc yn bwydo ar bryfed, creaduriaid di-asgwrn-cefn ac weithiau plancton, ac mae pysgod yn eu llawn dwf yn bwydo ar bysgod llai fel y caplan *Mallotus villosus*. Mae eogiaid hefyd yn dibynnu ar goed a llystyfiant ar lannau afonydd i gynnal symudiadau i fyny'r afon, ac mae malurion prennaidd yn bwysig wrth ffurfio gwelyau gro newydd, gan ddarparu gorchudd.<br><br>Mae mwsogl pluog main gwyrdd yn gofyn am amodau gwlypdir agored lle nad oes gormod o gysgod yn ogystal ag amodau alcalïaidd. Gall y planhigion dyfu gyda hesgau bach *Carex spp*., corsfrwyn du *Schoenus nigricans* a mwsoglau nodweddiadol eraill o flaguriadau a ffeniau tra-fasig, fel *Campylium stellatum*. |

| ACA Coedydd Aber |
|---|
| **Disgrifiad o'r Safle** |
| Coedydd Aber (346ha) yw'r ardal ddi-dor fwyaf o hen goed derw mes di-goes *Cuercus petraea* ar hyd arfordir gogledd Cymru, ac fe'i hystyrir yn un o'r ardaloedd gorau ar gyfer y cynefin hwn yn y Deyrnas Unedig. Mae'r prif goetir yn ymestyn ar hyd dyffryn, gan godi'n serth o fod yn agos at lefel y môr (pontio fertigol o'r arfordir i fynydd agored).<br><br>Derw mes di-goes a bedwen lwyd *Betula pubescens* yw'r canopi'n bennaf, ond ceir trawsnewidiadau cymhleth i goetir ynn *Fraxinus excelsior* a darnau helaeth o goetir gwern *Alnus glutinosa*. Mae blodau'r llawr yn amrywiol, gan adlewyrchu amrywiadau edaffig a rheoli cymhleth. Ceir blodau is-blanhigion cyfoethog yn benodol, gan gynnwys y mwsoglau prin *Fissidens rufulus a Philonotis rigita*, a'r cennau *Degelia plumbea a Lobaria amplissima*. Mae'r safle hefyd yn bwysig am ei gasgliad o adar bridio.<br><br>Mae cynefinoedd eraill ar y safle yn cynnwys cyrff dŵr mewndirol, glaswelltir llaith a choetir conifferaidd. |
| **Nodweddion Cymwys** |
| ■ 3260 Cyrsiau dŵr ar lefelau gwastadedd i fynyddig gyda llystyfiant *Ranunculion fluitantis* a *Callitricho-Batrachion* (sydd wedi'u rhestru fel nodwedd gymwys  o dan Ffurflen Ddata Safonol JNCC yn unig)<br>■ 91A0 Hen goed derw mes di-goes gydag *Ilex* a *Blechnum* yn Ynysoedd Prydain<br>■ 91E0 Coedwigoedd llifwaddodol gydag *Alnus glutinosa a Fraxinus excelsior (Alno-Padion, Alnion incanae, Salicion albae)*<br>■ 1355 Dyfrgi Ewrasiaidd *Lutra lutra* (a restrir fel nodwedd gymhwys yn unig o dan Ffurflen Data Safonol JNCC)<br>■ 1106 Eog *Salmo salar* (a restrir fel nodwedd gymwys o dan Ffurflen Data Safonol JNCC yn unig ) |
| **Gwendidau Allweddol** |
| ■ Cofnodwyd clefyd llwyfen yr Iseldiroedd yn yr ardal hon ac mae wedi effeithio ar goed llwyfen ar y safle. |
| **Amcanion Cadwraeth** |

| ACA Coedydd Aber |
| --- |
| Sicrhau bod uniondeb y safle'n cael ei gynnal neu ei adfer fel y bo'n briodol, a sicrhau bod y safle'n cyfrannu at gyflawni Statws Cadwraeth Ffafriol ei Nodweddion Cymwys, drwy gynnal neu adfer;<br>■ Maint a dosbarthiad cynefinoedd naturiol cymwys<br>■ Strwythur a swyddogaeth (gan gynnwys rhywogaethau nodweddiadol) cynefinoedd naturiol cymwys, a'r<br>■ Prosesau cefnogi y mae cynefinoedd naturiol cymwys yn dibynnu arnynt. |
| **Cynefinoedd a rhywogaethau anghymwys y mae'r cynefinoedd a/neu'r rhywogaethau cymwys yn dibynnu arnynt** |
| Mae eogiaid yn treulio'r rhan fwyaf o'u cylch bywyd yn y môr ac yn dychwelyd i afonydd i silio. Mae pysgod ifanc yn bwydo ar bryfed, creaduriaid di-asgwrn-cefn ac weithiau plancton, ac mae pysgod yn eu llawn dwf yn bwydo ar bysgod llai fel y caplan *Mallotus villosus*. Mae eogiaid hefyd yn dibynnu ar goed a llystyfiant ar lannau afonydd i gynnal symudiadau i fyny'r afon, ac mae malurion prennaidd yn bwysig wrth ffurfio gwelyau gro newydd, gan ddarparu gorchudd.<br>Mae dyfrgwn yn dibynnu ar gynefinoedd dŵr croyw, ardaloedd llystyfiant addas i ddarparu lloches a'r rhywogaethau ysglyfaeth y maent yn bwydo arnynt fel pysgod ac amffibiaid, yn ogystal â'r gadwyn fwyd yn ei chyfanrwydd. |

| ACA Glynllifon |
| --- |
| **Disgrifiad o'r Safle** |
| Mae Glynllifon (187ha) yn cynnwys ardaloedd mawr o goetir cymysg (collddail a chonwydd), a strwythurau fel adeiladau a hen weithfeydd mwynglawdd y gwyddys eu bod yn cynnal clwydi mamolaeth a gaeafgysgu'r ystlum pedol lleiaf *Rhinolophus hipposideros*, sy'n rhywogaeth gymwys ar gyfer y safle hwn. Dywedir mai'r clwydfannau hyn yw un o'r clwydfannau mwyaf y gwyddys amdanynt yn Ewrop ar gyfer y rhywogaeth. Mae'r ystlumod yn defnyddio ardal lawer ehangach, fodd bynnag, yn yr ACA a'r tu allan, ar gyfer bwydo a chymudo. Mae'r cynefinoedd pwysig hyn yn cynnwys y coetir ar y safle, yn ogystal â llinellau coed a gwrychoedd. Ar ben hynny, mae clwydi cysylltiedig hysbys wedi cael eu cofnodi y tu allan i ffin yr Ardal Cadwraeth Arbennig.<br>Mae cyrff dŵr ar y safle hefyd yn cynnal dyfrgwn Ewrasiaidd *Lutra lutra*, sy'n rhywogaeth gymwys ar gyfer y safle hwn. |
| **Nodweddion Cymwys** |
| ■ 1355 Dyfrgi Ewrasiaidd *Lutra lutra* (a restrir fel nodwedd gymwys o dan Ffurflen Data Safonol JNCC yn unig)<br>■ 1303 Yr ystlum pedol lleiaf *Rhinolophus hipposideros* |
| **Gwendidau Allweddol** |
| ■ A487 – cysylltwyd y gefnffordd hon â tharfu ar linellau hedfan ystlumod pedol lleiaf a dylai unrhyw newidiadau/datblygiad ystyried ystlumod pedol lleiaf. |
| **Amcanion Cadwraeth** |
| Sicrhau bod uniondeb y safle'n cael ei gynnal neu ei adfer fel y bo'n briodol, a sicrhau bod y safle'n cyfrannu at gyflawni Statws Cadwraeth Ffafriol ei Nodweddion Cymwys, drwy gynnal neu adfer;<br>■ Maint a dosbarthiad cynefinoedd naturiol cymwys<br>■ Strwythur a swyddogaeth (gan gynnwys rhywogaethau nodweddiadol) cynefinoedd naturiol cymwys, a'r<br>■ Prosesau cefnogi y mae cynefinoedd naturiol cymwys yn dibynnu arnynt. |
| **Cynefinoedd a rhywogaethau anghymwys y mae'r cynefinoedd a/neu'r rhywogaethau cymwys yn dibynnu arnynt** |
| Mae ystlumod pedol lleiaf yn nodweddiadol yn byw mewn adeiladau ac fe'u ceir yn ogofau a siafftiau'r mwynglawdd sy'n bresennol ar y safle. Maen nhw'n bwydo ar bryfed fel clêr, gwyfynod, chwilod a phryfed cop ac maen nhw'n dibynnu ar brosesau sy'n effeithio ar rywogaethau ysglyfaeth, yn enwedig ar ôl gaeafgysgu lle mae'r galw am egni yn uwch. |

| ACA Afon Gwyrfai a Llyn Cwellyn |
| --- |
| **Disgrifiad o'r Safle** |
| Dynodwyd Afon Gwyrfai a Llyn Cwellyn (112ha) am ei chyrff dŵr o fewn tirwedd mynyddoedd Eryri. Mae'r rhain yn cynnwys Llyn Cwellyn, llyn rhewlifol oligotroffig, sy'n llawer mwy ac yn ddyfnach na safle Ramsar Llyn Idwal (mae dyfnder Llyn Cwellyn yn 23m ar gyfartaledd), yn ogystal â chyrsiau dŵr llai mwy serth, a rhai ohonynt wedi'u dominyddu gan graig ychydig yn asidig.<br>Mae'r cyrsiau dŵr hyn yn cynnal blodau amrywiol gan gynnwys dwr-lyriad arnofiol *Luronium natans*, sy'n rhywogaeth gymwys ar y safle hwn a nodwedd sy'n gwneud y safle hwn yn arwyddocaol yn rhyngwladol, yn ogystal â rhywogaethau pysgod mudol a'r dyfrgi *Lutra lutra*, sydd hefyd yn rhywogaethau cymwys ar y safle hwn. Ar ben hynny, mae Llyn Cwellyn yn cynnal un o'r ychydig boblogaethau brodorol o'r torgoch *Salvelinus alpinus* yng Nghymru. |
| **Nodweddion Cymwys** |
| ■ 3130 Merddwr oligotroffig i fesotroffig gyda llystyfiant *Littorelletea uniflorae* a/neu *Isoëto- Nanojuncetea*<br>■ 3260 Cyrsiau dŵr ar lefelau gwastadedd i fynyddig gyda llystyfiant *Ranunculion fluitantis a Callitricho-Batrachion*<br>■ 1099 Llysywen bendoll yr afon Ewropeaidd *Lampetra fluviatilis* (a restrir fel nodwedd gymwys o dan Ffurflen Ddata Safonol JNCC yn unig)<br>■ 1096 Llysywen bendoll y môr Ewropeaidd *Petromyzon marinus* (a restrir fel nodwedd gymwys o dan Ffurflen Ddata Safonol JNCC yn unig)<br>■ 1831 Llyriad-y-dŵr arnofiol *Luronium natans*<br>■ 1355 Dyfrgi Ewrasiaidd *Lutra lutra*<br>■ 1106 Eog *Salmo salar* |
| **Gwendidau Allweddol** |
| ■ Rhywogaethau anfrodorol goresgynnol: mae hyn wedi bod yn broblem reolaidd ar y safle, lle mae Jac y Neidiwr a Chlymog Japan wedi cael eu nodi ar hyd glannau afonydd. Mae cael gwared ar rywogaethau anfrodorol goresgynnol yn cael ei reoli ond mae'n dal yn fater allweddol i'r safle.<br>■ Cafwyd ychydig o asideiddio yn Llyn Cwellyn, sydd angen ymchwil a rheolaeth bellach ond credir ei fod wedi codi naill ai o ganlyniad i lefelau cefndir neu drwy weithrediadau coedwigaeth yn y dalgylch. Mae'n bwysig gwrthdroi'r asideiddio gan y gallai hyn arwain at ganlyniadau i rywogaethau sy'n dibynnu ar y cynefin hwn, ac achosi newidiadau yng nghyfansoddiad rhywogaethau'r llyn.<br>■ Llygredd: dylid monitro llygredd gwasgaredig a siltio o amaethyddiaeth, gan gynnwys dŵr ffo gwrtaith, tail da byw, elifiant silwair ac erydiad pridd. Gall yr ardaloedd sy'n cael eu defnyddio fwyaf, fel pyrth a thraciau sy'n cael eu sathru'n drwm, fod yn ffynonellau arbennig o arwyddocaol o ddŵr ffo sy'n llygru. |
| **Amcanion Cadwraeth** |
| Sicrhau bod uniondeb y safle'n cael ei gynnal neu ei adfer fel y bo'n briodol, a sicrhau bod y safle'n cyfrannu at gyflawni Statws Cadwraeth Ffafriol ei Nodweddion Cymwys, drwy gynnal neu adfer;<br>■ Maint a dosbarthiad cynefinoedd naturiol cymwys<br>■ Strwythur a swyddogaeth (gan gynnwys rhywogaethau nodweddiadol) cynefinoedd naturiol cymwys, a'r<br>■ Prosesau cefnogi y mae cynefinoedd naturiol cymwys yn dibynnu arnynt. |
| **Cynefinoedd a rhywogaethau anghymwys y mae'r cynefinoedd a/neu'r rhywogaethau cymwys yn dibynnu arnynt** |
| Nid yw'r boblogaeth eogiaid wedi'i hecsbloetio i raddau helaeth ac, yn nodweddiadol, maent yn rhedeg yn hwyr. Mae eogiaid angen coed a llystyfiant ar lannau afonydd i gynnal symudiadau i fyny'r afon, ac mae malurion prennaidd yn bwysig wrth ffurfio gwelyau graean newydd, gan ddarparu gorchudd a ffynhonnell fwyd i greaduriaid di-asgwrn-cefn, sy'n rhywogaeth ysglyfaeth i bysgod ifanc. Mae'r eog hefyd yn dibynnu ar rywogaethau ysglyfaeth eraill a'r rhyngweithio a'r prosesau sy'n effeithio ar niferoedd yr ysglyfaeth. |

| ACA Afon Gwyrfai a Llyn Cwellyn |
|---|
| Fel yr eog, mae llysywod pendoll yr afon Ewropeaidd a llysywod pendoll y môr i gyd yn dibynnu ar gynefinoedd dŵr croyw i silio wrth gwblhau'r rhan fwyaf, os nad y cyfan, o'u cylch bywyd yn y môr. Mae angen graean glân/is-haenau afonydd creigiog arnynt i silio, ac mae angen llaid ymylol neu dywod arnynt i dyrchu amosetau ifanc, lle maent yn bwydo drwy hidlo ar ddiatomau, algâu a bacteria.<br><br>Mae llyriad-y-dŵr arnofiol i'w weld mewn cynefinoedd dŵr croyw, prin eu maethynnau yn bennaf ond sydd hefyd i'w gweld mewn amodau cymharol faeth-gyfoethog. Mae'r planhigyn yn ffynnu orau mewn sefyllfaoedd agored gyda rhywfaint o aflonyddwch, lle mae twf llystyfiant sy'n dod i'r amlwg yn cael ei gadw dan reolaeth. Mae poblogaethau'n amrywio'n fawr o ran maint, gan gynyddu'n aml pan fydd lefelau dŵr yn gostwng i amlygu gwaelod y corff dŵr. Mae amrywiaeth y ffurfiau tyfiant a'u hamrediad ar draws Cwellyn-Gwyrfai yn golygu bod hwn yn safle o arwyddocâd rhyngwladol i'r rhywogaeth.<br><br>Mae'r toreth o ysglyfaethau a'r ffaith bod safleoedd gorffwys a bridio heb eu haflonyddu ar gael yn eang, gan gynnwys ardaloedd â llystyfiant, yn caniatáu i ddyfrgwn ffynnu. Fe'u ceir ar hyd yr afon gyfan a'i phrif isafonydd. |

| AGA Ynys Seiriol |
|---|
| **Disgrifiad o'r Safle** |
| Mae Ynys Seiriol (31ha) wedi'i dynodi'n Ardal Gwarchodaeth Arbennig sy'n cynnal poblogaethau bridio'r fulfran *Phalacrocorax carbo*. Bloc calchfaen carboniferaidd yw'r safle sy'n codi i 55m gyda chlogwyni serth ar bob ochr ac mae'n cynnwys cynefinoedd eraill fel graean bras, clogwyni môr, ynysoedd, rhostir, prysgwydd a glaswelltir llaith. Mae adar môr eraill sy'n nythu hefyd yn bridio ar y clogwyni a'r glaswelltir agored, gan gynnwys gwylog *Uria aalge* a phalod *Fratercula arctica*. |
| **Nodweddion Cymwys** |
| ■ A017 Mulfran *Phalacrocorax carbo* |
| **Gwendidau Allweddol** |
| ■ Cysylltiadau ffawna rhyng-benodol: mae hyn yn cynnwys cystadleuaeth rhyng-benodol rhwng adar bridio ac adar môr sy'n defnyddio'r safle, gan gynnwys pwysau ysglyfaethu ac argaeledd bwyd. |
| **Amcanion Cadwraeth** |
| Sicrhau bod uniondeb y safle'n cael ei gynnal neu ei adfer fel y bo'n briodol, a sicrhau bod y safle'n cyfrannu at gyflawni Statws Cadwraeth Ffafriol ei Nodweddion Cymwys, drwy gynnal neu adfer;<br>■ Maint a dosbarthiad cynefinoedd naturiol cymwys<br>■ Strwythur a swyddogaeth (gan gynnwys rhywogaethau nodweddiadol) cynefinoedd naturiol cymwys, a'r<br>■ Prosesau cefnogi y mae cynefinoedd naturiol cymwys yn dibynnu arnynt. |
| **Cynefinoedd a rhywogaethau anghymwys y mae'r cynefinoedd a/neu'r rhywogaethau cymwys yn dibynnu arnynt** |
| Mae mulfrain yn dibynnu ar y safle am gynefin bridio a fforio yn yr ardaloedd morol cyfagos y tu allan i'r Ardal Gwarchodaeth Arbennig, yn ogystal â'r rhywogaethau pysgod ysglyfaeth sy'n ffurfio eu deiet. |

| AGA Môr-wenoliaid Ynys Môn |
|---|
| **Disgrifiad o'r Safle** |
| Mae Môr-wenoliaid Ynys Môn (101,931ha) wedi'u dynodi am gefnogi niferoedd sylweddol o boblogaethau bridio o fôr-wenoliaid ffrwynog, môr-wenoliaid cyffredin, môr-wenoliaid y gogledd a môr-wenoliaid pigddu. Mae'r safle'n ardal forol yn bennaf gydag ardal fach o'r safle ar Ynys Môn. Mae cynefinoedd arfordirol nodweddiadol yn yr Ardal Gwarchodaeth Arbennig, gan gynnwys aberoedd, afonydd llanw, clogwyni môr, ynysoedd bach, graean bras yn ogystal â morfeydd heli, corsydd, rhostir a phrysgwydd. Mae'r safle'n cynnwys amrywiol SDdGA ac ACA Bae Cemlyn, sy'n cael eu hystyried ar wahân yn yr adroddiad hwn. |

| **AGA Môr-wenoliaid Ynys Môn** |
| --- |
| Estynnwyd yr Ardal Gwarchodaeth Arbennig yn ddiweddar i ystyried gofynion gwarchod rhywogaethau ar y môr, gan nodi bod rhwymedigaethau'r Deyrnas Unedig i nodi Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig yr un mor berthnasol i ardal y tir a'r môr. Mae'r estyniad yn cynnwys ardal oddi ar arfordir dwyreiniol Ynys Môn sydd o fewn Ardal Gwarchodaeth Arbennig Bae Lerpwl. |
| **Nodweddion Cymwys** |
| ■ A192 Môr-wennol ffrwynog *Sterna dougallii*<br>■ A193 Môr-wennol gyffredin *Sterna hirundo*<br>■ A194 Môr-wennol y Gogledd *Sterna paradisaea*<br>■ A191 Môr-wennol bigddu *Sterna sandvicensis* |
| **Gwendidau Allweddol** |
| ■ Mae posibilrwydd o gystadleuaeth rhwng môr-wenoliaid a gwylanod am ardaloedd nythu. Gallai ehangu'r ardal sy'n cael ei meddiannu gan wylanod bridio leihau hyfywedd nythfa'r môr-wenoliaid drwy feddiannu ardaloedd nythu'n uniongyrchol.<br>■ Newidiadau mewn amodau anfiotig: gallai newidiadau tymor hir yn nhymheredd wyneb y môr fod yn rhannol gyfrifol am ddirywiad cyson a pharhaus stociau pysgod, a byddai llai ar gael i fôr-wenoliaid. |
| **Amcanion Cadwraeth** |
| Sicrhau bod uniondeb y safle'n cael ei gynnal neu ei adfer fel y bo'n briodol, a sicrhau bod y safle'n cyfrannu at gyflawni Statws Cadwraeth Ffafriol ei Nodweddion Cymwys, drwy gynnal neu adfer;<br>■ Maint a dosbarthiad cynefinoedd naturiol cymwys<br>■ Strwythur a swyddogaeth (gan gynnwys rhywogaethau nodweddiadol) cynefinoedd naturiol cymwys, a'r<br>■ Prosesau cefnogi y mae cynefinoedd naturiol cymwys yn dibynnu arnynt. |
| **Cynefinoedd a rhywogaethau anghymwys y mae'r cynefinoedd a/neu'r rhywogaethau cymwys yn dibynnu arnynt** |
| Mae gan fôr-wenoliaid ddeiet o lymrïaid, corbenwaig a gwyniad môr yn bennaf. Felly, bydd unrhyw effeithiau ar niferoedd ysglyfaethau yn effeithio ar fôr-wenoliaid, fel pysgota rhywogaethau ysglyfaeth yn anghynaliadwy. Mae rhywfaint o dystiolaeth hefyd bod morfilod yn gallu bod yn bwysig o ran gyrru pysgod i'r wyneb lle maent ar gael i fôr-wenoliaid. Felly, gallai newidiadau yn niferoedd neu ymddygiad teulu'r morfil gael effaith ganlyniadol ar fôr-wenoliaid. |

| **AGA Bae Lerpwl** |
| --- |
| **Disgrifiad o'r Safle** |
| Mae Bae Lerpwl (252,758ha) wedi ei leoli yn nyfroedd tiriogaethol Cymru a Lloegr ac yn nyfroedd alltraeth y DU ac mae'n rhan o'r Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol. O ganlyniad, defnyddiwyd gwybodaeth gan Natural England ar gyfer y safle hwn hefyd.<br><br>Mae'r safle wedi'i ddynodi ar gyfer poblogaethau bridio y fôr-wennol gyffredin *Sterna Hirundo* a môr-wennol fechan *Sterna albifrons* a phoblogaethau nad ydynt yn bridio o wylan fach *Larus minutus*, trochydd gyddfgoch *Gavia stellata* a môr-hwyaden ddu *Melanitta nigra*. Mae rhan fach o'r Ardal Gwarchodaeth Arbennig yn Ynys Môn, sy'n cynnwys cynefinoedd fel fflatiau llaid, gwastadeddau tywod, morlynnoedd ac aberoedd, ond mae'r rhan fwyaf o'r safle yn ardal forol gyfagos.<br><br>Mae Bae Lerpwl yn gwarchod y cyfuniad mwyaf o fôr-hwyaid duon, yn cynnal yr ail boblogaeth fwyaf y gwyddys amdani o wylanod bach yn y Deyrnas Unedig, a'r trydydd cyfuniad mwyaf o drochwyr gyddfgoch. Mae hefyd yn cynnal ardaloedd fforio ar gyfer bron i 7% o boblogaeth môr-wenoliaid bach y Deyrnas Unedig, a bron i 2% o boblogaeth y fôr-wennol gyffredin. Yn gyffredinol, mae'r safle'n bwysig i adar y môr, a nodwedd arall, er nad yw'n gymwys, yw'r casgliad o adar dŵr sy'n cynnwys mulfrain a'r hwyaden frongoch *Mergus serrator*.<br><br>Mae'r safle'n cydffinio â safleoedd Ewropeaidd eraill gan gynnwys Traeth Lafan, Ardal Gwarchodaeth Arbennig Bae Conwy, ac mae'n gorgyffwrdd â safleoedd Ewropeaidd fel Ardal Gwarchodaeth Arbennig Ynys Seiriol (y mae'n ei hamgylchynu'n llwyr hefyd) ac Ardal Gwarchodaeth Arbennig Môr-wenoliaid Ynys Môn. |

**AGA Bae Lerpwl**

**Nodweddion Cymwys**

- A001 Trochydd gyddfgoch *Gavia stellata*
- A177 Gwylan fechan *Larus minutus*
- A065 Môr-hwyaden ddu *Melanitta nigra*
- A195 Môr-wennol fach *Sterna albifrons*
- A193 Môr-wennol gyffredin *Sterna hirundo*

**Gwendidau Allweddol**

- Mae'r adar môr ar y safle yn arbennig o sensitif i aflonyddwch a dadleoliad o ganlyniad i bresenoldeb dynol, cychod pysgota a ffermydd gwynt, sy'n cael eu trafod ym mhrif gorff yr adroddiad.
- Adroddir yn eang bod ysglyfaethu gan lwynogod, cudyllod coch, brain tyddyn a phïod yn achosi methiant cytrefi neu'n lleihau llwyddiant bridio'n ddifrifol o leiaf, a dylid rheoli hyn.
- Mewn sawl man, mae erydiad naturiol a llechfeddiannu llystyfiant wedi lleihau'r ardal o gynefin nythu addas, yn enwedig ar gyfer môr-wenoliaid bach sy'n nythu'n gyson yn agos iawn at y marc penllanw. Mae gorlif llanw yn ystod ymchwyddiadau storm, o ganlyniad, yn achosi colli nythod yn aml. Ar ben hynny, o ystyried y rhagolygon o gynnydd yn lefel y môr yn y dyfodol a chynnydd mewn stormydd, byddai disgwyl i'r bygythiadau hyn ddod yn fwyfwy cyffredin.

**Amcanion Cadwraeth**

Sicrhau bod uniondeb y safle'n cael ei gynnal neu ei adfer fel y bo'n briodol, a sicrhau bod y safle'n cyfrannu at gyflawni Statws Cadwraeth Ffafriol ei Nodweddion Cymwys, drwy gynnal neu adfer;

- Maint a dosbarthiad cynefinoedd naturiol cymwys
- Strwythur a swyddogaeth (gan gynnwys rhywogaethau nodweddiadol) cynefinoedd naturiol cymwys, a'r
- Prosesau cefnogi y mae cynefinoedd naturiol cymwys yn dibynnu arnynt.

**Cynefinoedd a rhywogaethau anghymwys y mae'r cynefinoedd a/neu'r rhywogaethau cymwys yn dibynnu arnynt**

Mae trochwyr gyddfgoch yn adar sy'n gaeafu ar y safle hwn, yn dibynnu ar y rhywogaethau ysglyfaeth y maent yn bwydo arnynt, gan gynnwys amrywiol ledod, penwaig, gobïau, llymrïaid a chorbenwaig, a'r cynefinoedd y mae'r rhywogaethau ysglyfaeth yn eu defnyddio. Mae'r rhain yn cynnwys banciau tywod Bae Lerpwl a dyfroedd bas a dwfn.

Mae môr-hwyaid duon hefyd yn adar sy'n gaeafu ar y safle hwn, gan aeafu mewn niferoedd sydd o arwyddocâd Ewropeaidd. Mae'r adar hyn yn tueddu i ffafrio dyfroedd bas ac yn defnyddio gwely'r môr i fwydo'n bennaf ar gocos, cregyn bylchog a rhywogaethau dwygragennog eraill. O ganlyniad, maent yn sensitif i unrhyw effeithiau ar eu prif ffynhonnell fwyd. Maen nhw hefyd yn bwydo ar amrywiaeth o folysgiaid, cramenogion a phryfed genwair.

Mae gwylanod bach hefyd yn adar sy'n gaeafu ar y safle hwn ac yn clwydo ar y môr ym Mae Lerpwl. Ychydig o wybodaeth sydd ar gael am ddeiet gwylanod bach ond gwelwyd eu bod yn bwyta pryfed, cramenogion, jelïau a molysgiaid, ac felly'n dibynnu ar gynefinoedd y rhywogaethau ysglyfaeth hyn ac unrhyw effeithiau arnynt.

Mae môr-wenoliaid cyffredin yn bridio ar y safle ac yn defnyddio cynefinoedd rhynglanwol pan fyddant yn gorlifo, yn ogystal â'r golofn ddŵr ddyfnach i chwilota am fwyd. Mae'r prif ardaloedd fforio yn yr Ardal Gwarchodaeth Arbennig yn cynnwys dyfroedd islanw bas, fel arfer o fewn 18km i nythfeydd bridio. Maen nhw'n bwydo ar bysgod bach yn ogystal â chreaduriaid di-asgwrn-cefn gyda chorbenwaig, penwaig a llymrïaid o bwysigrwydd arbennig.

Mae môr-wenoliaid bach fel arfer yn nythu ar draethau ac ynysoedd morlyn o raean bras, tywod neu gregyn, weithiau dim ond metrau o ffin y llanw uchel. Mae hyn yn eu gwneud yn agored i ysglyfaethu, aflonyddwch dynol, a gorlif llanw ac mae'n hysbys eu bod yn gadael nythod pan fydd y pwysau'n uchel. Mae môr-wenoliaid bach yn bwydo ar bysgod bach a chramenogion sy'n cael eu dal ar y glannau, ac weithiau o gyrff dŵr croyw arfordirol. Ar ben hynny, mae bwydo'n tueddu i ddigwydd o fewn 5km sy'n eu gwneud yn arbennig o agored i effeithiau ar rywogaethau ysglyfaeth. Mae dyfroedd arfordirol yr Ardal Gwarchodaeth Arbennig hefyd yn cael eu defnyddio ar gyfer amrywiaeth eang o weithgareddau cynnal a chadw fel ymdrochi a chymhennu.

| Traeth Lafan, AGA Bae Conwy |
| --- |
| **Disgrifiad o'r Safle** |
| Mae Traeth Lafan, Bae Conwy (2703ha), i'r de o Ynys Môn, yn cynnwys fflatiau llaid, fflatiau tywod, lagwnau, morfeydd heli a chynefinoedd eraill sy'n nodweddiadol o ardaloedd arfordirol. Mae'r safle wedi'i ddynodi ar gyfer poblogaeth y piod môr Ewrasiaidd *Haematopus ostralegus*, y gwyach fawr gopog *Podiceps cristatus* sy'n ymgasglu i fwrw ar y safle, yn ogystal â nifer o adar eraill fel yr hwyaden frongoch *Mergus serator*, y gylfinir Eurasiaidd *Numenius aruata*, a'r pibydd coesgoch *Tringa tetanus*, sydd i gyd yn nodweddion cymwys yn yr Ardal Gwarchodaeth Arbennig. |
| **Nodweddion Cymwys** |
| ■ A130 Pioden fôr Ewrasiaidd *Haematopus ostralegus*<br>■ A069 Hwyaden frongoch *Mergus serrator* (a restrir fel nodwedd gymwys o dan Ffurflen Ddata Safonol JNCC yn unig)<br>■ A160 Gylfinir Ewrasaidd *Numenius arquata* (a restrir fel nodwedd gymwys o dan Ffurflen Data Safonol JNCC yn unig )<br>■ A005 Gwyach fawr gopog *Podiceps cristatus* (a restrir fel nodwedd gymwys o dan Ffurflen Ddata Safonol JNCC yn unig)<br>■ A162 Pibydd coesgoch *Tringa tetanus* (a restrir fel nodwedd gymwys o dan Ffurflen Data Safonol JNCC yn unig ) |
| **Gwendidau Allweddol** |
| ■ Mae'r prif risg i boblogaeth y bioden fôr yn deillio o aflonyddwch dynol sy'n gysylltiedig â'r bysgodfa gocos. Yn gyffredinol, mae aflonyddwch dynol a phwysau hamdden yn fygythiad i'r holl rywogaethau cymwys. |
| **Amcanion Cadwraeth** |
| Sicrhau bod uniondeb y safle'n cael ei gynnal neu ei adfer fel y bo'n briodol, a sicrhau bod y safle'n cyfrannu at gyflawni Statws Cadwraeth Ffafriol ei Nodweddion Cymwys, drwy gynnal neu adfer;<br>■ Maint a dosbarthiad cynefinoedd naturiol cymwys<br>■ Strwythur a swyddogaeth (gan gynnwys rhywogaethau nodweddiadol) cynefinoedd naturiol cymwys, a'r<br>■ Prosesau cefnogi y mae cynefinoedd naturiol cymwys yn dibynnu arnynt. |
| **Cynefinoedd a rhywogaethau anghymwys y mae'r cynefinoedd a/neu'r rhywogaethau cymwys yn dibynnu arnynt** |
| Mae piod môr Ewrasiaidd yn dibynnu ar eu prif ffynhonnell fwyd, cocos, a'r cynefinoedd a'r rhywogaethau sy'n effeithio ar eu niferoedd, yn ogystal ag effeithiau gorbysgota. Mae hyn yn berthnasol i'r holl rywogaethau cymwys, lle mae'r gwyach fawr gopog a'r hwyaden frongoch yn dibynnu ar y rhywogaethau pysgod y maent yn bwydo arnynt, ac mae'r gylfinir a'r pibydd coesgoch yn dibynnu ar bryfed genwair, pysgod cregyn a berdys, eu prif ffynhonnell fwyd. |

This page is intentionally left blank

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Polisi Cynllunio |
| Dyddiad: | 11eg Mehefin 2025 |
| Pwnc: | Cynllun Datblygu ar y Cyd Ynys Môn and Gwynedd – Diweddariad ar baratoi'r Adroddiad Monitro Blynyddol |
| Aelod(au) Portffolio: | Cllr. Nicola Roberts (Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd Cyhoedd a Newid Hinsawdd) |
| Pennaeth Gwasanaeth/Cyfarwyddwr: | Christian Branch<br>Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economiadd |
| Awdur:<br>Ffôn:<br>E-bost: | John I. Williams (Rheolwr Polisi Cynllunio)<br><br>JohnWilliams2@ynysmon.llyw.cymru |
| Aelodau Lleol: | Perthnasol i bob Aelod Etholedig |

DRAFT

**1.0 Pwrpas yr adroddiad**

1.1 Pwrpas yr adroddiad yw:

- Diweddaru aelodau'r Pwyllgor ar gynnydd y gwaith sy'n gysylltiedig a chwblhau'r Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) ar gyfer y cyfnod Ebrill 2024-Mawrth 2025.

**2.0 Y penderfyniad a geisir**

2.1 Cyflwynir yr adroddiad er gywbodaeth yn unig.

**3.0 Cefndir ac ystyriaethau perthnasol**

3.1 Mae is-adran 76 o Ddeddf Cynllunio a Chaffael Gorfodol 2004 yn mynnu bod Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLl) yn paratoi AMB ar gyfer eu Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLl). Y cynllun datblygu cyfredol ar gyfer Môn yw'r Cynllun Daqtblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd. Rhaid monitro'r polisiau a'u cynhwysir yn y cynllun dros fywyd y cynllun, yn enwedig o 2017 nes y dyddiad daw i ben sef 2026.

3.2 Fel rhan o'r broses o ymadrodd, mae gofyn monitro oll ddatblygiadau tai sydd wedi derbyn caniatad cynllunio fydd, yn ei dro, yn cyfranu i'r sail tystiolaeth ar gyfer paratoi polisiau tai mewn CDLl canlynol.

3.3 Cyflawnwyd cyfres o ymweliadau safle gan y Tîm Polisi i safleoedd gyda chaniatadau cynllunio presennol yn ystod yr wythnos yn dechrau 19eg Mai

2025 er mwyn darganfod y nifer o unedau preswyl ble roedd gwaith wedi cychwyn, oedd yn cael eu hadeiladu neu oedd wedi'u cwblhau. Cwblhawyd y mwyafrif o'r ymweliadau yn ystod yr wythnos a benodwyd gyda gweddill yr ymwleiadau i'w cwblhau yn ystod yr wythynos yn dechrau 2il Mehefin 2025.

3.4 Y gam nesaf yn y broses fydd bwydo'r data a gasgwlyd ar ddechrau a/neu gwblhau'r unedau i fewn i'r system fapio QGIS cyn gellir ei echdynnu a'i ddadansoddi. Bydd y data gellir ei echdynnu yn darparu cofnod o'r nifer o unedau a'u cwblhau dros y cyfnod monitro ac yn cael ei ddefnyddio i ddiweddaru niferoedd yn y gronfa tir. Bydd yr elfen hon yn bwysig i hysbysu'r nifer o unedau fydd eu hangen ar gyfer darpariaeth unedau preswyl yn y CDLl newydd.

3.5 Unwaith bydd y data wedi'i fewnbynnu, echdynnu a'i ddadansoddi gellir paratoi'r adroddiad ffurfiol er sylw Llywodraeth Cymru ac ei hadrodd i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio er ei chymeradwyaeth cyn ei chyflwyno i'r Llywodraeth.

## 4.0 Argymhelliad

4.1 Bod yr adroddiad yn cael ei derbyn gan aelodau'r Pwyllgor ar y sail bydd yr AMB ffurfiol yn cael ei hadrodd i'r Pwyllgor ym mis Medi 2025 er ei chymeradwyaeth cyn ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru cyn y dyddiad terfynnol, sef 31 Hydref 2025.

DRAFT